Pasc y Christion

NEU

Wledd yr Efengyl;

Wedi ei chyhoeddi MEWN Traethawd ynghylch SWPPER yr ARGLWYDD:

Gydâ thair o ymddiddanion buddiol er mwyn rho'i ychwaneg o *Addysc* ir Gwan ynghylch y Natur a'r Arferiad o'r SACRAMENT hwn.

Gan THO. DOOLITTEL. A.M.

1 Corinth. XI. 24.

------Gwnewch hyn er cofia am danaf.

Wedi ei ymreigio gan *T. B.* yr hwn a chwanegodd chwech o *Hymnau* iw canu a'r ôl derbyn y CYMMUN.

Math. 26. 30. *Wedi iddynt ganu Hymn, hwy a aethant allan.*

Argraphwyd yn y *Mwythig*, ac ar werth yno gan *Thomas Durſten.* 1739.

Rees Williams

his Book 1800

William Williams his Book

LLYTHYR
AT Y
DARLLENYDD.

Darllenydd Christnogol!

DY waith mawr a'th neges yn y byd ymma a ddylei fôd i geisio Sicrwydd o gariad Duw a bywyd tragwyddol, os amgen pa fodd y gelli faru'n gyssurus tra'r wyt' heb wybod pa un ai damnio ai achub dy enaid yn ymado a wneir? ai gydâ Duw onte cythreuliaid y bydi yn dragywydd? os pan fo'n rhaid iti ganu'n jâch i holl bethau'r byd hwn yn dragywydd, a myned i gyflwr anghysnewidiol, tragwyddol o lawenydd neu boenau mewn byd arall, ni wyddoft pa un a fydd yn rhan iti; pa beth a eill dy holl gyfeillion wneuthur drofot' y pryd hynny? pa gyssur a ddyg dy olud, ath anrhydedd ith galon ar y fath amfer a hwn, a thithau heb wneuthur dy wyn-fyd yn ficr? ir diben hwn y rhoddes Duw ei air i ddyn cwympedig, trwy ba un y galle efe ddeall ei drueni, *ar modd y daeth efe iddo; y* meddyginiaeth, *ar modd y deue allan o hono; gan wneuthur yn gydnabyddus yr ammodau ar termau, ar ba rai y mae efe yn rhâd-ewyllfgar i*

dderbyn pechaduriaid iw gariad ai ffafor, ac i roddi iddynt ragorfreintiau Efengylaidd ymma a bywyd tragwyddol gogoneddus ar ôl hyn, ac a ſeliodd er ſicr-roddi'r mawr tragywyddol fendithion hyn, ar y fâth ammodau rheſymol, rhâd a Sanctaidd, a oſodir allan yn yr Efengyl. Ond wedi ymddangos y fâth gariad a grâs Dûw i ddyn er ei hapuſrwydd ai gyſſur, pa gymaint gelyn ydyw dyn iw wir hapuſrwydd ei hun, ai gyſſur ar ſail dda! y naill iw hapuſrwydd, pan ni ddêl i fynu at ammodau ei jechydwriaeth; y llall iw gyſſur, pan y bo' wedi cyttuno ac yn fodlon i'r ammodau o hono, etto yn eſceuluſo y ſêl ſy'n ſicrhau y cyfammod grâs: y trydydd ir ddau, tra bo' yn chwanegu ei bechod ai gamgyſſuron ſiomedig, trwy ddyſod yn y gwrthwyneb am y ſêl, cyn iddo gyſtawni ammodau'r cyfammód hwn. Ac yn wir hir abſen rhai ffyddloniaid oddiwrth, a phryſſurdeb diofal yr holl anuwiolion i, Swpper yr Arglwydd ſydd yw alaru yn fawr. Y rhai cyntaf a dyngedwyd gan yr Arglwydd. Gwnewch hyn er coffa am danaf: *Etto ni wnânt; y rhai ola'er eu bygwth â damnedigaeth, os gwnânt, etto a wnânt. Y rhai cynta', y mae Duw wedi eu parattoi yn weddus iddo, ac yntef iddynt hwythau, ac etto ni ddeuant, ydynt euog o'u torri ymmaith, am na ddeuant* Num. 9. 13. *Y rhai olaf gan nad y'nt wedi eu paratoi iddo, nac ynte' iddynt hwythau (tra y fath rai) y'nt euog o'u torri i lawr gan farwolaeth, am eu bôd yn dyfod.* 1 Cor. 11: 13. *Y naill yn eſceuluſo y môdd hwn o'u cynnydd yſprydol, ac yn dirmygu cariad ac yn anghofio geiriau eu Harglwydd yn marw, fel pe gallent gynhyddu mewn grâs tra bônt yn eſceuluſo eu hymborth yſprydol; eraill yn eſceuluſo moddion eu genedigaeth yſprydol, ydynt yn anghofio geiriau'r Apoſtol.* Holed dyn ef ei hun ac felly bwytaed o'r bara ac yfed o'r cwppan: *fel pe galle ymborth wedi droi yn wenwyn wneuthur dyn marw yn fyw: Y naill ni feiddiant eſceuluſo gweddio,*

a byw

a byw bywyd ſanctaidd, ac etto ni ddeuant i olchi eu calonau; eraill ni weddiant ac ni fyddant byw bywyd ſanctaidd, ac etto a ddeuant i drochi eu dwylâw yngwaed Chriſt. Y fath yw anioldchgarwch rhai a ddylent ond ni ddeuant; ac anuwioldeb eraill a ddeuant ond ni ddylent ddyfod i wledd yr Efengyl. Yn awr i 'ragflaenu y ddau ddrwg mawr hyn, am yr amſer i ddyfod (ſel y bydde' o'rhan leiaf, 'rwyn gobeithio, i rai a arferent y Traethawd bychan hwn) ymmha un y dywedir rhyw beth i annog y naill iw ddyledſwydd, ac i attal y llall rhag ei bethod ai berygl. Ac oblegyd fod y rhai goreu yn rhy eſmwyth yn eu paratoad, a'r gwan yn anneallgar, a phawb mewn rhyw feſur yn fyr o fyw yn gyfattebol ir Sacrament; rhyw beth a gynhwyſir ymma, i gynhyrfu dy galon ddiog, i fwy o ddyfalwch a diwydrwydd mewn paratoad cyn dy ddyfod, a pha ſodd y dylid ei wneuthur: Rhyw beth er hyfforddiad, pa ſodd y dyleit ymddwyn tra fyddech yno, a pha ſodd y mae graſuſau neilltuol iw harferu, er mwyn defnyddio'r ordinhâd hon yn well: a rhyw beth ith hyfforddi, beth yr wyt' iw wneuthur pan ddeuech ti oddi yno; wrth yr hyn y gellit' wybod, pa un ai gweli ai gwaeth wyt', a pha beth ſydd itti iw wneuthur, pa un bynnag yw dy gyflwr. Chwanegir ymma dair o ymddiddanion, ynghylch Swpper yr Arglwydd, er cymorth ir Criſtnogion gwanna' a ewyllyſient gyfrannu o hono. Y cyntaf rhwng Pregethwr a Chriſtion neullduol y chwenyche gyfrannu o Swpper yr Arglwydd. Yr ail rhwng Credadyn gwan, 'r hwn ni feiddia ddyfod, a chredadyn cryf, 'r hwn ni feiddia abſenu ei hun oddiwrth Swpper yr Arglwydd. Y trydydd rhwng ûn credadyn a chantho Sicrwydd, arall a chantho obaith ac arall tan amheuon o gariad Duw, ac o leſâd drwy'r Sacrament, wrth eu dyfod oddiwrth fordd yr Arglwydd. Yn yr hyn oll, os cei ddim yn fuddiol ith enaid, ac yn tueddu i ddwyn ymlaen waith grâs yn dy galon, ath

gymhwyſdra ir, a'th gymorth yn y ddyledſwydd hon, dyro gogoniant i Dduw; ond lle cei ddim yn arogi o wendid yr awdwr, na farna, eithr gweddia troſto, 'r hwn ſy' Ewyllyſgar, yn ôl y Dalent a dderbyniodd oddiwrth yr Arglwydd, ith gynorthwyo yn dy ffordd ir nefoedd a Bywyd tragwyddol.

T. Doolittel.

BRITISH 3 NO83 MUSEUM

Pasc y Christion

NEU

Wledd yr Efengyl, &c.

1 COR. XI 23, 24, 25, *&c.*

" *Bôd i'r Arglwydd Jesu y nôs y bradychwyd ef,*
" *gymmeryd bara: Ac wedi iddo ddioloch, efe a'i*
" *tor'rodd, ac a ddywedodd, cymmerwch, bwytte-*
" *wch, hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrir trôs-*
" *och, gwnewch hyn er coffa am danaf. Yr un*
" *modd efe a gymmerodd y cwppan wedi Swpperu,*
" *gan ddywedyd, y cwppan hwn yw'r Testament*
"*newydd yn fy ngwaed, gwnewch hyn cynnifer*
" *gwaith bynnac yr yfoch, er coffa am danaf.*

PENNOD I.

" *Yn cynwys esponiad y Tecst, at Athrawiaethau cy-*
" *ffredinol a drinir yn y Traethawd hwn.*

GOLUD daioni a chariad Duw oedd yn dra-helaeth tuag at ddyn yn ei greadigaeth yn y cyntaf, pan ddygodd Duw ef allan o gyflwr diddim, ac a'i derchafodd i odidawgrwydd y natur ddynol, gydâ gallu, nid yn unig i

reoli ei gyd-greaduriaid yn y byd ymma, ond i adnabod ac ymgymdeithaſu a'i Arglwydd-creawdwr; yr hwn y rhyn-gwyd-bodd iddo yn raſol ymddaroſtwng i wneuthur cyſammod a'i greadur, diniwed y pryd hynny, tan ammod o'i berffaith uſudd-dod i ewyllys ei wneuthurwr (*'r hyn y pryd hynny 'r oedd gantho allu iw gyflawni*) ſe gae barhau yn y cyflwr hwnnw o hapuſrwydd. Ond mawr oedd golud ei drugaredd ef i ddyn wedi ſyrthio oddiwrth y fath happuſrwydd mawr ir fath drueni mawr, yn gwneuthur cyſammod o râs, gan ei ſicrhau ynghwaed ei Fâb, gan chwanegu ei lw a'i ſêlau er cadarnhâd o'n ffydd ni, ſel y bydde ini tan ammod o gredu, fôd yn gyfranogion o'r mawr a'r gogoneddus ragorfreintiau a bwrcaſodd Chriſt, ac a addewir yn y ſcrythur, ac a ſêlir yn y Sacrament hwn: ynghylch yr hyn y mae'r Apoſtl yn treulio'r rhan olaf o'r bennod hon. 1. Yn argyhoeddi 'r Corinthiaid am eu cam-arferiad au halogiad o hono: gan fod rhai yn ymryſongar, a rhai yn ddrygionus, ie pan oeddynt yn feddw, a neſaſant atto; y rhai'n yn eu gwneuthur eu hunain yn iſradd gradd ddynol, ni fedrent arferu eu rheſwm, pan ddylaſent oſod ffydd a chariad a graſau eraill ar waith. Pechod mawr iawn ydyw gweled rhai ſy'n ymdroi yn yr heolydd mewn meddwdod yn gôſtwng ar eu gliniau wrth y Sacrament. 2. Mae'r Apoſtl yn eu dwyn hwynt yn ôl at y brif ordinhâd ymmha ûn y mae yw hyſtyried.

1. Awdwr yr ordinhâd hon, yr Arglwydd Jeſu Griſt, efe yn unig ſydd a gallu ac awdurdod gantho i oſod ordinhadau yn ei Eglwys, ac i appwyntio arwyddion gweledig ô bethau yſprydol anweledig yn y Sacrament: efe yw Brenin a Phrophwyd ei eglwys, ac ni adawodd iw ſwyddogion wrth

wrth eu hewyllys au meddwl eu hunain i ddwyn i mewn ddim i fod yn rhan o addoliad ſanctaidd. Oblegid nid oedd Chriſt nac yn fyr mewn doethineb fel nas Medre, nac mewn daioni fel nas mynne appwyntio pa beth bynnag oedd ddigonol er adeiladaeth o'i eglwys, a chyffur iw bobl: rhybyddwyd Moſes gan Dduw pan oedd ynghylch gwneuthur y Babell, ar wneuthur o hono bôb pêth ar ôl y portreiad a ddangoſwyd iddo yn y mynydd. *Heb.* 8. 5. *Exod.* 25. 40. Ac felly ni thraddododd *Paul* ddim ond yr hyn a dderbyniodd gan yr Arglwydd.

2. Yr amſer pan appwyntiwyd yr ordinhâd hon gan ein Harglwydd Jeſu, *y nôs y bradychwyd ef*, pan oedd efe mor agos iw farwolaeth, ac a wydde 'r hyn oll a wneid iddo, ac yr oedd iw ddioddef, wrth yr hyn y gallech weled mawredd cariad eich Arglwydd wrth farw, pan'r oedd efe mor llâwn o driſtwch, efe a wnaeth rag-ddarbod er eich cyffur chwi; a godidawgrwydd y Sacrament hwn, yr hwn a gafodd ei ddechreuad oddiwrth Griſt, pan oedd mor agos iw ddiwedd; i fod er cynhaliaeth o fywyd yſprydol ei bobl; yn awr ag efe yn nefau at farwolaeth. Pethau mawrion ſy'n cymeryd i fynu feddyliau gwyr doethion a ſobr wrth farw; yn ddiammeu mae'r hyn a ordeiniodd ein Harglwydd wrth farw, ar y fath amſer a hwn, yn fawr a phwyſfawr.

3. *Y wyddorion oddiallan ar Arwyddion*, Bara a gwin; mewn Sacramentau mae rhyw beth yn weledig, a rhyw beth iw ddeall, rhyw beth a deimlir; â rhyw beth i gymeryd gafael arno drwy ffydd. Sacramentau ydynt ddrychau i'n dealltwriaeth, a phethau ardderchog i goffau 'n coffadwriaethau, fal trwy arwyddion gwael gweledig y bydde

ini

ini ddeall a galw i'n côf bethau uchel ac anweledig, dymma fara, ie Bara 'r bywy'd i lenwi'r enaid newynog, a gwîn i ddigonoli 'r ſychedig, ac i lawenhychu'r enaid prudd.

4. *Y gweithredoedd Sacramentaidd:* 1. O'r eiddo Chriſt, *efe gymmerodd fara ac ai benditbiodd ef, ac ai torrodd: efe a gymmerodd y cwppan ac ai benditbiodd hi*, ac a rannodd y ddau. 2. O'r eiddo'r derbynwyr, y rhai y'nt *i gymmeryd a bwytta, i gymmeryd ac yfed*: Chriſt yw'r rhoddwr, Chriſt yw'r rhodd; a'r hyn y mae Chriſt yn ei ro'i mewn cariad, a ddylai'r ffyddloniaid ei dderbyn gydâ llawenydd a diolchgarwch.

5. EGLURHAD y dirgelwch hwn, *Hwn yw ſy nghorph, y Cwppan hwn yw'r Teſtament newydd yn ſy ngwaed*: ni throwyd mor *bara* yn wir gorph Chriſt, na'r *gwin* yn waed Chriſt. A ddarfu i'r diſcyblion fwytta gwir gorph Chriſt, pan oedd efe gydâ hwynt wrth y bwrdd? neu a ddarfu iddynt hwy yfed ei wir waed ef yr hwn y pryd hynny oedd yn ei wythennau ef, ac yn ei gorph, ac nid yn y cwppan? neu onid oeddynt hwy y pryd hynny yn gweled fod gwir gorph a gwaed Chriſt yn wir wahanedig oddiwrth y bara ar gwîn? ac onid oeddynt yn gweled mai gwir fara oedd, a phrofi mai gwir fara oedd? a'i deimlo fel gwir fara? neu ydyw corph gogoneddus Chriſt yr awrhôn yn ddaroſtyngedig i lygredigaeth, fel y mae'r bara ſy'n y Sacrament, a phan dderbynier ef? neu a all corph terfynol fod yn y nêf ac ar y ddaiar, mewn cymmaint o leoedd dan un ag y rhoddir y Sacrament ar yr ûn amſer? neu, ydyw Meddwn, a thyngwyr rhagrithwyr ac anffyddloniaid yn gwir fwytta ac yfed, gwir gorph a gwaed Chriſt? Y

meddwl

meddwl yw, hwn sy' Arwydd o'm corph, ac arwydd o'm gwaed, i, a chymundeb o'r ddau. Megis y gelwir *Enwaediad yn gyfammod*, felly y mae'r bara yn gorph Christ. *Gen.* 17. 10. *Dymma fy nghyfammod a gedwch rhyngofi a chwi, ath hâd ar ôl di: enwaedir pob gwryw o honoch chwi.* Ond etto nid yr Enwaediad oedd y cyfammod, ond arwydd a sêl o hono: *Rhuf.* 4. 11. *Ac efe* (hwn yw Abraham) *a gymerth arwydd yr Enwaediad yn in sêl cyfiawnder y ffydd, yr hon oedd ganddo yn y dienwaediad:* felly 'r *cwppan yn y Sacrament* a elwir y *Testament Newydd* neu gyfammod ond nid hwn yw'r cyfammod, ond arwydd a sêl o hono.

6. Mae Christ yn dangos pwy yw'r rheini y mae'r Sacrament hwn yn perthyn, ar pethau a arwyddocceir yntho. *Yr hwn a dorrir trosto' chwi*; mae'n ôl meddwl Christ ar ir ffyddloniaid yn Swpper yr Arglwydd wneuthur cymhwysiad neullduol o hono ef a ffrwythau ei farwolaeth ai ddioddefiadau attynt eu hunain; fe all credadyn gymmeryd y *bara* a dywedyd, yr Arglwydd Jesu a fu farw trosofi, a'r *gwin* a dywedyd, Christ Jesu a dywalltodd ei waed drosofi.

7. Rhwymedigaeth eglur ar y ffyddloniaid i arferu'r ordinhâd hon, *gwnewch hyn.*

8. Mynychdra 'r disgwiliad ar Dduw, wrth ei fwrdd; *cynnifer gwaith bynnag a gwneloch hyn.*

9. Y diben er yr hwn y dylem nesau at fwrdd yr Arglwydd: *gwnewch hyn er coffa am danaf*: pa bryd bynnac yr ydym yn derbyn Swpper yr Arglwydd, yr y'm yn gwneuthur coffa o farwolaeth yr Arglwydd.

10. Yn

10. Yr *Amſer*, pa hyd y mae'n rhaid arferu'r ordinhâd hon yn yr Eglwys; *oni ddelo'r Arglwydd*: yr Arglwydd a ddaw, a than hynny rhaid i'r ordinhâd hon barhau; ond pan ddelo, a'n cymmeryd ni atto ei hun iw deyrnas ogoneddus, ni fydd rhaid ini wrth na hon nac ordinhadau eraill Mwyach; pan fwynheir y diben, fe dderfydd y moddion; ond megis y parhaodd Sacramentau'r hên Deſtament hyd ddyfodiad cyntaf Chriſt yn y cnawd, felly y parhâ Sacramentau'r Teſtament newydd hyd oni ddelo Chriſt eilwaith mewn gogoniant.

11. *Cyngor difrif yr Apoſtl*, a'r ir rheini a ddeuant at yr ordinhâd hon fod yn ofalus pa fodd y bwyttânt o'r bara hwn ac yr yfont o'r cwppan hwn *gwers* 27. *Am hynny pwy bynnac a fuyttao y bara hwn, neu a yfo gwppan yr Arglywdd yn annheilwng euog fydd o gorph a gwaed yr Arglwydd.* Derbyniad annheilwng ſy'n mawr drymhau pechod ac euogrwydd y ſawl a ryfygant yn eu calonnau, wneuthur felly.

12. Hyfforddiad cymwys i jawn arferu'r ordinhâd hon, i ragflaenu'r mawr anwiredd hwnnw, ar pechod erchyll o fôd yn euog o gorph a gwaed Chriſt, *gwers* 28. *Eithr holed dyn ef ei hun, ac felly bwytaed o'r bara ac yfed o'r cwppan.*

13. Echryslondeb y goſbedigaeth, y mae y rheini yn euog o hono, ſy'n dyfod yn annheilwng: a hyn ſy' naill ai 'n *Amſerol* 30 *wers oblegid hyn mae llawer yn weiniaid, ac yn ilêſc yn eich myſc, a llawer yn buno.* Hynny yw, yn marw, neu *Dragwyddol* heb edifeirwch, *gwers* 29. *Canys yr hwn ſy'n bwytta, ac yn yfed yn annheilwng, ſy'n bwytta ac yn yfed barnedigaeth*

nedigaeth idde ei hun: Y gair a arferir i arwyddoccau, *Barnedigaeth dragwyddol*, cyſtal a *Barnedigaethau amſerol*; ac os bernir nêb am dderbyn yn annheilwng bydd yn farnedigaeth fawr.

14. Un achos neu reſwm, a yſpyſir ymma, pa ham y mae rhai yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, *gwers* 29. *Am nad y'nt yn jawn farnu corph yr Arglwydd.* Heb wneuthur rhagor rhwng hwn a bara cyffredin. Fel hyn y gwelwch y rhannau a gynhwyſir yngwerſi 'r bennod hon, ynghylch yr appwyntiad o Swpper yr Arglwydd, ac Athrawiaeth yr Apoſtl, mewn trefn ir jawn dderbyniad o hono.

Yn y Traethawd bychan hwn, nid w'yfi ar fedr cymmeryd i fewn holi athrawiaeth y Sacrament, oblegid fod llawer o wyr dyſcedig a duwiol wedi ſcrifennu 'n helaeth, ond yr hyn a ddywedaſi, a gynhwyſir mewn rhai pethau ſy'n canlyn, er mwyn rhagflaenu'r drygau hyn ſy'n canlyn.

1. Mae rhai ſy'n wir raſol yn byw'n hir mewn eſceuluſdra o'r ordinhâd hon, ſy'n cynheſu'r galon, yn ennyn y ſerchiadau, yn cryfhau grâs. Rhai nid oes dim hawl iddynt, etto ni fynnant eu cae allan oddiwrtho, ond y maent yn cyfriſ y gweinidog hwnnw eu gelyn pennaf a fynne o'i wir-fodd rwyſtro iddynt fod yn euog o waed yr Arglwydd: rhai eraill y mae Duw yn eu galw ac wedi darparu 'r ordinhâd hon iddynt ni cheir gandynt ddyfod atti.

2. Rhai er iddynt neſau atti, etto nid 'yw ond yn anfynych jawn.

3. Rhai

3. RHAI ſy'n dyfod, a hynny yn ſynych, etto 'ynt mor ddiofal a diſraw, fel nad 'ynt yn ymegnio iw paratoi eu hunain, fel y mae gwaith or fath bwys a dilyniad yn gofyn; ac yn hyn y mae rhai o bobl Dduw ei hun y haeddu cerydd.

4. RHAI tra byddont yn weithredol yn y ddyledſwydd hon, nid 'ynt yn jawn yſtyried gwaed Chriſt ynthi, nac yn arferu eu graſuſau ynddi.

5. RHAI y ſy'n gyſrannogion o Swpper yr Arglwydd, nid ydynt yn ymorol wedi derbyn; pa leſad a dderbyniaſant oddiwrtho, yngwrthwynb ir drygau hyn, m'i a oſodaf i lawr yr Athrawiaethau hyn, wedi eu ſylſaeni ar rai geiriau yn y bennnod hon.

Athrawiaeth 1. MAI dyledſwydd anghenrheidiol ddyledus ar yr holl ffyddloniad mewn oedran ydyw, cyfrannu o Swpper yr Arglwydd, *gwers* 24. *Gnewch hyn er coffa am danaf.*

Athraw. 2. DYLEDSWYDD diſcyblion Chriſt ydyw mynych gyfrannu o Swpper yr Arglywdd, *fers* 25. *Gwnewch hyn cynnifer gwaith bynnac yr yfoch er coffa am danaf: fers* 26. *Canys cynnifer gwaith bynnac y bwytaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoſwch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo.*

Athraw. 3. PA bryd bynnac y byddoch i gyfrannu o Swpper yr Arglwydd, chwi a ddyleech fod yn boenus a dyfal yn ymbaratoi iddo, *fers* 28. *Eithr holed dyn ef ei hun, ac felly bwytaed o'r bara, ac yfed o'r Cwppan.*

Athraw. 4. FE ddyle'r Credadyn edrych ar waed Chriſt

Chriſt yn Swpper yr Arglwydd, yn ei amryw briodoliaethau, rhinwedd, ai effaith, hyd oni oſodir graſau cyfaddas ar waith iw harteru'n fywiog, *fers* 24. *Hwn yw fy ngorph, yr hwn a dorir troſoch: gwnewch hyn er coffa am danaf: fers* 25. *Y Cwppan hwn yw'r Teſtament newydd yn fy ngwaed gwnewch*, &c.

Athraw. 5. Fe ddyle'r ſawl ſy'n gyfrannogion o Swpper yr Arglwydd amofyn, wedi derbyn o honynt, pa leſad a dderbyniaſant trwyddo; pa un ai gwell ai gwaeth 'ynt wedi derbyn, *fers* 17. *Eithr wrth ddywedyd hyn, nid 'wyf yn eich canmol, eith bod yn dyfod ynghyd, nid er gwell, ond er gwaeth.*

PEN. II.

" Yn cynwyſ yr Athrawiaeth gyntaf a'r eglurhad o " honi.

ATHRAW. 1. Dyledſwydd angenrheidiol ddyledus ar y ffyddloniaid mewn oedran, ydyw derbyn neu gyfrannu o Swpper yr Arglwydd:

1. *Angenrheidiol*, yngwrthwyneb i fod i ddyn ei ddewis ai derbyn ai peidio, ni adawyd mono i ewyllys pobl Dduw, iw wneuthur os mynnant, a pheidio os mynnant; ond fel y mae'n rhagorfraint iddynt gael, felly eu dyledſwydd ydyw, ac y mae'n rhaid iddynt ei dderbyn: nyni a allwn, a rhaid ini weddio, ni a allwn, a rhaid ini wrando; felly ni a allwn a rhaid ini dderbyn: Etto 'rwyfi yn dal ſulw, fod y Criſtnogion hynny ſy'n gythryblus jawn, os eſceuluſant weddio, gwrando, a darllen gair Duw, ac y mae eu cydwybodau yn eu cyhuddo am

eſceuluſo

eſceuluſo hyn ; etto a ymgadwaſant yn hir oddiwrth ford yr Arglwydd, ac yn anfynych yn cyfrif yr eſceuluſdra hwn ymmyſc eu cyfaddefiad o'u pechodau, megis pe na fydde 'n bechod o eſceuluſdra, nac yn eu gwneuthur yn euog ger bron yr Arglwydd.

2. Rwyf' yn dywedyd ei bod yn *ddyledſwydd angenrheidiol* ; nid *angenrheidiol* er y *Bod* a hanfod y Criſtion, o herwydd hyn a rag-dybir, oblegid rhaid i droedigaeth fyned o flaen cyfrannu o'r ordinhâd ſanctaidd hon ; yr hon a oſodwyd gan Dduw, nid i genhedlu ond i gynhyddu grâs : rhaid i râs fod mewn gwirionedd, cyn iddo gael cynnydd trwy ordinhâd. Ni ddyle' gwyr meirw eiſtedd wrth ford y Duw byw ; ymmâ y mae rhai yn dyfod at Griſt, a ffydd 'yw troed yr enaid ; ymma mae'n rhaid i ddynion dderbyn Chriſt, a ffydd 'yw llaw'r enaid ; ymma rhaid i ddynion ymborthi ar Griſt, a ffydd 'yw genau'r enaid ; harddach fydde' goſod dyn marw wrth ein bwrdd ni, nac a fyddai i ddyn yn farw mewn pechod, eiſtedd wrth fwrdd yr Arglwydd ; bara 'r plant ydyw, ac ni ddylid ei ro'i ir cwn : ond y mae math o angenrhaid o'r ordinhad hon, er y *Bôd* mwy cyſſurus ir Criſtion : rhaid i chwi gan hynny ddwyn rhyw faint o ras gyda chwi, a dyfod ymma am y chwaneg ; rhaid i chwi ddwyn rhywfaint o fydd, a chariad a gobaith, a dyfod ymma i gael chwanegu gradddau'r rhain oll ; y mae twf yn arwyddoccau bywyd.

3 'Rwyf' yn dywedyd ei fod *yn angenrheidiol*, ond nid yn llwyr-gwbl i jechydwraith, oblegid lle b'o ffydd ynghriſt, cariad i Dduw, a gwir gafineb anghymodlon i bechod, y mae ſicrwydd o jechydwriaeth, ond nid mor arferol, nac mor llawn

a

a gwaſtadol os eſceuluſir ef o wir-fodd, pan y cynnigir odfa iw dderbyn ef; oblegid mae eſceuluſdra o wir-fodd o'r ddyledſwydd hon yn rho'i achos cyfreithlawn i ammeu, nad 'yw'n ufudd-dod ni yn gywir, oblegid nad 'yw 'n hollawl i holl orchmynion Duw, ac am hynny nid 'yw'n hollawl, am nad 'yw'n cyrhaeddyd hwn *gwnewch hyn er coffa am danaf.* Geill credadyn fod yn ſicr o'r nefoedd heb y Sacrament hwn, yn enwedig lle ni b'o odfa iw dderbyn; ond y credadyn a allo ei gael, ac etto yn byw mewn eſceuluſdra o hono, ni fydd mor hollawl, a chyſſurus ſicer oi ſicrwydd or nefoedd.

4. 'Rwy'n dywedyd *Angenrheidiol*, o ran ei fod felly trwy orchymyn Duw, ar hyn a orchmmynnodd Duw, nid yw ini iw ddewis pa ûn a wnelom a'i wneuthur ai peidio, nac yn ddiragor iw wneuthur neu'i adel heb ei wneuthur.

5. Rwy'n dywedyd; mai dyledſwydd y ffyddloniaid ſy'mewn oedran ydyw, ac arfer rheſwn ganddynt; felly nid yw'n ddyledus ar blant bychain, na rhai wedi anhwylio, oblegid nid 'ynt yn gallu gwneuthur yr ammod ar ddyledſwydd ſydd iw gwneuthur o flaen hwn, ſef, *hunan-ymholiad.* Rhaid in ymholiad fod yn dayfal ac yn fanwl: 1. Ynghylch ein cyflwr, pa un ai ynghriſt ai allan. 2. Ynghylch ein pechodau, 'r eiddo galon ar bywyd. 3. Ynghylch ein eiſieu. 4. Ein graſau, ein edifeirwch am bechod, ffydd ynghriſt, cariad i Dduw, ufudd-dod, a ſicr Sanctaidd fwriad i rodio gyda Duw; hyn a ddylai fyned o flaen cyfrannu o'r ordinhad hon; ac am hynny y Sawl ſy' a gras ganddynt yn y Principl neu'n wreiddiol, ac heb allu mewn dim meſur iw holi eu hunain, (fel y mae'n gyflwr plant bychain a rhai allan o'u)

hwyl) nid ydynt tan rwymedigaeth i arferu'r ordinhad hon.

PEN. III.

" *Yn dangos y dylae diſcyblion Chriſt dderbyn Swpper yr Arglwydd.*

ATHRAW. Dyledſwydd angenrheidiol y ffyddloniaid ydyw cyfrannu o Swpper yr Arglwydd. Mi a brofaf ;

I. Fod yr un-rhyw achos ir ffyddloniaid tan yr Eſengyl i dderbyn Swpper yr Arglwydd, ac oedd ir Iſraeliaid tan y gyfraith i fwyta Paſc yr Arglwydd : hyn oedd eu dyled-ſwydd hwy, fel y goſodir i lawr yn, *Exo.* 12. Lle mae'r ordeiniad cyntaf, y dull pa fodd, ac i ba ddiben. Ar gorchymyn am dano a adnewyddir drachefn. *Num.* 9. 1, 2, 3. Ac os bydde' nêb yn aflan fel na alle' i gadw y mis cyntaf, etto rhaid oedd iddo yn yr ail : Ie Digie Duw yn fawr am eſceuluſo'r Paſc. *Num.* 9. 13. *Ar gwr a fyddo glan, ac heb fôd mewn taith, ac a beidio a chadw'r Pâſc, torrir ymmaith yr enaid hwnnw o fyſc ei bobl, am na offrymmodd offrwm yr Arglwydd yn ei dymmor : ei bechod a ddwg y gwr hwnnw.* Gwelwch ymma eu bod yn eu gwneuthur eu hunain yn euog, a'u bôd i ddioddef coſpedigaeth drom, ſef y nêb a eſceuluſai fwyta Paſc yr Arglwydd. Ac y mae cymmaint o reſwm a'r ir Fyddloniaid fwyta Swpper yr Arglwydd, fel yr ymddengys trwy'r cytûndeb Sy' rhyngddynt ; yn y pethau hyn.

1. Yn yr *Awdwr*, ar Achos gwneuthurol ; Duw a apwyntiodd y ddau.

2. Yn

2. Yn y *defnydd*, a arwyddocceir yn bennaf yn y ddau; a hynny ydyw Chriſt, ar ûn doniau a rhagorfreintiau a ddelir allan ac a gyfrennir ir Fyddloniad yn y ddau; ſef *maddeuant pechod*, *cyfiawnhâd*, *maeth* a *chynnydd* yſprydol mewn gras.

3. Yn y *diben*; i gofio trugaredd a daioni Duw yn gwaredigaeth ei bobl oddiwrth Caeth-gludiad y pechod a chaethiwed y cythrael.

4. Yn yr *offeryn*, yn derbyn ac yn cymhwyſo'r hyn a arwyddocceir trwy'r ddau, a hynny 'yw Fydd.

5. Yn y *rhannau* yn y ddau, mae rhyw beth yn arwydd, a rhyw beth a arwyddocceir.

6. *Ymrhidoliaethau oen y Paſc*, yr hyn ſy'nghriſt ein Paſc ni.

1: 'R oedd hwnnw i fod yn *berffaith gwbl*, ſelly'r oedd Chriſt: *Eſai* 53. 9. 1 *Pet.* 1. 19. 1 *Pet.* 2. 22. *Heb.* 7. 26.

2. 'R oedd rhaid i hwnnw fod yn *wryw*, ſelly Chriſt o ran rhyw a nerth, yn *jachawſwr galluog*, *Jer.* 31. 32.

3. Hwnnw i fod yn *flwydd oed*, mewn oedran perffaith; Chriſt ynghylch pedair blwydd ar ddêg ar hugain, ynghanol ei oed.

4. 'R oedd yn rhaid cymmeryd yr oen allan 'or praidd; yr oedd yn rhaid cymmeryd Chriſt o fyſc dynol ryw, ac a fu'n gyfrannog o gîg a gwaed. *Deut.* 18. 18. *Heb.* 2. 11.

5. RHAID oedd *neullttuo hwnnw oddiwrth y praidd*, felly didolwyd Chriſt oddiwrth bechaduriaid, *Heb.* 7. 26.

6. YR 'oedd hwnnw yw *roſtio a thân*, Chriſt a phoethni digofaint Duw,

7. RHAID oedd *bwytta hwnnw*, rhaid ydyw derbyn Chriſt trwy ffydd.

RHAID oedd bwytta hwnnw. 1. Gan bob teulu, Chriſt yw dderbyn gan bôb dyn. 2. Gyda bara croyw, felly Chriſt a'r Sacrament hwn, yw dderbyn mewn purdeb a gwirionedd, 1 *Cor.* 5. 7, 8. 3. Gyda dail Surion: Chriſt a'r ordinhad hon, gyda edifeirwch chwerw. 3. Y cyfan, rhaid oedd bwytta y cyfan oll; rhaid ydyw derbyn Chriſt yn ei holl Swyddau, yn Brophwyd, offeiriad a Brenin: Rhaid ydyw derbyn Chriſt fel oen y Paſc, gyda phôb peth ſy'n perthyn iddo. 5. Ar ffrwſt; rhaid 'yw derbyn Chriſt yn bryſſur ac yn ddioed.

8. YN y *rheini oedd i fwytta o hono*; *Iſraeliaid* oeddynt, a'r Sawl oedd wedi enwaedu arnynt. Felly'r nêb a ddylai gyfrannu o'r ordinhad hon, a ddylent fod yn wir Iſraeliaid, ac wedi eu enwaedu yn eu calonnau, os mynnent leſad oddiwrthi: Fel hyn y gwelwch y cyttundeb mawr ſy' rhwng y ddwy ordinhad hyn: 'R oedd yr Iddewon yn rhwymedig i gadw hwnnw, ac onid 'yw'r Fyddloniaid tan yr Efengyl yn rhwymedig i gadw hwn? Nage nyni a ddylem fod yn fwy diwyd yn y ddyledſwydd hon, gan fod hon yn fwy rhagorol. Megis ------ 1. Yn y *modd o'u arwyddoccad hwynt*, y Paſc oedd yn arwyddocau Chriſt, yr hwn *oedd i ddyfod*; Swpper yr Arglwydd Chriſt *wedi dyfod eiſoes*.

2. Yn

2. Yn y *parhad*, 'r oedd oen y Paſc i barhau hyd ddyſodiad Chriſt yn y cnawd; Swpper yr Arglwydd hyd oni ddelo Chriſt drachefn mewn gogoniant yn niwedd y byd. 3. Yn yr *eglurdeb ar diſcleirdeb*, yn y cynta' marwolaeth Chriſt a arwyddocauwyd yn fwy tywyll, yn y diweddaf yn eglurach. Yn awr rwy'n attolwg i chwi, gwelwch, 'r hyn oedd y Paſc ir Iddewon, yſtyriwch, hynny yw Swpper yr Arglwydd ini; ymddengys fod yr ûn fath reſwm, am ini dderbyn hwn, ag oedd i'r Iddewon i fwytta hwnnw.

II. Ni a ddylem dderbyn Swpper yr Arglwydd, o herwydd gorchymyn amlwg ein Harglwydd wrth farw, a'r ini *wneuthur hyn er coffa am dano.* Paham yr ydych yn gweddio? ûn rheſwm a r'owch, ydyw, oblegid fod Duw yn gorchymyn hyn; ac os gweddiwch oblegid fod Duw yn gorchymyn i chwi; rhaid i chwi wneuthur pôb peth y mae Duw yn ei orchymmyn i chwi, ac felly hyn; onid ydyw Duw gan orchymyn wedi gorchymyn hyn? Darllenwch, *Luc.* 22. 9. *Gwnewch hyn er coffa am danaf. Mat.* 26. 26, 27. Gorchmynnir y gweithredoedd yn neilltuol, *Cymerwch, bwytewch, yfwch*, ac a ddywedwch chwi, nas gwnewch? Ydyw hyn yn gweddu i ddiſcybl i Chriſt, nid ydych yn dywedyd nas gwnewch, ond chwi a wyddoch nad ydych yn gwneuthur ac y mae hynny cynddrwg ar llall.

III. Chriſt a'i ordeiniodd ir diben hwn, fel y bydde' ir Fyddloniaid gofio am dano ef wrth gyfrannu o'r Ordinhad hon, yr y'm yn barod i anghofio gweithredoedd Duw, *Pſal.* 106. 13. Yn rhy barod i anghofio'r bendithion a dderbyniaſom oddiwrth Dduw, *Pſal.* 103. 2. Ond yr hyn ſy' fwyaf iw tyfeddu, yr ydym yn rhy barod i anghofio Duw'n

jachawdwr, i anghofio'r hwn a'n *rhyddhaodd ni oddiwrth felldith y ddedaf, gan ei wneuthur yn felldith trosom*; oddiwrth *ddigofaint Duw*, trwy ei ddwyn ei hun, oddiwrth *golyn angeu* trwy farw trosom. *Pſal.* 106. 21. *Anghofiaſant Dduw eu Hachubwr*; Och! Y fath goffadwriaethau ſy' gennym ni; nyni a gofiwn ein perthynaſau, a'n achoſion bydol, ac a anghofiwn y Duw a'n gwnaeth, a Chriſt a'n prynodd: Yn awr Chriſt a fynnai fyw yn ein meddyliau a'n coffadwriaeth, ac er mwyn hyn a ordeiniodd yr ordinhad hon, o ba un ni ellwch yn jawn gyfrannu, ond rhaid i chwi ei gofio ef. Neu a ddywedwch eich bod yn cofio Chriſt heb hon? Ac nad rhaid i chwi arferu'r ordinhad hon ir diben hwnnw? Dywedwch felly wrth Griſt os llafaſwch; beth yw hyn ond ceryddu doethineb eich Arglwydd trwy'ch Folineb eich hunain? Ond yr 'wyf' yn dywedyd i chwi, nad ellwch cyn gyſtled gofio Chriſt heb yr ordinhad hon, ag y gallech trwy ofalus a mynych ddiſgwyl wrth Dduw ynthi: Nid coffa hiſtoriaidd yn nofio yn y pen, ddarfod i Griſt ddioddef Marwolaeth a waſanaetha; canys mae'r Cythreuliaid yn cofio marwolaeth Chriſt felly: Nid fel y mae'r yſcolhaig yn cofio ei wers; ond y Coffa a fynne Chriſt fod yn eich meddyliau chwi ydyw.

1. Coffa hôffgar, fel y bydde' i olwg eich llygaid weithio ſerch yn eich calon; i chwi felly i gofio ef, fel y caroch ef, ac y dymunech ef, ac yr ymfodlonech yntho ef.

2. Coffa triſtlawn, ar i chwi felly ei gofio ef, fel y byddai i'ch calonnau dorri, ac i'ch llygaid wylo; Pan gofioch mai'ch pechod oedd y Judas a'i bradychodd ef; y gwayw-ffyn a wanaſant ei yſtlys bendigedig ef, ac a ollyngodd waed ei galon Sanctaidd ef y drain a'i coronaſant ef, a'r hoelion a'i hoeliaſant

ſant ef wrth y groes; pan driſtae Dafydd am ei bechodau efe a Scrifennai Pſalm, yr hon a elwyd *Pſalm er Coffa, Pſal.* 38. A phan fynnech ich calonnau driſtau o newydd am eich balchder a'ch anghredinieth, a phechodau eraill, ewch at y Sacrament, yr hwn ſy'n Sacrament er coffa; yno cofiwch fawredd a diniweidrwydd y dioddefwr, a mawrder ei ddioddefiadau ef (1.) Oddiwrth Dduw. (2.) Oddiwrth ddynion. (3.) Oddiwrth gythreuliaid, ar achoſion o'i ddioddefiadau ef, ſef eich gweithredoedd drygionus chwi, a hyn ach, cymorthiff chwi i alarus goffa o'ch pechodau.

3. COFFA llawen a diolchgar, rhaid i chwi edrych ar eich pechod, a bôd yn ddrwg ganddoch wneuthur yr hyn a roes Griſt i farwolaeth, ac ymma rhaid i chwi edrych ar Griſt, a llawenychu ddarfod iddo ef drwy ei farwolaeth Symmud ymmaith y pechodau a wnaethoch chwi yn erbyn Duw.

4. COFFA ymddiriedus, rhaid i chwi gofio Chriſt, felly ag i ro'i 'ch ymddiried yntho, a phwyſo arno, a bwrw gofal eich eneidiau arno ef.

5. COFFA yn diſtewi, ac felly cofio Chriſt, er goſtegu holl gyhuddiadau Satan, ar gyd-wybod, a phob ûn a roddo ddim yn eich erbyn; pan gofioch farwolaeth Chriſt, hi a'ch lleinw a Chynnorthwy cyfadd-as i bob peth a roddir i'ch herbyn. Diafol a'ch cyhudda o'ch pechodau *cyn* ac *wedi* 'ch troedigaeth, ac nid ellwch eu gwadu hwynt; ond chwi ellwch gofio marwolaeth Chriſt, a dywedyd, gwir yw, mi a wneuthym felly, ond Chriſt a ddyg fy anwireddau yn ei gorph ar y groes, beth yn awr, oh fy ngelyn! Efe a ddywed i chwi am eich pechodau o eſceuluſdra, a gweithred, ac nid ellwch mo'r gwadu, ond

chwi ellwch atteb ; Chriſt aeth tan y goſpedigaeth oedd ddyledus imi am danynt, beth yn awr, oh ſy ngelyn ! Cyfraith Dduw ach cyhudda ac a'ch mell-dithia, am i chwi ei thorri ; ac nid ellwch mor gwadu, ond gellwch gofio Chriſt ; a dywedyd, ei fod efe wedi ufuddhau'n berffaith ir gyfraith, a bod-loni am eich troſeddiad chwi o'r gyfraith, ac felly cymmeryd cyſſur ; eich *cyd-wybod* eich hun a'ch cy-hudda, ond cofiwch farwolaeth Chriſt, ar gyd-wy-bod a attebir, ac a jawn lonyddir ; fel hyn ettyb Marwolaeth Chriſt i bod peth a roddir ith erbyn. *Rhuf.* 8, 33, 34. Ac etto a eſceuluſwch chwi'r ordinhad hon.

6. COFFA gan ffieiddio'r pechod ; ni alerwch yn unig am bechod, ond hefyd chwi a'i ffieiddiwch ef, pan wneloch hyn er coffa am Ghriſt : chwi a ffieidd-iwch y gyllell a laddod eich Tad, ar pechod a ladd-odd eich Arglwydd pan wneloch goffa or ddau. Yn awr nid all fod gennych y fath goffa a hwn am Griſt, heb Swpper yr Arglwydd, yn gyſtal ag wrth ei dderbyn ; oddi-eithr i chwi gam-ddywedyd, ac yn annuwiol r'oi'n erbyn Chriſt, appwyntio o hono ormod o foddion afraid, heb ddim tuedd ynddynt i genhedlu y fath goffa o hono ef yn eich Meddy-liau ; a phwy a ymhyfrydwch iw gofio, os nad eich Arglwydd? Pwy a fydd byw yn eich Meddyliau onid eich Achubwr a'ch prynwr ? A pha fodd y cofiwch ef fel hyn, os eſceuluſwch y moddion a appwyntiodd efe er y mwynhad o'r diben hwn ?

A beriff Chriſt i chwi *wneuthur hyn er coffa am dano*, gan ddwedyd *gwnewch hyn er coffa am danaf* ?

1. YR hwn a ddaethym i wared o'r néf ir ddaiar er eich mwyn chwi, yr hwn a ymadawais o mon-

wes

wes a gogoniant fy nhad, i'm gwiſco mewn brattiau dynoliaeth er eich mwyn chwi, ac oni wnewch chwi hyn?

2. A ddywed efe, *gwnewch hyn er coffa am danaf*, yr hwn a ſûm byw bywyd o ddioddefiadau, o'r preſeb ymmha ûn y gorweddais, ir groes ar ba ûn y crogais, ac oni wnewch chwi hyn?

3. A ddywed efe, *gwnewch hyn er coffa am danaf*, yr hwn a ddioddefais farwolaeth gywilyddus boenus felligedig er eich mwyn chwi, ac oni wnewch chwi hyn?

4. A ddywed efe, *gwnewch hyn er coffa am danaf*, yr hwn a gladdwyd, ac a adgyfodais, er eich mwyn chwi, ac a eſceuluſwch chwi hyn?

5. A ddywaid efe, *gwnewch hyn er coffa am danaf*, yr hwn 'wyf yn myned o'r ddaiar ir nêf trachefn, i baratoi lle i chwi mewn gogoniant, ac i gymmeryd meddiant o drigfannau neſol i chwi, ac etto a fyddwch chwi yn abſennol oddiwrth hyn?

6 A ddywaid efe, *gwnewch hyn er coffa am danaf*, yr hwn 'wyf yn myned at ddeheulaw Duw, i eiriol droſoch, i ddadleu 'ch achos ar Tad, ac a drowch chwi eich cefnau arno?

7. A ddywaid efe, *gwnech hyn er coffa am danaf*, yr hwn a ddeuaf trachefn yn y dydd diweddaf ac a'ch rhydd-haf chwi ger bron Angylion dynion a chythreuliaid, ac etto a ddibriſiwch chwi hyn?

8. A ddywed efe, *gwnewch hyn er coffa an danaf*, gyda'r hwn y byddwch yn dragywydd, gyda pha ûn

William Williams his Book.

ûn y byddwch byw yn dragywydd, fywyd Sanctaidd dedwydd bendigedig, ac a fyddwch chwi etto yn ddifatter pa ûn a wnewch chwi hyn ai peidio? Nage, a fyddwch chwi yn wrthnyſig iddo; och! yſtyriwch y pethau hyn yn ddifrifol, yno dywedwch, er na wnaethoch hyd yn hyn, etto chwi a wnewch bellach.

IV. Y pedwaredd rheſwm pa ham y dylem ddeſbyn y cymmun yw, oblegid ein bod yn rhwymedig i arfer pob modd er cynnydd in gras, er enyn ein cariad, ar cryfhau'n ffydd, er adnewyddu'n edifeirwch; ac er mwyn gorchfygu'n pechod; ac yr ydym yn pechu oni wnawn: nid ellwn ei eſceuluſo heb chwanegu'n euogrwydd; oni fydde'n well i chwi fyned mewn modd jawn, a chael Selio i chwi faddeuant o'ch pechod, a ſymmud eich euogrwydd oddiwrthych, na thrwy eſceuluſdra parhaus, wneuthur eich enaid yn fwy euog? onid ydych yn rhwymedig i dyfu mewn gras? ai onte mae ganddoch ddigon yn barod? onid oes arnoch eiſieu mwy meſurau a graddau o ffydd, cariad, a gobaith? ac a fedrwch chwi eſceuluſo moddion cynnydd, ac etto tyfu? a fedrwch chwi eſceuluſo'ch ymborth, ac etto cael eich maethu? neu, onid ydych yn pechu os ni thyfwch? ac onid ydych yn pechu os eſceuluſwch foddion cynnydd? meddyliwch am hyn.

PEN.

William Williams
This book 174.89

PEN. IV.

" *Yn cynwys deuddeg o gweſtiwnau i'r ffyddloniaid*
" *hynny a eſceuluſant Swpper yr Arglwydd.*

GADEWCH imi fyned rhagof' i ddangos i chwi eich mawr ddrwg o hîr eſceuluſo Swpper yr Arglwydd, 'rwyf yn dymuno gan hynny arnoch, atteb imi.

Cweſt. 1. ONID byw ydyw hyn mewn eſceuluſdra o ddyledſwydd orchmynedig eglur? oni welſoch brofi mai'ch dyledſwydd ydyw? ac ydyw ddim gennych fyw mewn pechod, y gwyddoch ei fod felly? ie, ac i ddadleu troſto hefyd, fel yr ydych am beidio a dyfod at yr ordinhad hon? yſgatfydd, oblegid eich bôd yn ammau'ch purdeb, ac onid alle hyn chwanegu'ch ammheuon, tra bo'ch yn fyrr yn eich ufudd-dod i orchmynion Duw.

Cweſt. 2. ONID rhagrith mawr yw hyn, i achwyn am galedwch eich calon, ac etto nid arferwch y moddion iw meddalhau hi? Cwyno o achos grym eich pechodau, ac etto ni ddygwch hwynt at groes Chriſt, i gael eu marweddio au daroſtwng? onid yw hyn yn rhagrith fawr, i redeg at bregeth-wyr ag achwynion yn eich geneuau a dagrau yn eich llygaid, o herwydd cryfder llygredigaeth, ac etto ni arferwch y moddion iw gorchfygu rhagllaw? os nid yw felly, paham y cwynwch? os felly y mae, p'am gan hynny na arferwch y moddion yn ddiwyd ac yn gydwybodol fel y byddo'n well gyda chwi? och! deuwch dygwch eich calon galed at waed Chriſt, ac edrychwch oni feddalha fo hi,

dygwch

dygwch eich llygredigaethau cryfion at y gwaed hwn, ac edrychwch oni wanhycha efe hwynt?

Cweſt. 3. ONID yw hyn i wneuthur yn yſgafn o arwydd yſpyſawl o gariad eich Arglwydd yn marw? pwy neſa'r oedd Chriſt at ei farwolaeth, mwya' bywiol oedd datcuddiadau o'i gariad ef ic'h enaid, ac oni ddeliwch well Sulw arno? mi a debygwn, pan oedd Chriſt i farw, ddywedyd o hono fel hyn wrth ei bobl, chychwi yw y rheini a geráis i, tros y rhai y byddaf farw, chwi 'y'wr rhai y meddyliaf am danoch yn waſtad, ac ym meddyliau'r rhai rwy'n chwennych byw; ac oblegid bod awr fy marwolaeth wedi dyfod, a rhaid imi fynd ymmaith oddiwrthych, am hynny mi a adawaf i chwi goffa 'om marwolaeth a'm cariad, fel cynnifer gwaith, bynnac y gweloch hwn, y cofiech fi; pan y gweloch, yno meddyliwch am danafi; ac a oedd Chriſt yn gofus o'ch daioni ach cyſlur chwi, *yn y nôs honno y bradychwyd ef*, ac a eſceuluſwch chwi hynny fel hyn, Ped fae'ch cyfaill anwylaf carediccaf ar ei weli angeu yn gadel rhyw arwydd o'i gariad, gan ddywedyd, pan weloch hwn, yna meddyliwch am danafi pan fyddwyfi wedi marw; a deflech chwi hwn heibio, heb fyth edrych arno? ydyw ymadroddion eich cyfeillion wrth farw yn gadel argraph dyfn a pharhaus ar eich calon a'ch Meddyliau? ac oni wna geiriau, dymuniadau a gorchymynion eich Arglwydd wrth farw?

Cweſt. 4. ONID yw hyn i ddiyſtyru ſicr drofglwyddiad a ſicrwydd o holl ſendithion yr Efengyl ar doniau a bwrcaſwyd trwy farwolaeth Chriſt? onid fel fawr Duw yw'r ordinhad hon i ſicrhau i'ch enaid y mawr ar tragwyddol ſendithion y cyfammod gras? a fyddech chwi fodlon ar Scrifenniadau

iadau am eich tiroedd ach tai heb Sêl? neu oni ddymunech ddydd-ſelio, ac yn llawen ganddoch pan ddeue, ſel y byddech yn ſiccrach, a'ch hawl yn fwy eglur? ac onid yw Maddeuant o'ch pechodau, ach hawl i deyrnas Dduw yn bethau mwy? a'r ſiccrwydd o'r pethau hyn yn fwy, yn dra mwydymunol? neu a ydych yn ammeu nad 'ynt ganddoch ac etto nid ewch i geiſio eglurdeb o'r pethau hyn? Mae'r Sacrament hwn yn *Arwydd i ddwyn ar gof'* ddioddefaint ein Harglwydd, lle y mynne efe dyſtiolaethu i'ch cyd-wybod, a'ch ſicrhau chwi ei fôd efe wedi marw troſoch: Mae'n *Eglurhâd o'i gariad*, lle y mynne i chwi yn ſiccr wybod, ei fod ef yn eich caru: Mae'r Sacrament, yn *Yſyp ſrwydd blaen-llaw*, o'ch gwyn-fyd tragwyddol ſydd i ddyfod; lle mynne efe eich ſiccrhau y byddech yn ddiammeu yn gyſrannogion o hono, ac etto a eſceuluſwch chwi hyn?

Cweſt. 5. ONID yw hyn yn arwydd rhy eglur o'r ychydig gariad ſy' ganddoch iddo ef? pe carech chwi ef, oni ddymunech chwi fod lle y mae efe yn arferol o rodio? ped fae'ch yn ei garu, oni ewyllyſiech fwyta ac yfed wrth ei fwrdd ef? ie, a gwledda arno ef? a bôd lle caech afael arno ef, ac lle y mae yn ei ddatcuddio ei hun ir nêb ai caro? pe byddech yn newynu ac yn ſychedu am dano ef, oni ddymunech fod lle y caech eich llenwi ach diwallu?

Cweſt. 6. ONID yw hyn yn arwydd rhy eglur, eich bod yn diyſtyru cymmundeb gyda Chriſt? ac nad ydych yn goſod gwerth neu brîs uchel a chyfrif ar gymdeithas gydag ef? neu a ydych yn cwyno nad ydych yn ei gael, ac etto ni ddeuwch lle gallech ei gael?

Cweſt.

Cweſt. 7. ONID yw hyn yn arwydd rhy eglur eich bôd yn cyſrif cyſſuron yr yſpryd a llawenydd cynnes yr yſpryd glan yn bethau bychain? Onid ymma mae Duw yn tywallt ei gariad ynghalonnau'r gwir ffyddloniaid? ac yn eu gyrru hwynt ymmaith a'u calonnau'n llawn llawenydd, a'u geneuau'n llawn o fawl? neu, ydych yn achwyn, nad oes dim cyſſur ganthoch, a'ch bôd yn eſtroniaid i lawenydd yſprydol, as etto ni ddeuwch lle y gallech nid yn unig brofi, ond yſed eich gwala o ffynnon diddanwch?

Cweſt. 8. ONID yw hyn yn triſtau yſpryd Duw, ac yn ei wneuthur ef yn fwy digllon ac anfodlonus wrthych, a chilio ymmaith oddiwrth eich eneidiau? a gymmer Duw hynny yn garedig oddiar eich dwylaw chwi, wedi iddo ladd y lloi paſcedic a pharatoi ei Swpper-priodas, ac anfon ei weiſion allan i'ch galw ac i'ch gwahodd, ac a drowch chwi eich cefn arno? Onid ydych yn ei gyffroi ef i adel eich calonnau i fwy o farweiddra, a gadel i chwi fyned tan driſtau i'ch bedd, heb byth adel i chwi brofi o feluſdra y cyſſuron hyn, hyd oni ddeloch ir nefoedd? neu pa ſodd y cwynwch fod Duw yn cilio oddiwrthych, pan na ddeuwch chwi yn agos atto ef? ei ſod ef yn cilio 'n ôl oddiwrth eich enaid, a chwi yn cilio oddiwrth eich dyledſwydd?

Cweſt. 9. ONID yw hyn yn arwydd rhy eglur, na phroſaſoch o'i feluſdra, pan dderbyniaſoch ef? ach bod heb cael na chyſſur na lleſâd oddiwrtho, gan ddarfod i chwi wedi hynny ei eſceuluſo cyhyd? ydych chwi yn meddwl nad oes i chwi achos i edifarhau am eich derbyniad gynt, gan na adawodd hiraeth awyddus yn eich calon i ddyfod trachefn?

a

a oedd yn boſſibl i chwi gyfarfod a Duw a phroſi o'r Meluſdra ſy' iw gael yngh̃yflawnder Chriſt, ac heb chwennych a hiraethu am y fath odfa trachefn ?

Cweſt. 10. ONID yr ûn fâth a fuaſei i chwi, pe buaſei y cyfryw ordinhâd heb ei apwyntio ? Pa beth yw hi i chwi, oni dderbyniwch hi ? os yw'n Sacrament i eraill, etto nid yw i chwi, os yw yn ſêl i eraill nid ydyw felly i chwi, y rhai ſy'n byw mewn eſceuluſdra o hono. Nid yr Oen oedd y Pâſc, ond yr oen wedi ei ladd, ai roſtio, ai fwyta, oedd y Pâſc. Nage, gadewch imi ddywedyd i chwi, gwell a fuaſei i chwi pe buaſei Chriſt heb ordeinio hwn ; oblegid nid allech y pryd hynny ond bod heb y lleſâd oddiwrtho, ac felly yr ydych y pryd hyn tra o'ch yn ei eſceuluſo : Ond y pryd hynny chwi fuaſech heb y pechod hwnnw ar euogrwydd, yr ydych yn euog o hono trwy ei eſceuluſo.

Cweſt. 11. ONID yw'n anniolchgarwch mawr ynddoch i fyw fal hyn mewn eſceuluſdra a hono ? a ellwch fôd yn ddiolchgar i Griſt am ro'i ſêlau at ei gyfammod, tra byddoch yn eſceuluſo hwn ? a ddarfu i gymmaint o eneidiau fendithio Duw yn ddi-ragrith am yr ordinhâd hon, ac a fyddwch chwi yn euog o'r fath anniolchgarwch mawr.

Cweſt. 12. A wyddoch chwi pa peth a gollaſoch trwy ei eſceuluſo ? ac oni allaſei fod yn llawer gwell gyda chwi yn eich cyflwr yſprydol, pe buaſech ym mynych-ddiſgwyl wrth Dduw yntho ? os oes dim mewn cyfraith nac Efengyl i'ch deffroi yn gyntaf ac ich diddanu wedi hynny, yr ordinhad hon ai gwnaethei. Ymma gallaſech weled

haeddedigaeth

haeddedigaeth y pechod, ar drwg o droſeddu cyfraith Dduw ich deffroi allan o'ch diofalwch yſprydol: ymma y gallaſech gael cyſſur-calon yr Efengyl i ddiddanu ac i fywioccau'ch enaid yn llewygu tan ofnau a dychryniadau'r ddeddf: os oes dim yn nigofaint a chariad Duw i weithio ar eich calon, ymma y gallaſech weled datcuddiad eglur o'r ddau: O ddigofaint Duw yn erbyn pechod ym marwolaeth Chriſt, ac o gariad Duw tuag at bechaduriaid ym marwolaeth Chriſt: Och ni fedrwch adrodd yr hyn a gollaſoch wrth ei eſceuluſo, pa ras a gollaſoch, pa ddiddanwch a llawenydd a gollaſoch, yr hyn a gafodd eraill yn y mynych a chydwybodus arferiad o'r byth-werthfawr ordinhad hon.

PEN. V.

" *Yn cynwys rhai o amheuon Chriſtnogion gweiniaid.*
" *y rhai ſy'n eu rhwyſtro rhag derbyn* Swpper yr
" *Arglwydd gyda dattodiad o'r amheuon hynny.*

A*Mheuaeth.* Chwi a ddywedwch, eich bôd yn ammeu nad oes i chwi ddim hawl i Swpper yr Arglwydd, oblegid ofni'r ydych eich bôd etto mewn cyflwr anianol, a bara'r plant yw'r Sacrament, bara'r bywyd ydyw, ac yn perthyn yn unig ir Chriſtnogion bywiol, yn y rhai mae bywyd gras mewn gwirionedd.

Atteb. 1. NAILL ai mae hyn felly yn wîr, neu nid yw; a bydded yr hyn a fynno, yr ydych yn ddi ammeu yn pechu; os nad ydych yn gymwys, eich pechod chwi yw hynny; os ydych yn eich cyflwr naturiol, eich pechod yw hynny cyſtal ach trueni; ac

ac ni eſceuſoda y naill bechod chwi byth oddiwrth ûn arall, os felly y mae paham nad ydych yn dyfod allan o law i ymorol am Griſt, ac yn ymbaratoi iddo, ac wedi hynny dyfod ir Sacrament?

2. Onid ydych tan gam-gymeriad mawr ynghylch eich cyflwr? oblegid 'rwy'n gobeithio pethau gwell am dánoch, a phethau ynglyn wrth Jechydwriaeth, am hynny 'rwy'n attolwg i chwi yn ofn Duw, ar ôl jawn ymholiad a chwilio'ch eneidiau, attebwch ir Cweſtiwnau hyn.

1. Onid ydych yn eich gweled eich hunain yn hollawl golledig ac wedi darfod am danoch? oni welwch eich trueni allan o Griſt?

2. Onid ydych yn deimladwy o'r pechodau a'ch dygaſant ir cyflwr truenus hwn? onid y baich y mae 'ch enaid yn ocheneidio tano ydyw, ac a chwenychei'n fawr gael eſmwythad oddiwrtho, ie cymmaint ag y mynne dyn claf gael eſmwythad oddiwrth ei gleſyd, neu'r Carchar-wr oddiwrth ei gadwynau; onid yw'n ofid i'ch calon, ddarfod i chwi wneuthur ich pechodau, a phedfa'ent etto iw gwneuthur, trwy ras Duw ni wnaech chwi monynt?

3. Ydych chwi yn arfer yn gydwybodus pa beth bynnac a wyddoch fôd yn ddyledus arnoch iw wneuthur? ac ni feiddiwch ei heſceuluſo pan wyddoch hynny: Ydych chwi yn eich rhoddi eich hunain i weddi a myfyrdod a dyledſwyddau eraill? ac etto ydych yn gweled eu gwagedd a'u annigonoldeb i'ch cyfiawnhau chwi ger bron Duw: Megis na feiddiwch eu heſceuluſo, felly ni

feiddiwch orphwys ynddynt, na phwyſo arnynt, oblegid chwi welwch fod yn rhaid i'ch gweddiau wrth faddeuant, a'ch dagrau gael eu golchi yngwaed Chriſt? am hynny mae'n rhaid i chwi geiſio jechydwriaeth mewn ûn arall, ac nid ynoch eich hunain, am hynny.

4. Onid ydych chwi yn ddiragrith yn hiraethu ar ôl Chriſt, ac yn newynu a ſychedu am dano ef, ai gyfiawnder? Onid ydych yn ewyllyſgar iw dderbyn ef ar ei ammodau ei hun yn Arglwydd a Jachawdwr i chwi? onid ydych yn ewyllyſgar iddo eich Sancteiddio cyſtal a'ch achub? ach dwyn i ufudd-dod cyſtal ag i ogoniant? onid yw Chriſt yn eich barn chwi iw gyfrif uwchlaw pôb peth? a'ch ewyllys chwi yn ei ddewis ef o flaen pôb peth? ac onid yw'ch ſerchau o gariad, a dymuniad a llawenydd wedi eu goſod arno ef? os ydych yn ammeu eich bod heb ei garu ef, etto dywedwch imi a fynnech chwi ei garu ef? os Mynnech yr ydych yn ei garu ef; os ydych yn ammeu eich bôd heb ei dderbyn ef, etto dywedwch imi, ydych chwi yn ewyllyſgar, yn ddi-ragrith yn ewyllyſgar iw dderbyn ef ar ei dermau ei hun, a'i ddewis ef yn dryſſor i chwi, ac yn happuſrwydd i chwi, a'ch llawenydd pennaf? os ydych yn ewyllyſgar felly iw dderbyn ef, yr ydych wedi ei dderbyn ef, ac felly yr ydych wedi 'ch jawn barattoi ir ordinhad hon, ac ni ddylech barhau yn yr eſceuluſdra o honi.

Amm. 2. Chwi a ddywedwch wedi manwl chwilio eich bod yn cael eich hunain yn ewyllyſgar i dderbyn Chriſt ar ryw ammodau, chwi a'i mynnech i fod yn Arglwydd a jachawdwr i chwi; yr ydych yn ewyllyſgar i fod yn eiddo ef, i'ch rheoli

rheoli ganddo, i'ch gwneuthur yn debyg iddo, i gael cymundeb gyd ag ef, ond yr ydych yn ofni nad yw Chriſt yn ewyllyſgar; Yr ydych yn credu y gall efe eich cymmorth a'ch achub chwi, a rhoddi i chwi ras a gogoniant, ond pa ûn ai yw efe yn ewyllyſgar, nis gwyddoch.

Atteb. 1. I chwi fod yn ewyllyſgar, a Chriſt heb fod ſy' beth amhoſſibl: yn gymmaint a bod eich ewyllyſgarwch chwi i dderbyn Chriſt yn ffrwyth o ewyllyſgarwch Chriſt iw roddi ei hun i chwi; yr 'wyf' yn attolwg mynegwch imi, a ydyw gwir ewyllyſgarwch diragrith i fod yn ſanctaidd, i fod yn debyg i Dduw, i gymeryd ym mhob peth ein harwain a'n hyfforddi gan yr yſpryd a gair Duw, yn flodeuyn yn tyfu yngardd natur? Onid gwrthryfel-wr mawr yn erbyn Duw ydyw ewyllys dyn, a gwrthwyneb-wr mawr i waith gras? Onid achwyn Chriſt yn erbyn dynion naturiol ydyw, am *na ddeuant atto ef, fel y gallent trwy hynny gael bywyd? Joan.* 5. 40. *Pa Sawl gwaith y mynnaſwn eich caſglu ynghya, ac nis mynnech: Math.* 23. 37. Rhaid i chwi gan hynny wybod, pan ddaroſtyngir yr ewyllys, fod y gelyn mwyaf yn eich enaid yn erbyn Chriſt a gras wedi ei ddaroſtwng; ac yn wir pan weithier ar yr ewyllys i ddewis Chriſt, i fod yn ewyllyſgar iw dderbyn ef, mae gwaith troedigaeth jachuſol wedi ei weithio yn yr enaid hwnnw.

2. YDYCH chwi yn dywedyd eich bod chwi yn ewyllyſgar, a Chriſt heb fod? eich balchder erchyll ydyw, i chwi feddwl a dywedyd felly Mae'n arferol gyda llawer o eneidiau truein wrth achwyn o'u annheilyngdod a'u gwaeldra, a'u pechodau, ac ſy'n eu ffieiddio eu hunain am eu pe-

chodau, yn y gwaith mawr o ymoſtyngiad, ac etto mae'r balchder melldigedig hwn yn parhau ynddynt, eu bod hwy yn ewyllyſgar, a Chriſt heb fod. Yn wir! oes ganddoch y fath feddyliau da am danoch eich hunain, a'r fath feddyliau iſel a gwael a drwg am Griſt? Onid yw'n falchder ddigon ynthoch, i gynwys gwell tyb am danoch eich hunain nag am eraill o'ch cyd-griſtnogion? ai rhaid ydyw bod gennych well meddyliau am danoch eich hunain nag am eich jachawdwr? neu a ddyw edwch eich bod yn waeth nag eraill, ac etto yn hyn a dderchefwch chwi eich hunain ûwch ben Duw a Jeſu Griſt? Yſgatfydd na chanfuaſoch erioed fod cymmaint o falchder wrth wreiddin y fath feddyliau ac ymadroddion; *ſef, eich bod chwi yn ewyllyſgar, ond nid yw Duw yn ewyllyſgar, nid yw Chriſt yn ewyllyſgar.* Och creadur balch! Pechadur balch! galar-wr balch! Onid yw rhai'n yn feddyliau rhy uchel a balch am danoch eich hunain, i feddwl eich bod chwi yn ewyllyſgarach i dderbyn daioni nag yw Duw iw roddi? i fod yn dda nag yw Duw i'ch gwneuthur chwi felly? ai poſſibl yw, i bechadur, yr hwn wrth natur ſy'n elyn chwerw i ddaioni a ſanctteiddrwydd, fod yn ewyllyſgarach iw wneuthur yn dda a ſanctaidd, nag ydyw Duw, yr hwn wrth natur ſy'n dda a ſanctaidd, a charwr o hono, i wneuthur dynion felly? och, ſyrthiwch ar eich gliniau, a bydded ir dagrau hynny a dywalltaſoch yn galaru eich toſt gyflwr, fod Duw yn anewyllyſgar i fod yn eiddo chwi, pan oeddych chwi yn ewyllyſgar i fod yn eiddo ef, gael eu treulio yn well, yn wylo am falchder eich calon, yn tybied eich bod chwi yn ewyllyſgar i dderbyn Chriſt a gras, ac efe heb fod yn ewyllyſgar iw roddi ei hun, a hyn i chwi.

3. Os

3. Os galle hyn fod; fod ûn enaid yn wir ewyllyſgar i dderbyn Chriſt ar ei dermau ei hun, ac etto bod yn golledig, yna, yn y dydd diweddaf y galle rhai ddadleu, ac apelio i Dduw, a *dywedyd*, " Arglwydd yr oeddwni'n fodlon i fod yn ſanctaidd, ond " nid oedde ti yn fodlon i'm gwneuthur i yn ſanctaidd, yr oeddwn i yn ewyllyſgar ith dderbyn di ar " dy dermau dy hun, ond ni ro'iti dy hunan imi, an " ro'it' ar dy dermau dy hun, ac ni ddamnir fi am " nad oeddwn i yn wir ewyllyſgar i gael fy ſancteiddio a'm hadnewyddu, ond oblegid y mynne Chriſt " fy ngwrthod, a minneu'n ewyllyſgar i ddyfod atto " ef: Ond ni fydd ûn-dyn afeiddia egor ei ſafn yn y modd hyn wrth Griſt yn y dydd diweddaf.

4. Onid hyn a fydd yn eglur, fod Chriſt yn fwy ewyllyſgar na chwi, ynyr hyn y bu efe farw yn fwy ewyllyſgar troſoch chwi, nag y gellwch chwi troſto ef: efe a fu farw yn fwy ewyllyſgar ich gwneuthur chwi yn ſanctaidd, nag y gellwch chwi er mwyn ſancteiddrwydd, neu er ei fwyn ef wedi'ch ſancteiddio; a fu efe farw troſoch chwi i bracaſſu ſancteiddrwydd a gras a gogoniant i chwi, ac etto a dybiwch eich bod chwi yn ewyllyſgar ac nad yw Chriſt? nage, 'r oedd Chriſt yn ewyllyſgarach i farw troſo' chwi, nag ydych chwi i fyw iddo ef; ac etto onid oedd efe yn ewyllyſgar? pan dybygoch nad yw Chriſt yn ewyllyſgar meddyliwch am y Triſtwch, y Cywilydd, y dioddefiadau addioddefodd efe yn ei gorph a'i enaid, y modd y chwyſodd ddefnynnau mawr o waed, ie gwaedodd, a bu farw troſoch; na ddywedwch gan hynny mwyach eich bod chwi yn ewyllyſgar a Chriſt heb fod.

Ammh. 3. Ond chwi a attebwch, os bu farw Chriſt troſoſi, nid amheuwn ei fod efe yn ewyllyſ-

gar iw roddi ei hun a'i ras a'i deirnas imi, ond hynny yw fy ofn, ac ni chefais fodlondeb ynghylch hyn, ac am hynny ni allafi gofio ei farwolaeth ef yn y Sacrament; oblegid ni fedraf weled farw o hono ef trofofi.

Atteb. 1. Os ydych yn ûn o bobl Chriſt yna efe a fu farw trofoch, efe a fu farw i *wared ei bobl oddi wrth eu pechodau*, *Matt.* 1. 21. Ac yr ydych yn ûn o'i bobl ef, os gwnaed chwi yn ewyllyſgar yn nydd ei nerth ef, *Pſal.* 110. 3. *Dy bobl a fyddant ewyllyſgar, yn nydd dy nerth.* Ydych chwi gan hynny ewyllyſgar i ymwrthod a phob peth a wyddoch ei fod yn bechod? ac i wneuthur pob peth a wyddoch ei fod yn ddyledſwydd? i ddwyn pob baich a roddo efe arnoch? i fod yr hyn y mynne efe i chwi fod? yna'r ydych yn ûn o'i bobl ef, a chwi ellwch fod yn ſiccr, farw o hono efe trofo' chwi yn neulltuol.

2. Os ydych yn ûn o gyfeillion Chriſt, yna efe a fu farw trofoch chwi, ai gyfaill ef ydych chwi, os gwnewch gyd-wybod o wneuthur pa beth bynnac a orchmynno efe i chwi, ac yn triſtau lle deloch yn fyrr. *Joan.* 15. 13, 14.

3. Os ydych yn farw i bechod: nid ellwch fod wedi'ch marweiddio i bechod, oni bai Croeſhoelio Chriſt trofoch, ni fuaſei pechod fyth farw ynoch oni bae farw Chriſt trofoch, *Gal.* 6. 14.

4. Os ydych yn byw i Griſt, yna Chriſt a fu farw trofoch chwi, os yw'ch gofal chwi am rodio yn ei ffyrdd ef, i wneuthur ei ewyllys ef, a'i wneuthur ef yn ddiben i chwi, a'i ogoniant ef yn amcan i chwi yn eich holl weithredoedd

a'ch

a'ch holl fywyd, *Gal.* 2. 20, 1 *Pet.* 2. 24. 2 *Cor.* 5. 15.

PEN. VI.

--- *Yr ail Athrawiaeth* ---

" *Mai dyledſwydd diſcyblion Chriſt ydyw cyfrannu* " *yn fynych o Swpper y Arglwydd.*

NID yw'r Bedydd iw finiſtrio neu'i waſanaethu ond ûnwaith ; ond mae Swpper yr Arglwydd iw dderbyn yn fynych, \ nid yw'r mynychdra wedi ei bennu ; rhaid iddo fod yn fynych, pa cyn fynyched ni fynegir ; os caech odfa pob Dydd yr Arglwydd, ac os jawn ddefnyddiech ef, tyfei a chynnyddei'ch enaid yn fwy mewn gras a ſancteiddrwydd : prydau er magwraeth a ddylent fod yn fynych, yr ydych yn bwytta ac yn yfed yn fynych er maeth i natur, ac etto ni fynegir pa cyn fynyched y bydd rhaid i chwi fwytta ac yfed, ond y teimlad o'r eiſieu o'ch ymborth a ddyſc i chwi hyn : felly os ydych yn deimladwy o'ch eiſieu o'r ordinhâd hon, ar pethau a roddir ir ffyddloniaid ynddi, hynny a'ch arweiniai chwi i fynych gyrchu at yr ordinhâd hon. Am hynny yſtyriwch ----.

1. ONID ydych yn fynych yn ſefyll mewn eiſieu o'ch golchi yngwaed Chriſt ? Onid ydych yn eich llygru'ch hunain, ac yn caſclu budreddi ar eich enaid ? ac oni ddyleich yn fynych gyrchu at y ffynnon a agorwyd i'ch glanhau chwi, ſef gwaed Jeſu Griſt ?

2. ONID ydych chwi yn fynych yn tywyllu'ch

ſicrwydd ac yn rhwyſtro'ch heddwch ? ac onid oes arnoch yn fynych angen am arferu'r Sacrament hwnnw, ym mha ûn yr adnewyddei Duw eich Sicrwyd, ac y traethei heddwch i'ch cydwybod ? a ydych yn eich gwneuthur eich hunain yn fynych yn euog, ac oni ddylech ddyfod yn fynych i gael Sêlio'ch pardwn ai ſicrhau i'ch enaid yn gwaed Chriſt ?

3. Onid oes arnoch yn fynych eiſieu moddion cynheſrwydd a bywiocâd yſprydol ? Onid ydych yn fynych yn drwm yn farwaidd ac yn glaiar ? Ac onid oes ar y Sawl ſy'n fynych yn gleifion, eiſieu phyſygwriaeth yn fynych iw glanhau a'u jachau ? ac os cynheſir chwi ryw amſer mewn ordinhad ; onid yw'ch ſerchiadau yn oeri drachefn, ac nid oes gennych y fath fywiogrwydd ſerchiadau a llawenydd adfywiol ag oedd gennych tra'r oeddych yn y ddyledſwydd ? cnid angenrheidiol, ydyw'ch cyngori chwi i fyned yn fynych atti, y rhai a gawſoch leſâd drwy'r ordinhâd hon ? bydded ir teimlad o'r hyn a gawſoch ynddi, a'r eiſieu yr ydych yn gorwedd tano, trwy'r anfynych neſâd atti, fywioccau'ch dymuniadau am ddiſgwyl yn fynych wrth Dduw ynthi.

4. Onid oesarnoch yn fynych eiſieu y fath gymmorth mawr i dori a meddalhau'ch calon, i adnewyddu'ch edifeirwch am bechod, i gryfhau a ſefydlu eich ymroad yn ei erbyn ? onid yw'ch calon yn rhy barod i ſyrthio mewn cariad â phechod, ac i adnewyddu ei hammod â phechod ? onid rheidiol yw i chwi gael eich coffau o anfodlonrwydd Duw yn erbyn pechod, a'i gaſineb ef iddo, ai ffrwythau ai haeddedigaethau ofnadwy ? ac oni wnelr hyn yn fwy amlwg yn Swpper yr Arglwydd ? y mae digllonrwydd

digllonrwydd Duw yn erbyn Pechod yn fwy amlwg ym marwolaeth Chriſt, nac yn troi'r Angylion allan o'r nêf neu Adda allan o baradwys, nac yn niniſtr yr hên fyd nac yn lloſci Sodoma, nac yn damnedigaeth mwrddiwn o anffyddloniaid a'r diedifeiriol.

5. Onid oes arnoch yn fynych eiſieu y fath gymmorth mawr a hwn er mwyn chwanegu 'ch cariad i Dduw a Chriſt? a ydych yn cwyno'n fynych am nad ydych yn caru Duw yn fwy, ac oni arferwch chwi yn fynychach y fath Fôdd mawr a hwn, er chwanegu 'ch cariad?

6. Onid oes arnoch yn fynych eiſieu y fath gymmorth mawr i gryſhau 'ch ffydd a gobaith, fel y galloch yn fwy neilltuol ddwyn Chriſt ai ddoniau adref at eich enaid, a chael gobaith mwy bywiol o deyrnas nefoedd?

7. Onid oes arnoch yn fynych eiſieu y fath gymmorth mawr i'ch coffau o'ch Arglwydd Jeſu? onid ydych yn rhy barod iw anghofio ef a'i gariad yn marw droſoch chwi? ydyw efe cymmaint yn eich meddyliau ag yr haddei? neu, ydyw meddyliau achlyſurol neu weithiau am Griſt yn ddigon? neu oni ddylech gan fyſyri'o myfyrio arno? ac onid yw natur a diben yr ordinhâd hon yn eich arwain a'ch helpu i oſod eich meddyliau yn fwy parhaus arno ef, pan weloch y modd y croeſhoeliwyd ef, ac y bû efe farw troſoch chwi?

8. Onid oes arnoch yn fynych eiſieu y fath help mawr i'ch gwneuthur yn fwy diolchgar am y cariad di-gymar â pha ûn y carodd efe chwi, a'r bendithion di-gyffelyb a bwrcaſſodd efe i chwi ac

a roddes efe i chwi? onid cywilydd a phechod yw, nad ydych yn moliannu Duw yn fwy, ac yn ymlawenychu ynddo ef, am y fath ragorfreintiau a roddir trwy waed ei unig fâb ef a'ch Arglwydd anwylaf chwithau? ac a fedrwch chwi eiſtedd wrth ei fwrdd ef, a'ch eneidiau heb eu derchafu yn y mawrygiad uchaf o'i gariad a'i drugaredd ef tuag attoch chwi?

9. Onid oes arnoch yn fynych eiſieu y fath gymmorth mawr er mwyn cael a chynnal cymundeb cyfagoſach gydâ Dûw, a chymdeithas gydâ Jeſu Griſt? onid ymma y mae Duw yn dra-helaeth yn ei dywallt ei hun allan i galonnau ei bobl? onid ymma y mae'r ffyddloniaid yn egoryd eu calonnau mewn cariad iddo ef, a dymuniadau ar ei ôl ef, a'u hyfrydwch a'u llawenydd ynddo ef? onid ydych yn cwyno fod cyn lleied cydnabyddiaeth rhyngoch a Duw, ac nid ewch yn fynychach lle gallech dderbyn mwy rhinwedd ac hyfrydwch oddiwrtho ef.

10. Onid oes arnoch yn fynychach eiſieu y fath gymmorth mawr er cyd-gyſſylltu'ch calonnau'n agoſoch wrth bobl Dduw mewn mwy o ſerch a chariad iddynt? a ydych chwi yn eu caru hwynt fel y dyleich? neu onte onid oes gormod o ddieithrwch yn eich calonnau a'ch cariad iddynt? neu, onid yw'r ordinhâd hon, yr hon ſy'n dangos i chwi gariad Chriſt iw holl bobl, yn annog y ſawl ſy'n ei harſeru, i ddilyn Chriſt yn eu caru hwynt? nyni a ddylem garu'n gilydd, fel y carodd efe ni; pan welom ein bôd yn ûn Bara, a'n prynu gan yr un Arglwydd, a'n porthi wrth yr ûn Bwrdd, a'n golch yn yr ûn gwaed, ac yn mwynhau yr un rhagorfreintiau, a'n ſiccrhau o'r un etifeddiaeth a gogoniant

goniant, onid yw hyn yn ein rhwymo i ſôd o ûn galon, ac yn garedig i'n gilydd, ſel yr oedd Chriſt ini i gyd? er ei fod yn beth iw alaru gydâ dagrau o waed, fod yr ordinhâd, yr hon a ddylaſe fod i'n rhwymo mewn cariad, ac i aſſio ynghyd ein calonnau, trwy'n llygredigaeth ni a fu'n achlyſur, nid yr Achos o rwygiadau ac ymranniadau mawrion yn eglwys Dduw. Fel hyn os yſtyriwch yn ddifri' eich mynych eiſieu, ac os mynych edrych yn ôl ar eich mynych angenrhaid o'r ordinhâd hon, cewch weled rheſwm digonol am i chwi yn fynych gyfrannu o'r fath fynych angenrheidiol ordinhâd ag ydyw'r Sacrament o Swpper yr Arglwydd.

PEN. VII.

" *Y drydydd Athrawiaeth, yn profi ein bôd ni i roddi*
" *diwydrwydd mawr i'n parattoi'n hunain i dder-*
" *byn Swpper y Arglwydd.*

ATHRAW. Pa bryd bynnag y byddoch i gyfrannu o Swpper yr Arglwydd, chwi ddyleich fod yn boenus ac yn ddifrifol yn ymbarattoi iw dderbyn.

RHAID y'w gwneuthur paratoad am y rheſymau hyn, y rhai os goſodwch at eich calonnau a fyddant yn annogaethau i'ch bywioccau a'ch cynhyrfu ir ddyledſwydd hon.

1. UN rheſwm a gymerir oddiwrth y paratoad yr oeddynt yn arferol o'i wneuthur ir Pâſc tan y gyfraith, 2 *Chron.* 30. 3. Ni allent ei gynnal ef y pryd hwnnw, oblegid nid ym ſancteiddiaſau'r offeiriaid ddigon.

ddigon. Yr oeddynt yn ei oedi dros ychydig amſer, hyd oni wnaent mwy o baratoad iddo: ac wedi eu diwydrwydd yn paratoi, hwy a weddient am faddeuant am eu paratoad amherffaith, 2 *Chron.* 30. 18, 19. Yr Arglwydd daionus a faddeuo i bob ûn, a baratôdd ei galon i geiſio Duw, ſef Arglwydd Dduw ei Dadau, er na llanhawydd ef yn ôl puredigaeth y cyſſegr. Os oedd neb yn aflan, yr oedd efe i aros mîs arall, ac wedi hynny i fwytta, *Num.* 9. 10, 11.

Eu bôd yn ymbaratoi ir Pâſc ymddengys.

1. Oddiwrth y gweithredoed a wnaent o flaen y Pâſc.

2. Eu ymddiddanion a'i Plant o flaen y Pâſc.

3. Yr amſer a gymerent i fynu o flaen y Paſc.

I. Oddiwrth y gweithredoedd o flaen y Paſc.

1. Cyn bwytta O honynt y Paſc, yr oeddynt i lanhau eu dodrefn ty, eu lleſtri oddiwrth bôb bara leſeinllyd, fel na cheid dim ynddynt, nac yn glynu wrthynt. Y cyffelyb yw; cyn ini fwytta ſwpper yr Arglwydd, rhaid ini lanhau'n calonnau a'n buchedd oddiwrth bôb pechod a wyddom oddiwrtho, na chynhwyſom mon'om ein hunain, mewn un anwiredd a wyddom oddiwrtho, na wnawn Drat neu waith o'r Pechod, na fyddwn chwaith yn gaethweiſion i ddiafol, na gweith-wyr am uffern; ni a allwn ddyfod gyda llawer o bechodau gan alaru o'i plegit, ac ym egnio yn eu herbyn ac ochain tanynt, ond nid ag ûn pechod trwy gynhwyſdra a bodlonrwydd yntho.

2. Wedi

2. Wedi hynny gwnaent chwiliad mwy manwl am bob tammaid o fara lefeinllyd trwy oleu canwyll ac edrych ym mhob congl fach a thwll yn ty y nos o flaen y Paſc. Y cyffelyb i hyn, yw, ini chwilio 'n calonnau'n fwy manwl, trwy olen canwyll y gyd-wybod wrth dan gair Duw, ac edrych ym mhob ſtafell a chongl o'n calonnau, rhag bod un-rhyw bechod yn llechu yn ein eneidiau, ac yn aros yn anamlwg: nyni a ddylem ymorol ar ol y pechodau yn ein *dealltwriaeth ewyllys* a Serchiadau, pa beth ſy'ar fai yn ein *cariad hyfrydwch, lawenydd triſtwch*, &c.

3. Ac wedi cael gweddill a briwſion y bara lefeinllyd, hwy ai bwrient allan: fel na pheidient yn unig ai arferu ef, onid iw gael allan o'u golwg, fel na ſydde iddynt edrych arno, nac edrych tuag atto, ond hwy ai lloſcent hyd oni byddei wedi ei ddiſa. Y cyffelyb i hyn, yw, y bwriad ymmaith o'n pechodau wedi ini eu cael allan trwy ddyfal chwilio, nid cael y pechod iw feithrin, ond iw wrthod a'i ladd; nid cael ein calonnau yn hiraethu ar ol ein pechod, pan ddeuom at fwrdd yr Arglwydd.

4. Yr oedd ganddynt ffurf o eiriau i felldithio y bara lefeinllyd hwnnw na fedrent ddyfod o hyd iddo, fel hyn; Yr holl lefain ſy' yn fy meddiant i, " pa un bynnac ai gweledig ai anweledig gennifi, " wedi ei lanhau ai heb ei lanhau gennifi, bydded " yn ddim, cyfrifer ef fel dim; fel llwch y ddaiar " chwaler a difether ef. Y Cyffelyb i hyn, yw, ymwrthod a phob pechod pa un bynnac ai gweledig ai anweledig, yn y modd ymma; " Arglwydd " os oes un pechod ynof yr hwn ar ol fy holl " chwilio o'm calon ni chefais afael arno, bydded

" yn

" yn felldigedig, bydded fel dim, fel llwch y ddai-
" ar; os oes un pechod ynofi heb wneuthur toſter
" ag ef, nid oblegid fy mod yn eigaru mae hyn-
" ny, ond oblegid na fedrais ddyfod o hyd iddo.

II. Ymddengys oddiwrth eu ymddiddan cyn eu dyfod, eu bod yn ymbaratoi iddo, hyn oeddrhwng y tad a'i blant: 1. Y plant a ofynnent, pa waſanaeth yw hwn gennych? yna y rhieni a attebent, Paſc yr Arglwydd ydyw, yr hwn a aeth heibio i dai Meibion Iſrael yn yr Aipht, pan darawodd efe yr *Aiphtiaid*, ac yr achubodd ein tai ni, *Exod.* 12. 26, 27. Yn gyffelyb i hyn y dylai Chriſtnogion ymddiddan, neu ſiarad a hwynt eu hunain mewn hunan-ymreſymiad ſanctaidd, ſef, och, fy enaid beth yw meddwl y gwaſanaeth hwn, y cariad hwn o eiddo Chriſt yn appwyntio 'r ordinhad ſanctaidd hon? pa beth y mae'n ei ddwyn a'r gof iti, oh fy enaid? ac ymma y cewch achos i dderchafu ei rad ras ef ym mrhynedigaeth dyn. " Oh, beth oedd
" meddwl fy anwylaf Arglwydd yn tywallt ei
" waed, ac yn ordeinio hon er coffa am dano! yn
" ddiau oh fy enaid, i'th wared ti oddiwrth dru-
" eni yr oedd, ith wneuthur di yn gyfrannog o'i
" ras a'i gariad, ac iw ſêlio iti, ac i wneuthur iti
" lawenychu yn y coffadwriaeth o hono. 2. Y Plant a ofynnent, paham yr ydym yn ei fwyta gyda dail ſurion? Y Rhieni a attebent, oblegid ir *Aiphtiaid* wheuthur einioes ein tadau yn chwerw yn yr Aipht, fel y bydde hynny iw hannog i fod yn fwy diolchgar i Dduw. Yn gyffelyb i hyn y dylem ni edrych yn ol ar ein pechodau y rhai a wnaethant ein heinioes yn chwerw tra buom ni byw ynddynt, a'r pryd hyn y dylem brofi mwy o chwerwdr yn ein pechodau nag a gawſom erioed o feluſdra, pleſer, ac hyfrydwch ynddynt. 3. Gofynnent,

ſynnent, paham yr ydym yn ei fwyta gyda bara croyw? Y Rhieni a attebent, oblegid ni chafodd toes ein tadau amſer i ſuro. Fel hyn y dylem ninnau bryſſuro at Ghriſt, a bwyta Paſc y Teſtament newydd gyda bara croyw purdeb a gwirionedd; fel na oedom ddyfod allan o'r Aipht yſprydol; na myned at Griſt mewn rhagrith ond mewn gwirionedd.

III. Rheswm arall a gymerir oddiwrth yr Amſer oedd rhwng dal a lladd oen y Paſc; cymmerwyd yr oen ar y degfed dydd, a lleddyd ef ar y pedwaredd dydd ar ddêg o'r mis. *Exod.* 12. 3, 7. Mae traddodiad ymmyſc yr Iddewon, fod yr oen tros y pedwar dydd hynny yn rhwym wrth byſt eu gwelau hwynt, fel y prydnhawn pan aent iw gwelau, ar boreu pan godent, ar dydd pan fyddent o'r neilltu yn eu ſtafelloedd, y byddei'r golwg ar yr oen gynhyrfu eu calonnau, a'u coffau o'r gwaith yr oeddynt iw wneuthur, a meddwl am fawredd trugaredd Dduw tuag attynt, yn eu gwared hwynt oddiwrth gaethiwed yr Aipht. Y cyffelyb i hyn, yw, ar ir ffyddloniaid cyn Swpper yr Arglwydd, gymeryd meſur cymhedrol o amſer, i ragfyfyrio ar gariad Duw, yn eu gwared hwynt oddiwrth bechod ac uffern, yr hyn ſy' lawer gwaeth na chaethiwed yr Aipht, ac iw paratoi eu hunain i gofio marwolaeth Chriſt, ac i fod yn gyfrannogion o'r bendithion mawr a roddir ir gwir ffyddloniaid wrth fwrdd yr Arglwydd. Nid yw'n ddigon treulio awr neu ddwy y nos or blaen, neu'r boreu y bo'ch i gymuno; ond amrai dyddiau or blaen ei gael yn eich meddyliau, fel y meddylioch am fawrder y gwaith yr ydych yn myned yn ei gylch. Mae'r ſiampl hon o'r Iddewon i'n hannog ninnau,

yn

yn gymmaint nad yw Swpper yr Arglwydd ddim llai nac îs na'r Paſc.

1. NAC yn yr Apwyntiad o hono, y Paſc oedd drwy ordeiniad Duw, ac felly mae Swpper yr Arglwydd, ond Duw a appwyntiodd hwnnw trwy Moſes, ond hwn trwy Griſt ei hun, yn ei berſon ei hun.

2. NAC yn yr Arwyddocâd o hono, hwnnw iw coffau hwynt o'u gwaredigaeth o'r Aipht, ac yn yſprydol, oddiwrth uffern: hwn ſy'n ein coffau ni o gariad Chriſt, yn ein dygyd ni allan o drueni, a'n gwared ni oddiwrth boenau llawer jawn gwaeth na chaeth-waſanaeth Aiphtaidd.

3. NID yw Swpper yr Arglwydd ddim llai na'r Pâſc yn y defnydd a'r diben o hono, gan fod hwn yn ſêl y cyfammod gras, i ddwyn droſodd ir ffyddloniaid ſiccrwydd o fendithion cyfammod yr addewid.

4. NAC yn y Modd o'i Arwyddocad, hwnnw yn arwydd o Griſt yr hwn oedd i ddyfod ac i ddioddef, hwn, fod Chriſt wedi dyfod ac wedi dioddef eiſoes. Hwn yw fy rheſwm cynta' paham, a'm annogaeth, ar ini neſſau at Swpper yr Arglwydd, ar ol paratoad dyfal a difrif. Dim paratoad, dim cyfranniad. Nid gwiſco am danom gan hynny ein dillad gwycha' ar ddydd Sacrament, ond trwſio'n calonnau, mae Duw yn i ddiſgwyl oddiar ein dwylaw.

2. RHESWM neu argument am baratoad ir Sacrament a gymerir oddiwrth yr *Awdwr* o hono, yr hwn yw Duw; pa mwya' ŵwchrâdd i chwi yw'r hwn

hwn ſy'n eich gwahodd at ei fwrdd, mwya'r ydych yn ymbaratoi i fyned i eiſtedd wrtho, mwy na phed fae îs-radd, neu gyd-râdd i chwi; mae Duw yn anfeidrol yn uwchradd i chwi; Yſtyriwch beth yw'r Duw hwn ſy'n paratoi 'r wledd hon i chwi a pharatowch iddi. 1. Duw *mawr a galluog* ydyw, Duw o fawrhydi diamgyffred ac o ogoniant trarhagorol perffeithrwydd yr hwn ſy'n anfeidrol uwchlaw cyrrhaeddiad ucha' Angylion a dynion, ac a aech chwi at fwrdd Brenin mawr a dwylaw budron, ac yn eich brattiau? ac a leteſwch chwi fyned at fwrdd Brenin mawr nêf a daiar, â chalon fudr ac yn eich pechodau. 2. Duw *pûr a Sanctaidd* ydyw, yn wîr mae pôb peth ymma yn Sanctaidd, mae'r arwyddion yn arwyddion Sanctaidd, y pethau a arwyddocceir yn bethau Sanctaidd, dibenion yr appwntiad yn ddibenion Sanctaidd, ar Awdwr o hono ydyw'r Duw Sanctaidd: a fydd ein calonnau ni yn unig yn aflan? y pethau oddiallan ar dodreſn yn ei gylch ydynt ac a ddylent fod yn lân; mae'r cwppanau'n lân y lliain yn lân, os amgen anfodlonech, ac oni ddylei 'ch calon chwi fod yn lân? os amgen oni anfodlona'ch Duw? 3. Mae'r *Awdwr* o'r ordinhâd hon yn Dduw o *eiddigedd anfeidrol*, a mwya eiddigus ydyw, yn y pethau a berthyn iw Addoliad: yn yr ail gorchymmyn, yn hwn ſy'n goſod allan y modd o addoli Duw, y mae efe yn ei wneuthur ei hun yn gydnabyddus trwy'r briodoliaeth hon, ei fod yn *Dduw eiddigus*, ac pe enynne ei eiddigedd ef yn eich erbyn wrth ei fwrdd, byddei 'n anghyſſurus a dychrynllyd i chwi. 4. Mae *Awdwr* yr ordinhad hon yn Dduw *oll-wybodus*, ac nid ellir mo'i dwyllo, os bydd ond ûn ymmyſc mîl yn derbyn yn annheilwng, bydd ei lygad eſ arno, gwyr ei henw, a gwel y lle y mae efe yn eiſtedd; mae

Duw yn adnabod tymmer eich calon, gwyr efe eich diben pa'm yr ydych yno, a pha fath oedd eich diwydrwydd cyn eich dyfod, deuwch gan hynny wedi 'ch paratoi.

3. RHESWM am baratoad diwyd, a geſclir oddiwrth *Ddefnydd* y Sacrament hwn: pwy mwya' rhagorol ac ardderchog y byddo peth, gwaetha gwbl yw'r cam-arferiad o hono; os gweinidog a dyrr neu anrheithia ryw leſtr pridd, hawdd ir meiſtr eſguſodi hynny, ond os cymmer efe ei dlyſau ai berlau gwerthfawr, a'u claddu yn y dommen, anhawſach yr heddychir ef, os gwna dyn gam a dyn arall, bydd Dûw yn anfodlon, ond os gwna ûn yn an nhrefnus ai Fab ef, efe a ddigia: os camarferech eich bara cyffredin a'ch diod, yr hyn y mae Duw beunydd yn ei ro'i i chwi ich ymborth a'ch maeth arferol, yr ydych yn pechu yn erbyn eich enaid, ond os halogwch y danteithion yſprydol hyn heb edifeirwch, eich damnedigaeth a drymheir. Yr ydych yn y Sacrament yn ymdrin a gwaed, ar pryd hynny, os byth, y dyleich fod yn ddifrif; ond mwya gwbl, pan ſo'n waed Duw; Yſtyriwch cyn eich myned ma'i gwaed Chriſt yr ydych iw drin, a chynhyrfed hynny chwi i baratoad.

4. RHESWM, am baratoad diwyd, a gymerir oddiwrth y *Subject* neu'r hwn ſy' i fod yn gyfrannog o'r Sacrament: Fel y gellir ein yſtiried ni mewn dau fath o gyflwr, ſef, *Beth oeddem, Beth ydym.*

1. POB dyn a enir yn anghymwys i fwrdd yr Arglwydd: 'r oeddym ni yn elynion i Dduw, am hynny oddi eithr ini ddyfod at Dduw yn ein gelyniaeth, rhaid ini ein paratoi a'n cymhwyſo'n hunain,

hunain, trwy ymgymmodi a Duw: ganwyd ni yn feirw yn yſprydol; ac ni fyddei mor ffiaidd yn ein golwg ni gael corph marw wedi'i oſod wrth ein bwrdd ni i eiſtedd yn llawn doluriau a phlau, ag a fydde i ûn yn farw yn ei bechod, eiſtedd wrth fwrdd yr Arglwydd, yn ffiaidd yngolwg Duw: lle ni b'o bywyd ni fydd chwant, ac lle ni b'o chwant nid oes jawn baratoad ir ddyledſwydd hon.

2. Fe eill y ſawl a ddychwelwyd yn gywir fod yn amharod i Swpper yr Arglwydd, ac am hynny rhaid bod paratoad iddo. Nid pôb ûn fy' a gwir ras ganddo, fy'n ebrwydd iw farnu'n gymwys yn weithredol ir ordinhad hon; dyn a fo'n cyſgu, mae'n wîr ddyn byw, ond etto nid yw'n gymmys i fwytta ac yfed ac i ymddiddan a dynion, felly y geill fod gan ddyn *ffydd*, *cariad*, a *gobaith*, ac etto heb fod yn barod ir Sacrament, os bydd ei ffydd ef, a'i gariad, a'i obaith yn cyſgu: Oblegid y eill derbyniwr teilwng, dderbyn yn annheilwng; hynny yw, ûn a fo'n barod yn yr anſodd neu *Brincipl*, gan fod ynddo ras mewn gwirionedd, a eill dderbyn yn annheilwng am nad yw'n weithredol barod trwy oſod ar waith ac arferu ei raſau; epha cyn gymmaint o amſer fy' raid ei dreulio, newn taer weddi, myfyrdod ſanctaidd, a dyledſwyddau eraill cyn teimlo o honoch weithrediad ffydd, cariad, dymuniad, ac hyfrydwch yn Nuw, cyn y medroch ddwyn eich calon i fod yn ddrylliedig am eich pechod.

5. Rheswm, y dylem ni barattoi ir Sacrament a ymerir oddiwrth y *canlyniadau*, y rhai a fyddant yn ſattebol in paratoad neu'n eſceuluſdra o hono: fel hyn a fydd naill ai'n ddrwg ai'n dda; er nad

yw Duw yn rhoddi y pethau mawrion yn y Sacrament am ein paratoad, etto ni rydd efe monynt heb ein paratoad.

Yn gyntaf. Canlyniadau 'n dyfodiad yn amharod a fyddant yn ofnadwy jawn.

1. MAE'R cyfryw yn erchyll yn chwanegu eu euogrwydd mewn meſur mawr jawn, gan eu gwneuther eu hunain yn euog o gorph a gwaed Chriſt, er nad ydynt yn *weithredol* yn e ro'i i farwolaeth etto maent yn *rhinweddol* yn cyd- ſynio; oblegid mae pôb derbyniwr annheilwng yn llofruddi Griſt; fel yr hwn ſy'n difwyno llun brenin ſy'n diyſtyru ei berſon ef. Y neb a feiddia ruthro ir Sacrament gyda phechod yn rheoli yn e galon, a fydde'n Judas i Griſt, ped fa'e'n berſonaw ar y ddaiar; a chanddo y fath odfa, temptaſiwna ac amgylchiadau ag oedd gan Judas, efe a olche e ddwylaw yngwaed Chriſt ond ni olchei ei galon y y Sacrament. 1 *Cor.* XI. 27. Ac a ddeuwch chw felly i chwanegu'ch pechod, yn lle cael maddeuant hono? ochy fath bechod yn gwaeddi yw bod yn euo o waed er nad yw ond gwaed dyn cyffredin! on beth a fydd bod yn euog o waed Mab Duw? o waeddodd gwaed *Abel* yn erbyn *Cain* am ddial Och y fath lêf a gwaedd, gan hynny a fydd yn waed *Chriſt*! ac a fynnech chwi i waed Chriſt wa ddi yn eich erbyn, yn lle dadleu troſoch? Nag chwi a bechwch yn fwy na llawer o'r *Iddewon*, croeſhoeliaſant ef, am i lawer o honynt wneuth hynny yn ddiarwybod: oblegid pe buaſent yn adnabod ef, *ni chroeſhoeliaſant mo' Arglwydd y g goniant.* 1 *Cor.* 2. 8. Ond yr ydych chwi yn adnabod ef, ac yn cydnabod ei fod ef y fath un, etto chwi a fyddwch yn euog o'i waed ef, yr Idd

won a wnaethant hynny iddo yn ei gyflwr o *Ddaroſtyngiad*, ond chwi yn ei gyflwr o *Ddercha-fiad*. Gwell fuaſei i Judas fod heb ei eni, a gwell a fydde'i chwithau fod byth heb dderbyn.

2. MAE'R cyfryw yntynnu i lawr farnedigaethau mawrion arnynt eu hunain; ac nid rhyfedd yw bod barnedigaethau mawrion yn canlyn euogrwydd a phechod mawr, oblegid Duw a gymmeſura ddioddefiadau yn ôl y pechodau. Y neb a ddelo heb y wiſc briodas am ei enaid, a geiff fyned ymmaith gyda-melldith ar ei ben ai galon. Yſtyriwch, (1.) Mae'r cyfryw yn haeddu poenau tragwyddol a damnedigaeth uffern, 1 *Cor.* xi. 29. *Yr hwn ſy'n bwytta ac yn yfed' yn annheilwng, ſy'n bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun.* Nid i un arall ſy'n cyfrannu gydag ef. *Yn bwytta barnedigaeth*, och, y fath dammaid ofnadwy ydyw Barnedigaeth! ymma gwelwch yr achos pam y mae'r diafol yn goſod ar waith cymmaint o feddwon i fod yn daer am gael y Sacrament, mai fel y b'o iddynt yfed eu damnedigaeth eu hunain: Mae Marwolaeth iddynt yn y cwppan hwn. Y gair cyſtal a droir *Damnedigaeth* mewn lleoedd eraill. *Joa.* 3. 17. 2 *Theſ.* 2. 12. ie, f' eill hyn fod yn gyflwr plentyn i Dduw; ei fod yn *haeddu* damnedigaeth er (trwy edifeirwch) ni chondemnir mono; Damnedigaeth ydyw haeddedigaeth y pechod hwn, er na fydd yn rhan ir pechadur a ddygir i edifeirwch am ei bechod, ſe all Duw yrru rhagrithiwr oddiwrth ei fwrdd i boenau. Yr un môr côch a fu'n jechydwriaeth i'r Iſraeliaid a fu'n farwolaeth a diniſter ir Aiphtiaid. Yn *Bwytta Barnedigaeth* och y fath ir dychrynllyd ydyw *Damnedigaeth*! a hynny pan ddeuo un i gyfrannu o jachawdwr. Edrychwch eth a wneloch pan dderbynioch; Nid yw Dam-

nedigaeth waith i chwaru ag ef, na'r Sacrament yn waith i ofera wrtho. Bwyttaodd Adda ei farwolaeth, felly y gellwch chwithau eich damnedigaeth eich hunain. (2.) Mae'r cyfryw yn annog Duw i ro'i arnynt lawer gwaith goſbedigaethau trymion ac ofnadwy yn y bywyd hwn: felly er na yrr Duw Gredadyn i uffern am ei bechod hwn, etto geill ei yrru ef iw ſedd am y pechod ymma: 1 *Cor.* xi. 30. *Oblegid hyn y mae llawer yn weiniaid, ac yn lleſc yn eich myſc a llawer yn huno.* Meddylir, anſon o Dduw bla ymhlith y Corinthiaid am halogi Swpper yr Arglwydd; nid yw pobl arferol yn eu clefyd o edrych yn ôl ar eu derbyniad annheilwng yn achos o hono: ond dywedant, yr amſer ar amſer, y tywymnais ormod, a chefais yr anwyd, ac felly y daeth fy nghlefyd; ond nid, mi a aethym at fwrdd yr Arglwydd yn fy mhechod, neu heb baratoad jawn, ac felly y daeth fy nghlefyd: ped fae'r derbynwyr annheilwng heb ddim cariad iw heneidiau, etto er mwyn y ſerch ſy' ganthynt iw ceirph, hwy a ddylent ochelyd dyfod ir Sacrament yn amharod: os ni ddychryna damnedigaeth ac uffern mo'nynt rhag dyfod yn amharchus i fwrdd yr Arglwydd, oblegit fod y rheini ymmhell megis allan o'u golwg hwynt, etto mi a dybygwn y dyle angeu ar bedd ſy'n olygyn nês iddynt, eu dychrynu. O mor ofalus y dylem fod i ymbarattoi i dderbyn, yr hyn heb ein paratoad ni, a alle fod yn farwolaeth i'n cyrph a damnedigaeth i'n eneidiau. (3.) Mae'r cyfryw yn annog Duw i gymeryd ymmaith yr ordinhad hon oddiwrthynt, f' eill pobl Dduw ei hun, trwy gamarfer y rhagorfraint hon golli'r odfa i neſſau atti; megis Tad pan welo ei blant yn cam-arfer eu hymborth, geilw ei weinidogion iw gymmeryd ymmaith ac iw ro'i i gadw hyd oni phriſiant ef yn fwy ai arferu'n well.

Yn

Yn ail. Y canlyniadau da y'nt yn fawr jawn, os jawn dderbyniwch y Sacrament gyda pharatoad a gofal; ai nid hynny yw'ch diben yn dyfod atto, fel y byddech well o'i blegid? Y ſawl nid yw'n bwriadu ei fudd yſprydol, mewn trefn i, ac yn gyttun gyda gogoniant Duw, mae hwnnw yn dyfod ni wyr pam: a dyfod am hyn heb baratoad ydyw gwahanu rhwng y diben ar moddion. Yſtyria.

1. Y ſawl a ddeuant mewn modd jawn a dderbyniant fwy oddiwrth Dduw pan ddelont: amſer paratoad ydyw'ch amſer *hau*, pan ddyleich hau mewn dagrau; ac amſer derbyn y cymmun ydyw'ch amſer *medi*, ar neb a baratoa yn eſceulus a fêd yn brin, ar nêb a baratoa'n ofalus a fêd yn helaeth. Oblegid *(1.)* y cyfryw a dderbyniant fwy o ras oddiwrth Ddùw, hwy a ddeuant ymmaith gyda mwy o gariad i Dduw, mwy o hiraeth ar ôl Duw, gyda mwy o ffydd ynghriſt a chaſineb iw pechodau. *(2.)* Y cyfryw a dderbyniant mwy o *gyſſur*, *heddwch*, a *llawenydd* yn yr yſpryd glan; os chwi a driſtewch ac a wylwch cyn eich myned, cewch ddyfod ymmaith a'ch calon yn llawn o lawenydd, a'ch genau yn llawn o fawl. Pan fuoch yn ffurfiol a chlaiar yn eich paratoad, bu'ch calon yn drwm ac yn farwaidd wrth, ac ar ôl i chwi dderbyn; ond pan oedd yn fywiog ac yn ofalus, traethodd Duw heddwch i'ch cydwybod, ac a'ch ſicrhaodd o faddeuant eich pechodau, ac a'ch anfonodd oddi wrth ei fwrdd ef, at eich eiddo'ch hun gyda chalon lawen a Wyneb-pryd ſiriol.

2. Bydd y cyfryw yn fwy cymeradwy a mwy o groeſaw iddynt at Dduw: yr hyn a wnaethoch yn jawn efe ai derbyn yn raſol, ac yn yr hyn y

buoch yn ddeffygiol, efe ai maddeu'n rhad, yna y Tad ar Mab a'r yſpryd glan a ddywed croeſaw wrthych, ar ôl eich bod yn wylo ac yn galaru yn y dirgel am eich pechod trwy ba un y croeſhoeliaſoch Arglwydd y bywyd, ar ôl eich bod yn creſa wrth orſeddfainc gras, *Arglwydd, dyro imi chwant yſprydol ar ôl yr ymberth nefol hwn*: Arglwydd dyro imi nerth yn erbyn fy malchder a'm ffromder am ſynied o bethau daiarol; ar ôl eich bod yn chwilio pob congl o'ch calon, fel y caffech allan bob *Achan* ſy', yn eich enaid: "Duw a ddywed, "dymma enaid a gymmerodd boen gydag ef ei "hun yn y dirgel, ac a lefodd arnafi i dderbyn "yn raſol ei berſon ai ddyledſwyddau; ac yn awr "ceiff wybod fod iddo groeſaw, oblegid mi a "anfonaf fy yſpryd iw gyſſuro ef, mi a roddaf "iddo fy ngras ac ai bywhaf ef, mi a roddaf iddo "fy mab, ac ai bodlonaf ef. Oh bydd hyfryd gael Duw i wenu arnoch wrth ei fwrdd: ond iw gael ef yn cychio pan fyddech yno a fydde'n anghyſſurus, ac iw gael ef i gilio oddi wrthych a wna 'ch dyledſwydd chwi yn anfuddiol. A fedrech chwi gymeryd hyfrydwch wrth fwrdd un os cychie arnoch am bob tammaid a fwyttaech? ac oni fydd yn waeth pan gymeroch y *Bara*, y pryd hynny i gael Duw i gychio? a phan gymeroch y *cwppan*, yr amſer hwnnw cael Duw i gychio a dywedyd, *Y cyfaill pa fadd y daethoſt ti i fewn ymma*, ymmyſc fy mhlant i a thi heb y wiſc briodas? neu os oes gennych ras, etto ni Cheiſiaſoch trwy baratoad poenus ei dynnu allan ir weithred ar arfer.

6. *Rheſwm*. Mae Duw yn gwneuthur paratoad mawr ini yn yr ordinhad hon, am hynny y dylem ninnau wneuthur paratoad mawr pan ddelom i gyfrannu

gyfrannu o honi, ac oni ymbaratown ni i dderbyn, yr hyn y mae Duw yn ei baratoi iw roddi? ydyw'r Duw mawr yn gwneuthur paratoad i groesawu pechaduriaid truein wrth ei fwrdd, ac a ruthrwn ni yn ammharod ac yn amharchus etto, *Math.* 22. 4. *Dywedwch wrth y rhai a wahoddwyd wele paratoais fy nghinio, fy ychen a'm paſcedigion a laddwyd a phob peth ſydd barod*; Oh'r fath eiriau hyfryd yw'r rhain! Oh na byddent hyfryd i'm henaid! Oh fel y mae'r pethau hyn a baratowyd yn llonni! ac mor felus ydyw gwahoddiad Duw i ni i ddyfod ac i cyfrannu o honynt; gallaſei *cyfiawnder* baratoi poenau ini, ond wele *trugaredd* a baratôdd ragorfreintiau gwerthfawr ini! Oh pa bethau mawrion oeddynt iw gwneuthur, fel y byddei ir Swpper hwn fod yn barod ini! rhaid oedd i Fab Duw ddeſcyn o'r nefoedd ir ddaiar, a'i wneuthur yn Fab dyn, rhaid oedd iddo ddioddef a gwaedu a marw, a chael llifo ei wiſcoedd mewn gwaed, fel y byddei'r ordinhad hon yn barod ir ffyddloniaid. Heb law hynny, mae ymma bethau mawrion yn barod iw rhoddi ir cyfryw a ymbaratoant yn jawn i ddyfod atti; mae ymma faddeuant pechod wedi ei barattoi i chwi; mae ymma heddwch a chyſſur yn barod i chwi; mae ymma ychwaneg o ras wedi ei baratoi i chwi: ond p'le mae'ch paratoad chwi iw derbyn hwynt? dymma *haeddedigaeth* yn barod i'ch cyfiawnhau chwi; dymma *waed* yn barod i'ch golchi a'ch ſancteiddio chwi; dymma *gyfiawnder* yn barod iw gyfrif i chwi: ond ydyw'ch ffydd chwi yn barod i dderbyn y pethau hyn? ydyw'ch cariad chwi'n barod iw oſod ar waith tuag at y Duw hwn a'u gwnaeth hwynt yn barod i chwi? ydyw'ch calon yn barod i roddi diolch a mawl i'r Duw hwn, 'r hwn a rydd y pethau hyn i chwi? " Neu a roddwch chwi achos i'ch Duw i

" achwyn

" achwyn arnoch, ac i ddywedyd, yr 'wyfi 'n ba-
" rod i ro'i cynnydd o ras ir credadyn accw, ond
" nid yw efe 'n barod iw dderbyn; ni ehangodd
" mo'i galon drwy newynu a ſychedu am ras;
" rwyfi 'n barod i roddi iddo heddwch a didda-
" nwch, pan f'o ar ei enaid eiſieu heddwch a didd-
" anwch, ond etto nid yw efe'n barod iw der-
" byn. Ond os deuwch yn eich pechodau pethau mawrion ac ofnadwy a baratoir i chwi; achwyn trwm a dynnir yn eich erbyn am eich bod yn camarfer gwaed Chriſt, am eich bod yn croeſhoelio'r Arglwydd o newydd; ac y mae'r *gydwybod* yn barod i'ch cyhuddo, y *Ddeddf* ar *Efengyl* yn barod i'ch condemnio, *Diafol* yn barod i gymeryd gafael arnoch, *Angeu* a *Barn* yn barod i ſyrthio arnoch, ac *ûffern* yn barod i'ch poeni, a hyn ſy' ddychrynllyd:

7. *Rheſwm*: Mae Duw'n edrych am groeſaw mawr yn ein calonnau ac oddiar ein dwylaw, ac am hynny y dylem baratoi, mae Duw yn eich croeſawu chwi at ei *fwrdd* ef, a rhaid i chwi groeſawu Duw i'ch *calon* chwithau, ac y mae'r ddau yn goſyn paratoad. Pan ddiſgwilioch ryw' wr bonheddig mawr i ddyfod i'ch ty, pa baratoad a wnewch iddo? glanheir eich ty, eich dodrefn goreu a ddygir allan, a bydd eich holl weinidogion yn barod iw waſanaethu ef: pan ddeuoch at y Sacrament, mae'r Duw mawr i ddyfod i'ch calon, am hynny goſodwch yn agored *byrth tragwyddol eich enaid, fely byddo i frenin y gogoniant ddyfod i mewn*; a bydded pob ſtafell yn eich calon wedi'i golchi a'i glanhau, a'i chrogi a llenni ac a gwaith edef a nodwydd yr yſpryd; a bydded holl gynheddfau'ch enaid a'r graſau yn eich calon yn barod iw waſanaethu ef; derbynied cariad ef golyged ffydd

ef,

ef, a chadwed eich enaid gymdeithas a chymundeb gydag ef,

8. *Rhefwm*: " MAE'R amryw ddyledfwyddau " fy' ymma iw gwneuthur mewn trefn, a'r amryw " rafau fy' ymma iw harferu, yn galw am bara- " toad dyfal. Pe bae'ch i wneuthur un o'r dyled- fwyddau hynny yn neilltuol, fy' ymma iw cyd- wneuthur, eich dyled ydyw paratoi i bob un o honynt; rhaid i chwi ymma weithiau *weddio* atto ef, weithiau ei *foliannu* ef, weithiau *clywed oddi- wrtho* ef, ac ymma'r ydych weithiau i *fyfyrio* arno ef, ac ar y gwaith mawr o brynedigaeth dyn; ac oni pharatowch chwi ir holl ddyledfwyddau hyn, y rhai ydynt mor galed ac anhawdd iw jawn wneuthur? ymma y mae'ch calon iw dryllio ac iw rhwymo i fynu, mae'n rhaid bod gan eich enaid ymma gymyfciad o lawenydd a thriftwch; *triftwch* am i chwi bechu, a thrwy'ch pechodau dynnu'r holl driftwch hwn ar dioddefiadau ar eich Arglwydd: *Llawenydd* am i'ch Harglwydd ddioddef a marw tros eich pechodau; ymma yr ydych iw *garu* ef, ac i *gafau* 'ch pechodau; ymma yr ydych iw ddefbyn ef, ac iw gymhwyfo ef a'i holl ragorfrein- tiau at eich enaid. Ac onid iw'r fath bethau mawrion a hyn yn gofyn eich paratoad mwyaf chwi?

PEN

PEN. VIII.

" *Yn cynwys amryw o Gweſtiwnau i'n hannog ni* " *i fwy o ddiwydrwydd yn ein paratoad ir Sacra-* " *ment.*

OND oblegit fod ein calonnau yn rhy barod i wneuthur y gwaith mwya' yn ddiofal, ac lle y dyle fod y gofal ar diwydrwydd mwya mi a chwanegaf ychydig bethau iw hyſtyried, a da y gwnaech gymmell eich calon a'r pethau hyn, pa bryd bynnac yr eloch at yr ordinhad hon ; yn ofn Duw 'rwy'n attolwg i chwi atteb i'r gofyniadau hyn ſy'n canlyn.

Gofyn. 1. BETH ped fa'ech i farw heddyw, pa baratoad a wnaech y pryd hynny ? yr ûn-rhyw ſydd i chwi iw wneuthur pan fyddoch i dderbyn Swpper yr Arglwydd.

DAU beth yn enwedigol a ddyle dyn eu ceiſio cyn ei farw, ac yſtyriwch pa mor angenrheidiol ydyw'r ddau erbyn marwolaeth dyn, mor angenrheidiol a hynny ydyw 'r ddau erbyn Swpper yr Arglwydd.

1. MAE'N angenrheidiol i ddyn cyn ei farw geiſio gwir ras, bod ganddo wîr *gariad* i Dduw, *ffydd* ynghriſt, a *heddwch* a Duw trwy Griſt, ac heb hyn ni all dyn farw'n ddedwydd ; mae hyn mor angenrheidiol i ddyn a ddeue ar Swpper yr Arglwydd, ar iddo garu Duw, ar iddo wîr gredu, a chaſau ei bechodau, onid ê nid eill dderbyn yn deilwng. Gwae'r dyn a elo iw fedd cyn ei droi at Dduw,

Dduw, a gwae'r dyn hwnnw a ddelo ir Sacrament cyn ei ail eni..

2. Mae'n angenrhaid i ddyn cyn iddo farw i geiſio rhyw arwyddion o'i ras, ac y mae hyn yn angenrheidiol fel y bydde iddo farw yn fwy cyſſurus, gall fod gan ddyn ras, ac felly wedi ei wared oddiwrth niwed angeu; ond oni fydd ganddo ryw arwyddion ſicer o'r gras hwn, efe a fydd tan ofnau angeu felly dyn cyn ei fyned at fwrdd yr Arglwydd a ddylei geiſio gwybodaeth, golwg ac eglurdeb o'i hawl ynghriſt, ac y mae hynny yn angenrheidiol iddo iw dderbyniad mwy cyſſurus, heb pa ûn er y gall dderbyn yn deilwng, etto ni fydd heb rai ammheuon, efe a ddywed, 'rwy'n ofni na fu Chriſt farw troſofi, 'rwy'n ofni na thywalltwyd mor gwaed hwn troſofi; 'rwy'n ofni nad ydwyf' yn caru Duw; ac felly a gyll y llawenydd a'r cyſſuron rheini a fuaſent yn dyfod i mewn trwy wneuthur cymhwyſiad neilltuol o Griſt atto ei hun; os gall ddywedyd, dyma *waed*, ac fo'i tywalltwyd troſofi; dymma *gyfiawnder* ac fo'i cyfrifir i mi: 'rwy'n tybied nad yw'r dyn hwnnw'n gymwys i farw, nad yw gymwys i dderbyn y Sacrament; dylei dyn eiſtedd i lawr wrth fwrdd yr Arglwydd gyda chymmaint o ofal ag y gorweddei i lawr yn ei fedd, a bod mor ddifrif am ei enaid wrth yr ordinhad hon, megis y gwnae ar ei weli angeu; chwi a ddyleich fyned mor ofalus at fwrdd yr Arglwydd, megis pe ba'ech i fyned i fyd arall. Ond ydych chwi yn gwneuthur felly? mynegwch imi; pe buaſech i farw y dydd hwnnw yr oeddych yn dyfod i dderbyn, oni buaſech yn gweddio mwy nac a ddarfu i chwi, oni thywalltaſech fwy o ddagrau am eich pechodau? oni buaſei mwy o'ch ocheneidiau yn trywanu 'r nefoedd, ac yn cyrhaeddyd

ddyd cluſtiau Duw? oni chwiliaſech eich calon yn ſwy manwl? ac oni farnaſech eich hunain yn ſwy di-duedd? ach daroſtwng eich hunain yn ſwy? " Oni ddywedaſech, os ydwyf yn cam-gym-" meryd ynghylch y gwirionedd o ras, a minneu'n " awr i farw, 'rwy'n golledig yn dragywydd? ac " oni ddywedwch, os 'wyf yn cam-gymeryd " ynghylch y gwirionedd o ras, a minneu'n awr " i eiſtedd i lawr wrth fwrdd yr Arglwydd, heb " fy edifeirwch diſrif, darfu am danaf yn dragy-" wydd? ac yn lle cael maddeuant o'm pechod " wedi i ſelio i'm henaid, trwy fy mynediad an-" nheilwng, 'rwy'n rhwymo euogrwydd fy holl " bechodau gynt ar fy enaid, fel ped na buaſei y " lleill yn faich digon o faint, mi a chwanegais " hwn at y lleill i gyd, trwy fyng wneuthur fy " hun yn euog a waed Chriſt. Ond fel y derby-nioch gyd ar ûn difrifwch, a phe byddech i farw, gofynwch i'chwi'ch hunain y tri chweſtiwn hyn.

1. Pa bechod a rwyſtrei ſwya' heddwch fy nghyd-wybod i, pe byddwn i farw heddyw? a galaiwch ſwya' am y pechod hwnnw wrth fwrdd yr Arg-wydd; pa bechod a wnaei chwi fwya ofni marw, ac a fydde'n flinder i'ch enaid wrth ymadel a'r byd? ai'ch balchder neu ffromder, neu'ch gormod chwant ir byd? ai'ch eſceuluſdra o ddyledſwydd ddirgel, neu'r cyflawniad diofal o honi? am na fuoch yn fwy taer mewn gweddi? neu a fydde ob-legid anghofio o honoch yr Arglwydd cyhyd, ac eſceuluſo o honoch eich enaid gwerthfawr cyhyd? am na wnaethoch fwy tros Dduw, am na ddarfu i chwi fyw mwy iddo ef? am fod cymmaint o'ch amſer gwerthfawr wedi darfod, a chyn lleied o'r gwaith angenrheidiol wedi ei wneuthur? bydded hynny yn achos o flinder yn eich calon, ac yn

cyrch-

cyrchu dagrau o'ch llygaid pan fo'ch wrth fwrdd yr Arglwydd.

2. Pa drugaredd a ddymunech gan Dduw, pe byddech y pryd hynny i farw? Oh! taer-geisiwch y drugaredd honno, pan gymmunoch; pedfa'ech i farw, ai am olud, neu am anrhydedd y gofynnech, neu am bethau mawrion y byd hwn? Oh! ni chymhwyseir rhai'n monoch erbyn marwolaeth; neu onte oni fyddei y gwirionedd o ras, ffafor Duw, sicrwydd o'i gariad ef, a hawl ynghrist, a'i addewidion, a'i ragor-freintiau, a siccrwydd o'ch hawl iw deyrnas ef? oni ddymunech y pryd hynny, fel hyn; Oh! "na faddeue Duw imi, a dywedyd "wrthyf' ei fod wedi maddeu imi, oh na ba'e'n awr "yn eiddo fi, a'm perchenogi yn eiddo ef, onid y rhai'n a fydde'ch dymuniadau pe byddech i farw? dymunwch yr ûn pethau pan fyddoch i dderbyn Swpper yr Arglwydd; a ewch chwi yno gyda dymuniadau ar ol cyfoeth a phethau amserol? neu gyda dymuniad ar i eraill feddwl yn dda o honoch, a'ch cyfrif megis Christion, er nas gwaeth gennych am fod felly? ni chymhwysai'r pethau hyn monoch i dderbyn, mwy nag i farw: pe ba'ech i farw a ewyllysiech eich cyfrif yn dduwiol, yn hytrach na bod felly mewn gwirionedd? beth pe tybie un eich bod yn marw a gras yn eich calon, a chwithau nid ydych felly? ac beth pe tybieu eraill eich bod yn derbyn y Sacrament, a gras yn eich calon a chwitheu heb ras? ni wnae'r un o'r rhain wîr lesad i chwi, gofynnwch gan hynny'r un pethau, pan dderbynioch ag a wnaech pe byddech i farw.

3. Pa drugaredd yn enwedigol y bendithiech Dduw am dani pe byddech i farw? rhoddwch ddi-

olch

olch i Ddûw am y drugaredd hono pan *ddeerbyni-och*: pe byddech i farw, ai am eich gwneuthur yn gyfoethog ac yn fawr yn y byd y bendithiech Dduw yn bennaf? ynte am eich gwneuthur yn wîr ddâ a ſanctaidd tuag at Dduw? oni fendithiech Dduw am Griſt ar eich gweli angeu, am faddeuant o'ch pechodau, ac am y gobaith ſy' gennych o wyn-fyd tragwyddol? diolchwch i Dduw am y pethau hyn, gyda chymmaint o wirionedd wrth fwrdd yr Arglwydd, a phed fa'ech yn myned o weli angeu at ſrawdle Dûw.

Gofyn. 2. BETH ped fa'e Chriſt yn berſonol ac yn rho'i 'r Sacrament i chwi ai ddwylaw ei hun, pa baratoad a wnaech chwi y pryd hynny? pe byddei Chriſt eich Arglwydd a'ch Athro y pryd hyn ar y ddaiar ac i eiſtedd gyda chwi wrth y bwrdd, pa ofal a gymerech i geiſio'ch calon mewn trefn ſanctaidd? pe buaſei Chriſt gyda chwi yn eich ſtafell pan oeddech ar eich gliniau oni weddiaſech yn fwy dygyn ac oni wylaſech yn helaethach nag y gwnaethoch? pe buaſei Chriſt gyda chwi y nos o'r blaen, ac yn eich gweled yn edrych mwy yn eich llyfr marchnatty, nac yn llyfr Duw a llyfr eich calon, ac yn eich gweled yn troi troſodd ddalennau'ch llyfrau o gyfrifon, ac nid rhôl eich bywyd; a bod gyda chwi pan yr oeddych yn bryſſurach yn glanhau'ch ty, na'ch calon, oni wridaſech i edrych yn ei wyneb ef wrth ei fwrdd? 'roedd Chriſt yn wîr gyda chwi fel y mae'n Dduw, pan oeddych yn paratoi 'ch calon; ac a gymmerodd wybodaeth hynod o'ch diwydrwydd neu'ch diofalwch yn y gwaith hwnnw. Mae efe gyda chwi y boreu cyn eich myned, mae efe yn gwybod yr amſer yr ydych yn codi, pa amſer yr ydych yn e dreulio, pa boen yr ydych yn ei gymmeryd mewn trefn

trefn ir ddyledſwydd hon: ac er bod y rhai ſy'n gwaſanaethu'r ordinhad hon i chwi yn enw a lle Chriſt, yn ddynion gwael marwol pechadurus, etto mae efe'n diſgwyl i chwi ſod mor ddifrifol a phed fa'e efe ei hun yn weledig yn breſennol; oblegid megis ag y mae efe yn Dduw, y mae yn wîr breſennol: ac oni pherchwch ac arſwydwch Griſt fel *Duw*, cymmaint ag y gwnaech fel y mae'n *ddyn*. Mae meiſtr y wledd, yn dyfod yn ſiccr i gymmeryd golwg o'i wahoddedigon, ac os bydd ûn rhagrith-wr ymmyſc mîl o ffyddloniaid efe ai hedwyn wrth ei henw ac a edrych arno'n graff " gan ddywedyd, y cyfaill pa fodd y daethoſt i " ymma ymmyſc ſy' mhobl i, pan nad oes gennyt " y cariad hynny imi, megis y mae ganddynt hwy, " ac ni chymeraiſt y boen hynny ith baratoi dy " hun ag a gymeraſant hwy? *Mat.* 22. 11, 12, 13. efe a ddywedodd dymma'r Judas a'm bradycha i; ac efe a ddywed dymma'r dyn ſy'n halogi fy mwrdd i: dyma'r ddynes a gamarferodd fy ngwaed i, meddyliwch am hyn pan fo'ch i ddyfod at y ddyledſwydd hon, ar anrhydedd hwn, i fod yn ûn o'r gwahoddedigion wrth y bwrdd hwn o eiddo'r Arglwydd.

Gofyn. 3. Beth pe gwelech Dduw yn taro'n farw bob derbyniwr annheilwng yn y fan ar bara yn ei ſafn, neu ar cwppan yn ei law, pa fath baratoad a wnaech y pryd hynny? neu pe rho'e Duw ryw glefyd blin a phoenus ar bob un ſy'n dyfod yn amharod, mor ofalus a fyddech y pryd hynny? pe dywedei Duw wrth angeu, fel y dywedodd *Abſolom* wrth ei weiſion ynghylch *Amnon*, 2 *Sam.* 13. " 28. Ac Abſolom a orchmynnodd iw langciau, " gan ddywedyd, edrychwch attolwg pan fyddo " llawen calon Amnon gan wîn, a phan ddywed-

" wyf wrthych, tarewch Amnon, yna lleddwch
" ef nac ofnwch, oni orchmynnais i chwi? beth
" pe dywedei Duw wrth Angeu; *pan fo'y cyfryw ûn yn derbyn y gwîn Sacramentaidd rwy'n dywedyd wrthyti, taro ef, yna lladd ef nac ofn, myfi a orchmynnais it'*: pe gwnae Duw a chwi fel y gwnaeth ar *Iſraeliaid, Pſal.* 78. 30, 31. *Ni ommeddwyd hwynt o'r hyn a flyſiaſant, er hynny tra'r ydoedd eu bwyd yn eu ſafnau digllonedd Duw a gynneuodd yn eu herbyn hwynt, ac a laddodd y rhai braſaf o honynt.* Yn ddiammeu bydde'n olwg ofnadwy i weled derbyniwr annheilwng yn myned i lawr iw fêdd ac i uffern ar Sacrament yn ei ſafn; neu beth pe gwnae Duw, megis ar achos arall. *Job* 20. 23. *Pan fyddo efe ar fedr llenwi ei fol, Duw a ddenfyn arno angerdd ei ddigofaint, ac ai glawia hi arno ef ym myſc ei fwyd.* Pa fodd y dewech chwi y pryd hynny? neu beth os fyrthiech i lawr wrth draed y gweinidog, megis *Ananias a Saphira wrth draed yr Apoſtolion*, os meiddiech ddyfod yn annheilwng; pa ofal gan hynny a ddylaech ei gymeryd? ni wyddoch chwi nad eill Duw wneuthur felly, ac enbydus jawn yw anturio ar y prawf o hynny, bu derbyniad annheilwng yn farwolaeth a damnedigaeth i lawr a ddaethant yn ammharod, am hynny gochelwch chwi ddyfod yn amharod.

Gofn. 4. Beth pe galle dynion edrych i'ch calonnau, a gweled agwedd a thymmer eich enaid, pa baratoad a wnaech y pryd hynny? ped fa'e'n gydnabyddus i'r weinidog, ac ir holl dderbynwyr, pa amſer a dreuliaſoch yn y dirgel, mewn gweddi a hunan-ymholiad, oni threuliech fwy o amſer nac yr ydych yr awrhon? onite gwnae llawer, lai o gyfrif o'ch duwioldeb nac y maent yn awr. Pe fataſei un duwiol (heb wybod i chwi) wrth ddrws eich

eich ſtafell, a'ch clywed yn gweddio mor glaiar ag y gwnaethoch, oni wridaſech iddo ef eich gweled chwi wrth y Sacrament ; ac y mae hyn oll yn gydnabyddus i Dduw, ac oni ddylei llygad a gwybodaeth Duw weithio mwy arnoch, na phe galle holl ddynion y byd adnabod a gweled eich calonnau? mae efe'n gweled eich *Principl* a'ch *diben* chwi yn fwy eglur. nac y geill dynion, pe byddei 'ch dwyfron oll yn wydr gloyw.

Gofyn. 5. BETH ped ſa'e hon yn odſa ddiweddaf a ga'ech chwi byth i fod wrth fwrdd Duw, pa baratoad a wnaech chwi y pryd hynny, ped ſa'ech i wneuthur rhyw beth o bwys mawr, ag ni chaech byth ei wneuthur trachefn? pe galwei Duw o'r nefoedd arnoch y nôs o'r blaen, a dywedyd, edrychwch yn awr yn dda at dymmer eich calon, ar fyned o honoch gydâ gofal, a bwytta mewn ffydd, a dyfod ymmaith gydâ budd, oblegid ni chewch byth dderbyn mwyach, a fyddech y pryd hynny mor yſmala ag yr ydych yn awr? pa fodd y gwyddoch y cymunwch trachefn? onid ydych yn farwol? ac oni welſoch rai ûn amſer wrth y Sacrament, ac a fuant feirw, ac yn eu beddau, a'u heneidiau yn y nêf neu uffern cyn yr ail tro? a ddywedodd Duw wrthych, pan fo' ûn odſa gennych y rhydd efe ûn arall? deuwch gan hynny bob tro, megis y gwnaech, pe byddech ſicer mae'r tro diweddaf yw, megis nad ydych ſicer nad all fod yn wir yn ddiweddaf i chwi.

Gof. 6. BETH ped ſa'ech i fyned oddiwrth fwrdd Duw at ei frawdle ef, pa baratoad a wnaech y pryd hynny? pe dywedei Duw o'r nêf wrthych ; yr ûn dydd y derbynioch, ar y dydd hwnnw myfi a'ch barnaf chwi, yn yr ûn dydd gofynnaf gyfrif gen-

nych, pa fodd y daethoch a pham, a pha ûn a ddarlu i chwi, fwytta ac yfed mewn ffydd a gwneuthur pôb pêth megis ûn yn credu fod Barn a Bywyd i ddyfod, onte nid d'o ; pam ; geill hyn fod eich cyflwr chwi, ac fel hyn y gallei Duw wneuthur a chwi, ac beth os gwnae, wedi dyfod o honoch yn ammharod ?

Gof. 7. BETH pe buaſech yn breſennol tan groes Chriſt pan groeſhoelwyd ef, a gweled ei friwiau, a chlywed ei ocheneidiau ef wrth farw a'r pryd hynny i chwi ddyfod i wneuthur coffa o'r farwolaeth hon o eiddo Criſt, pa baratoad a wnaech y pryd hynny ? beth pe gwelſech yr Arglwydd yn chwyſu'r defnynnau gwaed ar amſer oer, a gweled y drain ar ei ben ef y waiw-ffon wedi trywanu ei yſtlys ef, fel y caffech ffeneſtr' i edrych iw galon ef i weled fel y carodd chwi, a gweled yr hoelion yn ei ddwylaw ai draed ; ac a fyddech, ar ôl y fath olwg a hwn, i ddyfod at y bwrdd hwn ; gydâ pha fath ſerch y deuech y pryd hynny ? goſodir yr holl bethau hyn o'ch blaen chwi mewn gwirionedd yn yr ordinhâd hon, ac a ddylech yn ſiccr eu credu, megis pe gwelſech ac'h llygaid eu gwneuthur. Pa deimlad mae rhai yn ei ddangos wrth edrych ar goſpi drwg weithredwr cyffredin ; ac oni ymegniwn o flaen-llaw i gynhyrfu 'n ſerchiadau pan ddeuom i weled croeſholio 'n Arglwydd anwylaf ?

Gof. 8. BETH pe deue ûn a ddamnwyd am dderbyn yn annheilwng attoch o le'r poenau, a dywedyd i chwi, gael o hono ef hwn yn bechod yn digio Duw yn fawr, ac yn gwneuthur damnedigaeth yn aneſmwythach ; ſef bwyta yn annheilwng wrth fwrdd yr Arglwydd, pa baratoad a wnaech chwi y pryd hynny ? nid yw'n farn galed feddwl

neu

neu farnu, fod rhai a fuant wrth fwrdd yr Arglwydd, y pryd hyn yn uffern, ac a fyddan yno i dragwyddoldeb: oblegid pe deue Meddwon, tyngwyr, neu ragrithwyr at yr ordinhad hon, ni achub hynny monynt, os byddant feirw felly Chriſt ei hun yr hwn ar ddydd ofnadwy ei ddyfodiad a farna y dynion hyn am gamarfer ei waed ef a fynegodd ini ym mlaen-llaw, y teflir llawer o'r cyfryw i'r poenau tragwyddol. *Luc.* 13. 25. " *Gwedi cyfodi gwir y ty*, a chau y drws a de-" chreu o honoch ſefyll oddi allan, a churo'r drws, " gan ddywedyd, Arglwydd, Arglwydd, agor ini, " ag iddo yntef atteb a dywedyd wrthych, nid " adwaen ddim o honoch o ba le'r ydych: 26. " yna y dechreuwch ddywedyd, ni a fwyttaſom " ac a yfaſom yn dy wydd di, a thi a ddyſcaiſt " yn ein heolydd ni: Megis pe dywedaſent Arglwydd, yr ydym ni yn rhyfeddu cael pyrth y nefoedd wedi eu cau yn ein herbyn, yr ydym yn rhyfeddu ein bod ni y rhai a fuom yn wrandawyr it', ac a fuom wrth dy fwrdd di, na wyddoſt o ba le yr ydym ac nad ydym yn gymmeradwy genniti, ac na dderbyniaiſt ni; ond y mae Chriſt yn atteb trachefn. 27. " Ac efe a ddywed, yr 'wyf' " yn dywedyd i chwi, nid adwaen chwi o ba " le'r ydych, ewch ymmaith oddiwrthyf, chwi " holl weithred-wyr anwiredd: megis pe dywedaſei, mi a ddywedais i chwi ûn waith o'r blaen, nad oeddwn yn eich adnabod, nag yn eich caru, ac nad oeddych yn gymeradwy ger fy mron, er eich bod yn dadleu'ch rhagorfreintiau eglwyſol oddiallan, o wrando, a derbyn y Sacrament, 'rwyf' yn dywedyd unwaith trachefn, ni adwaen monoch; ewch, ymmaith a chwi, ymmaith a chwi i boenau tragwyddol, *ewch ymmaith*, *ewch ymmaith*; buoch broffeſwyr o dduwioldeb, eithr

caraſoch a gwnaethoch anwiredd. Yn awr, bernwch i un a adwaenoch ac a welſoch wrth y bwrdd hwn gyda chwi, farw o hono yn ei bechodau, a'i ddamnio am danynt, a bod yn uffern fiwyddyn neu ddwy yn goddef dial a digofaint Duw am hyn megis am ei bechodau eraill, ddyfod o hwn attat' a dywedyd wrthyt' ; mi a wybum er pan ymadewais o'r bywyd hwn, ymmha un 'rwyti yn awr yn byw, beth yw'r goſbedigaeth a haeddau derbynwyr annheilwng, oblegit myfi a'i dioddefais, coelia fi er fy môd yn enaid damnedig, oblegit myfi a'i dioddefais: rwyf' yn goddef llawer am fy anghyfiawnder tuag at ddynion, ond mwy am i mi ymyrryd yn annheilwng a gwaed Chriſt; 'rwyf' yn dioddef llawer am fyng ormodedd o ymborth wrth fy mwrdd fy hun, am fy nglwthineb am meddwdod, ond 'rwyf' yn dioddef mwy am gamarfer corph a gwaed Chriſt yn Swpper yr Arglwydd pan oeddwn ar y ddaiar. Neu tybiwch ei fod yn rhagrithwr, yr hwn fy'n awr yn uffern am y mawr ddrwg hwn, a dyfod o hono a dywedyd iti, pan oeddwn ynghyfiwr dy fywyd di, pan oedd fy amſer i, i fyw lle'r wyti yr awr, cefais ddyfodfa at Swpper yr Arglwydd, fel yr wyti'n awr, ac mi ro'is cyſtal cyfrif ir gweinidog (mewn geiriau ac ymadroddion) ag a roddaiſt i ; dywedais iddo fy môd yn deimladwy o'm cyfiwr colledig, fy mod yn flin o'm pechod, ac yn driſt o'i herwydd, a'm bod yn fodlon i dderbyn Chriſt ar ammodau'r *efengyl*, ac mi a ddywedais hyn a dagrau yn fy llygaid, fel y barnodd y gweinidog fy nghyfiwr yn dda, ond mi a'i twyllais ef a'm fi fy hunan hefyd, trwy ddywedyd celwydd iddo, oblegid yn awr y gwn nad oeddwn fodlon ir cyfryw ar cyfryw wyn neilltuol fyned ymmaith, yr hyn a wahanodd rhwngofi a Chriſt, ac yr oedd

y

y gynnulleidfa gydâ pha ûn y derbyniais yn tybied fod fy nghyflwr i yn dda, oblegid iddynt fy ngweled yn wylo pan gymerais y bara ac a welſant y dagrau yn rhedeg i lawr fy ngruddiau pan gymerais y gwîn, ond ni welſant ragrith fy nghalon, nar pechod yr oeddwn yn ei feithrin, ac ni ymadawn âg ef wrth orchymyn Chriſt: ond yn awr rwy' tan ſarn a damnedigaeth, ac a ddioddefais fwy, nac a elli di i feddwl am fy mhechod hwn, *Och damnwyd fi*, am gamarfer y gwaed hwnnw a ddylaſei fy achub i! mae'n ofnadwy, ofnadwy, ofnadwy! ni wyddoſt ti'r hwn wyt etto ar y ddaiar, mor ofnadwy ydyw gorwedd yn uffern, a dioddef y goſbedigaeth a roddir ar dderbynwyr annheilwng. Ar ôl y fath rybydd a hwn oddiwrth enaid damnedig, pa fath baratoad a wneiti? pam; mae gweinidogion Duw yn dywedyd felly iti, a pham na choeli ein Athrawiaeth ni cyſtal a geiriau enaid damnedig! nage, mae Duw ei hun yn dywedyd iti yn eglur yn ei air, ſawrder y pechod hwn ai goſbedigaeth, ac oni choeli y gwîr ar tragwyddol Dduw, o flaen ûn anghymeradwy damnedig?

Gof. 9. Beth pe galwei Chriſt o'r nefoedd megis y gwnaeth ar *Saul*, ar achos arall, *Saul*; *Saul paham yr wyt yn fy erlid i?* Felly beth pe galwei arnati tra rwyt' yn bwytta neu'n yfed wrth ei fwrdd ef, *Pechadur*, *Pechadur*, pam yr halogi fy ngwaed i? a'th nodi di allan, ath wneuthur yn gydnabyddus, pa baratoad a wneiti y pryd hynny? pan oedd Chriſt ar y ddaiar yn bwytta gydâ'r deuddeg, efe a ddywedodd, *yn wîr meddaf i chwi, ûn o honoch am bradycha i*, oh'r fath fraw oedd y gair hwn! y modd y llanwyd eu calonnau âg ofn a thriſtwch, etto heb wybod pwy oedd y gwr a wnae hyn! y modd yr edrychaſant y naill ar y llall! ac a ddywedaſant

bob yn ûn ac un, Arglwydd ai myfi yw? ac un arall Arglwydd ai myfi yw? ac yr oeddynt yn a mofyngar jawn er mwyn gwybod pwy oedd y gwr a wnae'r fath weithred ddrwg a hon: yr hwn y mae'r Arglwydd yn ei ddangos, trwy arwydd, *Yr hwn a wlych gydâ mi yn y ddyſcl, hwnnw am bradycha i, hwnnw yw'r bradychwr.* Felly tra bo' 'r gynulleidfa ynghyd i wneuthur coffa o'i farwolaeth ef, pe llefei Chriſt o'r nêf, gan ddywedyd, mae un yn eich plith, yr hwn ſy'n halogi fyng waed i, yn bwytta fy 'nghorph i yn annheilwng, yr hwn a ddaeth ymma yn ei bechodau; mor ſynn yr edrychent y naill ar y llall, â phrudd-der yn eu wynebau ac ofn yn eu calonnau, heb wybod pwy a fydde'r hwn a wnae hyn? un yn dywedyd ynddo'i hun; *Arglwydd rwy'n gobeithio nad myfi, ac arall, Arglwydd, rwy'n gobeithio nad myfi?* Nage, medd Chriſt y dyn accw ſy'n awr ar bara yn ei ſafn, neu hwn accw ſy'n eiſtedd yn y fainc accw, ac ſy'n awr yn cymeryd y cwppan yn ei law ac yn yfed o honi; hwn yw'r dyn, allan ag ef o'ch plith: pe cymmerei Chriſt y ffordd hon, pa baratoad a wnei ti y pryd hynny? Mor fanwl y chwiliet' dy galon? mor daer y gweddiet' cyn dy ddyfod, rhag it' fod yr un hwnnw y llefei Chriſt o'r nef yn ei erbyn, ath gywilyddio yngwydd y gynulleidfa gyhoedd? pam, er nad yw Chriſt yn gwneuthur fel hyn am yr amſer preſenol, etto efe a amlyga'r pechadur, ac a gyhoedda'r pechod, ar ddiwrnod mwy ofnadwy, ac o flaen cynnulleidfa fwy, pan geſclir ynghyd yr holl fyd, ac o'u blaen eu gyd, efe a rydd hyn ar dy gyfrif di ger bron Angylion, dynion a chythreuliaid; hwn yw'r dyn a ddaeth yn ddiofal at fy mwrddi, ac a halogodd fy ordinhâd ſanctaidd, am hynny cymmerwch ef gythreuliaid, a llyſcwch ef i lawr 'gydâ chwi i boe-

nau

nau tragwyddol, a bwriwch ef ir llynn o dan lle y dioddefa ddial lloſcfeudd tragwyddol am ei hyfdra yn dyfod yn ammharod, ac yn ei bechodau at fy mwrddi, cythreuliaid cymmerwch ef gyda chwi oblegid ni ddaw efe byth i'm teyrnas i.

Dymma'r Cweſtiwnau a ddymunwn arnoch, gyda'r difrifwch mwyaf eu gofyn i chwi'ch hunain pan fo'ch i wneuthur y ddyledſwydd hon o bwys, ymmha un y mae'ch calon mor farwedd a diog, i baratoad cyſattebol ir gwaith pwys fawr hwn.

PEN. IX.

" Yn cynwys rhai hyfforddiadau i jawn drefnu'n calonnau i dderbyn Swpper yr Arglwydd.

GWEDI dangos i chwi hyd yn hyn fod yn ddyledſwydd anhepcor arnoch i baratoi 'ch calonnau ir ordinhad hon, a goſod i lawr rai Cweſtiwnau difrif i'ch annog i hynny, yn neſaf rwy 'n dyfod i ro'i rhai hyfforddiadau i'ch cyfarwyddo beth ſy' raid i chwi wneuthur fel y bo'ch derbyniad yn gymmeradwy gyda Duw, a buddiol i chwithau ; ar pedair hyn ydynt.

1. Chwiliwch eich calonnau, gan ymoſyn yn fanwl i gyflwr eich enaid, pa fodd y mae rhwng Duw a chwithau.

2. Gan yſtyried yſtyriwch y pethau hynny ſy' a thuedd ynddynt i dreſnu'ch calon iddo.

3. Taer

3. TAER weddiwch ar Dduw cyn eich myned ar i'chwi dderbyn yn deilwng.

4. YMDDIDDENWCH yn ddifrif a rhai (os cewch odfa) ynghylch y cyfryw bethau o gynhyrfent eich ſerchiadau ac a fywhaent eich graſau cyn eich myned ir Sacrament.

1. CHWILIA yn fanwl dy galon dy hun 1 *Cor.* II. 28. *eithr holed dyn ef ei hun ac felly bwytaed or bara ac yfed or cwppan.* Yn awr darllenydd Chriſtnogol, er cymorth it' yn hyn, cynghoraf di i ofyn iti dy hun gweſtiwnau o'r fath ymma, ac ar ôl ymgynghori â thi dy hun a gweddio at Dduw, ar iddo ddangos iti gyflwr dy enaid, dyro a'tteb cywir a difrif megis ûn yn gwybod y gelwir di trachefn i gyfrif ac ith holi gan Dduw ei hun yn y dydd diweddaf.

Cweſt. 1. A oes gennif *brincipl* o fywyd yſprydol, neu ynte 'rwyf etto'n farw yn fy nghamweddau am pechodau? Oh fy enaid! y gwaith yr wyt' ar ei fedr mewn Sacrament, gwaith bywiol ydyw, ac os marw wy't nid elli ei wneuthur; yr wyti yn myned i ymborthi ar fara'r bywyd; ac os marw wyt' nid elli moi wneuthur. Yr wyti i wledda nid yn unig gydâ, ond ar dy Arglwydd, ond os wyti etto yn farw nid elli m'oi wneuthur. Yn *Num.* 9. 10, 11. Os byddei neb wedi ei halogi gan gorph marw, nid oedd efe i fwytta Pâſc yr Arglwydd dan yr ail mîs; pa faint mwy anghymwys ydwyfi i fwyta Swpper yr Arglwydd, os yw fy nghalon i etto yn farw; nid yn farwaidd ond yn farw; nid oes dim cymdeithes rhwng y byw ar Marw, nid yw dynion meirw yn ymgymdeithaſu a dynion byw; nid eill calon farw, yn gwbl

wâg

wâg o ſywyd yſprydol ymgymdeithaſu â Duw byw. Mewn trefn gan hynny i am lygu iti dy ſywyd yſprydol; goſodaf o'th flaen yr ymofynion hyn ſy'n canlyn, i ba rai y rhoi atteb yn ddifrif megis yn ofn Duw, ac yn barchedig megis ym mhreſenoldeb y Duw hwnnw ſy'n chwilio dy galon ac yn gwybod dy gyflwr, ac attebed dy gydwybod, fel y gwanae pe byddit 'y pryd hyn i farw.

1. A gefaiſt i erioed ddim teimlad a ſynwyr yſprydol i ddirnad pethau da a drwg? a welaiſt i erioed a ardderchowgrwydd a phrydferthwch Chriſt? ar gwrthyni ar bryntni ſy' mewn pechod? Ydyw Chriſt yn hawddgaraf ar pechod yn ffieiddiaf yn dy olwg di? a brofaiſt i erioed y fath feluſdra ynghriſt, mewn addewid, neu mewn cymundeb â Duw, ag a wnaeth iti ddewis Chriſt, cyfleidio'r addewid a chyfrif cymundeb gydâ Duw uwchlaw'r holl bethau ſ'y'n y byd hwn? neu a brofaiſt i erioed y cyfryw chwerwdr mewn pechod i beri it' ei ffieiddio ac yn ddidwyll ewyllyſgar iw adel a'i wrthod? nid oedd gennit' gynt mor blâs ar bethau yſprydol, ond a oes gennit yr awron? bu'r amſer pan brofaiſt feluſdra yn dy bechod pan ymhyfrydaiſt ynddo; ond ydyw efe mor chwerw gennit' yr awron ag oedd y pryd hynny yn hyfryd? bu gennit gluſt i wrando ar brofedigaethau diafol, gwenjaith y byd, ar bechaduriaid yn dy hudo i bechu, ar lygredigaethau dy galon dy hun yn galw arnat ith roddi dy hun ir holl bethau hyn: ond nid oedd gennit gluſt i gluſtfeinio ar gynhyrfiad yſpryd Duw, nac ar lais gweinidogion Duw, nac ar lais trugareddau na barnedigaethau Duw, nac ar lais a llef dy gydwybod dy hun, ond yn awr 'r wyt' yn fyddar ir cyntaf, ſef, mae

diafol

diafol yn galw ond ni wrandewi, a phechaduriaid yn galw ond ni wrandewi; ac mae dy gluſtiau'n agored ir diweddaf, ſef, os geilw Duw, dywedi, *lleſara Arglwydd mae dy wâs yn gwrando*, os yr yſpryd a lefara a llais diſtaw wrth dy galon, 'rwyt yn deall ei feddwl a' thi a uſuddhei. Gynt cyfrifaiſt ordinhadau a dyledſwyddau yn faiçh, a hyn oedd pan oeddyt 'yn gwneuthur yn yſcafn o bechod; bernaiſt fod jau eſmwyth Chriſt yn aneſmwyth, a bod jau aneſmwyth y pechod yn eſmwyth, oblegid fod pechod yn dy galon megis yn ei le priod: ond dywaid i mi, onid wyt' yr awron yn tuchan dan bwys y pechod? onid yw'n gwneuthur iti waeddi allan, *ys truan o ddyn wyfi: pwy a'm gwared i oddiwrth gorph y farwolaeth hon*? medri yr awron, o'r hyn lleiaf, ymbell waith ddymuno dy ryddhau oddiwrth dy gorph o gnawd fel ith wareder oddiwrth y corph hwn o bechod; os felly mae gyda thi 'rwyt' yn fyw.

2. A farwheiſt i dy bechod, neu nid do? ai byw ai marw yw'r pechod? os dy bechod ſy'n fyw ac yn rheoli; yna 'r wyti yn farw; os marw yw dy bechod yna byw wyti; bywyd a rheolaeth pechod, a bywyd a gallu grâs ni allant gydfod yn yr ûn enaid ar yr ûn amſer; er bod pechod yn dy galon, etto nid yw dy galon yn dy bechodau, er bod pechod yn dy Serchiadau, etto collodd pechod dy Serchiadau, er bod pechod yn dy gariad, nid wyt yn caru dy bechod, mae pechod yn dy lawenydd, ond nid wyt yn llawenhychu yn dy bechod: nid oes ynot y fath chwant gwreſog ar ôl pethau gwaharddedig megis yr oedd gynt; nid oes gan bechod y fath awdurdod cyffredinol yn dy enaid megis gynt, na'r meddiant heddychol hynny yn dy galon, yr hyn yr oeddit' ewyllyſgar gynt iw roi

roi iddo; ond y mae'n farwolaeth gennit glywed y gwyniau hyn cymmaint ag yn ym lusco yn dy galon; er nad ydynt yn rheoli; os felly, yna pechod sy'n farw, a thitheu yn fyw; os nad felly, yna mae pechod yn fyw a thitheu'n farw.

3. A fedri di duchan a gwaeddi ar yr Arglwydd, ac a lonydda dim di ond Christ? yna'n siccr 'rwyti yn fyw, er na fedri draethu dy ddymuniadau wrth orseddfaingc gras (fel rhai bychain newydd eni ni fedrant ofyn, etto medrant waeddi am y fron) nac yn y fâth jaith (ag eraill) ofyn am Grist a grâs: etto medri waeddi âm Grist, ac wylo am ras, ac ni ddichon ir holl greaduriaid dy lonyddu di, nes cael o honot obaith fod Christ wedi ei ffurfio ynoti, yn siccr mae gan y cyfryw fywyd ysprydol sy'n y modd hyn yn gwaeddi ar ôl Christ.

4. A wyti yn cynhyddu yngrasau'r yspryd, ysgatfydd na feiddi ddywedyd fod gennit fwy o ras, ond hyn a fedri, fod gennit fwy o ddymuniadau ar ôl gras, mae hynny yn fwy o ras; 'wyti yn wîr ddiolchgar am ychydig ras, ond etto 'rwyt' yn ymestyn ar ôl ychwaneg? 'rwyt yn cyfrif ûn *dram* neu ronyn o ras ûwchlaw miloedd o aur ac arian, etto nid ychydig a wasanaetha dy dro: a wyti yn flinach o'th bechod a wyti yn fwy awyddus am Grist a Duw ar nêf? siccr yw fod twf yn arwydd o fywyd.

5. A wyti yn gweithio am Dduw a Christ ar nêf, a'th enaid mewn modd ysprydol? mae gweithredoedd ysprydol yn dangos fod bywyd ysprydol: Mae llawer yn byw bywyd naturiol ni weithant; ond mae y rhai byw yn ysprydol yn gweithio

ithio, rhai mwy rhai llai, wyti yn gweddio ie yn daer yn dy weddiau? wyti yn gwrando ac yn cymmeryd poen gyda'th galon yn gwrando? wyti yn gwneuthur dy waith yn ol y rheolau yſprydol hynny a roddes Duw iti yn ei air; neu yn yr hyn yr wyt yn methu, mae'n ddrwg gennit o'i blegit; a wyti yn gweithio oddiwrth brincipl neu agwedd yſprydol, o gariad i Dduw, ac ofn Sanctaidd o hono ef? wyti'n gweddio atto ef, oblegid dy fod yn ei garu? wyti yn gochel y pechod, yn gwilio ac yn gweddio yn ei erbyn, oblegid ni ſynnit na digio Duw na thriſtau ei yſpryd? a oes gennit ddiben yſprydol yn dy weithrediadau, ſel y gogoneddech' ac yr anrhydeddech Dduw, er nad yw dy holl waith yn y modd hyn yn haeddu dim gan yr Arglwydd, ac nid wyt yn gweithredu yn dy holl ddyledſwyddau i bwyſo arnynt ac i'th tynnu rhag gorphywys ar Griſt; etto maent yn arwyddion dy fod wedi dy gyfcdi o farwolaeth pechod i fywyd gras; a chan fod gennit fywyd rhaid iti gael bwyd, ac y mae Duw wedi ei baratoi iti ar ei fwrdd, a gelli' fyned ac ymborthi arno. Dymma'r peth cyntaf a ddyleich ymofyn ar ei ôl mewn perthynas i'ch cyflwr, pa ûn a ydych yn fyw yn yſprydol onte nid ydych.

Cweſt. 2. A ydwyſi yn newynu ac yn ſychedu ar ôl Chriſt? mae hyn hefyd yn arwydd o fywyd yſprydol; oblegid nid yw'r meirw nac yn newynu nac yn ſychedu: dywed gan hynny wrthyt' dy hun, wele, oh fy enaid! gwahoddir di i giniaw, i wledd o ddanteithfwyd yr efengyl, *i wledd o baſcedigion, gwledd o loyw wîn* " O baſcadigion breiſion " a gloyw-wîn puredig, *Iſa.* 25. 6. wele, oh fy " enaid! doethineb a laddodd ei hanifeiliaid, hi a " gymyſcodd ei gwîn, ac a hiliodd ei bwrdd, hi

" a

" a yrodd ei llaw-forwynion: y mae yn llefain
" oddiar fannau uchel y ddinas: pwy fydd anni-
" chellgar, troed i mewn ymma, ac wrth yr an-
" noeth, y mae hi yn dywedyd, deuwch a bwy-
" tewch o'm bara, ac yfwch o'r gwîn a gymyfcais,
" *Dihar.* 9. 2, 3, 4, 5. Fel hyn mae'r Arglwydd yn dy alw di, oh fy enaid! mor gyfoethog a drûd yw'r paratoad! ond ple mae dy newyn di? ple mae de flys? pe ba'e newyn arnaf, cawn wahoddiad i fyned, oblegid rwy'n darllen, " Ddywedyd
" o'm Harglwydd yn *Efai* 55. 1. Oh deuwch ir
" dyfroedd bob ûn y mae fyched arno, ie yr hwn
" nid oes arian ganddo; deuwch prynwch a bwy-
" tewch, ie deuwch prynwch wîn a llaeth, heb
" arian ac heb werth. Ac *Joan* 7. 37. Ac ar y
" dydd diweddaf, y dydd mawr o'r wyl, y fafodd
" yr Jefu ac a lefodd, gan ddywedyd, od oes ar
" neb fyched, deued atafi, ac yfed. Pe gwelwn fod arnaf newyn, medrwn gael addewyd y cawn fy niwallu. " *Matth.* 5. 6. Gwyn eu byd y rhai
" fydd arnynt newyn a fyched am *gyfiawnder:*
" *canys hwy a ddiwellir.* Tyred gan hynny dywed imi oh fy enaid! wyti yn deimladwy dy fod yn wag ac arnat eifieu'r pethau hynny, y rhai yn unig a ddichon ddiwallu newyn yfprydol? ydyw'n galed arnati? a boenir di gan y teimlad o'th eifieu o Grift? wyti yn aflonydd hyd oni ddeuo attat? wyti yn cyfri'r amfer yn hir hyd oni lenwo di? ai rhaid iti gael Chrift onide ni fodlona dim di? yna rwyt' yn ûn y mae Duw yn ei alw; cymmer galon, cyfod, dos at fwrdd dy Arglwydd. Dymma beth arall fy'raid it ymofyn ar ei ôl, oblegid nid dy ddyledfwydd yn unic yw bôd gennit fywyd, ond hefyd bod newyn yfprydol ar ôl Chrift pan elech at fwrdd yr Arglwydd.

Cwefi.

Cweſt. 3. YDWYFI yn caru Duw a Chriſt, neu nid ydwyf? os nid 'wyf yn ei garu; beth fy' imi a wnelwyf i fyned at ei fwrdd ef? os yw Duw yn elyn imi, a minneu etto yn elyn i Dduw, pam yr af i dynnu digofaint arna' fy hun? ond os wyf' yn ei garu, pam y byddaf brudd fy mod yn bechadur, gan fod yr Arglwydd yn fodlon i roddi yn rhad bob peth fy' ymma wedi ei baratoi, ir ſawl ſy'n ei garu ef? pe mwya' o bechod a welwyf fod gennif, os wyf' yn ei garu ef, mwya' yw'r eiſiau a welaf fy' arnaf i fyned etto ef, gofyn y cweſtiwn hwn itti dy hun, megis y gwnaeth Chriſt i *Petr.* " *Joan* 21. 15. Yna gwedi iddynt " giniawa, yr Jeſu a ddywedodd wrth *Simon* " *Petr*, *Simon* mab *Joan*, a wyti yn fy ngharu i " yn fwy na'r rhâi hyn? dywedodd yntè wrtho " ydwyf Arglwydd, ti a wyddoſt fy mod yn dy " garu di: a gofynnodd yr Jeſu iddo hyn eilwaith " ar drydydd waith: Felly gwna ditheu cyn dy " fyned ir Swpper hwn: gofyn ith enaid. Oh fy enaid! wyti yn caru'r Arglwydd Jeſu? a elli di ddywedyd, yr Arglwydd a wyr fy mod yn ei garu ef? ac etto gofyn eilwaith, oh fy enaid a wyti yn caru'r Arglwydd Jeſu? a elli di drachefn atteb gyda *Phetr*, ydwyf Arglwydd, ti a wyddoſt fy mod yn dy garu di; ond i fod yn ſicr, gofyn y drydydd waith; dywaid imi oh fy enaid, a wyti yn wir yn caru'r Arglwydd Jeſu? oblegid mae llawer yn camgymeryd, ac yn tybied eu bod yn ei garu ef, ond nid ydynt: a elli di 'gan hynny appelio i Dduw a dywedyd, *Arglwydd ti a wyddoſt bôb peth, ti a wyddoſt fy mod i yn dy garu di.* Yn wir nid wyf yn dy garu di megis y ceraiſt i fi, etto 'rwyf' yn dy garu: nid wyf' yn dy garu cymmaint ag y mae eraill na chymmaint ag y dymunwn i fy hun wneuthur, a hynny yw fy mlinder

am

am triſtwch : ond etto 'rwyf' yn dy garu, a hynny yw fy heddwch am cyſſur : ac mae gennif yr arwyddion hyn o'm cariad yn gwneuthur imi ddywedyd, *Arglwydd 'rwyfi yn dy garu* ; oblegid ſy mod yn caſau 'r hyn ſy' flinder iti, a hynny oblegid ei fod yn dy flino di. Arglwydd 'rwyfi yn dy *garu* oblegid *triſt* wyf' pan fyddi abſenol, ac y mae dy breſenoldeb yn fy *llawenychu* : Arglwydd 'rwyf' yn dy garu, oblegid fy mod yn caru pawb ſy' debyg itti, ſy' a'th ddelw, a'th argraph di ar eu calonnau ; oh fy Arglwydd, yr ydwyf yn dy garu, am fy mod yn caru'r lle a'r dyleuſwyddau lle'r oeddit arferol o gynheſu calonnau dy bôbl, ond oni fyddi di yno nid allafi fod yn fodlon oddi eithr imi dy weled di yno. Arglwydd, gyda pharch yr 'wyf' yn dywedyd, *yr ydwyf yn dy garu di*, oblegid ni feiddiaf wadu nad yw'n ddrwg gennif pan ddianrhydeddir di trwofi, neu eraill, er fy mod yn triſtau am hyn lai nac y dylwn, am fy mod yn dy garu di yn llai nac y dylwn. *Arglwydd yr 'wyf yn dy garu di*, oblegid yr ydwyf yn chwennych cael calon i fôd yn ewyllyſgar i ymado a phob peth er dy fwyn di ; pethau ſy'n bechadurus ynddynt eu hunain, ar bob amſer, a phethau cyfreithlawn, pan alwech ti fi i hynny. ûnwaith trachefn, dywedaf yn oſtyngedig, *yr ydwyf yn dy garu di* ; oblegid mynnwn fod calon gennif i garu, i hiraethi, ac i edrych am dy ddyfodiad 'ath ymddangoſiad yn dy ogoniant. Tyred i ffordd gan hynny, oh fy nghariad (medd Chriſt wrth iti) a gwna goffa o farwolaeth dy Arglwydd yr hwn yr wyt 'yn ei garu. Oh fy enaid mae dy Arglwydd yn dy alw, cyfod a dos at ei fwrdd ef, lle cei weled y modd y carodd ef di, ac lle y gallei dy gariad tuag atto gynhyddu ac enbyn yn fwy, fel hyn y dyleit ymofyn ynghylch dy

gariad i Grift, pan fyddecht'i fyned ir wlêdd hon o gariad.

Cweft. 4. A ydwyfi yn credu yn Jefu Grift, neu nid ydwyf? a oes gennifi ffydd Etholedigion Duw, neu onte nid oes? os ni fwytawn ac yfwn mewn ffydd, in dderbyniwn yn jawn; ond os wyfi yn credu, er bod fy ffydd yn wan, mae imi hawl ynddo ef, ar rhagor-freintiau a bwrcaffodd trwy ei farwolaeth, ac a felia imi yn y Sacrament. " Yna " tro dy leferydd at Dduw, a dywed, *Arglwydd* " os wyf 'yn prifio dy Fab uwchlaw pob peth yn " y byd, a allafi wrth hynny farnu fy mod yn " credu? mae Duw yn dywedyd iti y gelli, 1 *Pet.* " 2. 7. I chwi gan hynny y rhai ydych yn credu " y mae yn werthfawr. Os gwnaf yn waith imi " lanhau fy nghalon, a ydwyf' yn credu y pryd " hynny? Mae Duw yn dywedyd iti dy fod: " *Act.* 15. 9. Gan buro eu calonnau trwy ffydd. " Os cymeraf dy Fab yn Arglwydd ac yn Achu- " bwr imi, ei dderbyn ef im calon ar ammodau'r " Efengyl, a allaf' farnu wrth hynny fod gennif " ffydd? Mae Duw yn dywedyd y gelli, *Joan.* 1. " 12. Cynnifer ai derbyniafant ef, efe a roddes idd- " ynt allu i fod yn feibion i Dduw, fef ir fawl " a gredant yn ei enw ef: Os felly, yna, Ar- glwydd, mewn ufudd-dod ith orchymyn, mi a wnaf hyn er coffa am danati.'

Cweft. 5. Un waith etto ymofyn a thi dy hun, a dywed, a edifarheis i am fy mhechodau a wneu- thum yn erbyn yr Arglwydd, ac a ddaroftyngwyd fi mewn gwirionedd am danynt? Oblegid pa fodd yr edrychaf ar fy Achubwr wedi ei ddryllio am fy mhechodau, os ni ddryllwyd erioed fy nghalon i am fy mhechodau? Oh! fy nghydwybod oni ddy-

gi

gi di dyſtoliaeth imi, mai torr calon im i yw fy môd wedi torri gorchmynion Duw? a bod fy ngalar yn dyfod oddiwrth gariad a theimlad o garedigrwydd a daioni Duw imi? Mai fy nymuniad cywir ydyw cael fy ngolchi oddiwrth fudreddi, cyſtal am gwared oddiwrth euogrwydd fy mhechod; fy rhyddhau oddiwrth rym ac Arglwyddiaeth, cyſtal ag oddiwrth goſbedigaeth a damnedigaeth a haeddwn i am fy mhechod; er na wyddwn nad uffern fydde yn rhan imi, etto ni phechwn yn erbyn yr Arglwydd? Oh fy nghydwybod onid wyt' yn dyſt imi fy mod yn ymegnio (er fy mod yn fyrr yn fy egni) i'm cadw fy hun yn ddiſrycheulyd oddiwrth y byd, a'm bod yn caſau y wiſc a halogwyd gan y cnawd; gwyddoſt fod profedigaeth i bechod yn flinder imi, cyſtal ar pechod wedi ei wneuthur; fy mod yn tychan (er nad cymmaint ag y dylwn) tan y corph hwn o bechod, ac yn hiraethu am yr amſer y gwaredir fi oddiwrtho i yn gwaeddi allan yn chwerwdr fy yſpryd, Arglwydd pa bryd y rhyddheir fi yn 'nollawl oddiwrth y corph fhaidd hwn o bechod, yr hwn (trwy dy ras) fy' mor flin im henaid? Os felly mae, yna mi a gyfodaf, ac a âf at yr ordinad hon, lle y caf ficcrwydd o faddeuant fy mhechod, a derbyn mwy o nerth a gallu yn erbyn fy mhechod, fel hyn y dyleit ymoſyn a ddarfu iti ediſarhau am dy bechod pan fyddech yn myned i weled yr hyn a wnaethpwyd ith Arglwydd o herwydd dy bechodau di. Hyn er prawf o'th baratoad i'r Sacrament.

2. Wedi it 'fel hyn chwilio allan wirionedd dy ras, yna dos ymlaen at Fyfyrdod diſrit duwiol, gan yſtyried y pethau hynny a ddichon gynhyrfu ac annog dy raſau di; y gwirionedd o'r rhai mae'

gennit eglurdeb eu bod eiſoes wedi eu gweithio yn dy galon, fel yr elech ti at yr ordinhad hon gydag arferiad bywiol o ras fel y bo' dy holl raſau di'n barod i weithredu yn ol dy ddyledſwydd yn y gwaith hwn. Canys ti a bechi, os ei at fwrdd yr Arglwydd gyda ſerchiadau marwaidd, a marweiddra calon; a bydd dy bechod di yn fwy os bydd hynny o eiſiau egni diwyd i geiſio ennyn ſerch a chariad i Dduw cyn dy fyned. Yn awr er cymmorth itti yn hyn, mi henwaf rai pethau a fyddant gymwys ac addas i feddwl am danynt cyn dy fyned, ac nid yn anghymwys i fyfyrio arnynt tra byddech wrth fwrdd yr Arglwydd.

1. MYFYRIA a meddwl am gariad Duw yn y gwaith mawr o brynedigaeth dyn; yſtyria dy fod wedi cwympo i gyflwr truenus; tan felldith y ddeddf, yn ddaroſtyngedig i ddigofaint Duw, a phoenau uffern, tan rym dy wyniau, a chaethiwed y Diafol, ac ni ellit dy gymmorth dy hun, na'th ddwyn dy hun yn ol ir happuſrwydd oddiwrth pa ûn y fyrthiaiſt; bydded gan hynny ir yſtyriaeth o gariad Duw gynheſu dy galon di, yr hwn y ni ei dragwyddol gyngor a weithiodd ffordd er dy jechydwriaeth, ac ymma, os nad yw dy galon di etto wedi ei meddalhau.

1. CYMMELL arni mor rhad oedd ei gariad ef, yſtyria oh fy enaid! Rhad gariad oedd i Dduw anfon ei Fab I farw tros ddyn wedi cwympo ac nid tros Angelion wedi cwympo; i gymeryd arno nid natur Angelion, ond hâd Abraham. Ond yſtyria etto oh fy enaid! Mor fawr oedd y cariad hwn iti yr hwn ath ordeiniodd di i jechydwriaeth trwy farwolaeth Chriſt, pan aeth heibio i filoedd o rai eraill, ac a adawodd iddynt farw yn eu pechodau;

chodau ; gallaſei Duw fyned heibio itti, a'i roddi i eraill, ond y mae wedi myned heibio i lawer o rai eraill, ai roddi iti ; yſgatfydd, nad oes i'th perthynaſau agoſaf di ran, na lleſad jachuſol yn y brynedigaeth hon, pan nad oedd dim ychwaneg ynoti i annog Duw i'th garu di, nag oedd ynddynt hwy ; ie cymmaint ynoti i wrthwynebu a gwrthſefyll y cymhwyſiad o'r brynedigaeth hon, ag oedd ynghalon y gwaethaf o blant dynion. Rhyw ſeddyliau credadwy o'r cariad rhâd a rhwydd ſy' gan Dduw iti yn neilltuol a wreſoga dy galon cyn dy fyned at fwrdd yr Arglwydd, ac a'th lonwant a dymuniadau i fod yno, ac a ennyn dy galon pan fyddech t' yno. Os yw dy galon etto'n farwaidd goſyn iddi'r ûn Cweſtiwn hwn, *Beth a wnaethit' oh fy enaid! a phle buaſet yn dragywydd, oni bae i Dduw dy garu, ie dy garu yn rhâd.*

2. CYMMELL dy galon hyd oni yſtyrio y cariad hwn o eiddo Duw, yr hwn fy'r *fath gariad pûr* ; nid oes i Dduw ddim budd oddiwrth ei gariad iti ; pe buaſet' ddamnedig, ni fuaſei hynny yn ddim colled i Dduw ; nage, gallaſei efe ei ogoneddu ei hunan yn dy ddamnedigaeth di : ac os cadwedig fyddi, ni chwanega hynny ddim at happuſrwydd Duw, oblegit fod hyuny yn berffaith cyn dechreuad y byd. Oh y rhagor fy' rhwng cariad Duw a chariad dynion! Mae dynion yn caru, lle y mae eu cariad er llês a budd iddynt : ie, cariad y Sainct i Dduw, er ei fod yn bûr er ei fwyn ei hun, etto mae gwir leſad, mwya' pharhaus yn ymhelaethu iddynt wrth hynny ; ond mae cariad Duw yn hollawl bûr yn yr yſtyriaeth hon, yn yr hyn nid oes dim budd yn dyfod iddo ef am ei gariad.

3. Cymmell dy galon hyd oni ſyrthio mewn cariad ar cariad hwn o eiddo Duw, yr hwn ſydd y *fath gariad amlwg a diwâd*, fel yr ymddengys yn anfon ei Fab. 1 *Joan.* 4. 9. " Yn hyn yr eglurwyd " cariad Duw tuag attom ni, oblegid danfon o " Dduw ei ûnig-anedig Fab i'r byd, fel y bydd- " em fyw trwyddo ef. Yn hyn y mae Duw yn " canmol ei gariad at bechaduriaid truein. *Rhuf.* " 5. 8. Eithr y mae Duw yn canmol ei gariad tuag " attom, oblegid a nyni etto yn bechaduriaid, i " Griſt farw troſom ni. Pan oedd *Abraham* yn myned i aberthu *Iſaac*, Angel yr Arglwydd a ddywedodd wrtho *Gen.* 22. 12. Gwn weithian iti ofni Duw, gan nad atteliaiſt, dy Fab, dy unig Fab oddiwrthifi. Felly y gelli ditheu ddywedyd yn awr, weithian Arglwydd gwn dy fod yn ſy ngharu, gan nad atteliaiſt dy Fab, dy unig Fab oddi wrthifi. Yn enwedig os yſtyrier y rhagor ſy' rhwngthynt. 1. Yr oedd yn boſſibl i *Abraham* gael mab arall, ond nid yw boſſibl fod i Dduw Fab ganedig arall. 2. Yr oedd Duw yn caru ei Fab yn well, yn anfeidrol yn well nac yr oedd *Abraham* yn caru ei eiddo ef. 3. 'Yr oedd *Abraham* wedi ei orchymmyn gan ei ywch-radd i offrwm ei Fab; ond ni ellid rhoddi 'r ûn gyfraith i Dduw i anfon ei Fab. 4. Derbyniodd *Abraham* ei Fab oddiwrth Dduw, ac am hynny yr oedd i fod wrth ei drefniad ef, megis y mae ei holl greaduriaid, ond 'roedd mab Duw oddiwrtho'i hun trwy gen- hedliad dragwyddol. 5. 'r oedd *Abraham* i of- frymmu ei Fab iw greawdwr, a'i Dduw, 'rhwn oedd yn gyfaill iddo; ond Duw a ro'es ei Fab tros ei greaduriaid, a'r rhai a oeddynt yn elynion iddo ef. 6. *Abraham* a fwriadodd aç a amcanodd Aberthu ei Fab, ond Duw a roddes ei Fab ef tro- ſom ni yn ſicer aç yn wîr. 7. 'r oedd *Iſaac* iw

offrymmu

offrymmu trwy ddwylaw ei dad, ond rhoddwyd Chriſt iw ladd trwy ddwylaw ei elynion y rhai a'i caſaent ac a'i gwradwyddent ef; os gan hynny cariad *Abraham* i Dduw a eglurwyd trwy offrwm o hono ei Fab *Iſaac*; mae cariad Duw tuag attom ni yn eglurach o lawer, trwy r' oi i ni Chriſt ei Fab; ac oni chynheſa y fath gariad eglur diwad a hwn dy galon di? ac oni weithia arnat' iw garu yntef?

2. MYFYRIA ar ddioddefiadau dy Arglwydd, Brynwr pan ddaeth efe ir byd. Bydd yn ſuddiol iti cyn dy fyned ir Sacrament edrych troſodd yr Hiſtori o'i ddioddefiadau ef o'i enedigaeth iw groes. Oh'r fath gariad oedd hwn, i Dduw roddi ei Fab, ac ir mab ei roddi ei hun i farw troſoti! Ni bu erioed gariad tebyg i hwn, *Joa.* 15. 13. *Cariad mwy na hwn nid oes gan nêb-ſef bod i ûn roi ei einioes dros ei gyfeillion.* Ond 'r oedd gan Fab Duw mwy cariad na hwn pan oſodes efe i lawr ei einioes dros ei elynion. Ond os nad yw dy galon etto mewn cariad a Duw:

(1.) YSTYRIA fawredd y dioddefwr, yr hwn oedd a'r nefoedd yn orſeddfainc iddo, a oſodwyd mewn preſeb; a Hên-ddihenydd a ddaeth yn Faban: yr hwn oedd goruwch pawb a wnaethpwyd yn îs na phawb; yr hwn oedd gyfoethoccach na nêb, yn Arglwydd ar y cwbl, a wnaethpwyd yn drathlawd, fel nad oedd ganddo le i ro'i ei ben, yr hwn oedd ddoetha yn y byd, ni lefarodd dyn erioed yn debyg iddo, a watwarwyd ac a ddirmygwyd yn ei holl ſwyddau; *Brenin* y Brenhinoedd, y mawr ar unig Bennaeth a goronwyd a drain; *Prophwyd* y Prophwydi, a gafodd orchguddio ei wyneb, ac wedi hynny ei daro, ai wat-

war gan ddywedyd, Prophwyda pwy a'th tarawodd di; dywedyd wrth yr *Arch-offeiriad* mawr, mewn wawd, efe a waredodd eraill, ei hunan nis gall efe ei waredu; Rhwymmwyd y *cryfa*, y *diniweittiaf* a fflangellwyd ac a gondemnwyd; y *carediccaf* a ddibrifwyd; y *Meddyg* a archollwyd, fel y cae'r claf ei feddyginiaethu; mae'r Arglwydd yn marw dros ei weifion. Oh meddwl am hyn hyd oni theimlech t' dy galon yn gweithio mewn cariad ac yn ymeftyn allan mewn dymuniadau gwreſog ar ei ôl ef.

(2) Ystyriwch ei amryw ddioddefiadau ef yr hwn oedd werthfawroccach na gemmau, a'r holl betha dymunol nid ydynt gyffelyb iddo; etto gwerthwyd ef, *Am ddêg darn a'r hugain o arian, prîs têg, â'r hwn y prîſwyd ef gan feibion pechaduriaid*, Zech. 11. 13: Gwerthwyd ef gan un, gwadwyd ef gan un arall, gadawyd ef gan bawb: cernodwyd ef a phoerwyd arno, dewiſwyd llofrudd o'i flaen ef, tra bu efe byw cyfrifwyd ef yn gablwr, a phan fu farw cyfrifwyd ef ymmyſc y troſeddwyr. Ni wyr neb pa faint a ddioddefod Chriſt troſom ond f'eill pawb wybod mai ei gariad ai annogodd i hynny. Oh a pha fath galon lawn o gariad y dyleit fyned at yr ordinhad honno ymmha un y goſodir hyn oll o flaen dy ffydd di! Oh Cariad! Cariad! Cariad! A giliaiſt ti oddiwrth fy enaid, gan na chlywaf di yn gweithio mwy yn fy nghalon, tra byddwyf yn myfyrio ar y pethau hyn? Oh fy Arglwydd, ti am ceraiſt yn fy ngwaed, a phan welwyf dithau yn dy waed (oni baefod fy nghalon cynddrwg) ni ellwn i lai na'th garu di yn fawr jawn! Pan welaiſt i fi yn fy ngwaed, gwaed halogedig oedd; ond pan welwyfi di yn dy waed, gwelaf, gwn, rwy'n ei gael yn waed yn ennyn cariad.

3. MYFYRIA ar y rhagofrentiau a'r doniau a burcaſſodd Chriſt iti drwy ei farwolaeth; ac yn wir os bernir wrth y prîs a dâlwyd am danynt, rhaid iddynt fod yn fawr jawn. Oh'r fath ragorfraint yw cael *ûndeb* â Chriſt, *cyfiawnhâd* trwy ei waed ef, *ſancteiddiad* trwy ei yſpryd ef, cael y *pechod* wedi ei faddeu a'i orchfygu; *cymmod* â Duw, *Mabwyſiad* yn y byd ymma, a jechydwriaeth wedi hyn! yr holl ffrwythau bendigedig hyn a gei di'n tyfu ar y pren y bu farw dy Achubwr. Ac y mae digon ym mhob ûn o'r rhai'n i ennyn dy gariad i Dduw ac i Grîſt, ac i annog dy galon i fyned at yr ordinhâd hono, lle y gellit fod yn ſicer o honynt, drwy gael eu ſelio ith enaid.

4. MYFYRIA ar dy bechod, fal ith ddaroſtynger, oblegit dy bechodau a fuont yr achos haeddedigawl o holl ddioddefiadau dy Arglwydd; nid troſto'i hun, ond troſot i, nid oedd twyll yn ei enau, nac anwiredd yn ei galon, ond y cyfiawn a ddioddefodd tros yr anghyfiawn, dy bechodau di oeddynt y Judas ai bradychodd ef, y drain ai coronaſant ef, y waywffon ai gwânodd ef, yr hoelion ai hoeliaſant ar y pren. Gweled dyn fel tithau yn marw am dy feiau di, oni flinai hyn dy galon? d'accw ûn yn tuchan, gwedu marw am y drwg a wneis i! Oh'r modd gan hynny y dylai dy ſerchiadau weithio pan welych Fab Duw yn gwaedu (ai yſtlys yn agored iti i edrych iw galon) pan welych' et yn friwedig, ei ddwylaw ai draed wedi eu gwanu, pan glywych ti ef yn llefain a llêf uchel, ac yn rhoddi i fynu yr yſpryd, a hyn i gyd am dy falchder, a'th anghredimiaeth di, am dy fydoldeb a'th ffromder, am dy anufuddod a'th wrthryfelgarwch di. Oh'r modd y lleiaw hyn dy enaid a thriſtwch ac a llawenydd. Dy

lygaid

lygaid a dagrau, dy enau a mawl ; y naill o herwydd iti bechu', y llall oblegit marw o'th Arglwydd ith wared di oddiwrth dy bechodau ; Ac ymma ni fyddei 'n anfuddiol it' gofio by bechodau, fel y gwelit beth a wnaethoſt' i ddwyn yr holl driſtwch a'r dioddefiadau hyn ar dy Arglwydd caredig : oblegit os achubir di drwy ei farwolaeth ef, ſiccr yw mai dy bechodau di oeddynt yr achoſion 'oi farwolaeth ef : oblegid maddeuant dy bechod, ſanctteiddiad dy galon, a jechydwriaeth dy enaid, gydag eraill o Etholedigion Duw, a fwriadodd efe yn effeithiol eu gwneuthur, pan dderchafwyd ef ar y groes ; ond ni amcanodd y ſiccr gymhwyſiad o'i farwolaeth ai ddioddefaint ir anghymeradwy : felly oni bae er mwyn Etholedigion Duw ai bobl ddewiſol, ni buaſei efe byth yn goddef cymmaint, nac yn dyfod i lawr o'r nef, nac yn myned ar y groes : ac oni weithia hyn etto ar dy galon di ? yſtyria gan hynny beth oedd dy bechodau cyn ac wedi dy droedigaeth, yn eu natur a'u rhifedi ; pob ûn o honynt a haeddaſei ddigofaint trwm a thragwyddol Dduw. Oh gan hynny, y fath bynnau a phentyrrau o ddigofaint yr oeddynt i gyd yn eu haeddu ! Pa faint mwy holl bechodau holl Etholedigion Duw ! Oh'r faich a ddygodd dy Achubwr, pan oſodwyd y rhai'n eu gyd arno ef ! Beth a wnaethoſti yn erbyn dy Arglwydd yr holl flynyddoedd hynny y buoſt byw mewn cyflwr annychweledig ? pa faint o bechodau a wnaethoſti bôb dydd, bôb wythnôs, a phôb mîs ? pan oeddit yn y cyflwr hwnnw ymmha ûn ni wneit ddim ond pechu, pan oedd dy holl feddyliau'n bechod, dy holl eiriau a'th weithredoedd yn bechod, am ba rai oll yr oedd dy Arglwydd i wneuthur jawn pan oedd yn marw ar y groes : Anwyl Jeſu ! Mor angharedig a chreulon a fumi

y

y pryd hynny iti, yr hwn oeddit mor ddaionus a thrugarog i mi! Ond etto yſtyria beth a fu dy bechodau er pan gymhwyſodd dy Arglwydd ei farwolaeth iti, yr hyn a ddylaſei dy rwymo di i fod yn fwy Sanctaidd, ac i rodio'n fanylach gydag ef: ond wedi dy droad, dy bechodau mewn rhyw yſtyriaeth, a fuaut yn waeth na'r cwbl a wnaethoſt cyn dy droi: oblegit iti bechu'n erbyn Cariad anwylach, a goleuni eglurach, ti a bechaiſt yn erbyn yr Arglwydd a fu farw troſoti, ac ar ôl iddo trwy ei yſpryd gymhwyſo ei farwolaeth at dy enaid, ti a bechaiſt wedi it' gael maddeuant o'th bechod, ac wedi iddo dy ſicrhau o faddeuant; Pechaiſt yn erbyn y Tad yr hwn a'th ordeiniodd di i fywyd; yn erbyn y Mab, a brynodd dy enaid oddiwrth angeu, ac a bwrcaſſodd iti fywyd tragwyddol; yn erbyn yr yſpryd glan, yr hwn a fu yn dy gymhwyſo, ac yn dy baratoi di i fod yn gyfrannog o etifeddiaeth y Sainct mewn goleuni; pechaiſt ar ôl profiad llawn a helaeth o ddaioni a thrugaredd Dduw ith enaid, wedi profi o honot' chwerwdr y pechod, a melyſdra cariad Duw: ar ôl iti ymroi yn erbyn dy bechod, ac addaw i Dduw ar dy liniau, os maddeuai efe iti, a dywedyd iti, ei fod wedi maddeu iti, y byddit yn fwy gwiliadwrus am yr amſer i ddyfod, Duw a wnaeth yr hyn a ddymunaiſt ti, ond ni wnaethoſt ti yr hyn a addewaiſt. Bydded i hyn oll dy ddeffroi di i driſtwch ac edifeirwch cyn dy fyned at fwrdd yr Arglwydd.

3. Dos ymmlaen at *Weddi* ddifrifol, daer, a gwna dy ddeiſyfiad at dy Dduw. "Gan ddywe-
"dyd, O Arglwydd, mae arnaf gywilydd feddwl
"mor anyſtyriol y meddyliais am y pethau maw-
"rion hyn, ac a'r fath galon galed farwaidd yr
"'wyf

" 'wyf yn troi yn fy meddwl farwolaeth a diodd-
" efaint dy Fab, O Arglwydd, mae'n amſer imi
" ddyfod atati, fel y caffwyf ryw gynheſrwydd
" oddiwrthiti, fel yr cynner fi a chariad; ac pe
" bae boſſibl imi troi yn gariad, fel y gwneler fi
" i fynu oll o gariad. O Arglwydd, bûm yn
" ceiſio gwneuthur fy nghalon yn deimladwy o
" farwolaeth Chriſt, ac o'th Cariad ti a'r eiddo
" yntef, a eglurwyd im henaid ynddi; ond Ar-
" glwydd mae fy nghalon i yn drwm: ac ymbell
" waith pan fo'r marworyn yn dechreu gwrei-
" chioni, gorchguddir ef a lludw heb yn wybod
" imi; gormod gwaith imi dderchafu fy nghalon
" at yr hwn a ymddaroſtyngodd i lawr troſo fi:
" pe gallwn mi a wnawn, ond nis gallaf, ond hyn
" a wn, ti a elli os mynni: ie Arglwydd, rwyf'
" yn credu y gelli ac y gwnei, ac am hynny y
" daethym atti: O Arglwydd, mae'r amſer yn
" reſſau, y bydd imi fyned at dy fwrdd di; ond
" a ddaw amſer derbyn cyn iti ddyfod i'm calon
" i, i gynhyrfu dy raſau ynof, fel y cymhwyſir fi
" i dderbyn: gwir Arglwydd yr ydwyfi yn llwyr
" annheilwng o'r hyn yr 'wyf yn ei ddymuno,
" ond yr hyn yr wyti'n ei wneuthur i nêb, nid o
" herwydd eu bod yn deilwng, ond o herwydd ei
" fod yn rhyngu bodd iti wneuthur er dy eiddo,
" yr hyn y maent yn ei ofyn iti yn ôl dy ewyllys;
" 'rwy'n wael O Arglwydd, 'rwy'n wael jawn;
" ond os gwiſci fi a chyfiawnder dy Fab, ac os
" edrychi arnaf drwy ei friwiau ef, yna'ti am
" ceri i: na chofia fy mhechodau yn d'erbyn, ond
" cofia'r hyn a wnaeth ac a ddioddefodd dy Fab
" troſofi: 'rwyti yn 'gorchymyn imi yn y Sacra-
" ment gofio 'r hyn a ddioddefodd dy Fab, fel y
" byddwyfi ddiolchgar iti; cofia di yr hyn a
" ddioddefodd dy Fab, a bydd drugarog wrthifi,

" fel

" ſel y gwelwyf di yn gwênu, ac y deallwyf dy
" gariad pan fyddwyf yno, fel y deuwn oddi yno
" am maddeuant wedi ei ſelio, fy mhechodau
" wedi eu daroſtwng, am henaid wedi ei nerthu
" i redeg ffyrdd dy orchmynion, hyd oni ddelecht'
" im cymeryd atat' dy hyn, lle caf weled fy
" *Achubwr* yn ei ogoniant, a gweled fy *Arglwydd*,
" yr hwn a fu farw troſoſi ar y groes.

4. Os cei odfa, ymddiddan ag eraill am y cyfryw bethau a dueddent i gynhyrfu ac nid i ddychrynu dy galon, wedi it' gymeryd poen gydath di dy hun yn y dirgel, pan ddelech allan o'th ſtafell, cymer ofal a phwy yr ymddiddeni, a pha beth a ddywedych: oblegid ymddiddanion anghymwys cyn dy fyned a ddiffoddant dy hôll ewyllyſgarwch a'r gwrês oedd o'r blaen: neu os bu dy galon yn ſwrth yn y dirgel, etto geill Duw fendithio gair neu ddau mewn ymddiddan Sanctaidd er bywhâd o'th enaid, ac i ddercha fu dy ſerchiadau tuag atto ef. Pan eiſteddych wrth dy fwrdd, neu wrth y tân y nôs cyn y Sacrament, ſiarad ynghylch rhyfeddol *râs* Duw, *marwolaeth* Chriſt ai doniau, ynghylch dy *obaith* o'r nefoedd, *dyfodiad* yr Arglwydd, y *gogoniant* ſydd uchod, ynghylch y Sabboth a geidw prynedigion yr Arglwydd obri yn nheyrnas ei tâd. Pan oedd y ddau ddiſcybl yn ymddiddan ynghylch marwolaeth a dioddefaint Chriſt, daeth Chriſt ac a aeth gydâ hwynt, *Luc.* 24. 13, 14, 15. Os byddwch ddau yn ymddiddan a'i gilydd, f' all Chriſt ddyfod a gwneuthur y trydydd, ac yno eich calonnau a loſcant ynoch. Wedi it' geiſio paratoi dy galon fel hyn, pan elych o'th dy dy hun i Dy Dduw at yr ordinhad hon, gwilia ar dy feddyliau wrth rodio yno, a bydded dy galon yn gweithio

tuag

tuag at Dduw a Chriſt. Oh na chawn *deimlad* o rym *marwolaeth* Chriſt y dydd hwn! Oh na chawn *faddeuant* wedi ei ſelio imi heddyw! A chael ſy *nghydffurfio* ai farwolaeth ef, ei weled ef yn *gwenu: profi* oi gariad, a'm *nerthu* a nerth yn ſy enaid. A phan ddelych i uno yn yr addoliad Sanctaidd cyhoedd gydag eraill o bobl Dduw, meddwl am y gwaith ſy'oth ſiaen, ac ymddyg yn y ddyledſwydd, fel na chollech ti y boen a gymeraiſt yn ymbaratoi ir ddyledſwydd. A hyn ſy'n ſy arwain ir Athrwiaeth neſaf. Sef.

PEN. X.

" *Yn cynwys 20 o briodoliaethau gwaed Chriſt.*

4*dd Athrawiaeth.* " Y DYLE credadyn olygu
" neu yſtyried gwaed Chriſt
" yn Swpper yr Arglwydd, yn ei amryw briodoliae-
" thau, rhinweddau ai rym, hyd oni bo' graſau
" cyfattebol wrth hynny wedi eu tynnu allan ir
" weithred. Mae yn yr Athrawiaeth hon ddwy ran. 1. Y dyle'r credadyn yſtyriad gwaed Chriſt yn ei amryw briodoliaethau ei rinwedd ai rym. 2. Y dyle 'r yſtyriaeth ymma o waed Chriſt weithredu graſau cyfattebol i hynny, y rhai ſy iw harferu yn Swpper yr Arglwydd. Er cymorth it' yn y cyntaf o'r rhain, cynghorwn chwi i olygu gwaed Chriſt yn y priodoliaethau hyn, y rhai heſyd a ddangoſant ei rinwedd ai rym.

1. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, fal y mae'n *waed gwerthfawr*, 1 Pet. 1. 18, 19. *Nid a phethau llygredig, megis arian neu aur y prynwyd ni, eithr â gwerthfawr waed Chriſt*, &c. Mae gwaed Chriſt

Chriſt yn werthfawr amryw o ffyrdd. (1.) *Comparative*, os cyffelybwn ef i bethau eraill, gan ei fod yn fwy gwerthfawr na holl bethau gwerthfawr yn y byd, megis *arian* ac *aur*, y rhai ydynt wael, llygredig a dibris mewn cyffelybiaeth i waed Griſt, heb ddim tal na phrîs i brynu eneidiau, megis y mae hwn. (2.) *Abſolute*, yſtyriwch ef yn llwyrgwbl ynddo'i hun; ac felly mae *mawredd* a *rhagoriaeth* ei berſon ef, yn ei wneuthur yn dragwerthfawr, gan ei fod yn waed y *Perſon* hwnnw a oedd yn *Dduw* cyſtal ag yn *ddyn*, *Act.* 20. 28. (3.) *Effective*, fal y mae yn Achos o effeithiau gwerthfawr. Megis y mae.

1. Yn llwyr-brynu eneidiau gwerthfawr.

2. Yn gwneuthur pobl gwerthfawr.

3. Yn cadarnhau addewidion gwerthfawr.

4. Yn purcaſſu doniau gwerthfawr.

5. Yn achos haeddedigaethol o raſau gwerthfawr.

6. Yn ſailfaen cyſſuron gwerthfawr.

2. Golyga waed Chriſt yn y Sacrament fal y mae'n *waed* yn *bodloni* Duw; a hyn yw, oblegid ei fod yn waed gwerthfawr; y gwaed gwerthfawroccaf oedd, am hynny yr oedd yn waed o brîs a haeddedigaeth: yr oedd *cyfraith* Dduw wedi'i throſeddu, *cyfammod* y *gweithredoedd* wedi ei dorri trw'om ni, gwnaed cam a chyfiawnder Duw, ac yr oedd y pechadur yn *ddyledwr* i gyfiawnder, ac i *ddioddef* y goſbedigaeth oedd yn perthyn iddo am dorri'r gyfraith, yr hyn oedd, pob *trueni* yn y

bywyd

bywyd hwn, *marwolaeth* ei hunan; a *phoenau uffern* yn dragywydd. Ond yn y Sacrament edrych ar *waed Chriſt* megis *Taledigaeth* o'n dyled, wedi ei dywallt *noſtro bono* er ein daioni ni; ac *noſtro loco* yn ein lle ni: ddioddefodd Chriſt cymaint ag yr oedd ein pechodau ni yn ei haeddu; dioddefiadau'r hwn oeddynt yn rhoddi *bodlondeb* er nad oeddynt *Dragwyddol*, ac am hynny nid oeddynt Dragwyddol, oblegit eu bod yn rhoddi Bodlondeb; nid oedd Tragwyddoldeb o boenau *ſylweiddiol* ir goſbedigaeth ddyledus i bechod, ond *Damweiniol*, ar gyfri, had alle dioddefiadau pechaduriaid wneuthur jawn: Pe galle'r damnedig fodloni cyfiawnder Duw trwy orwedd yn uffern ddêg mîl o tyrddiwnau o flynyddoedd, yn niwedd y blynyddoedd hynny hwy a ddeuent allan; ond oblegid na ddichon iddynt byth fodloni am hynny rhaid iddynt ddioddef yn dragywydd. Ond y mae gwaed Chriſt yn Bodloni, oblegid mai Taledigaeth ddigonol yw a ro'es efe i lawr er prynu ei bobl, *Matth.* 20. 28. Daeth Chriſt i roddi ei einioes trwy dywallt ei waed yn Bridwerth, a gwerth prynedigaeth tros lawer. Fal wedi talu'r gwerth, y mae'r Echwyn-wr wedi'i fodloni, felly pan dywalltwyd gwaed Chriſt y bodlonwyd cyfiawnder Duw. 1 *Tim.* 2. 6. *Yr hwn ri rhoddes ei hun yn bridwerth dros bawb*, mae'r gair yn arwyddoccau, gwerth wedi'i dalu gan ûn arallyr hyn ni alle'r tramgwyddwr neu'r Caeth-ddyn ei dalu trosto'i hunan, pan brynir bywyd ûn drwy farwolaeth ûn arall. Oh tra-rhyfeddol gariad Chriſt! yr hwn a roddai i lawr fywyd am fywyd: efe a roddes i lawr ei einioes ef fel y ca'em ni fywyd. Yna pan eiſteddech tan groes Chriſt wrth Swpper yr Arglwydd, edrych ar y gwaed a welych yno yn ei dywallt, ei fod yn waed yn gwneuthur jawn ac yn bodloni.

3. EDRYCH

3. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, ſiegis gwaed yn *heddychu* ac yn *cymmodi*; ac am hynny mae'n waed tangneddefus oblegid ei fod yn waed yn gwneuthur jawn. Pe buaſei Duw heb ei fodloni am bechod, ni buaſei eſe byth heddychol â'r Pechadur onid pan whaed jawn am bechod y dyhuddwyd Duw. *Rhuſ.* 3. 25. *Yr hwn a ôſododd Duw yn jawn trwy ffydd yn ei waedd ef.* 1 Joa. 2. 2. *Eſe yw'r jawn trôs ein pechodau ni.* Trwy't gwaed hwn y troir heibio ddigoſaint Duw, ac y cymmodir ef âg eneidiau crediniol. *Col.* 1. 20. *Ac (wedi iddo wneuthur heddwch trwy waêd ei grôes ef) trwyddo ef gymmodi pôb pêth âg ef ei hun.* Pechod a wnaeth yr Adwy, ond gwaed Chriſt ſy'n gwneuthur heddwch rhwng Duw a'r pechadur. *Eph.* 2. 13, 14. *Chwychwi y rhai oeddych gynt ymmhell a wnaethpwyd yn agos trwy waed Chriſt.* Pechod ſy'n ein goſod *ym mhell* oddiwrth Dduw, ond gwaed Chriſt ſy'n ein dwyn ni yn agos atto ef; *eſe yw'n Tangneddyf*, hynny yw, ein *Tangneddyf-wr*. Oh Bendigedig yw't cyfryw Dangneddyf-wr rhwng Duw a Dyn! 2 *Cor.* 5. 19. *Yr oedd Duw ynghriſt yn cymmodi y Byd ef ei hun.*

4. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament megis *gwaed yn pwrcaſu*; trwy hwn y pwrcaſodd ei Eglwys a'i bobl. *Act.* 20. 28. *Bugeiliwch Eglwys Dduw, yr hon a bwrcaſodd eſe a'i briod-waed.* Trwy'r gwaed hwn eſe a'n llwyr-brynodd ni, (ſef) yn hollawl allan o ddwylaw cyfiawnder, yn gwbl allan o feddiant Diafol, a phechod, 1 *Cor.* 6. 20. *Canys er gwerth y prynwyd chwi.* Ond heblaw pwrcaſu'n perſonau, eſe a bwrcaſodd ac a brynodd trwy ei waed bôb peth angenrheidiol er gras a gogoniant, er heddwch a chyſſur, eſe a bwrcaſodd

ddigon i gyflawni'ch holl raid chwi, byddent byth cyn amled, a byth cymmaint.

5. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament megis *gwaed yn cyfiawnhau*, megis yr hwn ſy'n eich gwneuthur yn gyfiawn ger bron Duw, er nad oes ganddoch gyfiawnder o'ch eiddo 'ch hunain, ymmha ûn y meiddiwch eiſtedd o flaen Duw wrth ei fwrdd, neu ſ. fyll ger ei fron ef wrth ei frawdle *Rhuf.* 5. 9. *Mwy ynteu o lawer a nyni yn awr wedi'n cyfiawnhau trwy ei waed ef, i'n achubi, rhag digofaint trwyddo ef.* Gwaed Chriſt ydyw'ch *cyfiawnder* chwi, cyfrifir ef i chwi er eich cyfiawnhad.

6. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament megis *gwaed yn maddeu*, megis yr hwn trwy ba ûn y mae ganthoch y llawn â rhad a thragwyddol faddeuant o'ch holl bechodau. Pe buaſe Chriſt byth heb farw, chwitheu a fuaſech byth heb faddeuant; oblegid, *heb ollwng gwaed nid oes maddeuant*, *Heb.* 9. 22. Ond trwy y gwaed hwn o eiddo Chriſt, y mae ini brynedigaeth, ſef maddeuant pechodau, *Eph.* 1. 7. *Col.* 1. 14. Gwaed Chriſt ſy'n dwyn maddeuant i chwi, ac yn ſelio addewid o faddeuant i chwi; meddyliwch am dano megis y cyfryw.

7. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis *gwaed yn puro'r galon*, fel y mae yn waed o gyfrif a haeddedigaeth, felly mae yn waed o rinwedd a nerth; yr oedd gwaed Adda yn waed yn glychwino neu'n llygru, ac mae'r lygredigaeth hon, yn rhedeg yn y gwaed; ond y mae gwaed Chriſt yn waed yn pûro ac yn glanhau. *Heb.* 9. 13, 14. " Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr a lludw " anner wedi daenellu ar y rhai a halogwyd, yn

" Sancteiddio

" Sancteiddio i bureiddiad y cnawd, pa faint mwy " y byddi waed Chriſt, yr hwn trwy yr yſpryd " tragwyddol ai hoffrymmodd ei hun yn ddifai i " Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth " weithredoedd meirwon, i waſanaethu y Duw " byw? rhaid iddo fôd yn Phyſygwriaeth wedi " ei wneuthur o waed; a ddichon buro ein cyd- " wybodau ni, 1 *Joa.* 1. 7. A gwaed Jeſu Griſt ei " Fab ef, ſydd yn ein glanhau ni oddiwrth bôb " pechod. *Datc.* 1. 5. Yr hwn a'n carodd ni ac " a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei " waed ei hun. Nid oedd yn unig yn waed *pûr*, ond y mae yn waed yn *pûro*; nid oedd yn unig yn waed *Sanctaidd*, ond y mae yn waed yn ſancteiddio. Oh, mor fawr oedd y cariad hwnnw o eiddo Chriſt, ar iddo r'oi ei waed pûr, *gwerthfawr*, *dibechod*, a *brenhinawl*, i fod yn olchfa, ym mha un y gallei'n Eneidiau budron halogedig drwy eu trochi yntho, fod yn lân! Edrychwch arno gan hynny megis gwaed yn puro, Sancteiddio, ac yn glanhau.

8. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis *gwaed Dadleugar*, *Heb.* 12. 24. *Gwaed y taeneiliad, yr hwn ſy'n dywedyd pethau gwell na'r eiddo Abel.* Yr oedd gwaed *Abel* yn dadleu yn erbyn y *troſſeddwr*, ond y mae gwaed *Chriſt* yn dadleu tros y *credadyn*. Gwaed *Abel* oedd yn lleſain am *ddial*, ond gwaed *Chriſt* am *drugaredd*: mae *Satan* yn dadleu yn eich erbyn, a'r *ddeddf* yn dadleu yn eich erbyn, ac y mae eich *cyd-wybod* eich hun, mewn llawer o bethau, a llawer tro, yn lleſain allan yn eich erbyn; y cwbl yn lleſain allan ar Dduw, ſel hyn; *Arglwydd bu gan y dyn hwn hyn a hyn o feddyliau ofer ac a wnaeth cymmaint o weddiau meirwon, ac a eſceuluſodd cymmaint o ddyledſwyddau*; ond

cyn gynted fyth y rhydd Satan ei *Scrifen* yn eich erbyn, mae Chriſt yn ei fwrw allan o gynteddfa'r nêf, ac y mae'n dadleu troſoch gydâ'r Tâd, fel hyn, *Efe a bechodd ond gwnaed cynnifer o friwiau yn fy yſtlys am calon i troſto, cynnifer ô ddefnynnau o waed a* dywalltais i tros y pechodau hyn: mae'ch *pechodau* hefyd yn gwaeddi yn eich erbyn, a gwaedd uchel iawn yw gwaedd pechod, yr hwn ſy'n cyraedd ir nefoedd. *Gen.* 18. 22. *Yr Arglwydd hefyd a ddywedodd, am fod gwaedd* Sodoma *a* Gomorra *yn ddirfawr, ai pechod hwynt yn drwm iawn:* gwelwch, *mae Pechodau trymion, yn gwneuthur gwaedd drom*; ond etto mae gwaedd uwch yn llais gwaed Chriſt, yr hon a aeth ir nefoedd, os ydych yn ofni fôd gwaedd eich pechod yn uwch ac yn fwy na gwaedd eich gweddiau, etto cymerwch gyſſur, nid yw ddim yn fwy na gwaedd gwaed Chriſt, oblegid ei fod yn *waed dadleugar.*

9. Edrych ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis *gwaed yn diddanu*, a rhaid iddo fod felly oblegid yr holl briodoliaethau a henwyd euſys, gwaed ydyw ſy'n *bodloni cyfiawnder Duw*, ac am hynny gwaed ydyw a ddichon *lonyddu'ch cydwybod*, a chyſſuro'ch calon, gwaed *yn oeri* ydyw; gallei'r enaid a fyddei wedi poethi gan deimlad tanllyd o lidiawgrwydd lloſcedig Duw, gael ei hoeri âg un defnyn o waed Chriſt. Briwiau'ch cyd-wybod, a briwiau Chriſt wedi'i dwyn ynghyd a wnânt waith; briwiau Chriſt a jachânt friwiau 'ch cyd-wybod; mae'ch briwiau chwi yn llygru ac yn llâdd, ond briwiau Chriſt ſy'n jachau ac yn cyſſuro nid oes y fath gyſſur ſicer, parhaus, ag a gyr hir oddiwrth waed Chriſt.

10. Erych ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis gwaed yn *meddal-hau'r galon*; megis yr hwn a ddichon ddattod y galon mwya' carregog, megis yr hwn a ddichon dorri'r pechadur calettaf. Y gwaed hwn unwaith wedi ei gymhwyſo at y rhai a ſuant mor galon-galed a thywallt y gwaed hwn; *ſef* yr *Iddewon*, y rhai a galedwyd yn ddihareb (ſef a ydych yn meddwl fy mod yn *Iddew calon-galed?*) a dry y graig hon o'i calon yn ffynnon o ddagrau. *Zech.* 12. 10. *Huy a edrychant arnaſi, yr hwn a wanaſant, galarant hefyd am dano, fel ûn yn galaru am ei unig-anedig* (hynny ydyw â galar mawr) *ac ymofidiant am dano ef, megis un yn gofidio am ei gyntafanedig.* O rhoddwch eich calon ym mwyd yn y gwaed hwn, a phrofwch onid gwaed yn *meddal-hau* ydyw.

11. Edrych ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis gwaed yn *marwhau pechod*, y mae yn wîr yn waed yn Achub yr enaid, ond gwaed ydyw yn llâdd pechod, ac am hynny y mae yn Achub eich enaid, oblegid ei fod yn llâdd eich pechod; megis y Phyſygwriaeth ſy'n Achub bywyd dyn, ſy'n ſymmud ymmaith y clefyd: yr hyn ſy'n ſywyd i'ch enaid, ſy'n farwolaeth i'ch pechod. Yn y Sacrament rhaid i chwi edrych ar eich pechod, megis yr hyn a ſu'n farwolaeth i'ch Arglwydd; ac edrych ar eich Arglwydd megis ûn ſy'n farwolaeth i'ch pechod; pechod a dynnodd allan waed bywyd Chriſt, a gwaed Chriſt wedi'i dywallt a dynn allan waed bywyd y pechod. Ymma y gellwch weled y ddau ymryſſon-wyr hyn, y ddau yn *ymladd* y ddau yn *gwaedu*. y ddau yn *marw*, ac y maent yn *Achoſion attychwelig* y naill o farwolaeth y llall, mae *Chriſt* yn *gwaedu*, mae *Pechod* ynte' yn *gwaedu*; mae *Chriſt* yn *marw* ar *Pechod* yn *marw*; ond Chriſt

ſy'n cael y ſuddigoliaeth, obleged mae Chriſt yn marw ac yn codi drachefn, ac y mae'n byw yn dragywydd; ond pechod ûnwaith wedi marw, ni fydd byth fyw drachefn. Oh! deuwch bwriwch eich pechodau, yr *Aiphtiaid melldigedig hynny yn y môr côch* o waed Chriſt, a boddir hwynt yn hollawl, ac ni fyddant byth fyw i deirnaſu arnoch mwyach; bydd eich *enaid* yn ddiogel wrth fyned trwy'r môr côch hwn, ond eich *pechodau* a ſyrthiant ac a fyddant feirw yntho. Y gwaed hwn a lâdd eich *Balchder* ac a farwhâ eich *ſyniad daiarol*, ac a ddaroſtynga'ch holl *wyniau* ie holl *gorph pechod* a ddiniſtrir gan y gwaed hwn. *Rhuf.* 6. 6. *Gan wybod hyn, ddarfod croeſhoelio'n hên ddyn ni gyd âg ef, er mwyn dirymmu corph pechod, fel rhag llaw na waſanaethom bechod.* Gal. 6. 14. *Eithr na atto Duw i mi ymffroſtio, ond ynghroes ein Harglwydd Jeſu Griſt, drwy'r hwn y croeſhoeliwyd y byd imi, a minneu ir byd.* Mae Croes Chriſt yn ogoniant ir Chriſtion, oblegid ei bod yn rho'i ei bechod i gywilydd cyhoedd, gan groeſhoelio ei wyniau i farwolaeth. Oh dygwch gan hynny eich llygredigaethau cryfion at waed Chriſt, oblegid ei fod yn waed yn llâdd pechod.

12. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament megis *Gwaed yn bywhau*; yr oedd y gwaed a biſtilliodd oddiwrth galon Chriſt, yn waed cynnes, a choeiia fi, fe a gynheſa dy galon ditheu; y mae'n waed yn bywhau, er ei fod yn waed yn lladd; yn lladd y pechod yn eich calon, ond yn rho'i bywyd i'ch calon. Joa. 3. 53. *Oni fwyttewch gnawd Mâb y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes gennych fywyd ynoch.* Os yfwch ef, yno eſe a'ch bywha chwi, marweiddiodd y pechod eich calon yn fynych, a marweiddiodd y byd eich Serchiadau yn fynych; ond

ond gwaed Chriſt a rydd fywyd i'r ddau. Gwaed Chriſt ydyw bywyd eich dyledwſyddau chwi; gwna i chwi *weddio* a *gwrando* gyda bywyd, ac *ymddiddan* ynghylch pethau Duw, a'r bywyd i ddyfod, gyda bywyd. Gwaed Chriſt ydyw bywyd eich holl raſau chwi, gwna i chwi weithredu ffydd gyda *bywyd*, a charu gyda *bywyd*, gwna i chwi driſtau ac edifarhau gyda *bywyd*. Gwaed Chriſt ydyw bywyd eich cyſſuron, oh dygwch gan hynny eich calon farw, a'ch ſerchiadau trymion at waed Chriſt; bywha a bywiocca hwynt oblegid'i fod yn waed yn bywioccau.

13. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis *gwaed taenelliad* megis cyfaddaſol, ac iw gymhwyſo at eich Enaid; ſel y gallech ddywedyd; dymma waed a'm eiddo i ydyw: dymma Waed wedi ei dywallt, a hynny troſoſi; dymma waed iw daenellu, ac yr ydwyf yn gobeithio y ſyrth ûn Defnyn ar fy enaid i. Heb. 12. 24. *Chwi a ddaethoch at Jeſu cyfryngwr y Teſtament newydd a gwaed y taenelliad.* 1 Pet. 1. 2. *Etholedigion yn ôl rhagwybodaeth Duw Tâd, trwy ſancteiddiad yr yſpryd i ufudd-dod a thaenellaid gwaed Jeſu Griſt.* Heb. 9. 19. *Moſes a gymmerodd waed ïoi a geifr, gyda dwfr a gwlan prophor ac yſſop, ac a'i taenellodd ar y llyfr a'r bobl oll.* Heb. 10. 22. *Neſawn a chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonnau oddiwrth gyd-wybod ddrwg a golchi ein corph a dwfr glan.* Tywalltwyd gwaed Chriſt ar y groes, ac a'i taenellir ei ar eich Cyd-wybod yn y Sacrament; nid gwaed Chriſt wedi ei dywallt allan, a'ch achub chwi, ond gwaed Chriſt wedi ei daenellu ar eich calon a wna hynny.

14. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, me-

gis gwaed yn *concwerio Satan*; y Diafol a roddes ynghalon *Judas* i fradychu Chriſt, ac yn ghalon yr rddewon i lâdd Chriſt, ond Chriſt trwy ei farwolaeth a thywalltiad ei waed a orchfygodd y Diafol; a phan oedd yn gwaedu i farwolaeth, eſe a ymorfoleddodd ar holl gythreuliaid uffern. Col. 2. 15. *Gan yſpeilio y tywyſogaethau a'r awdurdodau, eſe ai herddangoſodd hwy ar gyhoedd gan ymorfoleddu arnynt arni hi.* A thrwy'r gwaed hwn o eiddo Chriſt y nerthir chwi i orchfygu'r Diafol. Datc. 12. 10, 11. *Cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr yr hwn oedd yn eu cyhuddo hwy ger bron ein Duw ni, ddydd a nôs ac hwy a'i gorchfygaſant ef trwy waed yr oen.*

15. EDRYCHWCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis yr hwn a dywalltwyd allan, nid yn unig i bwrcaſu'r neſoedd i chwi, ond hefyd i'ch Siccrhau chwi o honi. Mae *gwaed Chriſt* wedi ei dywallt ar y groes yn ſiccrhau ac yn cadarnhau y cyfammod gras. Heb. 9. 15. *Ac am hynny y mae efe yn gyfryngwr y cyfammod newydd, megis trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troſſeddau oedd tan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn yr addewid yr etifeddiaeth dragwyddol.* 16. *Oblegid lle bydd a Teſtament, rhaid yw digwyddo Marwolaeth y Teſtamentwr: canys wedi marw dynion y mae Teſtament mewn grym.* Felly gan hynny, pan weloch waed Chriſt wedi ei dywallt, cofiwch fod Duw wedi addaw ir ffyddloniaid faddeuant a bywyd tragwyddol, ac y mae'r addewid hwn mewn grym: mae Chriſt wedi rhoddi iw hobl bethau gwerthfawr yn ei lythyr-cymmyn; ac y mae ei *Ewyllys* a'i Deſtament mewn grym, oblegid fod ei waed ef wedi ei dywallt.

16. EDRYCH

16. Edrych ar waed Christ yn y Sacrament, megis *gwaed Diniwed*; ystyria yno, *mai'r cyfiawn a ddioddefodd tros yr anghyfiawn*: nid oedd dim anwiredd yn ei ddwylaw ef, dim pechod yn ei galon, dim twyll yn ei enau; Mae'r diniwed yn gwaedu tros y niweidiol: *Matth.* 27. 4. *Bradychais waed, gwirion*; ac oni chynhyrfa hyn di, i weled tywallt gwaed gwirion fel hyn?

17. Edrych ar waed Christ yn y Sacrament, megis *gwaed digonol*; gan ei fod yn ddigonol i chwi a holl Etholedigion Duw, mor ddigonol i chwi a phe buasei nêb wedi eu hachub neu eu cyfiawnhau trwyddo ond chwychwi'ch hunain: Mae llawnder o haeddedigaeth ynddo; ffynnon ydyw. *Zech.* 13. 1. *Y dydd hwnnw y bydd ffynnon*, wedi ei hagoryd. Yn awr mae ffynnon.

1. Yn *ddwfr bywiol*, ac y mae gwaed Christ yn waed bywiol.

2. Yn *ddwfr rhedegog*, yn ymgyfrannu, yn rhedeg trosodd, y mae yn porthi'r afonydd bychain; a'r pibellau ymha rai y mae gwâed Christ yn rhedeg, ydynt galonnau Etholedigion Duw.

3. Mae'n *ddwfr helaeth lawn*; nid oes ond ychydig mewn pydew, ond y mae helaethrwydd yn y ffynnon.

4. Y mae yn *ddiddarfodedig* a pharhaus; mae'n rhedeg trosodd, ac etto yn llifeirio'n wastadol; y cyfryw ydyw gwaed Christ; ni threuliodd Christ mo holl rinwedd ei waed ar Ddafydd a *Phetr*, a *Phaul* a'r Saint sy' wedi myned eusys i ogoniant,

ond

ond y mae digon i chwithau; oblegid ei fod yn waed digonol; a hynny os yſtyriwch faint o waed a gollodd Chriſt ar chwech o amryw amſerau. 1. Yn ei Enwaediad. 2. Yn yr Ardd. 3. Pan ffangellwyd ef. 4. Pan goronwyd ef â drain. 5. Pan hoelwyd ei ddwylaw ai draed ef wrth y groes. 6. Pan drywanwyd ei yſtlys â gwaywffon. Os yſtyriwch faint oedd fel hyn ei waed naturiol ef, yr oedd yn llawer, ond os yſtyriwch ei rym a'i rinwedd goruwch natur, yr oedd yn anfeidrol.

18. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis *gwaed yn perffeithio*; ffrwyth ei waed ef ydyw fod gennych ddim grâs, a ffrwyth ei waed ef ydyw fod eich gras chwi yn tyfu ac yn cynnyddu; achwyn yr ydych fod eich gras yn fychan, fod eich cariad i Dduw yn fychan, eich ffydd yn wann, eich dymuniadau yn llêſc ac egwan ar ôl Chriſt, ond gwaed Chriſt a'ch gwna chwi yn berffaith; Chriſt a ireiddia 'ch gras chwi trwy roddi ei waed yn fynych wrth ei wreiddyn fel y cynnyddo, ac i chwithau gynnyddu o ras i ras, hyd oni ddeuoch o ras i ogoniant. *Heb.* 13. 20, 21. *A Duw'r heddwch, yr hwn a ddug drachefn oddiwrth y meirw ein Harglwydd Jeſu, bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfammod tragwyddol, a'ch perffeithio ym mhôb gweithred dda, i wneuthur* ei ewyllys ef.

19. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis *gwaed yn cyfannu*; megis yr hwn fy'n aſſion calon a Serchiadau pobl Dduw y naill wrth y llall, gwneir ini oll yfed o'r ûn gwaed, a hyn a ddylae ein gwneuthur ni i fod o ûn galon, megis y tywalltodd Chriſt ei waed, a thrwy hynny a ddangoſodd yn eglur ei fod yn caru ei holl bobl, felly pan gyfrannom ninneu o hono yn y Sacrament, yr ydym ni yn

yn rhwymedig i garu'n gilydd megis y carodd efe nyni, 1 *Cor.* 12. 13. *Eph.* 2. 13, 14, 15, 16.

20. EDRYCH ar waed Chriſt yn y Sacrament, megis y *fath waed y ſy'n gwneuthur i hôb peth d wneloch ryngu-bodd Duw.* Buaſei'ch gweithredoedd goreu chwi yn annog Duw i ddigofaint oni bae farw o Griſt: Oni bae farw o Griſt buaſei'ch gweddiau chwi yn digio Duw; Dioddefiadau a gwaed Chriſt ſy'n gwneuthur eich holl ddyledſwyddau crefyddol yn gymmeradwy ger bron Duw; hwn yw'r *Arogl-darth y mae yn ei offrwm gydâ gweddiau'r Sainct, Dat.* 8. 3. Trwy waed y cyſammod trag-wyddol y gweithir hynny ynoch chwi a thrw'o chwi ag ſy'n gymmeradwy ger bron Duw; ac yn wîr chwi a ddyleich yn yr yſtyriaeth hon edrych ar rinwedd a gweithrediad gwaed Chriſt ym mhôb dyledſwydd; nid yw'ch dagrau ond dwfr y pwll, a'ch cyfiawnder ond bratiau, heb y gwaed hwn o eiddo Chriſt.

A dymma'r rhan gynta' o'r Athrawiaeth, ſef, Pa fodd y mae ini yſtyried gwaed Chriſt yn yr ordinhad hon fal y bo' iddo weithio ar eich calonnau ac i gynhyrfu eich graſau er mwyn defnyddio gwaed Chriſt er eich cyſſur a'ch budd yſprydol yn y Sacrament.

Y Graſau iw harferu yn y Sacrament ydynt yn bennaf; ſaith, 1. Fydd. 2. Cariad. 3. Dymuniadau. 4. Llawenydd. 5. Triſtwch. 6. Caſineb i bechod. 7. Diolchgarwch.

PEN.

PEN. XI.

" *Sy'n dangos pa fodd y mae ffydd iw harferu wrth* " *fwrdd yr Arglwydd.*

1. PAN yſtyrioch *waed Chriſt* fel hyn yn y Sacrament, goſodwch ffydd ar waith. Chriſt wedi ei groeſhoelio ydyw golygyn ffydd ſy'n cyfiawnhau ; a'r neb ſy' gantho olwg craff o ffydd a wêl ddigon yn gwaed Chriſt, i atteb iw amheuon i chwalu ei ofnau, i gyflawni ei ddiffyg ; megis yr hyn ſy' feddyginiaeth gyffredinol yn erbyn pôb afiechyd-enaid.

GWNAED ffydd ddefnydd o'r gwaed hwn mewn perthynas i *Dduw*, *Satan*, *tydi dy hun*. (1.) *Duw* ſef yn *Appelio* atto ef. (2.) *Satan*, yn *atteb* iddo ef. (3.) *Tydi dy hun*, yn ei *gymhwyſo* attat dy hun.

1. PAN fyddoch wrth fwrdd yr Arglwydd, bydded eich ffydd ar waith yn Appelio oddiwrth y gwaed hwn at Dduw, yn y modd hyn.

" ARGLWYDD, yr 'wyf yn wael jawn o honof ſy " hun, ie trwy bechod wedi fyng wneuthur yn " waeth nag anifeiliaid y Maes na lleiſiad y lly- " ffant du, neu'r Sarph mwya' gwenwynllyd, etto " onid oes ymma waed gwerthfawr, yr hwn a " dywalltodd dy Fab i'm gwneuthur i yn werth- " fawr yn dy olwg? Er ſy mod ('rwy'n cydnabod) " hebddo yn ffiaidd yn dy olwg di ; etto drwy " y gwaed hwn 'rwy'n gobeithio bôd yn ûn o'th " dlyſau gwerthfawr di, yn ûn o'r rhai ſy'n an- " rhydeddus yn dy olwg ; Arglwydd na ddigia,

" canys

" canys tydi dy hun a leferaiſt fel hyn am dy bobl,
" oni bae hynny ni feiddiaſwn i feddwl am y fath
" beth, oni bae imi dy gael di yn dywedyd fel
" hyn yn dy brophwyd. Iſa. 43. 4. *Er pan aethoſt yn werthfawr yn ſy ngolwg i'th ogoneddwyd, a mi a'th hoffais.* " O Arglwydd, dy eiriau di
" yw'r rhain, ac yr 'wyf yn eu credu, ac yn
" oſtyngedig yn hy trwy'r gwaed gwerthfawr hwn
" iw cymhwyſo attaf fy hun. Arglwydd, mi a
" dorrais dy gyfraith a'th gyfammod, ac a bechais
" yn ddirfawr yn dy erbyn di; etto onid oes
" ymma waed ith fodloni? Yr oeddwn yn elyn
" iti, etto onid oes ymma waed i'th cymmodi?
" Yn hwn 'rwy'n credu dy fod yn awr yn gyfaiſl
" imi a'm Duw i wedi ei ddiddigio. Arglwydd
" bûm mewn gwaeth na chaethiwed Aiphtaidd,
" yn garcharor ir Diafol, yn gaethwas i'm trach-
" wantau; ond onid oes ymma waed purcaſſawl?
" Prynwyd fi ag ef megis a gwerth; yr hwn a
" dalodd dy Fab er fy mrhynedigaeth; trwy'r
" hwn yn oſtyngedig 'rwy'n gobeithio fy mod
" wedi fy ngwaredu a'm prynu; yr 'wyf' mewn
" eiſiau mawr o ran fy enaid, mae arnaf eiſieu he-
" ddwch a chyſſur, mae arnaf eiſieu cariad iſi,
" ofn ac arſwyd mwy Sanctaidd o honoti; ond
" onid oes ymma waed yn purcaſſu? Ac a ddigi
" di os pwyſaf arnat am gynnorthwy, yn enwedig
" gan nad ydwyf yn gofyn dim ond yr hyn a
" brynodd ac a bwrcaſſodd y gwaed hwn imi.
" Arglwydd, nid oes dim cyfiawnder gennif o'm
" eiddo fy hun, ond yr hyn fy' megis brattiau
" budron o'th flaen di, pan geiſiwn fy nghyfiawr-
" hau gar dy fron di; mae arnaf gywilydd o'm
" gweddiau, ac yn gwridio weled fy nyledſwyddau
" goreu? Ond onid oes ymma waed im cyfiawn-
" hau? Oni wnaethpwyd Chriſt wedi ei groeſho-

" eſio

" elio i fod yn gyfiawnder iw bobl? Trwy dy
" gymorth di, yn obeithiol mi a bwyfaf ar yr
" Achubwr croefhoeliedig hwn, im gwneuthur yn
" gyfiawn yn dy bûr olwg di, a chan ymwrthod
" am holl ddyledfwyddau, yr 'wyf yn eftyn allan
" law ffydd i'm cyfiawnhau trwy'r gwaed hwn.
" Arglwydd 'r'wyf yn bechadur euog, a'm pecho-
" dau fy'n llawer mewn rhifedi, ac yn orthrwm
" yn eu natur a'i hamgylchiadau trymion, mae
" gennif y fath galon bechadurus nas adwaen i y
" dyn fy' ganddo waeth: ped fae fy nghydgym-
" munwyr yn gwybod pa galon fy' gennif, ni
" fedrent ond rhyfeddu a rhythu llygaid arnaf,
" wrth yftyried, fy mod i yr hwn a fum yn Pro-
" ffefu cyhyd fy môd yn ddifcybl iti, ac etto yn
" dyfod a'r fath galon falch fydol ith fwrdd di,
" Yr 'wyf yn euog o bechodau yn erbyn cariad a
" goleuni, yn erbyn dy drugareddau a'th farnedi-
" gaethau, yn erbyn dy yfpryd a'm cydwybod fy
" hun; ie, pechais yn erbyn cyfraith natur yn
" Scrifenedig yn fy nghalon, yr hyn y buafei dyn
" cenhedlig yn ffieiddio gwneuthur y peth nid oedd
" dim cywilydd arnafi ei wneuthur: etto onid oes
" ymma waed yn maddeu, yr hwn a ddichon
" faddeu pechodau mawrion, cyftal a rhai by-
" chain, a llawer, cyn hawfed ag ychydig? Ar-
" glwydd bu dy Fab farw tros y pechodau hyn,
" am hynny yr 'wyf' yn gobeithio na ddamner
" monofi am y pechodau hyn, er fy mod o'i plegid
" hwynt yn haeddu'r ddamnedigaeth fwyaf. Ar-
" glwydd er mwyn y gwaed hwn, 'rwy'n credu y
" maddeui di imi, a thrwy'r gwaed hwn y fêli di
" faddeuant imi; yr ydwyf yn hyderu yn y gwaed
" hwn am faddeuant, ie, yn hwn 'rwy'n gobeithio
" y madedui di imi.

" ARGLWYDD

" ARGLWYDD, nid 'wyfi'n ûnig yn euog, ond " halogedig, gwnaeth y pechod fi'n aflan cyſtal ag " yn ddamnedig: Arglwydd mae gennif galon " cyn ddued ag ûffern, mor ſudr ac aflan a'r yſp- " rydion aflan eu hunain, ond onid oes ymma " waed i'm golchi, cyſtal ag i faddeu imi, i'm puro " oddiwrth fy mudreddi cyſtal a'm hachub oddi- " wrth euogrwydd fy holl bechodau? At y gwaed " hwn yr ydwyf yn dwyn fy enaid halogedig, ac " mi a gredaf y glanhei di fi, Arglwydd, dymma " waed, a pha beth a rwyſtra imi ymolchi a bod " yn lan?

" ARGLWYDD, caeodd pechod fy ſafn, fal nid " allaf ddywedyd dim droſof fy hun ger bron dy fawr " hydi, ond onid oes ymma waed yn dadleu? " Dadleued hwnnw troſofi, hwn yw fy nadleuwr, " mae fy mhechodau yn dadleu'n f'erbyn, ond " dymma waed yn dadleu troſof', ac yr wyf' yn " credu y gwrandewi yn hytrach ar ddadleuon " gwaed dy Fab troſofi, na dadleuon fy mhecho- " dau yn fy erbyn.

" ARGLWYDD, fy enaid a ddaroſtyngir ynof' ac " a'm llenwir yn fynych ath ddychryniadau, ſel " y byddwyf agos wedi amhwyllo; llawer o be- " thau ſy'n fy anghyſſuro i, mae fy mhechodau, " am dyledſwyddau yn fy nhriſtau; ond onid oes " ymma waed i'm cyſſuro? Oh mae'r gwaed hwn " yn (*Aqua vitæ*) ddwfr y bywyd i'm henaid yn " llewygu; rhoddaf ſafn fy ffydd wrth y Archo- " llion gwaedlyd a wnaethpwyd yn dy Fab, ac a " ſugnaf hyd oni chyſſurir fy enaid.

" OH; o fy mhechodau a'm gwnaethant nid yn " ûnig yn aflan ond yn galon-galed; weithiau

" mae

" mae hi'n meddalhau ychydig ac yn ymroi, ond
" yn y man y mae hi'n caledu ac yn garregog o
" fewn fy nwyfron; weithiau mi a debygwn nad
" oes ùn galon mor galed ar eiddofi, ond er hynny
" onid oes ymma waed i feddalhau calonnau? Os
" nad oes gad imi fyned ymmaith mor galed ag y
" daethym; ond os oes gad imi deimlo y rhin-
" wedd a'r grym o hono, yn gweithio ynofi galon
" o gîg: O Arglwydd rho'f' fy nghalon i fwydo
" yn y gwaed hwn, ac a gredaf y meddalheir hi
" wedi hynny.

" Oh, fy Arglwydd, mae fy mhechodau'n gry-
" fion jawn ac yn rymmus o'm mewn, fel y
" tybwyf weithiau eu bod nid yn unig yn terfyfcu
" ond yn teirnafu mae fy Malchder yn gryf fy
" ffromder a'm gwyniau yn nerthol jawn, ond
" onid oes ymma waed yn marwhau pechod, yr
" hwn a ddichon dynnu i lawr ei nerth al rym?
" F' a'i daroftyngodd y gwaed hwn mewn eraill,
" ac yn awr 'rwy'n credu y daroftynga yn f' enaid
" innau. Oh f' Arglwydd, mae fy nghalon yn
" fynych yn farwaidd ac yn drwm fel na fedraf
" weddio attat gyda bywyd, na bôd yn fywiog
" yn dy wafanaeth di; mawr ewyllyfiwn, ond
" wele fy nghalon yn farw ae ni fedraf; ond onid
" oes ymma waed yn bywioccau? Pam gan hynny
" y gadewi di ir fath galon fod ynof? Arglwydd
" a ro'i di gennad imi iw gymhwyfo attaf' fy
" hun, fel y bywheir fi ith wafanaeth di? Ie gwn
" mai d' ewyllys yw ar imi wneuthur felly; yn
" awr Arglwyddd, mae fy nghalon yn gynnes; fel
" hyn gwnewch ddefnydd o holl briodoliaethau
" gwaed Chrift mewn perthynas i Dduw.

2. Pan yftyrioch waed Chrift fel hyn yn y Sa-
crament

crament *gosodwch ffydd ar waith i ddadleu yn erbyn y Diafol.* Efe a fydd gydâ chwi wrth y Sacrament, i ddwyn y cyssur oddi arnoch, ac i'ch rhwystro o'r llawenydd hwnnw â pha ûn y gallasech gael eich llenwi; ond trwy ffydd yngwaed Christ, chwi ellwch ei wrthwynebu; a pha bethau bynnag a fydd, ei achwynion ef; chwi ellwch i r'oi ef i dewi oddiwrth rai o'r priodoliaethau hyn. Heddyw'r Diafol yn bwrw'ch pechodau yn eich dannedd, ac yn eu gosod mewn tresn o flaen eich llygaid? ydyw efe yn eich cofio chwi o'ch balchder, bydoliaeth ac anwybodaeth? Ydyw efe yn dywedyd i chwi am eich dyledswyddau ffurfiol, a'ch eisiau o rodio'n agos gydâ Dûw: Gellwch ddadleu yn ei erbyn: *oh fy ngelyn!* cyn " Belled ag y mae gwi-" rionedd yn dy achwynion, yr wyf mor barod " im cyhuddo fy hun, ie cyn fy nyfod at yr ordin-" hâd hon, clywaist fi'n achwyn arnaf fy hun, yn " fy marnu ac yn fy nghondemnio fy hun; ond " wele oh fy ngelyn! dymma waed a dywalltwyd " trosofi, yr hwn ni thywalltwyd trosoti; dymma " waed i bwrcasu maddeuant i'm pechodau, yr hwn " ni thywalltwyd i faddeu iti: oh'r modd y gwhae'r fath atteb credacwy ir Diafol gilio ymaith, a'th adel i wneuthur y defnydd goreu ag a fedri o'r Swpper Sanctaidd hwn beth a ddywedi di, O di elyn jechydwriaeth a chyssur fy enaid? oes gennit ddim iw ro'i 'n fe'rbyn? ysgatfydd y dywaid efe wrthyt am galedwch dy galon, ond gelli atteb, oblegit imi ei gweled ai theimlo yn caled, am hynny y daethym at y gwaed hwn i gael ei meddalhau: Beth bellach Satan? ysgatfydd y dywaid am dy farweidd-dra yn dy ddyledswyddau Sanctaidd; attebi dithau, yr wir er trymder a baich im hernid, mae gormod o forweidd-dra yn fy nghalon, ac am hynny y dygais hi at waed fy Anwylaf Arglwydd

iw bywhau, ac efe a rydd fywyd ynoſi, beth etto, oh fy ngelyn? yn wir nid oes dim a ddichon Satan ei roi i'ch erbyn, nad ellwch gael oddiwrth ûn o'r priodoliaethau hyn o waed Chriſt ddigon iw orchtygu ef.

3. PAN yſtyrioch waed Chriſt fel hyn, chwi ellwch oſod ffydd ar waith yn ei gymhwyſo attoch eich hunain, ac i gau Safn eich cydwybod eich hun pan fo'n llefain yn eich erbyn wrth fwrdd yr Arglwydd, neu'n gyfiawn yn eich cyhuddo chwi: oblegid geill eich cydwybod wybod mwy o'h drwg nag a all Satan: Sef llawer o feddyliau ofer, a gweithrediadau pechadurus yn ei'ch calonnau ond chwi a ellwch wneuthur defnydd o briodoliaethau gwaed Chriſt iw heddychu, yn y modd ymma; "Yr wyt yn dywedyd imi, oh fy nghydwybod, "am y cyfryw feddyliau cablaidd, ofer, Crwy- "draidd, yr wyf yn cydnabod dy gyhuddiad, ond "wele oh fy nghydwybod! dymma waed a fod- "lonodd Dduw, ac oni fodlona di? dymma waed "a gymmododd Duw â myfi, er fy mhechodau "hynny; ac oh fy nghydwybod oni chymmodir "di â myfi? er mwyn y gwaed hwn, y mae Duw'n "heddychlawn â mi, ac oni fyddi di? fel hyn y gellwch gael heddwch cydwybod, ag a'r Sail dda fyned ymmaith â Sicer heddwch wedi 'i orphen rhyngoch a chwi eich hunain, gadewch i ffydd wneuthur cymhwyſiad neulltuol o'r gwaed hwn yn ei holl rinweddau a'i weithrediadau a dywedyd; Edrych ymma, oh fy enaid! dymma waed i faddeu, a'th eiddo di ydyw; dymma waed i fywhau ac i feddalhau, a'th eiddo di ydyw; dymma waed yn cyfiawnhau, yn Sancteiddio, yn dadleu, ac y mae hwn yn perthyn iti. Fel hyn y mae ffydd iw harfer wrth ſwpper yr Arglwydd.

PEN

PEN. XII.

" *Sy'n dangos pa fodd yr arferir, Cariad, dymuniad, a gràsau eraill yn y Sacrament.*

2. WEDI i chwi (fal yn y bennod o'r blaen) yſtyried gwaed Chriſt, yna fel y gwnaeth ffydd ei gwaith, felly gwnaed Cariad Sanctaidd ei rhan; ac yn wir pan elo ffydd fel hyn or blaen, bydd hawſach weithredu y lleill i gyd, gwnaed cariad ond edrych â llygaid ffydd, ac yn fuan yr ennynir ef. gwnaed ffydd y cymhwyſiad, a chariad yn fuan a deimla y lleſâd o hono, ac ai dengys yn ei weithrediadau; oh, y modd y cynhyrfa cariad yn eich monweſau, pan welo y gwaed gwerthfawr hwnnw a'ch prynodd ac a'ch cymmododd chwi â Dûw! oh cyrched eich cariad at Dduw a Chriſt; fel hyn: " Edrych ymma, o fy enaid, pa " gariad oedd hwn yn Nuw i ro'i ei Fâb droſoti? " pa gariad oedd hwn ynghriſt i ro'i ei' einioes " ai waed droſoti? gwaed gwerthfawr tros bechadur gwael annheilwng; O Edrych tracheſn, O " f' enaid dymma iti waed yn maddeu, O bechadur, " dymma waed iti 'n meddalhau, O bechadur, we- " di dy galedu; a dymma waed yn cywmodi, iti, " yr hwn a tuoſt gynt yn elyn i Dduw, oh'r fath " gariad yw hwn! oh ni bu erioed y fath gariad a " hwn! a ddarſu i Dduw a Chriſt dy garu di fel " hyn, O f'enaid pechadurus, ac oni cheri di ef " tracheſn? a anfonodd Duw ei Fâb i farw, gan " ddywedyd wrtho, O ſy Anwyl Fab, dôs a bydd " farw tros y pechadur accw, a thrwy hynny gor- " chymmyn fy nghariad atto. O Arglwydd mae " dy gariad hwn yn fy nghorchfygu! O Arglwydd

" ti a geraiſt ty hwynt imi, pe bae ſy nghariad yn
" awr yn well, ti a'i ceit, ond y fath ydyw, ti a'i
" cei, gwna ef yn fwy ac yn well, ac byth goſoder
" ef amati. O f' enaid a fedri di edrych ar waed
" yn cyfiawnhau heb garu'r nêb a'i tywalltodd
" troſo ti? a fedri di edrych ar waed gwerthfawr,
" yn bywhau, meddalhau, heb garu'r hwn a'i do-
" des i lawr i fywhau ac i feddalhau dy galon, ac
" ith wared ti oddiwrth uffern, pechod, a digo-
" faint.

3. " PAN yſtyrio'ch waed Chriſt fal hyn, yna ga-
" dewch i ddymuniadau fod ar yr aden i gyrchu
" ich henaid y cyfryw bethau ymae'r gwaed hwn
" yn eu pwrcaſu trwy ei weithrediad a'i rinwedd.
" O dymma waed yn Maddeu! O na chawn fa-
" ddeuant o'm pechodau! dymma waed yn ſelio;
" O na chawn ſêlio a Sicrhau maddeuant i'm he-
" naid; O na chae fy mhechod yn awr ei ddaro-
" ſtwng gan y gwaed hwn! O na fywheid fy
" nghalon farwaidd gan y gwaed hwn! O na jach-
" eid ac na chyſſuryd fy enaid archolledig a'm cyd-
" wybod aflonydd, gan y gwaed hwn! O na
" dderbyniwn yn awr mwy o raddau o gariad i
" Dduw, a ffydd ynghriſt, yr hyn a bwrcaſſodd y
" gwaed hwn imi, oh na chae yn awr fy enaid
" truan trallodus deimlad helaeth o rinwedd gwaed
" Chriſt yn meddalhau, bywhau ac yn jachau, yr
" hwn a dywalltodd efe allan mor Ewyllyſgar ac
" mor rhad.

4. PAN Edrychoch fel hyn ar waed Chriſt, ym-
lawenhyched eich henaid yn Nuw! a gelwch ar
holl nerthoedd eich enaid i lawenhau ac i ymhy-
frydu yn Nuw a Chriſt: O a ddichon i chw
feddwl, mae trwy'r gwaed hwn i'ch cyfiawnhei
ac

ac y Maddeuir i chwi, ac oni lawenhewch? Eich bod wedi'ch prynu a'ch cymmodi trwy'r gwaed hwn ac oni lawenhewch? A ydyw boſſibl i chwi fod yn deimladwy o allu a grym y gwaed hwn yn eich bywioccau a'ch diddanu, heb lawenhychu o honoch! Yw boſſibl eich bod yn credu fod y gwaed hwn yr awron yn ymbil droſoch a chwithau heb lawenhychu? Dywedwch chwithau fel hyn? "O Arglwydd mae f' enaid yn llawenhau "ynoti, mae f'enaid yn mawrhygu'r Arglwydd "ſy mhrynwr; O mor dda yw bod ymma? Oh'r "fath gyſſur yw hwn yr ymhyfryda f' enaid fel "hyn yntho! Oh'r fath lawenydd yw hwn' "'rwy 'n ei deimlo cyn cynheſed o amgylch ſy "nghalon! Nid oes lawenydd tebyg iddo ni che-"fais i erioed lawenydd tebyg iddo.

5. Pan yſtyrioch fel hyn waed Chriſt yn yr holl ragoriaethau hynny, triſtewch ddarfod i chwi ei eſceuluſo cyhyd. Wneuchur o honoch yr hyn a fu'n achos o dywallt gwaed gwerthfawr; am i chwi hvrddu'ch pechod iw yſtlys ef, i ddwyn y gwaed hwn oddiwrth ei galon ef. "Oh Arglwydd, "ai myfi oedd yr achos o dywallt y gwaed hwn? "A'i ſy malchder a'm gwag-ffrôſt i, a oſododd "goron o ddrain ar ben y Chriſt Croeſhoeliedig "hwn ſy'n gwaedu? A'i ſy anghrediniaeth, a'm "ymadawiad oddiwrth Dduw, a adwyodd ei "galon fendigedig, ef, o ba le y gwelaf yr afonydd "hyn o waed yn tarddu allan mor helaeth fel i'm "golchid ynddynt ac im cyfiawnheid ganddynt? "Beth ai fi oedd yr achos o hyn? a adawodd Chriſt "i imi ei ladd ai drywanu a gwanu ei galon, ac "wedi hynny maddeu imi, a'm hachub wedi hyn-"ny: O Arglwydd! mae fe'naid a'm calon yn "driſt, pe buaſwn erioed heb pechu! Arglwydd

" 'rwy'n gobeithio pe bae fy mhechodau heb eu
" gwneuthur na wnawn i monynt byth. Och!
" gan ddarfod tywallt y gwaed hwn, o na ddef-
" cynne ar fy nghalon i a hynny fal todder hi yn
" ddagrau! o na wyle fy llygaid, pan welwyf
" galon fy Achubwr yn gwaedu! oh na rwygai fy
" nghalon pan welwyf gnawd fy Achubwr yn holl-
" ti, fel y dylife'r gwaed hwn allan.

Ydyw'r gwaed hwn o'r fath ag fy'n bywioccau?
" yna Arglwydd; 'rwy'n cywilyddio fod fy ngha-
" lon gynt ac etto mor Swrth, am imi ddwyn y
" fath galon farwedd i weled fy Arglwydd yn
" marw: ond oes yw'n waed yn bywioccau, yna,
" oh na bydde felly imi.

Ydyw hwn y cyfryw waed dadleugar? " yna
" Arglwydd, Beth oeddwn i yn i feddwl pan
" ddadleuais cyhyd yn i erbyn? pan wneuthum
" escusion i'm cadw rhag dyfod tan ei rym a'i
" rinwedd ef?

Ydyw hwn yn wîr y fath waed yn marwhau? o gan hynny, beth a wneuthym i, pan esceuluſais ddwyn fy ngwyniau atto, ond ymgynghori pa fodd y gallent fyw, a Chriſt wedî marw fel y daroſtyngid hwynt! Ydyw'r gwaed hwn o eiddo Chriſt mor rhagorol? oh, bechadur truan ac ynfyd a fûm i, am imi briſio pôb peth o'i flaen ef cyhyd, ai Sathru ef tan draed cyn fynyched.

Ond ai rhaid imi lawenhau a thriſtau hefyd? naill ai oni cheidw triſtwch fi rhag llawenhau, neu lawenydd rhag im driſtau? na wna f' eill y ddau gydfod, a rhaid ir ddau hyn fod, mae'r cymmyſc hwn yn gweddu'n dda ir credadyn wrth fwrdd

yr

yr Arglwydd. Triſtheir chwi o ran ic'h pechodau ro'i Chriſt i farwolaeth, ac etto Alawenhewch, o ran i Griſt farw tros eich pechodau.

6. Pan yſtyri'och fel hyn waed Chriſt, yna gadewch i'ch enaid gaſau a ffieiddio 'ch pechod, yr hwn a fu achos o'i dywallt, ac a ſuaſe'n rhwyſtro (oni bae i drugaredd ragflaenu) y cymhwyſiad rhinweddol prydlawn o hono. oh na chodai'n awr eich calonnau yn erbyn eich pechodau, fel y caſaech hwynt tra byddech byw a chaſineb hollawl anghymmodol! ni cherwch weled y gyllell a laddodd eich cytaill; ac a gerwch feddwl am y pechod hwnnw a laddodd eich Harglwydd? neu a wnewch chwi hyn byth gyda hyfrydwch? "Oh pe buaſe gennyt ddim cariad ith Arglwydd, "oh fy enaid, ni alleſit amgen na chaſau dy be- "chod, yn awr of' enaid? ymwrola ac ymroa gyda'r "digter mwyaf a' ffieidd-dra i fwrw ymmaith dy "bechod. Yn awr Arglwydd gwelaf it' fy ngha- "ru, a' mi a gaſâf fy mhechodau; a phwy mwy "'a brofwyf o feluſdra gwaed Chriſt, mwya' y "gwnei i'm henaid gaſau fy mhechod.

Fel hyn y rhoddais i'ch fodlondeb am y Cweſtiwn hwn; ſef, Pa fodd y dylech yſtyried gwaed Chriſt yn y Sacrament, ac yr arferwch eich graſau pan yſtyrioch chwi ef felly.

PEN. XIII.

"*Athrawiaeth* 5. *Yn dangos angenrhaid ymholiad* "*ar ôl y Sacrament.*

"FE ddylae y rhai a gyfrannant o Swpper yr "Arglwydd ymorol ar ôl cymmuno, pa

" leſad a dderbyniaſant trwyddo. Mae rhai, ni chymerant ddim poen iw p-ratoi eu hunain cyn y ddyledſwydd, ac ar ôl y ddyledſwydd ni edrychant yn ôl pa fodd yr aethant, nac yn ymofyn beth a gawſant: *Mae ymholiad ar ôl mor angenrheidiol ag or blaen.* Pa leſad a gefais? a ddylae fod yn Gweſtiwn ini iw ofyn i ni'n hunain ar ôl pob dyledſwydd a wnelom; pa wreſogrwydd Serchiadau oedd gennyf ynddi? " oes gennif ddim " cariad ychwaneg i Dduw, a mwy o ddymuniad " ar ei ôl ef, mwy o nerth i ddyledſwydd, i " oddef adfyd, i wrthwynebu profedigaethau, i " rodio gyda Duw? hyn a ddyleich wneuthur ar ôl pôb gweddi a weddioch, pob pregeth a glywoch, yn niwedd pob Sabbath, ac ar ol pob Sacrament a dderbynioch. Ac o eiſieu edrych fel hyn yn ol, y drygau hyn a ganlynant.

1. O eiſieu hyn, *mae llawer yn tybied eu bôdyn well, pan yn wir y maent yn waeth.* O ran eiſieu ymholiad dyfal a manwl o flaen y Sacrament, maent yn tybied fod ganddynt ffydd ynghriſt, Cariad i Dduw, ac edifeirwch am eu pechodau, ond nid oedd yr hyn oedd ganddynt ond *Rhith ffydd*, a *chariad*, a graſau eraill, megis y dichon fod gan ragrith-wyr: felly o ran eiſieu edrych yn ol, ar ol y Sacrament, gallent dybied fod ganddynt ryw faint o weithrediad *ffydd* a *chariad* a *thriſtwch* am bechod, a *llawenydd* yn Nuw; ond etto nid felly'r oedd, ond rhyw beth tebyg ir rhain, megis y geill fod ymbell waith gan ragrithwyr yn eu neſad at ſwrdd Duw, ac yn gwrando'r gair a dyledſwyddau eraill: f'eill rhagrithwyr dywallt llawer o ddagrau wrth y Sacrament, ac f'eill fod ganddynt ryw fath o lawenydd trwy gamgymeriad, fod Chriſt wedi marw troſtynt hwy, a chymhwyſo'r gwaed attynt

attynt eu hunain, a barnu eu bod yn gyfrannogion o ddoniau ei farwolaeth ef, Sef *grâs maddeuant*, *gobaith* &c. ac etto a ddemnir yn dragywydd, am nad oes ganddynt yr ûn o'r pethau hyn mewn gwirionedd; ac y mae'r camgymeriad hwn yn beryglys jawn a llawer gwaith yn ddiniſtriol gan gymmaint ai fod yn cryfhau rhyfyg Calonnau: y dynion hyn, pan feddylient fod eu ſtydd wedi ei chadarnhau, ac y maent wedi eu Sicrrhau yn fwy yn eu gau-obaith o'r nefoedd a bywyd tragwyddol, ac yn myned ymmaith yn fynych gan lawenychu yn y meddyliau o'u cyflwr da, ac etto gallant orwedd ac ochain yn dragywydd ymmhlith y damnedig am eu ynfydrwydd a'u camgymeriad, a hwy a allant fendithio Duw, am yr hyn a feddyliafant dderbyn o honynt oddiwrtho ef wrth y Sacrament, ac etto gallant gael eu taflu yn dragywydd oddiwrth Dduw, am nad oedd ganddynt y gras hwnnw a feddyliafant ei deimlo yn gweithio yn eu calonnau yno, am hynny mae hunan-ymholiad ar ol y Sacrament yn angenrheidiol.

2. O eifieu hunan-holiad ar ol y Sacrament, chwi a gedwir rhag ymoſtwng ac edifarhau am eich pechodau a wnaethoch wrth fwrdd yr Arglwydd. Pe edrychech yn ol ar drefn eich calon, a gweled eich bod wedi cam-ymddwyn yn eich gwaith a'ch dyledſwydd, caech weled pa achos ſydd i chwi i ymddaroſtwng ger bron yr Arglwydd, am y cyfryw bechod mawr, o fod heb gael dim lleſad trwy'r cyfryw ordinhad ſy' mor ddeddol i chwanegu gwaith gras yn ghalon y Sawl a ddeuant yn deilwng atti. Ni thorrwyd eich calon am eich pechod pan dorrodd y Gweinidog y *Bara*; pan gymeraſoch y bara oedd eich calon yn

ſwrth

ſwrth a marwaidd, ac ni eſtynnodd allan law Fydd, i gymeryd gafael ar Griſt a'i ddoniau, a'u cymhwyſo attoch eich hunain, ac felly y rhagrithiaſoch o flaen Duw a'ch cyd-gymun-wyr. Pan dywalltwydd allan y *gwin*, ac y gwelſoch y modd y tywalltodd Chriſt ei waed tros bechaduriaid, ac ni hidlaſoch ddeigr am eich pechodau a ſuant achos o hyn; neu os darfu i chwi, nid oedd oddiwrth galon deimladwy o bechod, neu o gariad Duw i'ch enaid; pan gymeraſoch y cwpan ac yfed o honi, ni chofiaſoch Griſt fel y dylaſech; a phan oeddych yn breſenol wrth y bwrdd hwn, 'r oedd eich calon yn llawn o feddyliau gwaſgaredig a gwybiog, pan ddylaſent fod wedi 'i goſod ar Ddûw a Chriſt; a pha fodd yr ymddaroſtyngwch am hyn, os ni edrychwch yn ol, eich bod yn euog o'r cyfryw bechodau? A pha fodd y cyfaddefwch hyn ger bron yr Arglwydd ar eich gliniau, pan nad ydych yn yſtyried ar ol, pa fodd yr oedd gyda, chwi yr amſer hwnnw? Hwn oedd eich pechod, pan oeddech yno, na chawſoch ddim lleſad oddiwrtho, a hyn hefyd yw'ch pechod, nad ydych yn triſtau am y pechod hwnnw wedi i chwi ddyfod ymmaith: Peth iw galaru o'r naill Sacrament ir llall ydyw, fod eich calon yn wîr cyn-ddrwg, ac allan o drefn, pan ddylaſe fod yn ymhyfrydu yn Nuw ac yn Caru Duw, ac yn triſtau am eich pechod.

3. O eiſieu ymholiad ar ol y Sacrament; chwi ellwch fod wedi derbyn lleſâd, ac heb ei wybod; ie, yſgatfydd ei wadu; megis y mae gan llawer ras, ac etto 'n tybied nad oes dim ganthynt; felly ymma, geill llawer dderbyn lleſad, ac etto heb feddwl hynny: Yr ydych yn myned ymmaith ac yn anghofio'n fuan waith, Duw ar eich calon, a

gweithrediad

gweithrediad eich calon tuag at Dduw, ac felly'n credu nad oedd ddim amgen gyda chwi nag y gall fod gyda, rhagrithwyr yn yr ordinhad hon: Ac oblegit na ddarfu i chwi yn ddifrif yftyried ac yn Fyddlawn gadw yn eich coffadwriaeth y profiadau a gawfoch oddiwrth Dduw tra buoch yno, yr ydych yn cyttuno a'r brofedigaeth hon wedi dyfod o honoch ymmaith.

4. O eifieu ymholiad wedi 'r Sacrament, nid ydych mor ddiolchgar ar ol y ddyledfwydd, am yr hyn a dderbyniafoch, megis y modd arall y buafech. Mae llawer o ragrithwyr yn myned oddiwrth y Sacrament yn llawen pan ddylent a laru, a llawer o eneidiau graflawn yn myned ymmaith yn drîft pan ddylent lawenhau; ar ddau, oblegid nad ydynt yn edrych yn ol ar weithrediad eu calonnau oddimewn, fel y barnent yn ol yr hyn yr oeddynt mewn gwirionedd. Daeth Duw ith calon iw daroftwng iw thorri, i beri iddi Ffieiddio pechod, a hiraethu ar ol Chrift, yr hwn y dyleich ei gofio tra bo'ch byw, i anrhydeddu golud ei ras ef, ddarfod iddo edrych ar y cyfryw *bechod* a *llwch*, megis yr ydych chwi, a rho'i i' chwi deimlad o'r cyfryw weithrediad o'i yfpryd; fel bob tro yr eloch ir dirgel y rhoddech iddo ddiolch am ei waith hwn ar eich calon; ond pa fodd y gwneir hyn, oni edrychwch yn ol yn fynych pa fodd yr oedd gyda chwi pan oeddech yno?

5. O eifieu hunan holiad ar ol y Sacrament, chwi a fyddwch chwannog i ymfodloni yn y weithred oddiallan o gymuno; a digon fydd gennych fwytta ac yfed o honoch wrth fwrdd yr Arglwydd, er na fwyttafoch o gnawd Chrift, ac na yfafoch ei waed; Ac arwydd rhy eglur yw eich bod

bod yn gorphywys yn y gwaith wedi ei wneuthur, pan nad ydych yn yſtyried ar ol, pa fodd y gwnaethoch, nac yn ymofyn, A ddarfu imi ryngu-bodd yr Arglwydd tra bûm yn bwytta? A ryngais i fodd yr Arglwydd tra fûm yn yted wrth ei fwrdd ef? A fwyteis i ac a yfais i mewn Fydd? A gefais i Dduw yn dyfod i'm henaid trwy ei ras a'i yſpryd? A'm henaid innau yn eſcyn at Dduw trwy *ffydd* a *Chariad*?

6. O eiſieu hunan-holiad ar ol y Sacrament, ni fyddwch mor daer ddymunol am odfa newydd i dderbyn, ac ni fydd y fath hiraeth yn eich enaid i ddyfod drachefn. Tybie ûn y dylae y croeſaw y mae Duw yn ei roi iw bobl wrth ei fwrdd, y wên y maent yn ei gweled yn ei wyneb, y cariad y maent yn gwybod fod yn ei galon, ar Fafor y maent yno yn ei dderbyn oddiar ei ddwylaw, gynhyrfu yn eu calonnau y fath ddyheuad a hyn. "O pa bryd y deuaf drachefn? O pa bryd y llonnir fi drachefn fel hyn? 'R oedd Chriſt yn dra-"melys im henaid, 'r oedd ei gyſluron ef yn hy-"fryd im calon, o pa bryd y dychwelaf trachefn "at ei fwrdd ef, fel y caffwyf fwy o'r hyn a ge-"fais ar y cyfryw ddydd! Ond os bydd hyn cy-"maint allan o'ch meddyliau, bydd y llall or-"mod allan o'ch dymuniadau.

7. O eiſieu 'r hunan-holiad hwn ar ol y Sacrament, chwi a fyddwch yn anhyſpys o gyflwr eich eneidiau, ac yn llai cydnabyddus a gweithrediadau'ch calonau. Os edrychwch yn ol ar yr hyn a addawodd eich calon pan oeddych yno, ar modd y daethoch yn fyrr o'ch addewid y modd yr oedd eich calon yn gweithio mewn caſineb i bechod, ar modd ar ol hynny (oni wilier yn ddytal arni)

y

y bydd barod i gyttuno ac ymwneuthur âg ef; Pe cyffelybech eich hunain beth ydych wrth y Sacrament, a pha beth a fydde'ch calon oni edrychir ar ei hôl yn ofalus ar ol hynny, byddech mwy cydnabyddus a thwyll eich calon eich hun.

8. O eiſieu hunan-ymholiad ar ol y Sacrament, byddwch yn llawnach o amheuon, ac yn wagach o gyſſuron, nag y fyddech ped faech yn eich holi'ch hunain. Gweithiodd Duw weithiau mor nerthol ar eich calon, pan oeddeich wrth ei fwrdd ef, gan dynnu allan eich cariad iddo ef, eich caſineb i, a thriſtwch am eich pechod fel na allech wadu nad oedd gennych ras: Ond amſer arall gallech golli y teimlad o hyn, pan na byddei felly gyda chwi, ac yno mae'r Diafol yn goſod arnoch, ich perſwadio nad oes dim gras gennych, oblegid nad ydych yn awr yn teimlo ei weithrediad, ond pe edrychech yn ol y modd yr oedd gyda chwi ar y cyfryw amſer wrth y Sacrament, gallech yrru 'n ol y temptaſwn hwn: Er nad ydwyf yr awron yn cael y gweithrediad bywiog o'm cariad tuag at Dduw, etto ar yr amſer ar amſer mi a gefais, er nad 'wyf yrwan yn cael fy nghalon yn torri, ond y mae 'n ſwrth ac allan o drefn, etto y dydd a'r dydd yn Sacrament mi a gefais: Yno y cefais fy mhechodau 'n faich imi a thorr calon imi: Yno mi a gefais fy nghalon yn ennyn mewn cariad i Dduw a Chriſt; rhydd hyn i chwi gymmorth i ddattod eich amheuon preſennol ac fwrw allan eich ofnau preſennol, ac i wrthwynebu y brofedigaeth hon o eiddo Diafol: Ond os ni ymholwch, gellwch golli y cyfryw arwydd da o wirioneedd eich gras.

9. O eiſieu 'r hunan-holiad hwn ar ol y Sacrament, "*chwi a* fyddwch yn driſtwch i yſpryd

"Duw,

" Duw p' un bynnag a wnaethoch ai cyfarfod a " Duw a'i peidio : Pa un bynnach ai da ai drwg a fu gyda chwi tra fuoch yno. Os cyfarfuaſoch a Duw, ac os cyſſurodd eich calon, neu'ch daroſtwng am bechod, ac onid ydych yn ymholi, yr ydych yn triſtau yſpryd Dûw, am iddo ef ſod mor fwyn a chariadus i chwi, ac i chwithau anghofio mor ſuan i ſod yn ddiolchgar am dano : Os na chyfarfuaſoch a Dûw, ac nid ydych yn ymholi, yr ydych yn triſtau 'r yſpryd, o ran, er bod o hono ef yn abſennol oddiwrth eich enaid, eich bod chwi mor ſuan yn anghofio ymddaroſtwng am hynny.

10. MAE hyn yn dangos nad oedd eich diben mor uniawn ag y dylaſei ſod, pe buaſech yn wîr yn amcanu at gymundeb gyda Duw a chynnydd mewn gras, oni fuaſech yn ymorol a gawſoch eich diben?

11. MAE hyn yn dangos ſod dioſalwch mawr yn eich calon, a gormod dibriſrwydd o'r lleſâd oddiwrth y Sacrament, pe buaſe gennych barch iddo, ymorolaſech a gawſoch y lleſad.

12. MAE'N dangos, nad oeddech mor *ddoeth am eich enaid, ag oeddech am eich corph.* Nac mor ddoeth am bethau nefol, ag am bethau 'r byd hwn; oblegid wedi'ch bod yn Marchnatta am bethau 'r byd hwn, chwi a fwriwch i fynu'ch cyfrif, i weled beth a elwaſoch, a pha beth a chwanegwyd at eich cyfoeth.

13. GWNA hyn i Dduw ddigio, a chilio oddiwrthych yn eich dyledſwyddau ar ol hynny, ac i naccau i chwi yn yr ordinhadau ſy'n canlyn, yr hyn

hyn ni wnaech cymmaint ag ymorol am dano a gawſoch mewn dyledſwyddau gynt.

14. Chwi a ellwch gilio yn ol mewn gras, a gwaethygu, ac heb yn hawdd ac yn fuan ei ddeall, a Syrthio i dreſn o farweidd-dra cyn i chwi wybod.

Am hynny, bydded eich harſer gwaſtadol, megis i'ch holi eich hyn *cyn*, fel y gwybyddoch eich cymhwyſdra ir ddyledſwydd hon, felly holwch eich hun *wedi*, fel y gwybyddoch pa ûn ai gwell ai gwaeth ydych trwy'r ddyledſwydd hon; oblegid gwneir pob ûn yn well neu'n waeth trwy ddyfod at fwrdd yr Arglwydd: Mae Phyſygwriaeth yn gwneuthur y corph yn well neu'n waeth; felly y mae holl ordinhadau Duw yn eu gweithrediad: Mae'r gair yn arogl bywyd neu farwolaeth i bob un a'i gwrandawo. 2 *Cor.* 2. 15, 16. Felly mae llawer yn waeth drwy ddyfod at fwrdd yr Arglwydd. 1 *Cor.* 11. 17. *Yr ydych yn dyfod yngbyd nid er gwell ond er gwaeth.* Am nad ydych yn *well*, mae arnoch ddigon o fai; ond eich bod yn *waeth*, mae hynny yn chwanegu d' pechod. *Grande id nefas*, &c. Mae'n ddrwg gyda'r dyn hwnnw, pan drotho ei fwyd a Phyſygwriaeth yn wenwyn iddo, nid er llês ond er niwed iddo.

Ymma er bodlonrwydd i chwi, mi a ymofynaf am y pethau hyn.

1. Beth yw'r achoſion fod rhai yn myned at fwrdd yr Arglwydd, ac yn dderbyn ddim lleſad wrth hynny?

2. Pa fodd y dichon i gredadyn wybod, pa bryd y mae'n derbyn lleſad?

3. Beth

3. Beth ſy' raid i'r Credadyn wneuthur os ar y chwilio ymma y gwêl ei fod wedi cael rhyw lleſad trwy'r ordinhad hon? A pha beth os nis cafodd?

PEN. XIV.

"Yn cynwys y rheſymmau pam y mae rhai heb "dderbyn ddim lleſad oddiwrth Swpper yr Argl- "wydd?

Y Rhesymmau paham nad yw rhai yn well er myned at ford yt Arglwydd, ydynt y cyſtyw rhain:

1. Oblegid nad ydynt yn barod o ran *dull* ac *Anſodd*; nid oes ganddynt y cynheddfau angenrheidiol hynny, na'r graſau anſoddawl ſy' raid fod ynghalon y dyn hwnnw a dderbyn lleſad drwy'r Sacrament; nid oedd ganthynt ddim bywyd, ac am hynny ni allant gael na chynnydd na maeth; mae cynnydd mewn gras yn arwyddo y gwirionedd o ras: Y Sawl ni dderbyniaſant yn gyntaf Griſt cyfan yn yr Eſengyl, yn ei holl ſwyddau, nid allant dderbyn Chriſt drylliog yn y Sacrament; ni unwyd monynt a Chriſt, a'r lle nid oes undeb, nid all fod dim cymundeb, ni impwyd monynt ynghriſt, ac am hynny ni dderbyniant ddim Frwyth oddiwrth groes Chriſt. Yr holl lleſad a ddaw i mewn drwy'r Sacrament, rhaid iddo fod trwy arferu gras, ſef, *ffydd*, *cariad*, *triſtwch* am bechod, *&c.* ond lle nid yw'r graſau hyn nid ellir mo'i harferu.

2. Oblegid eu bod yn *rhy ddieſal yn y paratoad gweithredo*

gweithredol, ni ddarfu iddynt yn ddifrif ac yn fanwl chwilio eu calonnau a'u bywyd, nac ymorol ar ol eu pechodau a'u heifiau: Ni ddarfu iddynt gan weddio gweddio, ond yn yfcafn at Dduw o flaen llaw: Nid 'ynt yn newynu ar ôl Chrift, nac yn myned gyda Fyddlon ddifgwiliad i dderbyn pethau mawrion oddiwrth Dduw yn y ddyledfwydd hon. Duw a'ch cerydda wrth ei fwrdd gan gilio yn ol oddiwrthych, am eich efceuluſdra cyn eich dyfod. Yfgatfyd eich bod yn bryſſur ynghylch y byd, pan ddylafech fod yn ymbaratoi ich dyledfwydd: Yfgatfydd eich bod yn eich Marchnat-tai, pan ddyleſech fod yn eich ftafell, f'alle weled o Dduw chwi'n darllen eich llyfr-cyfryf, pan ddylafeth fod yn darllen llyfr eich calon eich hun; gwelodd Duw chwi yn meddwl am bethau'r byd, pan ddylafech fod yn ymegnio i wrefogi'ch calon drwy feddyliau credadwy am gariad Duw yn Ghrift Jefu, ar gorchwyl pwyfawr o brynedigaeth dyn.

3. *Oblegit ar ôl paratoad diwyd gweithredol, ddarfod i chwi orphwys yn eich dyledfwyddau blaen-llaw, a difgwiliafoch hyny er mwyn eich paratoad, yr hyn a dderbyniwch yn unig er mwyn Chrift.* Anhawdd ydyw gwneuthur paratoad diwyd, ai wadu wedi ei wneuthur; a difgwyl y cwbl trwy Grift; ac ar ôl ein paratoad mwya difrifol ei gydnabod megis dim, ac mai o ras rhâd y bydd os amlyga Duw ei hun ini wrth ei fwrdd. Gellwch weled weithiau, mai ar ol yr ehangdra mwyaf mewn paratoad dirgel, y bu gaetha arnoch mewn dyledfwydd; nid o ran fod Duw yn anfodlan am eich diwydrwydd mewn paratoad, ond oblegid eich bod yn rhoi ormod hyder ar eich dyledfwyddau ymmlaen llaw, a'u codi i fynu uwchlaw eu lle, a gwnaethoch

Grift o'ch dyledfwyddau; a thynnafoch ymmaith oddiwrth haeddedigaethau Chrift, gan obeithio am hynny oddiwrth Dduw am eich paratoad, yr hyn a ddylaech obeithio yn unig am dano, oblegid i Grift farw; nid o ran nad ellwch, a chwi a ddylech edrych ar ôl eich gweddiau ac edrych pa attebion a rydd Duw i chwi, ond mae rhagor rhwng difgwiliad am bethau da oddiwrth Dduw yn ôl eich gweddiau a'ch paratoad; a difgwyl am bethau da oddiwrth Dduw am eich gweddiau a'c paratoad: Ac etto gellwch wadu hyn mewn geiriau, ac yn eich calon yn ddirgel bwyfo gormod arnynt.

4. OBLEGIT, *fod Duw yn anfodlon, am fod rhyw bechod melus, dirgel yn cael ei hoffi'n ormod*, er nad oes yr ûn pechod yn rheoli ynoch yr hwn na all gydfefyll gyda chyflwr o ras, etto gallei fod gormod ewyllys da ffafor i ryw bechod neilltuol: Yr achos yn awr paham nad yw Duw yn gwenu mwy ar eich henaid wrth ei fwrdd, a all fod am nad ydych chwi yn cuchio'n fwy ar eich pechod. Nid yw Duw yn dangos dim mwy o drugaredd i chwi wrth ei fwrdd, oblegid nad ydych chwi yn dangos dim mwy o doſter yn erbyn eich pechod; ac onid rhaid i Dduw gymmeryd yn angharedig, pan ddeuoch i gofio marwolaeth ei Fab, a gormod o gariad yn eich calon i bechod, yr hwn a fu achos o'i farwolaeth ef.

5. OBLEGID eich bod yn rhy ddifraw, a gollwng o honoch i lawr eich gwiliadwriaeth yfprydol yn amfer cymuno, collafoch amfer Sanctaid wrth Sacrament Sanctaidd, trwy groefawu o honoch, a chael eich llenwi o feddyliau ofer gwafcaredig; pan fo'ch yno dyleich fod yn ofalus na wnaech ac na feddyleich am ddim arall ond yr hyn Sy'n perthyn

thyn ir ddyledſwydd yr ydych yn ymrwymo ynthi; cyfeiliorna eich calon yn fynych, oddieithr i chwi ei chadw hi, a bydd a Diafol yn taflu meddyliau am bethau o natur arall; neu'n llenwi'ch meddyliau a meddyliau am bethau Sanctaidd, ond yn ddiberthynaſol ich gwaith preſennol: Ac os derbyniech lleſad wrth dderbyn, rhaid i chwi ddywedyd wrth Satan, mregis Nehemiah wrth Sanbalat. *Neh.* 6. 2, 3, 4. *Yna 'r anfonodd Sanbalat a Geſem attaf gan ddywedyd, tyred, ac ymgyfarfyddwn ynghyd yn ûn o'r pentrêſydd yngwaſtadaedd Ono: Ac yr oeddynt hwy yn bwriadu gwneuthur niwed imi; minneu a anfonais gennadau attynt hwy, gan ddywedyd, gwaith mawr yr ydwyfi yn ei wneuthur, o herwydd hynny ni allaf ddyfod i wared, pa ham y ſafai y gwaith, pan ymadawn âg ef, a dyfod i wared attoch chwi? Etto hwy a anfonaſant attafi yn y wedd hon bedair gwaith, ac yn y modd hwnnw yr attebais hwynt.* Pan fyddoch yn derbyn, mynnau'r Diafol ymddiddan a chwi, ond i wneuthur niwed i chwi y mae, am hynny attebwch iddo; yr ydwyfi yn gwneuthur gwaith mawr, felly nid oes gennifi amſer i groeſawu dy adroddion. O fy ngelyn! Mae gennifi bethau eraill i feddwl am danynt, dymma farwolaeth fy Arglwydd a'i gariad ef yn marw trofofi i fyfyrio arnynt, a pham y ſafai y gwaith hwn, tra fyddwn i yn croeſawu dy adroddion di? Cyn belled ag y mae'ch meddyliau yn crwydro, cyn belled a hynny y mae'ch gwaith wrth fwrdd yr Arglwydd yn ſefyll; os taer ofyniff Satan i chwi bedair gwaith neu fwy, attebwch yn waſtad iddo yr ûn môdd, byddwch mor barhaus yn gwrthwynebu, ag y mae efe yn aflonyddu, a chwi a gewch lleſad trwy'r ddyledſwydd, os glynwch wrth eich gwaith tra byddoch yno.

6. Oblegid, nad ymegniaſoch yn gydwybodol i fyw i fynu ir ymroad a wnathoch wrth i chwi dderbyn gynt. Oni addawſoch yno, os eglurai Duw ei hun i chwi, a chyneſu eich calon, a maddeu'ch pechod, a thraethu heddwch wrth eich enaid, y gwiliech yn ofalus rhag y cyfryw droſeddiadau, trachefu? Y gwrthwynebech brofodigaetheu Satan, ac y byddech well ym mhôb perthynas, ac y cyflawnech y dyledſwyddau y mae Duw yn eu gofyn oddiar eich dwylaw? Y gweddiech fwy ac yn well, y byddech yn fwy gwiliadwrus yn erbyn eich gwyniau rhag llaw, os maddeue Duw eich gwyniau gynt. Etto daethoch yn fyrr o hyn oll, nid yn unig drwy wendid, ond trwy ddiofalwch, a gollwng i lawr eich gwiliadwriaeth yſprydol: Pan oſododd y brofedigaeth arnoch drachefn chwi yn hawdd a gyttunaſoch drachefn: A gwelodd Duw cymaint o ddiofalwch yn eich ymarweddiad ag or blaen; ac a ydych yn tybied, y tro nesaf y derbynioch, na wna Duw i chwi fyned ymmaith heb y cyſſur o'i ordinhad; y rhai ydych yn naccau iddo ef y gofal o'ch ymarweddiad? Os mynnech i Dduw wneuthur lleſad i chwi trwy ei ordinhadau, rhaid i chwi rodio mor Sanctaidd ar ol y naill ordinhad, ſel y byddo i chwi gyfarfod a Duw mewn ûn arall, neu yn yr ûn un ar amſer arall.

PEN. XII.

" *Yn dangos pa fodd y gwybyddwn ein bôd yn cael* " *lleſâd trwy ddyfod at Swpper yr Arglwydd.*

FEL y byddo i chwi wybod pa un a ydych yn derbyn lleſad i'ch enaid trwy ddyfod at Swp-

per

per yr Arglwydd, rhaid i chwi fod yn ofalus rhag camgymeryd o honoch; i ragflaenu hynny.

1. CYMERWCH ofal rhag i chwi farnu, *na chawſoch ddim lleſâd, oblegid nad oes gennych cymaint ag a welwch gan rai Criſtnogion eraill:* Oblegid mae'r datcuddiad o Dduw iw bobl yn y modd y mynno efe, ac o feſur ychydig ac ychydig, yr amſer a fynno, ir nêb a fynno, ac yn y meſur a fynno.

2. GWILIWCH farnu na chawſoch ddim lleſâd os nad oes ganddoch cymmaint ag yr oeddeich yn gobeithio neu'n diſgwyl am dano, yr oedd eich bwriad ar lawer, ni chawſoch ond ychydig, etto na ddywedwch, ei bod yn hollawl yn ordinhâd wâg i'ch enaid.

3. CYMERWCH ofal rhag barnu o honoch, *na chawſoch ddim lleſâd os nad oedd yn y peth hwnnw, a'r fathyr oeddych yn edrych am dano:* Yſgatfydd i'ch fwriadu ar lawer jawn o gyſſur a llawenydd pan aethoch, ac f' alle naccau o Dduw hynny i chwi, a gwneuthur i chwi driſtau yn fwy am eich pechodau, mae hyn yn lleſad yſprydol, er nad yw yn y ffordd yr oeddech yn ei ddiſgwyl.

4. CYMERWCH ofal na farnoch fod y Sacrament yn gwneuthur dim daioni i chwi, *am nad ydych yn cael teimlad o hono tra'r ydych yn derbyn, neu tra byddoch yn weithredol tan yr ordinhâd:* Peth trwm jawn ac anghyſſurus ydyw bod heb gael lleſâd y pryd hynny; ond etto na rwymwch rinwedd yr ordinhâd yn unig ir amſer o gymuno, ond deliwch ſulw pa fodd y mae yn gweithio gydâ chwi wedi hynny; yſgatfydd weithiau fe ddichon i chwi alaru mwy a llawenhau mwy ar ôl hynny, na

thra fuoch wrth y bwrdd. Yn awr er dattod eich ammeu chwi, yſtyriwch, yr ydych yn cael gwir lleſâd trwy Swpper yr Arglwydd, pan.

1. Y caffoch eich calon trwyddo wedi ymrwymo yn fwy cadarn i Sancteiddrwydd oddi mewn a chyffredinol. Pan gaffoch eich calon yn fwy rhwymedig i rodio gydâ Duw gydâ mwy o ddieſceuluſdra a gofal nag y gwnaethoch or blaen:

2. Pan gaffoch eich ffydd wedi cynnyddu yn fwy, medrwch bwyſo ar Griſt yn fwy hyderus, nag y medrech or blaen; pan aethoch, bwriadaſoch gymeryd Chriſt ar ei ammodau ei hun, ond pan ddaethoch ymmaith, ſefydlwyd eich bwriad yn fwy, ac ar ydych yn fwy ymrous yn ffordd Chriſt, i ymddiried iddo ynghylch achoſion tragwyddol eich enaid.

3. Pan gaffoch eich cariad i Griſt trwy hyn wedi ei enynnu yn fwy; caraſoch ef mewn gwirionedd or blaen, ond yn awr yr ydych yn ei garu ef yn gryfach, mae'ch enaid yn glaf tra byddo ef yn abſennol, ond pan fo' gyda chwi, yr ydych yn fodlon, y mae yn awr yn aros mwy yn eich meddyliau nac or blaen, mae hynny yn arwydd eich bod yn ei garu ef yn fwy nac or blaen.

4. Pan fwynheir cymundeb gyda Duw yn y Sacrament, a Duw yn rho'i i chwi y cyfarfod: Gwna'r ordinhad lleſad yn ſicer i chwi y pryd y bo' eich gras yn gweithredu tuag at Dduw, ac yſpryd Duw yn anadlu ar eich enaid trwy ei rinweddau nerthol yn gwreſogi'ch calon.

5. Pan fo'ch hyfrydwch a'ch llawenydd yſpryd-

ol

oſ yn Nuw a Chriſt, wedi ei dderchafu yn fwy: Or blaen, ymhyfrydaſoch ormod yn y byd, ac yn eich cyfeillion, ac yn eich golud, a llai ynghriſt, ond yr awron mwy ynghriſt a llai yn y rhain: Pan feddylioch am Dduw medrwch lawenhau, pan liaradoch am Griſt, mae'ch enaid yn ymorfoleddu yntho ef.

6. Pan ddaroſtyngir eich enaid yn fwy dofn tan olwg ar, a theimlad o bechod; os ni chewch llawenydd yn y Sacrament, etto os cewch fwy o driſtwch calon am eich pechod, gwnaeth Duw ddaioni i chwi trwyddo; er nad ydych yn dyfod ymmaith â chalon lawen, etto os deuwch ymmaith â llygad yn wylo, yn tarddu oddiwrth yſpryd drylliedig, bendithiwch Dduw am ei drugared i chwi yn yr ordinhâd honno.

7. Pan fo' llygredigaeth a pechod yn fwy atcas, ac yn fwy ffiaidd i'ch enaid: Pan fo'r *meddyliau* am bechod yn fwy ffiaid i chwi, na'r *gweithrediad* o hono gynt; pan fyddoch yn ocheneidio mwy tan bwys a llwyth o bechod, ac yn ymoſod yn fwy ymrous yn ei erbyn.

8. Pan helaethir eich dymuniadau yn fwy ar ôl y llawn fwynhâd o Dduw a Chriſt mewn gogoniant; yr ydych yn teimlo gwaith ei yſpryd yn peri i chwi hiraêthu am weled ei wyneb yn ei deyrnas ogoneddus, mae'r ychydig brawf o gariad eglur Duw tuag at eich enaid yn eich gwneuthur agos yn anoddefus hyd oni chymero Duw chwi atto ei hun.

9. Pan fo'ch yn ammeu'ch calon yn fwy; Ac yn rhodio gyda mwy o eiddigedd Sanctaidd, rhag i

chwi golli diben eich mynediad ; a bod gennych ofn Sanctaidd rhag torri cyfammod a Duw, a chwi a'i addunedau ef arnoch.

10. Pan fyddoch yn gwneuthur prîs a chyfrif mawr or ordinhad hon, ac yn ei chyfri' uwchlaw ymborth angenrheidiol, a bod dymuniad eich enaid am gael dyfod trachefn, er y diben hyn, fel y mwynhaech mwy o Dduw amſer arall.

11. Pan nerthir chryfheir chwi yn fwy i golli pôb peth er mwyn Chriſt, pan weloch y modd y dioddefodd Chriſt troſoch ie hyd angeu, nid ydych yn awr yn cyfri'ch einioes yn rhy anwyl iw rhoddi i lawr tros Griſt.

12. Pan ddeuoch ymmaith yn wîr ddiolchgar am yr hyn a gawſoch, ac yn wir driſt-lawn am na chawſoch fwy: Os deuwch ymmaith yn driſt, gan feddwl na chyfarfuaſoch a Chriſt, mae'r triſtwch hwnnw yn dangos gyfarfod o honoch a Chriſt, pe amgen ni alaraſech, pan feddyliaſoch fethu o honoch ei gael ef. Bernwch wrth y cyfryw bethau a hyn.

PEN. XVI.

" Yn dangos pa fodd y mae ini fwy ar ôl ein bod " wrth Swpper yr Arglwydd.

OS na chawſoch lleſad, yno gwnewch y tri pheth hyn.

1. Hola, beth a allei fod yr achos pa ham yr attaliodd Duw lleſad yr ordinhad oddiwrthych ; pam

pam yr oedd, fod hon yn ddyledſwydd wâg i chwi?

2. MAWR alerwch hyn gêr bron yr Arglwydd, fod i chwi trwy'ch cam-ymddygiad eich hun golli'r budd mawr a alleſid ei dderbyn.

3. CAIS deimlad o lleſad y Sacrament trwy edifeirwch, a gweithrediad ffydd ar Griſt pan fydd o'r ddyledſwydd troſodd, a gweddia am y rhinwedd o honi.

Os cawſoch lwyddiant da, gwnewch yr ûn fath y tri pheth hyn.

1. RHODDWCH ir Arglwydd y gogoniant o hono, cymerwch chwi y cyſſur, rhoddwch y gogoniant i Dduw.

2. PWY mwya o ddaioni a gawſoch, ewch yn fynychach atti: Da ydyw bod yn fynych yno lle y cyfarfyddoch a Dûw.

3. GADEWCH i'ch ymarweddiad ar ol y Sacrament, dyſtiolaethau y lleſad a dderbynioch yn a thrwy'r Sacrament: Yr ydych yn dywedyd felly, byddwch fyw felly, fel y gwelo pawb. Buchedd Sanctaidd gyfattebol trwy fyw i fynu i rwymedigaethau Sacramentaidd, a ddengys i chwi'ch hunan ac i eraill, eich bod yn cael rhyw wir lleſad wrth ddiſgwyl wrth yr Arglwydd yntho. Ond Och! Yr ychydig Sy'n byw megis y gweddai ir cyfryw a fuant wrth fwrdd yr Arglwydd? Pe gwrandawech ar eu ymddiddanion cyn gynted ag yr elont oddiwrth yr ordinhad hon, caech glywed rhai yn y man yn ſiarad am y byd, neu ryw beth amherthynaſol

amherthynasol ir hyn a buont yn ei gylch? Pe canlynech hwynt oddiwrth fwrdd yr Arglwydd at eu eiddo 'i hunain, y fath eiriau diflas a glyweich oddiwrthynt? Mor ofer ydyw eu ymddiddan? Os creffwch ar eu gweithredoedd, ie ar yr ûn diwrnod, ac weithiau yn yr ûn awr y buont yn bwytta ac yn yfed wrth fwrdd yr Arglwydd, gwybyddech eu bod yn y man wedi anghofio y lle y buont, ar hyn a fuant yn ei wneuthur, a'r rhwymedigaethau a osodwyd yno arnynt i fyw yn well, caech weled ûn yn feddw o ffromder, ûn arall yn llawn o ddigrifwch cnawdol, un arall yn ddiofal yn y dyledfwyddau eraill or Sabboth: Canlynwch hwynt yn eu bywyd yn yr wythnos yn canlyn, a chewch eu gweled mor fydol, mor ofer, mor ddiofal ag eraill na fuant erioed wrth y cyfryw ordinhad, Am hynny fel y byddwn (ac oh na fyddwn) offeryn i'ch annog i fyw megis y gweddai ir cyfryw Sy'n mynych gyrchu at fwrdd yr Arglwydd; Soniaf am y tri pheth hyn.

" 1. PAM y dyleich roddi pôb diwydrwydd " gan ymegnio i fyw yn gyfattebol ir rhwymedi- " gaethau a osodwyd arnoch wrth fwrdd yr Ar- " glwydd.

" 2. Y modd y dylech fyw a rhodio ar ôl y " Sacrament, fel y byddai'ch buchedd yn gyfatte- " bol i'ch rhwymedigaethau Sacramentaidd.

" 3. BETH Sy'n trwmhau'r pechod hwn, o bei- " dio a byw megis y gweddai ir Sawl a fuant " wrth fwrdd yr Arglwydd.

1. Y mae yn gofyn eich diwydrwydd eitha' i ymegnio i fyw yn gyfattebol ir Sacrament. Os yftyriwch.

1. FOD

1. Fod eich rhagorfreintiau chwi yn fwy na rhagorfreintiau llawer o rai eraill: Y rhai nid yw Duw yn eu gwahodd, nac yn eu galw (tra y cyfryw) i ddyfod at ei fwrdd: Mae Duw yn eich perchu chwi uwchlaw'r annuwiol yn y byd, ac pa mwya' ydyw'ch rhagorfraint a'ch parch, mwya a ddylae'ch diwydrwydd fod yn byw i fynu ir dyledfwyddau ar ôl. Cyfrifodd *Mephibofheth* yn barch a ffafor mawr gael bwytta bara wrth fwrdd brenin *Dafydd*. 2 *Sam.* 9. 7, 8. Ac onid ydyw yn anrhydedd mawr i fwytta o fara'r bywyd, wrth fwrdd brenin y nefoedd?

2. Bydd y diafol yn gofod arnoch â phrofedigaethau newydd i'ch tynnu i bechod, wedi'ch bod wrth fwrdd yr Arglwydd. Os traethodd Duw heddwch i'ch cydwybod, bydd y Diafol yn ceifio rhwyftro'ch heddwch; os cawfoch faddeuant 'och hên bechodau, efe a'ch temptia chwi drachefn i wneuthur rhai newydd; pwy mwya' o Dduw a welfoch, tra'r oeddech yno, mwya' gwbl a fydd phrofedigaethau Satan i'ch tynnu chwi i bechod pan ddeuoch oddi yno. Wedi bedyddio Chrift ac i Dduw ei berchenogi ef trwy lêf or nêf, yno y temptiwyd ef gan y diafol, *Mat.* 3. 17. ac *Mat.* 4. 1. Ac os bydd y Diafol yn ddiwyd ich temptio ar ôl y cyfryw ddyledfwydd, oni fyddwch chwi yn ddiwyd iw wrthwynebu ef? Neu oni wnewch; onid tebygol ydyw y gwnewch ryw beth na weddai i ûn a fu wrth yr ordinhâd hon? Byddwch chwi eich hunain yn farnwyr.

3. Yr ydych i fyned trachefn yr wythnôs o un canlyn at eich gwaith, a'ch galwadigaeth bydol, ac i dradio mewn pethau îs, ac mor fuan y collwch y teimlad o gariad Duw, a'r hyfrydwch melys â pha

pha ûn y llanwyd eich enaid, trwy orchwilio yn y byd, oni fyddwch yn wiliadwrus.

4. MAE'CH calon eich hun yn barod i oeri, ac i fôd yn farwaidd dracheſn, wedi'ch twymno a'ch cynheſu yn y Sacrament, am hynny rhaid i chwi fod yn ddiwyd ar ôl y cyfryw ddyledſwydd; mae'r dwfr a dwymnir yn dychwelyd o naturiaeth iw oerni cyntaf, pan dynner ef oddiwrth y tan, felly mae'ch calon chwithau.

2. Os mynnech rodio a byw megis y gweddai i ûn a fu wrth fwrdd yr Arglwydd; rhaid i chwi.

1. YMEGNIO i fyw a rhodio megis y gwnaeth Chriſt pan oedd efe ymma ar y ddaiar, wedi'ch bod yn cofio marwolaeth Chriſt, rhaid i chwi ddyfod ymmaith gan fwriadu dilyn ei fywyd ef, oblegid megis y gadawodd Chriſt ini yn ei ddioddefiadau Siampl y modd y dylem ni ddioddef, 1 *Pet.* 2. 21. Felly a gadawodd Chriſt yn ei fywyd Siampl y modd y dylaem fyw, 1 *Joa.* 2. 6. Yna y rhodiwch yn gyfattebol ir ordinhâd honno, yr hon Sy' goffadwriaeth o farwolaeth Chriſt, pan Sathroch yn ei ôl ef tra fu efe fyw ar y ddaiar.

2. RHODIWCH a byddwch fyw megis y dylae ûn a waredwyd trwy waed Chriſt; gwelſoch yn y Sacrament fawredd y gwerth a dalwyd troſoch, i'ch gwared chwi oddiwrth boenau uffern, oddiwrth ddigofaint Duw, melldith y ddeddf, grym y pechod; ymma, y gwelwch eich gwaredu a'ch prynu, ac am hynny nid ydych yn eiddo'ch eich hunain, ond eiddo'r hwn a fu farw troſoch, 1 *Cor.* 6. 19. *Ac nid ydych yn eiddoch eich hunain.* 20. w-

Canys

Canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hynny gogoneddwch Dduw yn eich corph yn eich yſpryd, y rhai Sydd eiddo Duw. Oh'r modd y dylai dyn a waredwyd oddiwrth boenau tragwyddol, rodio a byw?

3. RHODIWCH a byddwch fyw, megis y dylae ûn fyw a Selwyd hyd ddydd prynedigaeth, yn y Sacrament nid ydych yn unig yn gweled eich bod wedi'ch gwared, ond hefyd eich Selio hyd ddydd prynedigaeth; ſiccrhair y nefoedd a bywyd tragwyddol i chwi; ac oh y modd y dylae hwnnw rodio a byw, a gafodd yn y Sacrament ſêl y cyfammodd gras iw Sicrhau o fywyd a gogoniant.

4. RHODIWCH a byddwch fyw megis y dylai ûn fyw, wrth ba ûn y traethod yr Arglwydd heddwch; dywedodd Duw wrthych, yn Swpper yr Arglwydd, ei fod wedi cymmodi a chwi, dywedodd wrthych, fy mab, fy merch, *cymmer gyſſur maddeuwyd iti dy bechodau*: Yno dôs a bydd fyw megis y dylae ûn wedi maddeu iddo gan yr Arglwydd.

5. RHODIA a bydd fyw megis y dylai ûn fyw a adnewyddodd ei gyfammodd a Duw, byddwch mor doſt yn erbyn pechod ar ol y Sacrament, ag y bwriadaſoch pan oeddech yno, rhoddes Duw ei hun i fod yn Dduw i chwi, a rhoddaſoch chwithau eich hunain i fod yn eiddo'r Arglwydd; byddwch fyw gan hynny yn gyfattebol.

6. RHODIWCH a byddwch fyw megis ûn a welodd y fath olygiad mewn Sacrament, ag a welſoch chwi; ymma y gwelſoch ddigofaint ofnadwy Duw yn erbyn pechod, toſter ei gyfiawnder yn erbyn pechod; ymma gwelſoch ddrygioni'r pechod,

chod, ai haeddedigaethau, ymma gwelſoch, beth mor werthfawr ydyw enaid dyn, wrth y gwerth a dalwyd troſti: Ymma gwelſoch gariad Duw a Chriſt i bechaduriaid truein; byddwch gan hynny fyw mewn ofn o'r pechod a gofal am eich enaid gwerthfawr anfarwol, a'r fath ddiwydrwydd i ſoddhau a charu Duw, megis y dylae ûn a weſodd y cyfryw bethau wneuthur. Ond yn fwy neullduol.

1. WEDI'CH bôd wrth fwrdd yr Arglwydd, rhaid i chwi wneuthur cydwybod o ymgadw rhag y pechodau hynny y galaraſoch am danynt, ac y triſtaſoch o'u plegit yno: I wylo am bechod wrth y Sacrament, ac iw feithrin pan ddeloch ymmaith, fydd ragrith mawr: A ymddangoſwch chwi (tra fyddoch yno) i driſtau am eich pechod, ac etto ar ol hynny bod yn anewllyſgar iw wrthod? A ddarfu i chwi ymroi yn ei erbyn, onte ni wnaethoch? *Oni wnaethoch* yr Arglwydd a faddeuo i chwi, mawr yw eich pechod, a'ch, cariad i bechod oedd fawr; pan na wnaech cymmaint a bwriadu gadel eich pechod, nac ymroi yn ei erbyn, na wnaech, er i chwi weled yr hyn a ddioddefodd Chriſt tros bechod: *Os gwnaethoch*, yna gwnewch megis y bwriadaſoch ac ymroeſoch yn enwedigol gwiliwch fwyaf yn erbyn y pechod hwnnw oedd fynycha yn eich gorchfygu, ac yr oedd eich calon agos wedi cyttuno iddo, a'ch cydwybod yn eich cyhuddo fwya' o'i blegid, pan oeddeich wrth fwrdd yr Arglwydd, rhaid i'ch egni fod yn erbyn pob pechod, ond yn bennaf yn erbyn eich pechod pennaf; oh, na wnewch byth ar eich pechod, yr hwn a welwch a roddes eich Arglwydd, tywyſog y bywyd i farwolaeth!

2. WEDI'CH bod wrth y Sacrament, byddwch gydwybodol yn gwneuthur yr holl ddyledſwyddau y mae'r ordinhad hon yn eich rhwymo iw gwneuthur. Rhoddwch ufudd-dod i orchmynnion Duw, y rhai a roddes efe i fod yn rheol i'ch bywyd: Eich dyledſwydd oedd hyn or blaen, ond yn awr mae rhwym arall i'ch rhwymo i hyn; mae rhwymedigaeth ychwaneg wedi ei goſod arnoch i wneuthur felly, a bydd eich eſceuluſdra a'ch anufudd-dod yn llawer gwaeth, oni wnewch.

1. BYDDWCH ſynychach a thaerach yn eich erfyniadau dirgel ar Dduw, heblaw eich addoliad o Dduw yn eich teulu (yr hyn y mae rhai ſy'n dyfod at fwrdd yr Arglwydd yn gywilyddus yn ei eſceuluſo) byddwch yn ſynych gyda Duw or nailltu. Oh'r modd y dyleich garu ac ymhyfrydu gael cymundeb gyda Duw yn y dirgel, pan nad oes un llygad yn eich gweled, ond llygad Duw, yr hwn a welſoch yn y Sacrament, ac a roddes ei Fab i chwi a throſo chwi!

2. BYDDWCH ddyfal i gynnyddu mewn gras, hyn a ddylae fod eich dymuniad cyn eich myned, a'ch gofal chwi a ddylae fod pan ddeloch oddi yno ar gael mwy o gariad i Dduw nag oedd gennych or blaen, i gael ffydd gryfach ynghriſt, mwy o hyfrydwch yn Nuw a Chriſt a dymuniadau gwreſoccach nac oedd ganthoch or blaen.

3. BYDDWCH mwy ymrous i ddioddef, ac i farw tros Griſt, nag yr oeddeich or blaen wrth ſwrdd yr Arglwydd, gwelſoch beth a wnaeth ac a ddioddefodd Chriſt troſoch chwi, byddwch chwi wrth hynny yn fwy ymrous, nid yn unig i wneuthur, ond i ddioddef hefyd er ei fwyn ef; byddwch nid

yn

yn unig yn rhagori yn eich ufudd-dod yn gwneuthur erddo ef, eithr hefyd yn fwy amyneddgar yn dioddef trofto ef nag oeddych or blaen.

4. Byddwch byw mewn cariad a phawb Sy' gyfrannogion o'r unrhyw fendithion a chwithau. Ie yn yr ordinhad hon mae gennych efampl i garu'ch gelynion, megis y gwnaeth Chrift pan fu efe farw trofoch chwi: Ond dyfcir chwi, i fod gennych gariad mwy enwedigol a neulltuol i holl aelodau corph dirgel Chrift, pan weloch yn yr ordinhad hon, y modd y carodd Chrift hwynt oll. *Eph.* 5. 2. *Rhodiwch mewn cariad, megis y carodd Chrift ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun trofom ni yn offrwm ac yn aberth i Dduw, o arogl peraidd.*

5. Na fyddwch mor ofnus i farw, wedi i chwi weled Marwolaeth Chrift yn y Sacrament wedi ei ofod ger eich bron chwi. Gorchfygodd Chrift y gelyn hwn, gwnaeth efe angeu yn gyfaill i chwi, i agoryd i chwi y drws, fel y byddei i chwi fyned i mewn a byw gydag ef, yr hwn a fu farw trofoch chwi.

3. Oni fyddwch byw megis y gweddai i un a fu wrth fwrdd yr Arglwydd, yftyriwch fawrder eich pechod, yn y pethau hyn Sy'n ei drymhau, os byddwch fyw bywyd rhydd a chnawdol, wedi i chwi gyfrannu or ordinhad hon. (1.) Yr ydych yn torri cyfamod a Duw, a'r addewidion hynny a wnaethoch iddo efo ufudd-dod gwell; rhoefoch eich hun tracheſn i fod yn eiddo'r Arglwydd; os *ni wnaethoch*, eich pechod oedd hynny, *os gwnaethoch*, ac nid ydych yn ei atteb yn eich bywyd, eich pechod yw hynny. (2.) Yr ydych yn dianrhydeddu Chrift, os nad ydych yn byw yn gyfattebol

tebol ir ordinhad hon, yr ydych yn eich proffesu eich hun i fod yn un o'i ddiſcyblion ef, onide beth a wnaech yno? *Os ydych*, ac heb fyw yn gyſattebol, yr ydych yn dianrhydeddu yr hwn a welſoch yno wedi ei ddirmygu a'i wradwyddo cymaint gan eraill troſoch chwi, ac etto a ddirmygir ef gan eraill o'ch plegid chwi? (3.) Yr ydych yn triſtau yſpryd Duw, oni fyddwch fyw yn Sanctaidd ar ol y Sacrament; oni ddaeth yſpryd Duw ac a dyſtylaethodd gyda chwi, eich bod yn blentyn i Dduw, ac a berſwadiodd eich calon yn ddirgel ac yn nerthol, fod Duw trwy farwolaeth ei Fab, wedi eigymmodi a chwi, a bod eich pechodau wedi eu maddeu, ac y byddei'ch enaid yn gadwedig pan fyddeich farw? Ac onid rhaid i hyn ei driſthau ef, eich gweled chwi yn rhodio mor annheilwng o'i gariad ef? (4.) Yr ydych yn peri anglod ich proffes ac yn rhoi achos i ddywedyd yn ddrwg am ffyrdd Sanctaidd Duw, oni fyddwch byw bywyd Sanctaidd wedi'ch bod wrth fwrdd yr Arglwydd. Y Sawl ni fyddant yn Sanctaidd eu hunain a feiant arnoch chwi, ac wradwyddant eich proffes, os na byddwch dduwiol; "hwy "a ddywedant, mae hwn a hwn yn cymunó yn "fynych, ac atto mae'n anghyfiawn, ac yn ofer "yn ei ymddiddanion, ac ni welwn ni ond ych-"ydig ragoriaeth rhwng ei fywyd ef a ninnau, "ac felly hwn a galedir yn eu ffyrdd drwg, ac a "farnant yn galed o grefydd, o ran buchedd an-"weddus y Sawl ſy'n ei phroffeſu. (5.) Os Syrthiwch ir pechod a fwriadaſoch aca ymroeſoch yn ei erbyn yn Swpper yr Arglwydd, chwi a archollwch eich cydwybod yn fwy, ac a rwyſtrwch eich heddwch; pan ddywedo cydwybod wrthych, fel hyn, ymroeſoch yn erbyn y pechod ymma, ac etto chwi a'i gwnaethoch; chwi a addawſoch fod

yn fwy gwiliadwrus yn erbyn yr achoſion a'r ymddangoſiad o'r drwg hwn; ond chwi a redaſoch o'ch gwir-fodd iw wneuthur, neu pan demptwyd chwi iddo cyttunaſoch yn ewllyſgar. (6.) Rhodio yn anaddas wedi'ch bod wrth fwrdd yr Arglwydd, a wna i chwi golli llawer o'ch hyder Sanctaidd pan eloch drachefn, rhwyſtra i chwi gyfaddaſu Chriſt i chwi 'ch hunan, fel nad ellwch gydâ hyder Sanctaidd ddywedyd, bu y Chriſt hwn farw troſofi; yn enwedig oni ddaroſtyngir chwi yn ddwys am eich codymmau cyn i chwi ddyfod trachefn. (7.) Rhodio yn anghymwys ar ôl yr ordinhad hon a annog yr Arglwydd i gilio oddiwrthych, a'ch gadel mewn cyflwr gwrthodedig, i'ch gadel i Syrthni a marweidd-dra calon, i gymmeryd ymmaith ei gyfluron oddiwrth eich calon, ac i guddio ei gariad oddiwrth eich enaid, hyd oni ddyſcoch rodio yn fwy teilwng o hono. (8.) Rhodio yn annhrefnus ar ol yr ordinhâd hon, a fydd yn anniolchgarwch mawr i Dduw, am roddi ei Fâb a'r holl ddoniau y buoch gyfrannogion o honynt trwyddo ef, hid eich mawl chwi i Dduw â'ch gwefuſau, ond yn bennaf â'ch bywyd; nid yn unig yn eich geiriau, ond yn bennaf yn eich gweithredoedd, a ddengys eich bod yn wir-ddiolchgar i Dduw. Y cwbl y mae Duw yn ei ofyn gennych am yr holl fendithion a bwrcaſſwyd trwy farwolaeth Chriſt, ac a wnaed troſodd i chwi yn y Sacrament ydyw ar i chwi fod yn ddiolchgar iddo ef; ond ni all fod ganthoch ddiolchgar, oni bydd ganthoch fuchedd gyfattebol.

Dymma rai o'r drygau hynny Sy'n trymhau eich pechod yn yr yſtyriaeth hon, yr hyn y dyleich fod yn ofalus iw gochel fel na bo'i chwi ddigio nac anfodloni Duw mewn dim, ond ymddwyn

wyn o honoch *cyn* ac *wrth* ac *wedi* i chwi gyfrannu or ordinhâd Sanctaidd hon, fel y byddo i Dduw ymhyfrydu ynoch trwy Grift; ac iddo eich croesawu at ei fwrdd ymma, ac iw deyrnas pan ymadawoch âr byd hwn, lle y llenwir chwi â'r hyfrydwch a'r llawenydd hynny; o ba rai y mae ganthoch brawt yn y cyflwr ammherffaith hwn wrth fwrdd yr Arglwydd.

" *Ymddiddan byrr rhwng Pregethwr, a Chriftion*
" *Neilltuoll yr hwn a ewyllyfie gyfrannu o Swpper*
" *yr Arglwydd.*

Chriftion. SYr, oni fydd yn rhwyfter i chwi yn eich gwaith rwy'n dymuno'ch cyngor ynghylch dyledfwydd Sy'n perthyn im henaid.

Pregethwr. *Y gwaith a orchmynnodd Duw imi ddyw i gynorthwyo eneidiau yn eu ffordd ir nêf, ac iw cyfarwyddo yn eu dyledfwydd mewn trefn i hyny; am hynny os ydyw'ch neges chwi gydâ myfi or natur hon, dywedwch imi beth yr ydych yn ei addymno?*

C. FY awydd-fryd i ydyw cyfrannu o'r Sacrament o Swpper yr Arglwydd.

P. *A dderbyniafoch chwi erioed etto y Sacrament hwn?*

C. NA ddo.

P. *Pa ham y buoch byw cyhyd yn yr efceuluſdra r ordinhâd hon?*

C. Oblegid fy mod yn llawn o amheuon ac ofnau ynghylch fy nghymhwyſdra iddo.

P. *A gawſoch chwi ddatod eich amheuon? Ac a ydych wedi'ch perſwadio eich bod yn ûn or gwahoddedigion ir Swpper Sanctaidd hwn?*

C. Weithiau mae gennyf obaith fod Duw yn fy ngalw iddo, ond weithiau'r 'wyf yn ofni nad ydwyf barod iddo, ac am hynny yr 'wyf yn gofyn eich hyfforddiad chwi, beth a ddylwn ei wneuthur.

P. *Chwi a wyddoch na ddichon Pregethwr edrych i'ch calon, nac yn ddidwyll wybod, pa un a oes grâs ganthoch, neu nid oes, oni ddyleich chwi gan hynny yn hytrach eich chwilio a'ch holi'ch hunan, gan i chwi allu gwybod cyflwr eich enaid eich hun, yr hyn ni all arall.*

C. Mi a wn nad all ûn dyn adnabod fy nghalon, a pha ûn a ydwyt gymwys ger bron Duw; ond chwi ellwch gymeryd cyfrif o'm gwybodaeth mewn trefn i hyn; ac os dywedaf y gwirionedd ac ni ddywedaf gelwydd (yr hyn ger bron Duw wrth frawdle pa ûn y bydd rhaid imi ar fyrr ſefyll, yr ydwyf yn addaw) tra'r ydwyf yn mynegu i chwi weithrediadau yſpryd Duw ar fy nghalon, chwi a ellwch ddywedyd imi oddiwrth ain Duw beth yw fy nghyflwr; nid wyf finneu chwaith yn dyfod i arbed im boen yn fy holi fy hun, ond fel trwy hyn y neithir fi yn well iddo.

P. *Ydych chwi gan hynny yn fodlon imi brofi'ch gwybodaeth ynghylch Swpper yr Arglwydd, ac ymofyn ynghylch ſylfaen a rheſymmau'ch gobaith, pam yr ydych*

ydych yn meddwl eich bod wedi'ch cymhwyſo ir ddyledſwydd hon?

C. Mi a ddylawn fod yn barod bob amſer i atteb i bob ûn a ofynno imi reſwm am y gobaith ſydd ynof, pa faint mwy ir nêb a oſododd Duw i wilio tros fy enaid, ac yn enwedigol pan ewyllyſwyf gyfrannu o Swpper yr Arglwydd.

P. *Dywaid imi gan hynny beth ydyw Swpper yr Arglwydd?*

C. Swpper yr Arglwydd ----- Ail Sacrament y Teſtament newydd, 1 *Cor.* 11. 25. A ordeinwyd gan Griſt, *Luc.* 22. 19, 20. Yn yr hwn trwy'r arwyddion o fara a gwîn, a'r gweithredoedd a berthynant i hwn, *Mat.* 26. 26, 27. Yr ydym yn dangos ei farwolaeth, 1 *Cor.* 11. 26. A Duw yn arwyddo, ſelio ac yn cynnyg corph a gwaed Chriſt, 1 *Cor.* 10. 16. Gydâ holl ddoniau ei farwolaeth a'i ddioddefaint, i bob derbyniwr teilwng, iw ymborth yſprydol a'i gynnydd mewn gras.

P. *Paham y gelwir ef yn Swpper yr Arglwydd?*

C. Nid oblegid ei ordeinio yn Swpper ini, ond oblegit pan oedd Chriſt yn eiſtedd wrth ei Swpper diweddaf efe a'i hordeiniodd yn lle'r Paſc, *Matb*, 26. 26.

P. *Pa hyd y mae Swpper yr Arglwydd i barhau yn yr Eglwys?*

C. Hyd ddyfodiad Chriſt mewn gogoniant, 1 *Cor.* 11. 26.

P. *Ai dyledſwydd y Fyddloniaid ydyw derbyn Swpper yr Arglwydd?*

C. Ie, os amgen, 1. Mae'nt yn anufuddhau i orchymmyn Chriſt, *Luc.* 22, 19. 2. Yn diyſtyru cariad Chriſt yn ei ordeinio erddynt. 3. Yn eſceuluſo moddion buddiol er eu cynnydd mewn grâs. Ac 4. Yn annog Duw i ddigllonrwydd mawr, *Math.* 22. 2. *hyd.* 9.

P. *Ai dyledſwydd y Fyddloniaid ydyw mynych gyfrannu o Swpper yr Arglwydd?*

C. 1. Mae gorchymmyn Chriſt, 1 *Cor.* 11. 26. 2. Arfer yr Apoſtolion, *Actſ.* 2. 42. ac *Actſ.* 20. 7. 3. Eu hangen eu hunain, gan eu bod yn fynych yn drwm, *Joa.* 20. 9. A mynych yn amheuus, *Math.* 28. 17. Ac yn anhawdd ganddynt gredu, *Luc.* 24. 25. Na chofio Athrawiaeth Chriſt yng-hylch ei farwolaeth, *Luc.* 24. 5, 6, 7, 8. Eu mynych eiſieu yſprydol, *Phil.* 4. 19. Eu gwaethygiad rhyfynych mewn gras, *Dat.* 2. 4. ac *Dat.* 3. 2. Eu bod yn mynych bechu yn erbyn Duw, *Jaco.* 3. 2. A'u mynych eiſiau o'i glanhau gan waed Chriſt, *Joa.* 13. 8. 1. *Joa.* 1. 7. A'u mynych eiſieu o faddeuant, *Math.* 6. 12. Yn gofyn ir Fyddloniaid fynych gyfrannu o Swpper yr Arglwypd.

P. *Ydvw rhagrithwyr ac Anfyddloniaid yn bwytta ac yn yfed corph a gwaed Chriſt?*

C. Nag ydynt, y cyfryw a dderbyniant yn unig yr elementau neu'r arwyddion oddiallan.

P. *Onid ydyw ei cyfiwr hwy gan hynny yn ofnadwy?*

C. Ydyw

C. YDYW? Oblegid, 1. Fod eu pechod yn fawr trwy fod yn euog o gorph a gwaed Chriſt, 1 *Cor.* 11. 27. 2. Maent yn bwytta barnedigaeth iddynt eu hunain, *Gwerſ.* 29. 3. Maent yn weiniaid ac yn marw am y pechod hwn, *werſ.* 30. Mae Duw am hwn yn bwrw cyrph rhai ir bedd, a'u heneidiau i uffern.

P. *Pa dreſn gan hynny Sy'raid i chwi gymmeryd i ragflaenu'r Pechod a'r enbydrwydd hwn?*

C. RHAID imi roddi pob diwydrwydd difrif i barattoi fy nghalon i'r cyfryw waith mawr.

P. *Pam yr ydych yn meddwl, fod paratoad mor angenrheidiol?*

C. OBLEGIT, 1. Fod pawb yn ol natur yn anghymwys. 2. Ar ol troedigaeth mae'r Fyddloniaid yn fynych yn amharod iddo. 3. Daw Duw weled ei wahoddedigion, *Matth.* 22. 11. 4. Mae ini i wneuthur a gwaed Mab Dûw. 5. Mae llawer o ddyledſwyddau yn cyfarfod ymma. Ac 6. Gwnaeth Duw barattoad mawr ini.

P. *Pa fodd y mae'n rhaid i chwi'ch parattoi'ch hun i Swpper yr Arglwydd?*

C. TRWY ddyfal a manwl chwilio fy nghalon, pa ûn a oes gennif y graſau hynny y mae Duw yn eu gofyn mewn derbynwyr teilwng, a thrwy daer weddi wreſog.

P. *Pa rai ydyw'r graſau hynny y mae Duw yn eu goſyn mewn derbynwyr teilwng?*

C. Gwybodaeth, ffydd, cariad i Dduw, edlfeirwch ac ufudd-dod newydd.

P. *Paham y mae gwybodaeth yn angenrheidiol?*

C. Oblegid heb wybodaeth nid all y galon fod yn dda, *Dihar.* 19. 2. Ac ni all dyn ei holi ei hun, na jawn farnu corph yr Arglwydd.

P. *Pa wybodaeth ſydd angenrheidiol?*

C. Mae'n angenrheidiol gwybod y modd y crewyd ni, y mod y Syrthiaſom oddiwrth Dduw, a pha fodd yr achubir ni.

P. *Pa fodd y crewyd ni?*

C. Ar ddelw Duw, *Gen.* 1. 27. Mewn gwybodaeth, cyfiawnder a Sanctteiddrwydd, *Col.* 3. 10. *Eph.* 4. 24.

P. *Pa fodd y daethom ni i fod mor bechadurus a thruenus?*

C. Trwy droſeddiad cyntaf ein rhieni cyntaf, *Rhuf.* 5. 12, 18.

P. *Ymmha beth y mae pechaduriaeth ein cyflwr ni yn ſefyll, o achos cwymp ein rhieni cyntaf?*

C. Yn euogrwydd pechod cynta' Adda, *Rhuf.* 5. 19. Y diffyg o ddelw Duw yr hon oedd gennym ar y cyntaf, *Rhuf.* 3. 10. Ac ymmharodrwydd ein calonnau i'r pechod gwaethaf, *Gen.* 8. 18, ac *Gen.* 6. 5.

P. *A fedrwch chwi ſynegu yn fwy neilltuol bechaduriaeth yr amryw gynheddfau'r enaid ac aelodau'r Corph?*

C. Mae'r dealltwriaeth yn dywyll ac yn anwybodus, 1 *Cor.* 2. 14. *Eph.* 4. 18. Yn elyn i Dduw, *Rhuf.* 8. 7. Yn oſer, *Eph.* 4. 17. Mae'r ewyllys yn gyndyn a gwrthryfelgar, *Joa.* 5. 40. *Matth.* 23. 27. Yn anallu i ddewis y da, *Phil.* 2. 13. Mae'r gydwybod wedi ei llygru, *Tit.* 1. 15. Mewn rhai wedi'i ſerio, 1 *Tim.* 4. 2. Yn cyfeiliorni, *Joa.* 16. 2. Yn amheuus, *Rhuf.* 14. 23. Mae'r galon mor galed ar Adamant, *Zech.* 7. 11. 12. Y Serchiadau wedi troi oddiwrth y pethau goreu, mae'r Serchiadau a fyddent wedi eu goſod ar Dduw, yn awr tuag at ddrwg, mae dynion yn naturiol yn caru melys-chwant yn fwy na Duw, 2 *Tim.* 3. 4. A golud, *Matth.* 19. 21. 22. A'u hunain, *Matth* 16. 24. A'u perthynaſau, *Matth.* 10. 37. Ac yn chwennych pob peth yn hytrach na Duw a Chriſt, *Iſa.* 53. 2. *Job.* 21. 14. Ac yn ymhyfrydu mewn drwg, ac nid mewn dâ, *Dihar.* 2. 14. Eu ſerchiadau a ddylaent fod yn erbyn pechod, mae'nt yn erbyn Duw: Yn gâs ganddynt Dduw, *Rhuf.* 1. 30. Yn triſtau o ran daioni Duw tuag at eraill, *Matth.* 20. 11. *Hid* 16. Y coffadwriaeth yn barod i anghofio'r da, *Heb.* 12. 5. *Deut.* 8. 10, 11, 14. I gofio'r drwg, *Ezek.* 23. 19, 21. A phan gofio yr hyn Sy' dda, i ddiben drwg y mae; *Math.* 27. 63. Felly mae holl aelodau'r Corph yn weiſion i bechod, *Rhuf.* 6. 19. Mae'r llygaid yn llawn o odineb, 2 *Pet.* 2. 14. Y traed yn chwyrn i bechu, y gwddwf, y tafod, y gweſuſau, y ſafn, yn llawn o bechod, *Rhuf.* 3. 13, 14, 15.

P. *Ymmha beth y bydd y gwybodaeth o'r pechaduriaeth*

chaduriaeth hwn yn fuddiol i chwi, pan eloch at fwrdd yr Arglwydd?

C. Bydd yn fodd i dorri fy nghalon, pan fyddwyf yno, fy mod i y cyfryw dommen a Swp o bechod; bydd yn fodd i bybod fy eifieu o Grift, ac i ryfeddu cariad Duw yn anfon ei fab i farw tros y cyfryw ûn truan budr, Fiaidd a halogedig a myfi.

P. *Beth yw trueni y cyfltwr hwnnw i ba ûn y Syrthiodd dyn?*

C. Y cofpedigaethau a haeddei'r dyn am bechod ydynt. 1. *Pôb trueni amferol*, megis melldith Dduw ar y creaduriaid, *Gen.* 3. 17. *Rhuf.* 8. 20. Ar ei feddiannau, *Deut.* 28. 17. Ei blant, *werf.* 18. Ac oll a gymero mewn llaw, 20. *w.* Clefydau, megis haint. 21. *w.* Darfodedigaeth, cryd poeth, *&c.* 22. *w.* 27. *w. Lev.* 16. 19. Newyn *Deut.* 28. 22, 23, 24. Ynfydrwydd, 28. *w.* Marwolaeth, *Rhuf.* 6. 23. *Gen.* 2. 17. ac *Pen.* 3. 19. Ie yr holl felldithion Sy' fcrifenedig yn llyfr Duw, *Deut.* 29. 20. 27. Ac nid ydynt fcrifenedig, *Deut.* 28. 61. 2. *Trueni yfprydol*, wrth natur mae dyn yn farw mewn pechod, *Eph.* 2. 1. Yn blentyn digofaint, *Eph.* 2. 3. A Diafol, *Joa.* 8 44. Yn Fiaidd gan Dduw, *Ezet.* 16. 5. Yn eftron iddo, *Eph.* 2. 19. Tan ddallineb meddwl, *Ef.* 6. 9. Yn cuog o uffern, ond nid yw'n ei weled, *Rhuf.* 11. 1. Nac yn ei ofni, *Deut.* 29. 19. Yn ddiyftyr o bechod; *Efai.* 48. 4. Ond weithiau wedi ei lenwi a'r fath ddychryn cydwybod, fel y mae yn flin o'i fywyd, *Gen.* 4. 13. 14. Ac a fydd farw trwy ei ddwylaw ei hun yn hytrach na'i ddioddef, *Math.* 27. 3. 4, 5. Mae ganddo teddwl anghymeradwy, *Rhuf.* 1. 28,

1. 28. A gwyniau gwarthus, *Rhuf.* 1. 26. Tan allu'r Diafol, *Eph.* 2. 2. A chwantau, 3. *w.* Ac yn dueddol i annuwioldeb annaturiol, *Gen.* 19. 5. Yn wîr hyn yw ei drueni fod Duw yn ddigllon wrtho bôb dydd, *Pſal.* 7. 11. Ac nad yw dim y mae yn ei wneuthur yn rhyngu-bodd Duw, *Rhuf.* 8. 8. 3. *Trueni tragwyddol*; megis cael ei daflu allan o breſenoldeb cyſſurus Duw yn dragywydd, *Math.* 7. 23. 2 *Theſſ.* 1. 9. Poenau uffern, *Datc.* 20. 15. Mewn llyn o dân a brwmſtan, *Dat.* 21. 8. Yr hwn ni ddioffoddir byth, *Marc.* 9. 44. Gyda llu melldigedig o gythreuliaid, yn eu poeni ac yn poeni, *Math.* 25. 41. Lle na fydd y pryf fyth farw, *Mar.* 9. 46. A'r boen a fydd yn aneſmwyth, *Luc.* 16. 24, 25. Yn ddiymwared, 26. *w.* Yn ddi-ddiwedd, *Dat.* 14. 10, 11.

P. *Ymmha beth y chwanega'ch gwybodaeth o hyn eich cymhwyſdra i Swpper yr Arglwydd?*

C. Gwna imi waeddi yn daerach am drugaredd, *Luc.* 18. 13. I weled fy eiſieu o Griſt, *Math.* 9. 12. Preſſuro atto a chredu ynddo, *Act.* 19. 29. *Hyd.* 35. I gyfrif Chriſt ûwchlaw pob peth, *Phil.* 3. 7, 8. Gyfaddef fy mhechod, *Luc.* 15. 18. A thriſtau am dano, *Act.* 2. 37.

P. *Trwy bwy y gwaredir chwi allan o'r trueni a'r pechod hwn?*

C. Trwy Jeſu Griſt yn unig, *Act.* 4. 12.

P. *Pwy oedd Chriſt?*

C. Tragwyddol Fab Duw, *Pſal.* 2. 7. Yr hwn a wnaethpwyd yn ddyn, *Joa.* 1. 14. Yr hwn oedd

ac

ac ſydd yn Dduw, *Joa.* 1. 1. Ac yn ddyn, 1 *Tim.* 2. 5. Mewn dwy natur wahanedig, *Math.* 22. 41. *Hyd.* 46. ac *Rhuf.* 1. 3, 4. Ac ûn perſon yn dragywydd, *Joa.* 3. 13

P. *Paham yr oedd yn angenrheidiol ir cyfryngwr rhwng Duw a dyn, fod yn Dduw ac yn ddyn?*

C. Oni bae ei fod yn ddyn ni allaſei farw, 1 *Tim.* 6. 16. Ac oni buaſei'n Dduw, ni fuaſei ei farwolaeth ef yn bodloni am ein pechodau ni, nac yn pwrcaſſu ei Eglwys, *Act.* 20. 23.

P. *Pa fodd y mae Chriſt yn ein gwared ni oddiwrth bôb pechod a thrueni?*

C. Trwy waſanacthu ſwydd Prophwyd, *Act.* 3. 22. Offeiriad, *Heb.* 5. 6. A Brenin, *Pſal.* 2. 6. *Act.* 5. 31.

P. *Paham yr oedd yn angenrheidiol i Griſt waſanaethu y tair ſwydd hyn?*

C. I'n gwared ni o drueni tridyblyg yr oeddym yn gorwedd tano.

P. *Beth oedd y cyntaf?*

C. Yr oeddym yn deillion ac yn anwybodus, *Math.* 15. 14. ac *Math.* 23. 16, 17, 19, 24, 26. Am hynny efe a ddaeth yn Brophwyd i ddatcudio ini ewyllys Duw er ein jechydwriaeth, *Joa.* 1. 18. *Eph.* 4. 18. *Act.* 26. 18.

P. *Beth oedd yr ail?*

C. Yr

C. Yr oeddem ni wedi pechu, ac ni fedrem fodloni cyfiawnder Duw, *Mic.* 6. 6, 7. Am hynny efe a wnaethpwyd yn offeiriad, trwy farw i fodloni cyfiawnder Duw, ac i eiriol trofom ni, *Eſai.* 53. 4, 5, 6. *Heb.* 7. 25.

P. *Beth oedd y trydydd?*

C. Yr oeddym ni yn weiniaid, *Rhuf.* 5. 6. Ac fedrem ni throi at Dduw, *Jer.* 31. 18. ac 17. 14. *Galar.* 5. 21. Na gorchfygu'n gelynion, *Mar.* 5. 2. *Hyd.* 14. Am hynny efe a ddaeth yn Frenin ini i'n daroſtwng ni iddo'i hun, *Pſal.* 110. 3. Ac i'n hachub, *Eſa.* 33. 22. Ac i attal a gorchfygu ei elynion ef a'r eiddom ninnau, *Pſal.* 110. 1. 1 *Cor.* 15. 24, 25, 26.

P. *Pa fodd y gwneir ni yn gyfrannogïon o Griſt a'i ddoniau?*

C. Trwy ffydd, *Joa.* 3. 16. *Act.* 13. 39. *Eph.* 2. 8.

P. *Beth ydyw ffydd?*

C. Derbyniad calonnog o Griſt i fod yn Arglwydd ac yn Achubwr, *Joa.* 1. 12. Neu i orphwys ar Griſt yn unig am jechydwriaeth.

P. *Pam y mae ffydd yn angenrheidiol i dderbyn yn deilwng?*

C. Oblegid (1.) Heb ffydd amhoſſibl ydyw rhyngu-bodd Duw, *Heb.* 11. 6. Ac ni ddylaem ni moi anfodloni ef wrth ei fwrdd. (2) Trwy ffydd yr ydym yn blant i Dduw, *Joa.* 1. 12. *Gal.* 3. 26. A bara'r plant ydyw hwn; a llyniaeth teulu Duw,

ac

ac nid ydym ni o deulu Duw, hyd oni byddom o deulu'r ffydd, *Eph.* 2. 19. *Gal.* 2. 10. (3.) Nid yw Swppen yr Arglwydd yn Sancteiddio'r anffyddloniaid, ond y mae'r anffyddloniad yn halogi Swpper yr Arglwydd, *Hagg.* 2. 12, 13, 14. (4.) Oblegid fod llawer o ymadroddion Scrythyrol yn gosod allan mor ddefnyddiol ydyw ffydd; *troed* yr enaid ydyw, ac yn Swpper yr Arglwydd nyni a ddylem ddyfod at Grift, *Joa.* 6. 35. *Safn* yr enaid ydyw, *Joa.* 6. 55. Ac yno y dylem ymborthi ar Grift; *llaw'r* enaid yw i dderbyn Chrift, *Joa.* 1. 12. Ac nyni a ddylem gymeryd Chrift pan gymerom y bara; *llygad* yr enaid ydyw, *Ifa.* 45. 22. Ac yno y dylem edrych ar ein Harglwydd Croeshoeliedig; *hywyd* yr enaid ydyw, *Gal.* 2. 20. Ac ni ddichon i ddyn marw ymborthi ar Grift.

P. *Pam y dywedaſoch fod edifeirwch yn angenrheidiol i dderbyn yn deilwng?*

C. Oblegid, 1. Ein bod i'n barnu'n hunain, 1 *Cor.* 11. 31. 2. Calon feddal a dderbyn brintiad y Sêl hon. 3. Oblegid fod dyn i droi oddiwrth y pechod pan ddelo at fwrdd yr Arglwydd.

P. *Paham y dywedaſoch fod cariad i Dduw yn angenrheidiol?*

C. Oblegid fod yn anghyſſurus eiſtedd i lawr wrth fwrdd gelyn, onid yw yn ddychrynllyd ac yn enbyd eiſtedd i lawr yn ein gelyniaeth wrth fwrdd yr Arglwydd: Os ceidw dyn gymdeithas a'r Diafol, y mae yn digio Duw, os daw at ei fwrdd ef, 1 *Cor.* 10. 21, 22.

P. *Pam y dywedaſoch fod ufudd-dod newydd yn angenrheidiol?*

C. Pe

C. Pe amgen, deue dyn yn ei wrthryfelgarwch; mae Duw yn ewyllyſio ufudd-dod o flaen Aberth; pe amgen nid yw dyn yn derbyn mewn ufudd-dod i Dduw, ond o ran rhyw ddiben chwithig; nid all un a fo'n byw yn anufudd, fod yn dderdyniwr teilwng, na chael cymundeb gyda Duw, 1 *Joa.* 1. 6, 7.

P. *Os yw'r pethau hyn mor angenrheidiol, onid yw yn perthyn i chwi i ymholi ydynt wedi eu gweithio yn eich calon chwi?*

C. Ydyw.

P. *Beth ydyw'r arwyddion o wîr ffydd?*

C. 1. Bod yn cyfrif Chriſt uwchlaw pôb peth yn y byd hwn, 1 *Pet.* 2. 7. 2. Ewyllyſgarwch iw dderbyn ef ir galon ar ammodau'r efengyl, i fod yn Arglwydd ac yn Achubwr, *Joa.* 1. 12. 3. Os ydyw'n puro'r galon, *Act.* 15 9. 4. Os bydd ffrwythlawn mewn gweithredoedd da, *Jac.* 2. 17. 5. Os nertha ni i orchfygu'r byd, 1 *Joa.* 5. 4.

P. *Pa fodd y gwyddoch eich bod yn caru Duw?*

C. Oblegit, (1.) Fy mod yn driſt pan fo'n abſennol, ac ni fodlonir monof hyd oni chaffwyf ef, *Can.* 3. 1, 2, 3. (2.) Wrth fy nymuniad i fod yn debyg iddo, a'm cariad ir Sawl ſy'n debyg iddo ef, 1 *Joa.* 4. 7, 12. (3.) Wrth fy nghaſineb i bechod, *Pſal* 97. 10. (4.) Wrth fy ufudd-dod iw orchmynion ef, *Exod.* 20. 6. *Joa.* 14. 21, 23. (5.) Wrth fy nymuniad i ymado a phob peth am dano ef, fel y caffo efe fy nghariad pennaf, *Math.* 10. 37.

10. 37. (6.) Wrth fy mod yn triſtau pan ddianrhydeddir ef trwofi fy hun neu eraill, *Pſal.* 51. 4. ac *Pſal.* 119. 53, 136, 158.

P. *Pa fodd y gwyddoch fod gennych edifeirwch am bechod?*

C. Oblegid, (1.) Fod fy enaid yn tuchan tano, megis bäich trymmach imi nag un cyſtudd, *Luc.* 15. 16, 18, 19, 21. *Math.* 11. 28. (2.) Am fod arnaf gywilydd o'm pechodau dirgel ger bron Duw, er na chywilyddwyd monof yngwydd dynion; ac yn fy ffieiddio fy hun am y cwbl, *Ezec.* 36. 31. (3.) Oblegid fy mod yn chwennych ymado a phob pechod, ie yr anwylaf, *Dih.* 28. 13. (4.) Oblegid yr hyn ni fedraf gael fy rhyddhau oddiwrtho, yr ydwyf yn ymladd yn ei erbyn, fel na chaffo pechod byth feddiant heddychol yn fy nghalon, *Gal.* 5. 17.

P. *Pa fodd y gwyddoch y gwirionedd o'ch ufudd-dod newydd?*

C. Oblegid, 1. Fod fy ufudd-dod yn tarddu oddiwrth brincipl newydd, ſef, cariad, ac ofn Duw, *Deut.* 10. 12. 2. O ran ei fod wrth reol newydd, nid fy ewyllys fy hun, ond gair Duw, *Gal.* 6. 16. Ac 3. Yd ydwyf yn bwriadu ar ddiben newydd, gogoniant Duw, 1 *Cor.* 16. 31.

P. *Os ni all dyn ddywedyd ei fod yn caru Duw, a bod ganddo ffydd, ond etto os newyna ar ôl Chriſt, a: os Sycheda am dano, a all efe ddyfod at fwrdd yr Arglwydd?*

C. Gall, 1. Nid yw ficcrwydd yn angenrheidiol.

ol. 2. Oblegid fod gan y credadyn gwan hawl iddo. 3. Oblegid fod Duw yn gwahodd y Sawl sy'n newynu ac yn Sychedu, *Isa.* 55. 1. *Joa.* 7. 37. 4. Mae Christ yn eu galw hwynt yn fendigedig. Ac 5. Yn addaw y diwellir hwynt, *Math.* 5. 6.

P. *Ond oni fyddei'n fwy er eich cyssur wrth fwrdd yr Arglwydd wybod cyn eich myned, fod Christ wedi marw trosoch chwi yn neulltuol?*

C. Byddei, oblegid yna gellwn ddywedyd, dymma waed a thywalltwyd ef trosofi, *&c.*

P. *Pa fodd y gwybyddwch farw o Grist troso chwi yn neulltuol?*

C. 1. Os ydwyf ûn o'i bobl ef, *Math.* 1. 21. A hyn ydwyf, os ydwyf ewyllysgar i fod, i wneuthur, i ddioddef yr hyn a fynnei Christ imi, *Psal.* 110. 3. 2. Os ydywfi ûn o gyfeillion Christ yn gwneuthur ei orchmynion ef, *Joa.* 15. 23. 14 2, Os ydwyf yn farw i bechod, *Gal.* 6. 14. 4. Os ydwyf yn byw i Grist, 2 *Cor.* 5. 15. Gallaf farnu ei fod wedi marw trosofi, *Gal.* 2. 20.

P. *Os yn ôl dyfal chwilio y cewch y grasau hyn wedi eu gweithio yn eich calon; ydyw yn angenrheidiol i chwi dreulio rhyw fesur o amser mewn gweddi cyn eich myned?*

C. Ydyw, oblegid, 1. Ni allaf weithredu hynny o râs sy' gennif heb gymorth Duw, *Joa.* 15. 5. 2. Mae'r ddyledswydd yn uchel ac o bwys. 3. Er i Dduw roddi bendithion y cyfamod grâs, etto efe a fyn ei geisio am danynt, *Ezec.* 36. 37.

P. *Ydyw yn ddigon er mwyn derbyn yn deilwng, gael o honoch y graſau hyn yn eich calonnau, a gweddio o honoch cyn eich myned?*

C. NAG ydyw, ond rhaid imi edrych fod fy niben yn uniawn, a'm bod yn ymddwyn megis y gweddai imi tra fyddwyf yno.

P. *Beth ydyw'ch diben yn myned at fwrdd yr Arglwydd?*

C. RHAID im diben fod, 1. I gael cymundeb gydâ Duw. 2. I chwanegu fy ffydd ynghriſt, a'm cariad i Dduw. 3. I chwanegu fy llawenydd yn yr yſpryd glân. 4. Heddwch fy nghydwybod: Ac 6. Gobaith o fywyd tragwyddol. 6. I adnewyddu fy nghyfammod a Duw. 7. Im bywioccau i ufudd-dod. 8. Im gwneuthur yn ddiolchgar i Dduw am ei drugaredd a roddes efe imi ynghriſt. 9. I geiſio nerth yn erbyn fy mhechodau. Ac 10. Yn yſpyſawl i gofio ac i ddangos allan farwolaeth Chriſt.

P. *Pa goffadwriaeth o farwolaeth Chriſt ſy'raid i hwn fod?*

C. NID coffa unig o'r ſtori o farwolaeth Chriſt, oblegid felly mae'r cythreuliaid yn cofio farw o Griſt; ond y cyfryw goffadwriaeth a weithia ar fy nghalon iw garu, iw ddymuno, i lawenhau ynddo, gyda thriſtwch am fy mhechod a fu'n achos o'i farwolaeth ef, ac a pha ûn y gellwn atteb holl ofynion y gyfraith, llefain fy nghydwybod, ac achwynion y Diafol, *Rhuf.* 8. 33, 34.

P. *Wedi caffael o honoch y gwirionedd o ras yn*

eich

eich calon, a bod eich diben yn jawn, beth ſy' raid i chwi wneuthur pan fo'ch yno?

C. Rhoi pôb diwydrwydd gan ymegnio i oſod fy ngraſau ar waith.

P. *Pa rai graſau ſy' raid i chwi egnio iw harferu pan fyddoch wrth fwrdd yr Arglwydd?*

C. Fydd, cariad i Dduw a Chriſt, triſtwch am bechod, dymuniadau ar ôl Chriſt, a diolchgarwch.

P. *Pa foddion a arferwch pan fyddoch yno i gynhyrfu'r graſau hyn?*

C. Weithiau myfyriaf ar y cyfryw bethau a gynhygir im meddyliau o'r ordinhad hon a dueddant i hynny, ac weithiau mi a roddwn i fynu ferr-weddi at Dduw, ar ryngu bodd iddo fy nghymorth i.

P. *Pa beth a fyfyriech arno wrth fwrdd yr Arglwydd ir diben hwn?*

C. 1. Weithiau myfyriwn ar gariad Duw a Chriſt. 2. Weithiau ar ei ddigoſaint a'i doſter yn erbyn pechod. 3. Drwg natur y pechod. 4. Mawr werth fy enaid. 5. Dioddefiadau fy Arglwydd. 6. Am fy eiſtedd gyda Duw yn ei deirnas. 7. Y breintiau y gwneir fi yn gyfrannog o honynt yn y bywyd hwn trwy farwolaeth Chriſt.

P. *Pa rai ydyw'r breintiau hynny a bwrcaſſwyd trwy farwolaeth Chriſt, a ſelir yn y Sacrament, y meddyliau crediniol o ba rai a dueddant i gynheſu'ch calon, ac i weithredu'ch graſau wrth y Sacrament?*

C. Y rhai'n, (1.) Heddwch gyda Dûw, *Rhuf.* 5. 1. *Col.* 1. 20, 21. (2.) Cyfiawnder Chriſt a gyfrifir, 2 *Cor.* 5. 21. (3.) Maddeuant pechod, *Eph.* 1. 7. (4.) Marwolaeth pechod, *Rhuf.* 6. 6. (5.) Mabwyſiad, *Eph.* 1. 5. *Gal.* 3. 26. (6.) Parhad, *Phil.* 1. 6. (7.) Gwaredigaeth oddiwrth ddigofaint i ddyfod, 1 *Theſſ.* 1. 10. (8.) Cymundeb gyda Dûw, 1 *Joa.* 1. 3. (9.) Gobaith o'r nefoedd a bywyd tragwyddol, 1 *Pet.* 1. 3, 4.

P. *Beth a olodir ger bron eich ſynhwyrau yn y Sacrament, a arwyddocânt y pethau hyn i'ch ffydd chwi?*

C. ELEMENTAU neu wyddorion Sacramentaidd a gweithredoedd Sacramentaidd.

P. *Pa rai ydyw'r Elementau Sacramentaidd?*

C. BARA a gwîn, yn arwyddoccau corph a gwaed Chriſt, *Math.* 26. 26, 27.

P. *Oni throir y bara a'r gwin yn gorph a gwaed Chriſt?*

C. NA throir, oblegid felly. 1. Byddei corph gogoneddus Chriſt yn awr yn ddaroſtyngedig i lygredigaeth. 2. Os felly, gallei corph terfynol fod yn y nêfoedd a'r ddaiar; ac mewn llawer o leoedd ar y ddaiar ar yr ûn amſer. 3. Yno nid wyfi yn adnabod bara a gwin pan fyddwyf yn eu gweled ac yn eu profi. 4. Os felly, ni fyddai dim arwyddion o'r pethau a arwyddocceir, ac felly ni fyddai hwn yn Sacrament. 5. Felly, gallei meddwon fwytta ac yfed corph a gwaed Chriſt, cyſtal a'r gwir gredadyn. 6. Yna fe all y gweinidog

cyn

cyn ſiccred roddi y pethau a arwyddocceir a'r arwyddion oddiallan, lle mae hyn yn rhodd a phriodolaeth Duw yn unig, *Luc.* 3. 16. 7. Yna yn yr appwyntiad cyntaf yr oedd dau Griſt, un yn rhoi ac un arall yn cael ei roddi. 8. Dywedir fod y cwppan yn *Deſtament newydd*, cyſtal ag y dywedir ei bod yn waed Chriſt, 1 *Cor.* 11. 25. Ond rhaid bod ffiger neu ddull vmadrodd yn hynny, trwy fodd neu o anfodd y Papiſtiaid, ac felly y mae yn hwn.

P. *Paham gan hynny y gelwir yr arwyddion oddiallan ar henwau y pethau a arwyddocceir?*

C. 1. I ddangos, cyſſylltiad diwahanedig y pethau a arwyddocceir a'r arwyddion oddiallan, ir derbyniwr teilwng. 2. O ran y cyfattebiad cymmwys a'r cyttundeb rhwng yr arwyddion a'r pethau a arwyddocceir.

P. *Ymmha beth y mae'r cyttundeb rhwng yr arwyddion oddiallan a'r pethau a arwyddocceir?*

C. Yn yr yſtyriaeth, 1. *O baratoad*, er paratoad o'r bara rhaid ydyw dyrnu'r yd yn y llawr-dyrnu, ei falu yn y felin, ei bobl yn y ffwrn; ac i ddarparu'r gwin, rhaid ydyw yſſigo'r grawn yn y gwinwryf: Felly fel y byddai Chriſt yn Acubwr i bechaduriaid, rhaid oedd ei yſſigo ef am ein pechodau ni, a'i boethi yn ffwrn digofaint y tad, a Sathru y gwin-wryf ei hunain, *Eſa.* 63. 3. 2. *O ran yr arfer o honynt*, mae bara o arfer beunyddiol, pa bethau bynnag eraill a fydd ein llyniaeth; felly mae Chriſt er arfer beunyddiol ini, pa bethau bynnac eraill a fwynhawn; bara ydyw ffonn y bywyd, a gwîn ſy'n cyſſuro calon dyn; y cyffelyb beth ydyw Chriſt i'n eneidiau ni.

P. *Beth a fyfyriech chwi arno pan weloch ordeinio o Griſt y* bara *a'r* gwîn, *i fod yn arwyddion yn y Sacrament hwn?*

C. Y brynedigaeth helaeth ſydd gennym yng-hriſt, fel y caffom oddiwrtho ef wellhad in holl eiſieu, maeth cyflawn: Gan fod ymma fara i dorri'n newyn, a gwîn i dorri'n ſyched.

P. *Beth a fyfyriwch pan weloch roddi'r bara a'r gwîn bôb ûn ar ei ben?*

C. Wahanu o waed Chriſt oddiwrth ei gorph, fel na wahenyd ni oddiwrth Dduw yn dragywydd.

P. *Ydyw'r cwppan yn perthyn hefyd ir bobl cyſtal ag ir gweinidog?*

C. Ydyw, gan gymmaint ag i Griſt yn yr ordeiniad cyntaf, *Math.* 26. 27. A'r Apoſtl wedi hynny, 1 *Cor.* 11, 25, 26. Ddywedyd, *yfwch i gyd o hwn*, yr un rhai a orchmynnir i fwytta, a orchmynnir hefyd i yfed, heb wahaniaeth: A'r Sacrament hwn ydyw'r cymundeb o waed Chriſt cyſtal a'i gorph, 1 *Cor.* 10, 16.

P. *Beth ydyw'r gweithredoedd Sacramentaidd?*

C. Y gweithredoedd ydynt rai o eiddo'r gweinidog, a rhai o eiddo'r derbynwyr.

P. *Beth ydyw gweithredoedd y gweinidog?*

C. Pedair ydynt.

P. *Pa ûn ydyw'r gyntaf?*

C. Mar

C. MAE efe i gymmeryd bara a gwîn yn ei ddwylaw, a'u nailltuo oddiwrth fara a gwin cyffredin.

P. *Beth a fyfyriech arno pan weloch y gweinidog yn gwneuthur hyn?*

C. FOD Duw yn ei fwriad ai Arfaeth dragwyddol wedi neilltuol Chriſt oddiwrth bawb eraill i fod yn gyfryngwr ini, *Exod.* 12. 5. *Heb.* 7. 26.

P. *Beth ydyw'r ail weithred?*

C. MAE efe i fendithio a chyſſegru'r bara a'r gwin trwy'r gair a gweddi.

P. *Beth a fyfyriech arno, a arwyddocceid trwy hyn?*

C, ANFON o Dduw ynghyflawnder amſer ei Fab ir byd, gan ei lenwi ef a phôb doniau angenrheidiol i fod yn gyfryngwr ini, *Gal.* 4. 4.

P. *Beth ydyw'r drydydd weithred ir gweinidog?*

C. TORRI'R bara a thywallt y gwîn?

P. *Beth a fyfyriech arno pan weleich ef yn gwneuthur hyn?*

C. DIODDEFIADAU Chriſt, a'r hyn oll a oddefodd yn ei gorph a'i enaid am ein pechodau ni, gan fod ei gorph bendigedig ef wedi ei yſſigo, a'i waed gwerthfawr wedi ei dywallt, ac am iddo dywallt ei enaid i farwolaeth, *Eſa.* 53. 5, 10, 12. *Heb.* 9. 14.

P. *Beth ydyw'r bedwaredd weithred ir gweinidog?*

C. Rhoddi a rhannu'r bara a'r gwîn ir derbynwyr.

P. *Beth a fyfyriech arno pan weloch ef yn gwneuthur hyn?*

C. Fod Duw yn rhoi ei Fab, a'r mab yn ei roddi ei hun, ac mewn gwirionedd, er ei fod yn anweledig, yn rhannu i bôb derbyniwr teilwng y lleſad o'i farwolaeth fel y mae eiſieu arno.

P. *Beth ydyw gweithredoedd Sacramentaidd y derbynwyr?*

C, Dwy.

P. *Beth ydyw gweithred gyntaf y derbyniwr?*

C. Cymmeryd y bara a'r gwîn a gynhygir gan y gweinidog.

P. *Pa beth a fyfyriech arno, ac a wnaech y pryd hynny;*

C, Mi a ddylwn eſtyn allan law ffydd, a derbyn Chriſt a'i holl ddoniau, onide yi 'wyf yn çhwareu' rhagrithiwr wrth fwrdd yr Arglwydd, ger bron Duw a'r holl gynnulleidfa.

P. *Pa ûn ydyw ail weithred y derbyniwr?*

C. Bwytta'r bara ac yfed y gwîn.

P. *Beth y mae hyn yn ei arwyddocçau?*

C, Fy undeb a Chriſt, a mwynhad o hono, fymod

mod yn ymborthi ar Grist trwy ffydd, er mwyn nerthu grasau yspryd Duw yn sy enaid.

P. *Beth sy' raid i chwi wneuthur a'r ôl y Sacrament hwn ?*

C. YSTYRIED gyda myfi fy hun, a dderbyniais i ddim lleſad trwyddo.

P. *Pa fodd y gwybyddwch hyn ?*

C. 1. WRTH gynnydd fy ffydd ynghrist, a'm cariad i Dduw. 2. Wrth fy nghasineb mwy i bechod, a gallu yn ei erbyn. 3. Wrth fy hiraeth ar ôl mwynhad o Dduw yn y nefoedd. 4. Trwy fy mod yn cyfri'r ordinhad hon uwchlaw fy ymborth angenrheidiol. 5. Wrth fy ymroad yn nerth Christ, i ddioddef er mwyn yr hwn a fu farw trosofi.

P. *Beth sy' raid i chwi wneuthur os cawsoch lleſâd trwy'r ordinhâd hon ?*

C. RHAID imi roddi'r gogoniant i Dduw, dymuno dyfod trachefn, a rhodio yn gyfattebol yn fy ymarweddiad wedi.

P. *Pa fodd y bydd rhaid i chwi fyw, fel y rhodioch yn addas ?*

C. RHAID imi wneuthur yn orchwyl imi i ymwrthod a phôb pechod, a chyflawni'r holl ddyledswyddau y mae Duw yn eu gofyn gennifi.

P. *Beth oni wnewch hyn ?*

C. YNA'R

C. Yna'r ydwyf, (1.) Yn dianrhydeddu Chriſt, (2.) Yn triſtau'r yſpryd. (3.) Yn torri'r cyfammod a wneis ac a adnewyddais a Duw. (4.) Yn dwyn anglod ar fy mhroffes. (5. Yn archolli fy nghydwybod. (6.) Yn annog Duw i gilio oddiwrthyf. (7.) Byddaf euog o anniolchgarwch mawr. Ac, (8.) Yn gwanhychu fy hyder pan elwyf drachefn.

P. *Beth oni chewch ddim lleſâd drwy'r Sacrament?*

C. Rhaid imi holi beth oedd yr achos, ymddaroſtwng o'i blegid ac ymwrthod a'r pechod, a gweddio am deimlad o lleſad oddiwrtho pan ddelwyf ymmaith, am paratoi fy hun yn well, ac yn oſtyngedig ddiſgwyl wrth Dduw yntho amſer arall.

" *Ymddiddan rhwng Credadyn Gwann, yr hwn ni* " *feiddiai ddyfod, a Chredadyn Cryf yr hwn ni* " *feiddiai fod yn abſennol oddiwrth Swpper yr* " *Arglwydd.*

Credadyn Gwann. *Fy nghyfaill mae'n dda genniſ gyfarfod a chwi ar y cyfryw ddydd a hwn?*

Credadyn Cryf. Llawen wyf oblegid eich jechyd chwi, ac o herwydd y drugared a roddwyd ini'n dau, fod ini un dydd yr Arglwydd ychwaneg i neſſau at ein Duw.

Gwan. *Gallaſi ei gyfrif yn wir yn drugaredd, yr hwn a ſûm mor drwm a marwaidd ac allan o drefn yr holl wythnos o hyd, ac etto heb wybod beth ydyw cyfiwr fy enaid; ond attolwg i chwi, i ba le yr ydych chwi yn myned mor gyſſurus?*

Cryf.

Cryf. Yr ydwyfi yn myned i wledd heddyw.

G. *A ydych yn treulio amſer Sanctaidd yn gwledda?*

C. Ydwyf yn y fath wledda ag yr ydwyfi yn myned iddi.

G. *Pa wledd yr ydych chwi yn ei feddwl?*

C. Gwledd o baſcedigion, gwledd o loyw-win, baſcedigion breiſion, o loyw-wîn puredig.

G. *Pwy ſy'n eich gwahodd ir wledd hon, am ba ên yr ydych yn dywedyd y cyfryw bethau mawrion a hyn?*

C. Duw ei hun ſy'n gwneuthur y wledd hon, ac yn fy ngwahawdd i iddi, mae'n tad yn gwneuthur gwled iw blant.

G. *Os ydyw Duw yn eich galw chwi i wledd, mae'r arlwy yn ddiammeu yn gyfattebol i fawredd y fath Frenin mawr?*

C. Doethineb a laddodd ei hanifeiliaid, hi a gymyſcodd ei gwin, ac a huliodd ei bwrdd, mae'r ychain a'r Paſcedigion wedi eu lladd a phôb pêth ſydd barod; mae yma laeth ir gwan, a gwin ir cryf, a'r triſt o galon; mae yno fara ir newynog, dwfr ir ſychedig, pôb peth ſydd angenrheidiol a hyfryd; yn wîr corph a gwaed Chriſt ydyw; a *Chriſt* ydyw Sylwedd ac Arglwydd y wledd hon.

G. *Yn awr 'rwy'n deall, mai Swpper yr Arglwydd yr ydych yn ei feddwl: Ac yn wir mi a glywais gan rai a gyfranaſent o hono, fod yno bethau mawrion a gwerthfawr wedi eu parattoi.*

C. Oes,

C. Oes, mae yno, a meddwl yr 'wyfi fy mo yn teimlo fy nghalon yn yſlu o' mewn, tra'r yẃ wyf yn ſon am danynt, a chariad yr hwn a'i pa ratoawdd ac am galwodd i attynt.

G. Yn ddiammeu byddwch hyfryd jawn pan fyddoch yno, gan fod eich calon wedi ei llonni fel hyn wrth fyned ir Sacrament.

C. Weid ei llonni! Trwy drugaredd Dduw y mae hi felly yr awron; ond weithiau nid yw felly, ond byddaf heb deimlad a phroſiad o gariad Duw; etto y pryd hynny ni feiddiwn fod yn abſennol oddiwrth y Swpper Sanctaidd hwn, oblegid pan fyddwyf heb deimlad o gariad Duw, yr ydwyf y pryd hynny yn ymegnio i gadw ar fy nghalon, deimlad o'm dyledſwydd tuag atto ef, ac o'm eiſieu i gyrchu diwallad oddiwrtho ef trwy hwn a moddion eraill megis y gorchmynodd yn ei air.

G. Yna, os cewch neu os ni chewch lewyrch wynebpryd Dûw, ewyllyſiech gyfrannu o Swpper yr Arglwydd.

C. Er na chaf ddim cyſſur, myfi a fynnwn wneuthur fy nyledſwydd; ie y pryd hynny mae fy enaid yn hiraethu, yn ſychedu, ac yn mawr ewyllyſio, ar imi (trwy drugaredd fy nuw a haeddedigaethau fy Achubwr) gael proſi or arlwy hyn, ac ymborthi ar fy Arglwydd waredwr, cnawd yr hwn ſydd fwyd yn wîr, a gwaed yr hwn ſydd ddiod yn wîr,

G. Ond attolwg i chwi beth ydyw'r Arlwy hynny a baratoir fel hyn, ſydd yn llonni eich calon fel hyn?

C. Beth

C. Beth ydyw! Arlwy Cyfoethog a gwerthwr, maent yn rhad a chymwys, helaeth a digonol, yn maethu; a pharhaus ac yn llawenhau'r galon.

G. Oni henwch rai o'r pethau a barattoir yn fwy neulltuol er addyfc gwell imi.

C. Oh! mae fy enaid yn llawenhychu o'mewn.

G. Arglwydd, mor drwm ydwyfi, tra llonnir ef fel hyn.

C. Mae f' enaid yn llawenhychu o'm mewn, pan feddylwyf beth ydynt,

G. Beth ydynt?

C. Pa beth! Chrift a'i holl freintiau fy' barod iw cynnig a'i felio im henaid y dydd heddyw.

G. Pa freintiau?

C. Heddwch gyda Duw, maddeuant pechod, cyfiawnder wedi ei gyfrif, heddwch cydwybod, llawenydd yn yr yfpryd glan, cynnydd mewn gras, a pharhad hyd y diwedd; ac yn y diwedd bywyd tragwyddol.

G. Dangofwch imi gymhwyfâra y pethau hyn a baratoir i'ch enaid chwi,

C. Mae *Achubwr* yn gyfaddas i bechadur colledig, *maddeuant* i bechadur euog; *heddwch* gyda Duw, i bechadur oedd yn elyn i Dduw; *heddwch cydwybod*, i bechadur tan deimlad o ddigofaint Duw; *cyfiawnhâd* i bechadur wedi ei gondemnio,

gwaed

gwaed i lanhau pechadur halogedig, *cyſſur* i bechadur digalon; dymma, dymma'r paratoad a oſodir ar fwrdd fy nhad.

G. *Dymma bethau mawrion rhagorol yn wir, ond pwy ydyw gwahoddedigion Chriſt ir wledd hon? I bwy mae'r paratoad hwn?*

C. I'R Sawl ſy'n llwythog o bechod, ac yn ei gaſau, ir Sawl ſy'n newynu ac yn ſychedu ar ol cyfiawnder, i blant Duw: I'r Sawl ſy'n ewyllysgar i gymmeryd Chriſt yn ei holl ſwyddau, i gyfeillion a dilynwyr Chriſt.

G. *Ond a eill y tlawd a'r Sawl nid oes arian ganddynt, fyned ir wledd hon?*

C. GALL, gall y tlawd yn y pwrs gael croeſaw, a'r tlawd yn yr yſpryd a geiff groeſaw; da gan Dduw weled ei fwrdd yn llawn o'r cyfryw ſy'n deimladwy o'u heiſieu a'u pechodau, a'r rhai hyn a helaeth ddigonir a braſder ei dy ef, a gwna iddynt yfed o afonydd ei hyfrydwch, pan anfonir y Phariſead llawn hunan-gyfiawn yn wag ymaith.

G. *Mae hyn yn adfywio fy nghalon, os medrwch ei wneuthur yn dda:*

C. GENAU'R Arglwydd a'i llefarodd, ac am hynny nid ellwch mo'i ammeu, mae efe yn daer jawn ar y newynog a'r ſychedig i ddyfod, *Eſai.* 55. 1. *Oh deuwch ir dyfroedd hôb ûn y mae ſyched arno, ie yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwytewch; ie deuwch prynwch wîn a llaeth heb arian ac heb werth.* Ac y mae'r mab yn galw'r cyfryw, *Joa.* 7. 37. *Ar y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r wyl,*

wyl, y ſafodd yr Jeſu, ac a lefodd, gan ddywedyd, od oes ar neb ſyched, deued attafi, ac yfed. Ac y mae'r yſpryd yn galw'r cyfryw, *Datc.* 22. 17. *Mae'r yſpryd a'r briodas ferch yn dywedyd, tyred; a'r hwn ſy'n clywed, dyweded, tyred: A'r hwn ſydd a ſyched arno, deued, a'r hwn ſyd yn ewyllyſio, cymmered ddwfr y bywyd yn rhâd.* Ac fe anfonir gweinidogion Duw i alw'r cyfryw, *Luc.* 14. 21. ------ *A gwr y ty a ddywedodd wrth ei was, dôs allan ar frys i heolydd ac yſtrydoedd y ddinas, a dwg i mewn ymma y tlodion, a'r anafus a'r Cloffion a'r deillion.* 23. *wer. A'r Arglwydd a ddywedodd wrth y gwâs dôs allan ir prîf ffyrdd,* (lle mae'r tlodion arferol o gerdotta) *a'r caeau* (lle mae'r tlodion arferol o weithio) *a chymmell hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ.*

G. *Ydyw'r Scrythyrau hyn yn eich annog chwi i gyrchu yn fynych ir ordinhâd hon?*

C. YDYNT, ac oblegid fod yr un Duw orchmynnodd imi weddio, yn gorchymmyn imi dderbyn, ac a roddes imi obaith y byddwn gyfrannog o'r lleſad o hono, yr ydwyf yn rhwymedig i ddiſgwyl a'r yr Arglwydd ynddo.

G. *Beth ydych yn obeithio y byddwch gyfrannog o hono trwy fyned ir ordinhâd hon?*

C. 'RWY'N gobeithio, cael ennyn fy nghalon mewn cariad i Dduw a dymuniadau ar ôl Chriſt; i gael fy Achubwr yn anwylach i'm henaid; meddalhau fy nghalon, daroſtwng fy mhechodau, cryfhau fy ffydd, fy ſiccrwydd am y nefoedd wedi ei egluro, a mwy o ſiccrwydd o fywyd tragwyddol im henaid.

G. *Pa*

G. *Pa reſwm ſy' gennych i obeithio y cewech y lleſâd ymma, trwy fyned i Swpper yr Arglwydd?*

C. Nid o ran dim teilyngdod ynofi; ond gwelodd Duw yn dda roddi y pethau hyn yn rhâd er mwyn Chriſt ir Sawl ſy' mewn ufudd-dod iw orchymyn ef, mewn jawn fodd, ac er uniawn ddiben yn gwneuthur cydwybod o'r ddyledſwydd hon.

G. *Pa drefn a gymeraſoch chwi o flaen llaw; fod gennych y fath obaith am y fath ddoniau trwy'r ordinhâd hon?*

C. Nid wyfi'n arferol o fynegu beth ydyw fy nyledſwyddau dirgel, ond os bydd er adeilad i'ch enaid, ni fyddaf anewyllyſgar i'ch gwneuthur chwi yn gydnabyddus.

G. *Attolwg gwnewch, oblegid yr ydwyf yn ſefyll mewn eiſieu o gymmorth oddiwrth eraill ſy' mwy profedig mewn dyledſwyddau Sanctaidd na myfi.*

C. Nid allafi ddywedyd fy mod yn fwy profedig; ond hyn a wneis, mi a tanwl chwiliais fy nghalon, i geiſio y gwirionedd o râs, fy hawl yng-hriſt, fy hawl ir ordinhad hon, i geiſio allan fy *mhechodau*, ac a adnewyddais fy ediſeirwch am danynt; fy *eiſieu* a gofynnais gan Dduw mor daer ag y medrwn, ar fy niwallu wrth ei fwrdd ef, ac am ei nerth ef i wneuthur y ddyledſwydd hon iw ogoniant ef a'm cyſſur fy hun.

G. *O ddyn dedwydd! fod y cyfryw arlwy wedi ei baratoi i chwi ac a fedrwch fyned gydâ'r cyfryw hyfrydwch a hyder duwiol i gyfrannu o hono.*

C. Gellwch

C. Gellwch chwithau neſau at y bwrdd hwn o eiddo'r Arglwydd, a chael rhan o'r bendithion eſangylaidd hyn, a bod yn ſicer o honynt.

G. *Myſi! Ah! Ah! Gwyddoch beth ydwyſi, beth a ſûm, ni wneuthym i erioed, ni feiddia i ymmyrryd â gwaed Chriſt yn yr ordinhâd hon?*

C. Chwi a ellwch ddyfod a bwytta o'r bara hwn ac yfed o'r cwppan hwn.

G. *Myſi! A fwytti eî fara'r plant? Ni feiddiaſi ei wneuthur?*

Rhaid i chwi, yr ydych yn pechu os eſceuluſwch hyn.

G. *Pechu! Ni fynnwn mo hynny, hynny ſy'n gwneuthur imi fod yn abſennol oddiwrtho, oblegid ni fynnwn bechu yn erbyn gwaed Chriſt; ond pam y meiddiwch ddywedyd, ſy mod yn pechu os ni ddeuaf?*

C. Oblegid eich bod yn byw mewn eſceuluſdra o ddyledſwydd eglur orchmynedig, y mae yn ddibriſrwydd o arwydd nodedig o gariad eich Arglwydd yn marw.

G. *Fy Arglwydd yn marw?*

C. Mae yn eſceuluſdra o fêl y cyfammod grâs, rhagrith ydyw cwyno felly o galedwch eich calon, ac etto ni arferwch mo'r moddion iw meddalhau, ac achwyn oblegid grym eich pechod, ac ni arferwch y moddion iw wanhychu.

G. *Ni adnabûm i erioed nêb tan ſy ammheuon*

a'm ofnau a aeth ir ordinhâd hon, ac a gâfodd lleſâd trwyddi?

C. Nid felly, oblegid bûm i fy hun yn hîr tan yr ûn rhyw amheuon ac ofnau, ac mi wn fod fy nghalon i cynddrwg ag y gall eich calon chwi fod; ond pan oeddwn ewyllyſgar i ymwrthod â'm pechod, ac i dderbyn Chriſt; Teimlad o ddyledſwydd, ofn pechod, os ni wnawn, am gyrrodd i iw harferu, ac yno Duw a ddattododd fy amheuon a ſymudodd fy ofnau, ac ai gwnaeth yn fuddiol im henaid, er cyſſur imi, a chynnydd mewn grâs.

G. *Ond byddai'n bechod imi fyned, oblegid yr hyn ſy' ddyledſwydd ac a fyddei'n ymborth i ûn arall, a alle fod yn bechod ac yn wenwyn imi o ran nad ydwyf gymwys ir cyfryw ordinhâd?*

C. Os nid ydych gymwys, hynny hefyd ydyw 'ch pechod.

G. *Mae fy nghyflwr i felly yn druenus yn wîr; os ni ddeuaf yr 'wyf yn pechu, ac os byddaf anghymwys a dyfod, yr ydwyf yn pechu: Ah Arglwydd! Ydwyfi tan y'r angenrhaid hwn i bechu, oh dywaid imi gan hynny, beth ſy' raid imi ei wneuthur?*

C. Ni wafanaetha i chwi aros yn y cyflwr hwnnw, ymmhâ ûn yr ydych yn anghymwys i Swpper yr Arglwydd, ond cymhwyſwch eich hunan a deuwch.

G. *Och! Pwy a doſturia wrth fy enaid nychlyd, ſydd âg ymborth o'i blâen, ac etto yn annheilwng i ymmyrryd ag ef?*

C. Nid

C. Nid all fod gennych deilyngdod yn ôl y gyfraith, ac nid yw Duw yn ei ddiſgwyl oddiar eich dwylaw, ond gall fod gennych deilyngdod Efangylaidd.

G. *Mi a fynnwn wybod beth a alla fi wneuthur mewn perthynas ir ordinhad hon, attoliwg dywedwch i mi, pa bryd y bernir ûn yn deilwng mewn yſtyriaeth Efangylaidd?*

C. Pan ydyw efe wedi ei wiſco â chyfiawnder Chriſt, a' grâs ganddo yn ei enaid, ac yn gweithredu ei ras yn Swpper yr Arglwydd, yna y mae efe yn derbyn yn deilwng.

G. *Os felly, mi a welaf y gall dyn fod yn bechadur, ac etto yn dderbyniwr teilwng?*

C. Gall.

G. *Beth ai pechadur mawr hefyd?*

C. Ie, efe a all.

G. *Mae hyn yn rhyw gynhaliaeth im henaid yn llewygu: Ond etto daroſtyngir f' enaid ynof, am fy mod yn ammeu nad ydwyf ûn o'r pechaduriaid hynny yr ydych yn ei feddwl?*

C. Mae'n ddrwg gennif eich gweled yn y fath gyfyngdra yſpryd, mi wn pe'r aech at yr ordinhâd hon, y caech mewn amſer glywed Duw yn traethu heddwch a' chyſſur i'ch enaid.

G. *Mae fy nymuniad i fyned ir Sacrament yn fawr, a'm hofn i nad wyf deilwng gymmaint, nas*

gwn pa ûn fwyaf, ewyllyſſiwn yn fawr, ond ni feidiaf; mae'n driſtwch im henaid pan welwyf blant Duw yn neſau at fwrdd eu Tâd, a minneu'n fy abſennu fy hun, megis pe na ba'wn o'i deulu ef; ond yr 'wyf y fath bechadur fel nas meiddiaf fyned?

C. Pam, pa fath bechadur ydych chwi?

G. Pennaf o bechadúriaid ydwyf, a ddylawn i gan hynny fyned?

C. Felly yr oedd Sanct *Paul* yn ei dyb ei hun, etto daeth Chriſt i achub y cyfryw, 1 *Tim.* 1. 15. Mae trugaredd ac addewid Duw, a haeddedigaethau Chriſt yn gymmaint, ie yn fwy na'ch pechodau chwi, *Pſal.* 103. 11. *Math.* 12. 31. Ni thuoch yn fwy pechadur nac Adda, neu *Manaſſeth*, 2 *Chr.* 33. 1. *Hyd.* 14. Neu *Mair Magdalen*, *Luc.* 7. 37, 39. Neu o'r hyn lleiaf ni wnaethoch fwy o bechodau na rhain oll; os gwnaethoch, etto ni wnaethoch fwy o bechodau na holl bechodau holl Etholedigion Duw ym mhôb oes; a faddeuodd ac a faddeua Duw y rhai'n oll? Ac ydyw'ch pechodau chwi etto'n ormod i drugaredd iw maddeu?

G. O rhyfeddol! Mi welaf mai nid mawr der neu ryfedi ffiaidd-bethau pechaduriaid a attal drugaredd rhagddynt; ond cafodd y rhai'n droi eu calonnau o garreg yn galonnau o gig; ond mae fy nghalon i yn galed ac yn debyg ir Adamant, a hi a ddylae fod yn galon drylliog yn y Sacrament, ond mae arnáfi eiſiau hyn.

C. Mae teimlad o galedwch calon yn ryw feſur o feddaldra calon: *Eſai.* 63. 17. Yr oedd *Pharao* yn cwyno o'i farnedigaethau, ond nid am galedwch

dwch ei galon; yr ydych chwi yn deimladwy ac yn triſtau oblegid caledwch eich calon, neu nid ydych; os nid ydych: Pam gan hynny yr ydych yn achwyn? Os ydych, nid yw eich caledwch chwi, y caledwch ſydd yn yr anghymeradwy, ond y fath a all fôd ac ſydd ymmhobl Dduw: A'r Sacrament hwn ydyw'r modd iw meddalhau.

G. *Mae hyn yn cymmorth ychydig arnaf, attolwg chwanegwch, i ddangos pa bethau ſy'n gwneuthur rhagor rhwng caledwch mewn plentyn i Dduw, a chaledwch mewn dyn annuwiol.*

C. Teimlad o bechod ac o'r diantrhydedd y mae Duw yn ei gael oddiwrtho, bod yn eich barnu'ch hunan am bechod, cywir ddych-weliad oddiwrth bechod, taer weddiau am râs i'ch meddal hau, treiglad o honoch eich hunan ar Griſt, tynerwch cydwybod, a duwiol ofn rhag pechu yn erbyn Duw; gofal Sanctaidd i ryngu-bodd iddo, calon barod i ddyſcu, aneſmwythdra duwiol hyd oni chaffoch Griſt; ſy'n gwneuthur gwahaniaeth rhwng eich caledwch chwi a chaledwch calon mewn dyn annuwiol.

G. *Pa fodd heblaw hynny?*

C. Mae eich caledwch chwi yn achlyſurol *neu weithiau*, nid yn waſtadol, mae caledwch yr anghymeradwy yn debyg i galedwch y cyſryw gerrig a galedir yn fwy gan wrês yr haul, ond mae'ch caledwch chwi yn debyg i galedwch jâ, yr hwn pan fo'r haul yn drech nag ef a doddir ac a ddattodir.

G. *Pe bae gennif galon o gîg, nid 'wyf yn tybied y byddei cymmaint o galedwch yn aros ynof fi mwy nat eraill.*

C. Mae Duw yn meddyginiaethu caledwch calon ei bobl yn eu troedigaeth, yn effeithiol ; mewn ſancteiddiad yn raddol ; ac wrth eu dattodiad, yn berffaith, ond nid tan hynny.

G. Mae hyn y profio fod fy nghaledwch i yn fwy na chaledwch pobl Dduw, oblegid nad 'wyf yn galaru am fy mhechodau megis y maent hwy, ac ni fedraf fod mor ddaroſtyngedig am dano, a' pha beth a wnawn i yn y Sacrament os ni fedraf alaru am fy mhechod?

C. Dilynwch y Sawl ſy'n galaru fwya' am bechod ; ond nid ydych yn jawn farnu, nad ydych yn gwir alaru, neu yn galaru dim, oblegid nad ydych yn galaru cymaint ag y mae eraill : Gair Duw ac nid cyrheddiad rhai eraill, ydyw'r rheol wrth ba ûn y dyleich farnu am wirionedd eich galar am bechod. Heblaw hynny, os nad ydych yn galaru yn *gyfeiriol*, yr ydych yn galaru yn *wrthgammawl*, ſef yr ydych yn galaru am na fedrwch alaru, ac yr ydych yn gweddio ar fedru o honoch alaru. Ymmhellach, nid eich dagaru a ddichon eich cyſiawnhau gar bron Duw ; canys pe gallech alaru am bechod yn fwy na nêb, etto rhaid eich cyſiawnhau yn rhâd trwy waed Chriſt, ac felly y cewch pan alaroch mewn gwirionedd, er nad yw cymmaint ag ſy' mewn eraill.

G. Os felly mae, dywedwch imi pa bryd y mae fy ngalar i am bechod yn jawn, ac yn alar ûn ſy'n wîr edifeiriol.

C. Pan ſyddoch yn galaru am bechod megis y mae yn bechod, am bôb pechod oblegid ei fod yn erbyn Duw, *Pſal* 51. 4. Ac o ran ei fod yn fwy drwg nac ûn cyſtudd, *Rhuf.* 7. 24. Ni waeddodd

Paul

Paul erioedd allan o achos drwg cyſtudd megis y gwnaeth am ddrwg y pechod; yr ydych yn galaru am bechod fel y dylech pan fo'ch yn llawenhychu ynghyfraith Dduw yr hon ſy'n datcuddio pechod, ac yn bendithio Duw am iddo erioed ei ſcrifennu ac i chwithau erioed ei hadnabod, *Rhuf.* 7. 12. Pan fo'ch galar am bechod yn gwneuthur i chwi ei ffieiddio a'i adel, a gwneuthur cyfrif mawr o Griſt, a phryſſuro atto i ymwaſcu âg ef.

G. *Ond yr 'wyf yn ofni hyn fod fy ngalar am bechod yn tarddu oddiwrth ofn uffern.*

C. Chwi a ellwch annog eich calon i alaru am bechod, drwy yſtyried poenau uffern ſy' ddyledus iddo; ond nid hyn yw achos pennaf eich triſtwch, a ymddengys, oblegid y medrwch alaru a thriſtau am bechodau rhai eraill, cyſtal a'ch eiddo'ch hunan, a phan na bo'ch yn meddwl am uffern; a phan fo' gennych fwya o ſicrwydd o drugaredd Dduw tuag attoch, i'ch achub rhag y digofaint i ddyfod yr ydych y pryd hynny yn galaru fwyaf. Ac yr ydych yn glaru o achos grym a budreddi pechod, cyſtal a'ch trueui o'i plegid, ac yr ydych yn ewyllyſgar i gymeryd Chriſt yn Arglwydd, cyſtal ag yn Achubwr i chwi.

G. *Nid ydwyf yn gwadu nad felly mae' gydâ myfi, fy mod yn ewyllyſgar i gymeryd Chriſt ar bôb ammod; Arglwydd dyro imi Griſt ar ryw ammod: Ond rwy'n ofni nad yw Chriſt yn ewyllyſgar iw roddi ei hun, na Duw yn ewyllyſgar i roi ei Fâb ir fâth un a myfi; a pha beth a wnaſi yn y Sacrament os nid yw Chriſt yn ewyllyſgar iw roddi ei hun a'i ddoniau imi?*

C. Jaith eich anghrediniaeth chwi yw hon.

G. Mae gennifi ddigon o hynny?

C. Oblegid ammhoſſibl ydyw i chwi fod yn ewyllyſgar i dderbyn Chriſt, oni bae fod Chriſt yn ewyllyſgar iw roddi ei hun i chwi, ni allaſech chwi fod yn ewyllyſgar oni bae fod Chriſt yn gyntaf yn ewyllyſgar: Balchder erchyll eich calon ydyw meddwl y gellwch chwi fod yn fwy ewyllyſgar i fod ac i dderbyn daioni, nac ydyw Duw a Chriſt i ro'i ac i'ch gwneuthur chwi yn dda. Heblaw hynny, ſe all y cyfryw ûn ddyfod a dadleu yn y dydd diweddaf: *Arglwydd, nid 'wyfi yn cael fy namnio am nad oeddwn i yn ewyllyſgar i gymeryd Chriſt, ond oblegid na r'oiti Griſt imi pan oeddwn i yn ewyllyſgar iw dderbyn ef.*

G. Yn wir 'rwy'n meddwl na bydd dim a'r fath achwyn yn nydd farn.

C. Mae'ch cyflwr chwi'n dda, os ydych yn ewyllyſgar, oblegid os ydych chwi yn ewyllyſgar i dderbyn a Duw yn ewyllyſgar i roddi Chriſt i chwi, yna mae efe ganddoch; ac er hyn onid ewch chwi i wneuthur coffa o'i farwolaeth ef?

G. Oh! Pa argyoeddiad yw hwn! Yn ddiammeu yr oedd Chriſt gemiſi a minneu heb wybod hyn; yr oeddwn yn ddeduyd, ac mi gwyddwn mo'm bod. Ond ah! Cyn gynted ag y llenwyrchodd ychydig oleuni ar fy enaid, fe a ddaeth cwmmwl droſto, oblegid mae fy nghalon yn dwyllodrus, ac mi allaf feddwl fy mod yn ewyllyſgar, pan ni byddwyf.

C. Os felly, mi welaf yn awr eich bod yn ofni nad

nad ydych chwi'ch hunan yn ewyllysgar, yn hytrach na bod Duw heb fod yn ewyllysgar; ac y mae i chwi fwy o achos i ammeu felly; ond er bod eich calon mor dwyllodrus fel na fedrwch ddeall holl weithrediadau pechadurus eich calon yn neulltuol, etto trwy ddyfal chwilio a gweddio ar Dduw, chwi ellwch wybod beth yr ydych yn ei garu ei ddymuno, ac yn ei ddewis uwchlaw pob peth yn y byd; a pha beth ydyw tyniad a gogwyddiad cyffredinol eich calon a'ch ewyllys.

G. *Nid ydwyf yn adnabod mo'm calon.*

C. Beth a ofynnech gan Dduw, pe dywedei, gofyn imi y peth a fynnech, ac ti ai cei?

G. *'Rwy'n meddwl mai Christ a ofynnwn; ond etto mae arnaf ofn rhag i hyn fod o ran ferch imi fy hun, ac nid i berfon Christ.*

C. Dylae fod ganthoch hunan-gariad Sanctaidd, ac nid yw hynny yn anghyttunol â chariad yn rhagori i berfon Christ.

G. *Pa fodd y caf wybod mai hunan-gariad fanctaidd (yr hwn fy'n rhyngu-bodd Duw) fy'n fy annog i, i fôd yn ewyllysgar i gymmeryd Christ?*

C. Os ydych yn chwennych i Grist eich gwneuthur yn happus, ac i'ch rhyddhau oddiwrth rym ac arglwyddiaeth, cyftal ag oddiwrth gofpedigaeth a damnedigaeth eich pechodau.

G. *Pe na bydde'r ûn uffern, etto ni phechwn i yn erbyn yr Arglwydd.*

C. Chwi

C. Chwi a attebaſoch i'ch gofyn eich hunan.

G. *Ond ped fuaſwn i yn ewyllyſgar i dderbyn Chriſt, ac i dynnu i lawr rym pechod, ni fuaſei cyn gryfed ac etto y mae, ac y mae grym pechod yn peri imi ammeu y gwironedd o ras.*

C. Fe all nerth pechod arwyddoccau gwendid grâs, ond nid nad oes dim grâs, oblegid f' allei pechod derfyſcu, pan na bo' yn arglwyddiaethu.

G. *Dyna'r peth a fynnwn ei wybod, oblegid yr ydych yn dywedyd os teirnaſa pechod na ddylawn mor myned ir Sacrament.*

C. Gwir yw; ond os gellwch ddywedyd gydâ Sanct *Paul*, Rhuf. 7. 15. *Yr hyn yr wyf yn ei wneuthur, nid yw fodlon gennif, canys nid y peth yr wyf yn ei ewyllyſio hynny yr wyf yn ei wneuthur, eithr y peth ſy' gas gennif, hyn yr ydwyf yn ei wneuthur.* wer. 19. *Canys nid wyf yn gwneuthur y peth da yr wyf yn ei ewyllyſio, ond y drwg yr hwn nid wyf yn ei ewyllſio, hynny yr wyf yn ei wneuthur. Gellwch gan hynny orphen gydag ef.* Wer. 20. *Ac os ydwyfi yn gwneuthur y peth nid wyf yn ei ewyllyſio, nid myfi mwyach ſy'n ei wneuthur, ond y pechod ſydd yn trigo* (nid yw efe dywedyd yn terynaſu) *ynofi.* Ac os yw yn terſyſcu pan nad yw yn teyrnaſu, mae arnoch fwy o eiſieu myned at Swpper yr Arglwydd, fel y bo' i bechod y gorthrymwr hwn ſydd yn ymawdurdodi (nid eich Arglwydd trwy gydnabod) gael ei dynnu i lawr.

G. *Ond y mae gan bechod rwyſc mawr yn fy meddyliau, canys mae nid yn unig meddyliau ofer ond o gabledd yn rhuthro yn fynych yn dyrfaoedd*

i'm

'm meddwl, ac nid allaf weithiau eu ſymmud hwynt.

C. Fôd ganddynt rwyſc yn eich meddyliau eich pechod yw hynny, ond os nid oes ganddynt y cyfryw allu ar eich ewyllys, mae hynny yn arwydd o ras; oblegid chwi a fynnech eu ſymmud hwynt pan nad alloch; a pha ûn bynnac ai gan Ddiafol y teſlir hwynt, neu codi y maent oddiwrth eich talon eich hun, os triſtewch o'i plegit, ac ocheneidiwch tanynt, ac os ymdrechwch yn eu herbyn, nid yw amgen gyda chwi na chyda llawer eraill o blant anwylaf Dûw.

G. *Darfu imi hir eſceuluſo Chriſt, mae yn awr yn rhy hwyr; i ba ddiben gan hynny yr awn i at yr ordinhad hon?*

C. Pwy a ddywedodd i chwi ei bôd yn rhyhwyr? P'le'r ydych yn darllen hynny? Fe eill y damnedig yn uffern ddywedyd ei bod yn rhyhwyr, ond nid chwychwi a fynnech ei gael ef pe gallech, a chwi a ellweh ei gael ef os mynnwch: Ac yn wîr mae efe ganddoch oblegit eich bod yn ei chwennych; ac nid wrth yr hyn a fuoch, ond wrth yr hyn ydych ac y mynnech fod y mae i chwi farnu eich cyflwr wrtho.

G. *Ond os darfu dydd gras gyda myfi, ac os caewyd drws trugaredd yn fy erbyn, y mae yn rhywyr, pa fodd gan hynny y ſelier fi yn yr ordinhad hon hyd ddydd y prynedigaeth?*

C. Ni ddarfu dydd gras gyda'r neb a daer chwennyche ras uwchlaw'r holl olud daiarol, na drws trugaredd wedi ei gae yn erbyn yr hwn ſy'n

goſod

gofod drws ei galon yn agored i Grift Brenin y gogoniant i ddyfod i mewn; ac fydd yn taer weddio am ffrwythau'r yfpryd.

G. Ond ah! Ni fedrafi mor gweddio, pa fodd gan hynny y gallafi gymmuno?

C. Er na fedrwch eirio eich dymuniadau, etto medrwch lefain ar Dduw, ac ni lonydda dim chwi ond Chrift. Megis na fedr y plentyn ofyn, etto mae'n gwaeddi am y fron. Geill rhai draethu geiriau mewn gweddi, ac heb weddio; a geill fod arnoch chwi eifieu geiriau, ac etto gweddio yn daer ac yn gymeradwy gan Dduw: Oblegid nid yw gweddi yn fefyll mewn ymarfer o ddonîau, megis dawn o ymadrodd, a chryfder côf, &c. ond yn yr arferiad o ras.

G. Ni fedrafi lefain ar Dduw, mae fy llygaid yn fychion, ac ni fedraf weithau dywallt deigryn am fy mhechodau pan fyddwyf yn eu cyfaddef er eu bod yn aml a gorthrwm; pan fo' eraill yn medru tywallt llawer o ddagrau am ûn pechod, ni fedrafi dywallt ûn deigr am lawer o bechodau?

C. Nid yw felly gyda chwi ond weithiau: Heblaw hynny, fel y geill fod dagrau mewn llygaid, pan ni bo' dim triftwch yn y galon, felly pan fo'ch llygad yn fych, gall eich calon fod yn drift; megis y gall fod gan ragrithiwr fwy o eiriau felly gall fod ganddo fwy o ddagrau mewn gweddi, na gwîr blentyn i Dduw.

G. Pa fodd gan hynny y barnaf o'm gweddiau, pan fo' arnaf eifieu'r arwyddion hynny oddiallan o driftwch, &c.

C. Wrth

C. Wrth dreſn eich calon oddi mewn; panna ſedroch dywallt deigr yr ydych yn teimlo'ch calon yn llwythog gan bechod, ac yn gwir gaſau'ch pechod; a phan ſo'ch yn goſyn Chriſt a gras, yr ydych yn clywed eich calon mewn purdeb yn ymeſtyn ar ôl Chriſt a gras.

G. Yr ydwyf yn gweddio yn ſicr, ac yn gwrando, ſel y caffwyf Griſt, ond mae arnaf ofn ſod y bwbl mewn rhagrith, a bod fy holl ddyledſwyddau yn waſanaeth rhagrithiwr: A pha beth a gafodd Judas trwy fwyta gydâ Chriſt?

C. Os ydych yn ymhyfrydu yn gwneuthur dyledſwydd ſelly, ſel na wypo nêb eich bod yn ei gwneuthur; a phan fyddoch gydag eraill mewn ordinhadau Sanctaidd, gwell gennych ſod yn ddeſoſionol nag ymddangos ſelly o flaen dynion, ac heb ſod ſelly gar bron Duw; p'le mae'ch rhagrith chwi? Ymhellach os gwnewch eich dyledſwyddau oddiwrth *brincipl jawn*, ſef o gariad i Dduw, ac mewn ofn Duw; *mewn modd jawn*, ſef yn oſtyngedig, yn grediniol, yn wreſog yn enw Chriſt; ac i *daiben uniawn*, ſel y gogoneddoch Dduw, ac y caffech gymundeb gydag ef, â'ch gwneuthur yn debyccach iddo ef, ſel y caffoch fwy o gariad iddo ef a mwy o allu a nerth yn erbyn eich pechod; yno pûr ac nid rhagrithiwr ydych yn eich dyledſwyddau.

G. Ond mae gennif weithiau ryw ſodlondeb dirgel yn ſy nghalon, ſod dynion yn dal ſulw ar yr arwyddion oddiallan o'm ſerchiadau oddimewn, a hynny pan ſo'r arwyddion oddiallan yn fwy na'm ſerchiadau oddimewn, onid rhagrith ydyw hyn?

C. Ie,

C. Ie, ydyw, ac yn beth iw alaru a'i wrthwynebu'n fawr; galerwch felly os medrwch, fel na byddo i nêb ond Duw eich gweled, oddieithr pan y bo' yn fwy er gogoniant i Dduw, ac adeiladu eraill, fod eich galar yn amlwg yn hytrach nag yn guddiedig.

G. A eill y cyfryw ddyledſwydd fod yn gymeradwy gan Dduw, a wneir yn y ſath rhagrith?

C. F'eill, ac y mae y gwir griſtion weithiau yn ſath ragrithiwr a hynny; oblegid fel y mae rhyw faint o anghrediniaeth mewn ûn ſy' ganddo ffydd ynghriſt, a rhyw feſur o falchder mewn ûn ſy'n oſtyngedig, *&c.* Felly mae rhyw faint o ragrith ym mhôb ûn ſy'n bûr: Oblegit nid ydym ni mewn dim yn berffaith o ran graddau tra byddom yn y byd hwn: Gan hynny fel nad ellwch farnu nad yw'ch gweddiau a'ch dyledſwyddau yn gymeradwy gan Dduw o ran bod rhyw feſur o anghrediniaeth ac o falchder ynddynt, felly nid ellwch chwaith er bod rhyw feſur o ragrith yn gymmyſc a hwynt, tra byddo (megis y dywedais euſys) eich principl a'r moddion a'r diben' gan mwyaf yn uniawn.

G. 'Rwy'n ammeu pa ûn ai cariad i Dduw, ynte cydwybod naturiol yn unig ydyw'r annogaeth neu brincipl fy nyledſwyddau: Ac os awn ir Sacrament heb fod cariad Duw yn fy annog, ni byddai Dduw yn fodlon imi.

C. Attolwg i chwi cymmerwch ofal rhag i chwi ar ûn amſer fod yn abſennol oddiwrth ddyledſwydd, yn erbyn cynhyrfiadau cydwybod wedi ei ſancteiddio a'i goleuo.

G. 'Rwy'n

G. *'Rwy'n gweddio ar Dduw nas gwnelwyf hynny; ond attebwch i'm ammheuon i.*

C. Gellwch gyflawni dyledſwydd oddiwrth brincipl o gariad pan na bo' oddiwrth deimlad o gariad; pan fo'r gydwybod naturiol yn brincipl, y mae yn eich goſod chwi ar y ddyledſwydd, ond nid yw yn rhoi dim nerth i chwi i wneuthur y ddyledſwydd; ond y mae yſpryd Duw yn gwneuthur y ddau. Bodlonir y gydwybod naturiol, os gwneir y ddyledſwydd: Ond ni fodlonir chwi, oddieithr mwynhau o honoch Dduw yn y ddyledſwydd. Cydwybod naturiol ſy'n eich goſod ar ddyledſwydd mewn amſer coſpedigaethau amſerol, neu rhag ofn barnedigaethau tragwyddol, ond yr ydych chwi yn gweddio, *&c.* Fel y bo' i chwi ryngu-bodd Duw, caffael cymmundeb gydag ef, a chaffael eich gwared oddiwrth fudreddi a gallu pechod: Pan fo' cydwybod naturiol yn unig yn annog, gwneir y ddyeldſwydd yn anewyllyſgar jawn; mae cydwybod yn tynnu ac megis yn lluſco'r pechadur ar ei liniau; ond yr ydych chwi yn caru ac yn ymhyfrydu mewn dyledſwydd, neu yr ydych yn triſtau os nid ydych felly, pan fyddo cydwybod naturiol yn unig yn brincipl, os medr dyn gael eſcus a lonydda y gydwybod, eſceuluſer y ddyledſwydd yn llawen; ond os rhwyſtrir chwi (er mai drwy achos cyfreithlawn) rhag dyledſwydd, y mae yn driſtwch ac yn aflonyddwch i'ch enaid; a dim ond yr hyn ſydd o bwys ac a fernir gennych i fod hefyd yn ddyledſwydd, a'ch rhwyſtra chwi rhag ordinhadau Duw. Onid ydych etto wedi'ch bodloni yn hyn, fel y galloch fyned i Swpper yr Arglwydd?

G. *Mi a oſodais gar eich bron achoſion pennaf fy*

fy ammheuon dm ofnau, ac yn awr mae gennif beth gobaith ddarfod i Dduw wneuthur rhyw waith enwedigol ar fy nghalon.

C. 'Rwy'n gobeithio y gwnewch chwi gydwybod o'r ddyledſwydd hon fel y cynhalier ac y dyger ymlaen y gwaith hwn yn eich enaid.

G. Mi a yſtyriaf ymbellach y peth a ddywedaſoch, ac a ofynnaf gan Dduw ei lân yſpryd, fel yr adnabyddwyf y pethau a rad-roddir (os rhoddir hwynt) imi gan Dduw. Ac os caf drwy chwilio fy nghalon ymmhellach, a'm gweddi at Dduw, fy argyoeddi, fod yn ddyledus arnaf ddyfod ir Sacrament, ni byddaf yn abſennol mwyach.

C. Bydde'n llawen gennif eich gweled chwi yno.

G. Ond mae fy nghalon yn rhy ddifraw a diofal yn peth a wn ei fod yn ddyledſwydd imi, ewyllyſiwn gan hynny wybod pa fodd y cawn fy nghalon i fod yn ddiwyd ac yn ddifrif i ymbarato ir Sacrament?

C. Pan fyddoch yn myned ir ordinhad honno, ceiſiwch gyffeſu eich pechodau a gweddio am faddeuant, ac am Grift a'i ras mor daer ag y' gwnaech ped fa'ech i farw y pryd hynny: Parattowch megis y gwnaech ped fae Chriſt ei hunan i roi'r Sacrament i chwi; megis pe gallei dynion edrych i'ch calon; fal ped fae Duw yn eich taro'n farw a'r bara yn eich ſafn, neu a'r cwppan yn eich llaw, os deuwch yn annheilwng; ac fal ped fae yn dro diweddaf iw dderbyn, a'ch bod yn myned i ſefyll ger bron brawdle Duw, wedi derbyn o honoch;

fel

fel pe deue enaid a ddamnwyd am halogi gwaed Chriſt attoch, a dywedyd i chwi yr hyn y mae yn ei ddioddef yn uffern am y pechod hwn: Megis pe galwei Chriſt arnoch o'r nefoed a'ch nodi chwi allan a'ch gwneuthur yn hyſpys i bawb os deuwch yn ammharod. Ond nid yw hyn i'ch digalonni chwi rhag dyfod ir Sacrament, ond i fywioccau eich calon i fwy o ddiwydrwydd mewn trefn iddo.

G. *Pa fodd gan hynny y paratoaf fy hun?*

C. Am hyn mi a'ch gadawaf chwi ir llyfr ei hunan (*Pen.* 9.) ac ir ymddiddan or blaen i'ch cyfarwyddo.

G. *Ni attaliaſi monoch gan hynny ddim hwy oddiwrth eith negeſeuon eraill.*

C. Duw'r nefoedd a'ch cyfarwyddo yn y gwaith hwn, ac a fo'n gwenu ar eich enaid pan fyddoch yn breſonnol wrth ei fwrdd ef.

" *Ymddiddan rhwng tri Chriſtion wrth ddyfod ymaith* " *oddiwrth fwrdd yr Arglwydd, ſef, ûn a Sicr-* " *wydd ganddo, yr ail a Gobaith ganddo, a'r* " *trydydd tan amheuon o gariad Duw tuag atto,* " *ac o lleſâd drwy'r Sacrament.*

Sicrwyd. Onid hwn a ddaeth o *Edom*, yn gôch ei dillad o *Bozrah*, yr hwn a welſom yn hardd yn ei wiſc; yn ymdaith yn amlder ei rym? Yn rymmus i'n achub oddiwrth ein pechodau, y rhai oeddynt rymmus i'n condemnio ni?

Gôbaith. Hwn yw efe, oedd gôch yn ei ddillad, a'i wiſcoedd yn gôch o waed, o'i waed ei hun, o waed galon ei hun, efe ſy'n ein achub ni oddiwrth ein pechodau ſy' fel yſcarlad a phorphor.

Sic. Onid hwn oedd efe a fradychwyd gan *Judas* a wâdwyd gan *Petr*, a adawyd gan bawb, yr hwn y darfu, ir Iddewon ei groeſhoelio, ir milwyr drywanu, a ddioddefodd gymaint oddiwrth ddynion, ac oddiwrth gythreuliaid, a Dûw ei hun?

Gob. Dyma efe, 'r hwn ('rwy'n credu) a draddodwyd tros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni. Dyma efe, yr hwn ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch a Duw, eithr efe ai dibriſiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion: Ai gael mewn dull fel dyn, efe ai daroſtyngodd ei hun, gan fôd yn ufudd hyd angau, ie angeu'r groes.

Am. Yn ddiammeu yr oedd hwn yn wr cyfiawn, yn Fab Duw, efe a ddichon yn gwbl jachau y rhai trwyddo ef ſy'n dyfod at Dduw; yr hwn a fu farw unwaith ar y groes, ond y mae efe yn byw bôb amſer i eiriol troſtynt hwy.

Gob. Gwelsom farw o dywyſog y bywyd, a rhoddi Arglwydd y gogoniant i gywilydd cyhoedd; gwelſom ei waed ef yn llifo i lawr, a thrwy 'r tyllau a wnathpwyd yn ei yſtlys ef, edrychaſom iw galon ef; beth a welſoch chwi yn ei galon fendigedig ef?

Sic. Gwelais olwg o gariad, fflam o gariad, pan welais ei waed ef yn llifeirio oddiwrth ei galon ef am

am ein pechodau ni, gwelais gariad yn aros yn oeſtadol yno; ymadawei fy Arglwydd ai waed gwerthfawroccaf, ond nid ai gariad iw bobl: Mi a welais; nad oeddwn i yn unig wedi fy argraphu ar gledr ei ddwylaw ef, neu wedi fy llunio ar ei galon ef: Yr oedd yr Arch-offeiriad yr hwn oedd yn gyfcod o Grift yn dwyn henwau deuddeg llwyth *Iſrael* yn y ddwyfroneg, mewn neu ar ddeuddeg o gerrig gwerthfawr; ond mi a welais fod ein Harch-offeiriad mawr ni yn dwyn enwau ei Ftholedigion wedi eu hargraffu yn ei galon werthfawr ef, a phan ddarllenais fy henw ymmhlith eraill, pa lawenydd a chyffur a lanwodd fy enaid, ni fedraf mo'i fynegu; yr oedd ei gariad ef yn gryfach nac angeu, 'r oedd ei farwor, fel marwor tân, a fflam angerddol iddo; a meddwl yr oeddwn, pan neſais atto, deimlo o honof fy nghalon yn dechreu cynheſu. Nid allei holl ddyfroedd cyſtudd a dioddefiadau a thriſtwch a ddioddefodd efe mo dduffoddi ei gariad ef, oblegid bwriadaſei efe brynu a gwared pawb a roddwyd iddo gan y Tâd.

Gob. Ac onid yw'r meddyliau am y gwaed hwn a dywalltwyd; ei rinwedd ai effaith yn hyfrydu eich enaid yn fawr jawn?

Sic. Pan feddylwyf fod y gwaed hwn a dywalltwyd ar y groes, yn dadleu troſofi yn y nefoedd, mai trwy'r gwaed hwn y mae Duw wedi ei gymmodi, ac jawn wedi ei dalu tros bechod, Angeu ar Diafol wedi eu gorchfygu; y mae yn gwneuthur imi lefain allan, ni fu erioed gariad tebyg i hwn! Erioed tebyg i hwn!

Gob. Yn hyn y canmolodd Duw ei gariad tuag

attom ni, oblegid a nyni etto yn bechaduriaid i Grist farw trosom ni, ac y mae'r cariad hwn o eiddo Duw im henaid yn felys, y mae yn felys jawn, tyhwynt i felysdra mêl, neu ddiferiad diliau mêl.

Gob. MAE'I gariad ef yn well na gwîn, f'anwylyd sydd im yn bwysi myrrh, rhwng fy mronnau yr erys tros nôs.

Sic. MEGIS pren afalu ym mysc prennau'r coed, felly y mae fy anwylyd ymmhlith y meibion: Bu dda gennif eistedd dan ei gyscod ef, a'i ffrwyth oedd felus im genau, efe am dyg ir gwin-dy, ai faner trosof ydoedd gariad.

Am. CYNHELIWCH fi â phottelau, cyssurwch fi ag afalau, canys clâf ydwyfi o gariad.

Sic. DYGAIST fy nghalon, fy Arglwydd, fy Achubwr, dygaist fy nghalon, tra'r oeddwn a llygad ffydd yn gweled dy waed yn llifeirio oddiwrth dy galon im golchi oddiwrth fy mhechodau.

Am. A' pha feddyliau rhyfeddol o gariad Dûw y mae y rhain yn dyfod oddiwrth Swpper yr Arglwydd!

Sic. BETH yw'r lled a'r hyd a'r dyfnder a'r uchder o gariad Duw! Nyni ai gwyddom, nyni ai gwyddom; ac etto mae uwchlaw gwybodaeth.

Gob. TRWY farwolaeth ac adgyfodiad yr Arglwydd croeshoeliedig hwn, y mae gennym obaith bywiol o goron anllygredig; nyni ai coronasom ef a drain, fel y byddei ini gael coron o ogoniant.

Am. O

Am. O Arglwydd mor drwm a marwaidd ydwyfi, yr hwn a fûm lle y bu yr rhai'n, ond ni chefais i yr hyn a gawſon hwy!

Gob. PA HAM yr ydych yn wylo?

Sic. AI wylo yr ydych o lawenydd onte o driſtwch?

Am. PWY a ſedr amgen na wylo pan ſo' Duw yn cuchio? Gellwch chwi ddywedyd, *mae ei garedigrwydd ef yn well na'r bywyd*; galla finneu ddywedyd, *mae ei gûch:au ef yn waeth nag Angeu.*

Gob. ONI wyddech chwi fod Chriſt yn ceiſio dyſod i fewn i'ch calon, ac *megis* dyſod i lawr oddiar y groes i'ch calonnau chwi?

Am. EFE a gurodd yn ſicr wrth ddrws fy nghalon, ond 'r oeddwn i yn cyſcu.

Gob. A glywſoch chwi ddim cynhyrfiad ſerchiadau, pan oedd llaw Chriſt ar y clo, a phan roddes ei law yn nhwll drws eich calon?

Am. EFE a eſtynnodd ei law drwy'r twll, am ymyſcaroedd gyffrôdd er ei fwyn.

Gob. PAM na roddaſech yn agored y pryd hynny ddorau tragwyddol eich enaid, fel y buaſei ir Brenin gogoniant hwn ddyſod i mewn?

Am. MI a gyſodais i agori iddo, am dwylaw a ddiferaſant gan Fyrrh, a'm byſſedd a Myrrh pêr-arogl ar hyd heſpennau y clô.

Gob. Pa fodd gan hynny y darfu i chwi fethu ei gael ef?

Am. Ar y cyntaf nid oeddwn ofalus iw ollwng ef i mewn, trwy'r hyn y digiais ef, pan wneuthym iddo ſefyll allan: Wedi hynny mi a gyfodais i agoryd iddo ef, yr hwn a garwn i, ond efe a giliaſei; gwae fi, ciliaſei efe: F'enaid a lewygodd pan lefarodd: Ceiſiais ef ym mhôb rhan o'r ddyledſwydd wedi hynny, ond nis cefais ef, gelwais arno, ond nim attebodd.

Sic. O Arglwydd beth ydwyfi? Pechadur gwael digyſrif, ar itti ddatcuddio dy galon a'th gariad imi, a'u dirgelu oddiwrth eraill.

Gob. Dechreuais ddigalonni, pan welais mor fyrr y daethym o'ch llawenydd a'ch cyſſur chwi, ond pan welwyf ei amheuon a'i ofnau ef, 'rwy'n bendithio'r Arglwydd, yr hwn a roddes imi ryw ſefur o obaith o'i ffafor ac o'i gariad.

Am. Pa fodd y daethoch chwi ymaith a'r fath obaith o drugaredd i'ch enaid?

Gob. Pan welais fy mhechod a'm trueni, a thrugaredd Dduw i bechaduriaid truein drwy haeddedigaethau ei Fab; pan ddarllenais i wahoddion a gorchmynion Duw i ddyfod at Grift, ac addewidion o faddeuant os deuwn, ac yn y Sacrament gwelais Dduw yn rhoi ei ſêl, myſi yn ewyllyſgar a fwriais ymmaith fy mhechodau, ac am bwriais fy hun i lawr wrth draed trugaredd, gan orphwys ar haeddedigaethau Chriſt; yr oeddwn, ac yr ydwyf yn gobeithio na fwriff Duw mo'm henaid ymmaith oddiwrtho, ac na chaiſſ monoſi allan o'i deyrnas.

Am. Wrth

Am. WRTH hynny ni chawſoch chwi etto mor Siccrwydd o gariad Dûw tuag attoch, na'ch llawn berſwadio o drugaredd Dduw am maddeuant o'ch pechod a jechydwriaeth eich enaid.

Gob. NA ddo, oblegid er nad 'wyf yn ammeu gwirionedd addewidion Duw, na'i ewyllyſgarwch ef i ddetbyn pechaduriaid edifeiriol, etto 'rwy'n drwg dybied ac yn ammeu gwirionedd fy ffydd am edifeirwch a'm graſau eraill.

Am. AC etto a ſedrwch chwi obeithio am y nefoedd?

Gob. MEDRAF, oblegid y mae yn rhyngu-bodd Duw ar ini ymddiried ynddo ef, pan ni bo'm yn ſiccr o'n hawl ynddo ef, ac i weled pechaduriaid yn gobeithio yn ei drugaredd ef.

Sic. AC etto ydych chwi yn gobeithio, fod eich gobaith chwi yn wîr?

Gob. YDWYF, oblegid fy mod yn ei deimlo yn fy ngoſod ar buro fy nghalon.

Am. PA fodd yr ydych yn dyfod ymaith gydâ'r fath Siccrwydd o gariad Dûw, a bywyd tragwyddol?

Sic. PAN gefais (wrth fy hunan-holiad) wirionedd fy ffydd yn Ghriſt, fy nghariad i Dduw, a chaſineb at bechod, a'r addewidion a whaethei Duw ir cyfryw ynghriſt, darfu im, ac yr ydwyf yn credu, mai cyn ſiccred a darfod imi fwytta'r bara, ac yfed y gwîn; cyn ſiccred a hynny ddarfod i Dduw faddeu fy mhechodau, ac yr achub fy enaid.

Am. YDYW hyn yn unig yn rhoi i chwi yr eglurdeb hwn o'ch hawl iw deyrnas ef, ac yn eich llenwi chwi â'r llawenydd hwn?

Sic. NAG ydyw, ond ym mhellach mi a gefais yſpryd Duw yn dwyn tyſtiolaeth imi, a chydâ fy yſpryd inneu, mai fel hyn yr oedd gydâ myfi; ac oh mor felus oedd Chriſt y pryd hynny im henaid!

Am. PA bryd y cawſoch eich calon fel hyn wedi ei derchafu wrth yſtyried cariad Duw tuag attoch?

Sic. PAN welais dorri'r bara, a phan glywais y gweinidog yn dywedyd, fel hyn y torrwyd corph Chriſt troſoch chwi, a phan welais ef yn tywallt y gwîn, a'i glywed yn dywedyd, fel hyn y tywalltwyd gwaed Chriſt troſoch; a phan rannodd efe y ddau, ac imi gymeryd y bara a bwytta, y gwîn ac yfed, credais fod mewn gwirionedd, er mai yn anweledig, yn rhannu allan ei Fab a'i holl ddoniau imi cyſtal ag i eraill; a rhoddwyd imi nerth iw gymhwyſo ef yn neilltuol attaf fy hun, ac iw gymmeryd ef megis fy eiddo fy hun: Yna oh! Dyna'r amſer y gwreſogodd fy nghalon a chariad, a llanwyd hi a llawenydd.

A. PA bryd gyda hynny?

Sic. PAN oedd y gynnulleidfa yn canu mawl i Dduw, 'r oedd fy enaid wedi ei digoni megis a mêr a braſder, fy ngenau, fy nghalon, fy nghwbl ai moliannaſant ef; ac yr awron yr oedd fy nghariad, fy ffydd, fy llawenydd, fy nhriſtwch am fy mhechod yn cynhyrfu yn fy nghalon.

Am. A

Am. A pha fodd y gwyddoch fod hwn yn wîr lawenydd yſprydol ac nid y cyfryw a allei fod gan ragrithwr wrth fwrdd yr Arglwydd?

Sic. OLBEGIT ei fod yn fy rhwymo i Sancteiddrwydd oddimewn a chyffredinol, ac yn ennyn fy nghalon mewn cariad i Dduw a Chriſt, yn chwanegu fy nghaſineb i bechod, ac yn fy ngwneuthur yn fwy gwiliadwrus yn ei erbyn, ac yn gwneuthur im henaid hiraethu ar ôl cyflawn a pherffaith fwynhad o Ddûw mewn gogoniant.

Am. MAE'N dda gennyf, ac yr 'wy'n llawenhychu o achos eich trugaredd hon, yn y cyſamſer rhaid imi alaru o herwyd fy anfuddiolder fy hun, ie wrth fwrdd yr Arglwydd, rhaid imi fyned adref a bwytta fy mara a chalon drîſt, a chymyſcu fy niod a dagrau, tra galloch chwi fyned a bwytta'ch bara ag yſpryd llawen.

Sic. NID felly, ond ewch a holwch eich enaid pa ddaioni a lleſad a dderbyniaſoch trwy'r ordinhad hon, a rhoddwch i Dduw y gogoniant o hono.

Am. A eill ûn ni chafodd ddim Siccrwydd o gariad Duw, na'i lenwi a llawenydd farnu gael o hono lleſad oddiwrth Swpper yr Arglwydd?

Gob. GEILL, os amgen rhaid imi fyned adref a wylo am hyn cyſtal a chwithau.

Am. PA fodd yr ymddengys hynny?

Gob. OBLEGID fod Duw yn gweithio amryw o ffyrdd ar amryw bobl, ac amryw o ffyrdd ar yr un

un rhyw bobl ac amryw amſerau. Weithiau mae efe yn torri'r galon am bechod, ac yn cadw ei gyſſuron erbyn amſer arall: Os na chawſoch eich calon yn ennyn o gariad ac yn llawn o llawenydd, etto os ydyw eich calon yn codi mewn mwy o gaſmeb at bechod, yn triſtau o'i blegid, ac yn ymroi i fod yn fwy gwiliadwrus yn ei erbyn, yno cawſoch lleſad oddiwrth yr ordinhad hon.

Am. RHAID imi gan hynny wilio rhag dichellion y Diafol, fel nas gwnelo imi farnu fod gennif y peth nid oes, felly na chwaith wadu nad oes gennif yr hyn, trwy drugaredd, a roddes Duw imi.

Gob. HYNNY a fydd eich doethineb, oblegid y modd goreu i gael ychwaneg gan Dduw, ydyw bod yn ddiolchgar am ychydig; Duw a rydd i chwi amſer arall heddwch a diddanwch, os rhoddwch yr awrhon iddo ddiolch am roddi o hono i chwi nerth i wylo am eich pechod, ac i driſtau 'oi blegit.

Am. O Arglwydd! Mae fy nghalon yn dechreu twymno; 'rwy'n meddwl y geill y Sacrament weithio ar fy nghalon wedi dyfod o honof ymmaith, er fy mod yn drwm tra'r oeddwn yno.

Sic. FELLY y geill, ac felly y cefais i weithiau, er darfod i Dduw heddyw wenu yn rhyfeddol ar y fath bechadur truan annheilwng a myn.

Gob. Mi a'ch cynghorwn chwi i gymmeryd gofal rhag barnu na chawſoch ddim oddiwrth y Sacrament, am nad oes gennych cymmaint ag yr oeddeich yn ei ddiſgwyl, neu cymmaint ag y gwe-

lwch

lwch rai eraill yn ei gael, neu am na chawſoch y peth ac yn y modd yr oeddych yn ei ddiſgwyl, neu er na ddarfu i chwi yn deimladwy ei weled wrth gymmuno.

Am. BETH a eill fod yr achos na chefais ychwaneg o Dduw pan oeddwn yn cymmuno?

Gob. YSGATFYDD eich bod yn rhy ddiofal yn eich parattoad erbyn yr ordinhad hon; neu os helaeth fuoch, ymddiriedaſoch ormod i hynny, a llai i Griſt nag y dylaſech; neu nid oeddych yn wiliadwrus yn amſer yr ordinhad, neu'r ydych yn hoffi rhyw bechod neulltuol yn ormod; ac y mae Duw yn attal yr hyn yr oeddych yn ei ddiſgwyl, fel y byddei i chwi wellhau'r peth y mae Duw yn cael ei ddigio trwyddo.

Am. BYDD hyn yn drugaredd, os methais o gyſſur, gael o honof fy mhechod yn llai: Ac mi a ddymunaf ar yr Arglwydd ar imi gael rhyw lleſad trwy'r ordinhad a'ch ymddiddan chwithau; yn awr 'rwyfi yn myned.

Sic. ARHOSWCH, ûn gair yn chwaneg, a hynny yw, ar ini oll goſio rhwymedigaethau ſy' arnom ni i rodio yn addas ir rhagorfreintiau y gwneir ni yn gyfrannogion o honynt trwy farwolaeth Chriſt.

Gob. DA y cofiaſoch, canys yr ydym yn chwannog i anghofio rhoi diolch i Dduw, wedi derbyn o honom ni bethau mawrion oddiwrtho ef.

Am. HYNNY a fydd da, ſ' allei y cawn inneu felly deimlo mwy o rinwedd yr ordinhad hon nag a ddarfu imi etto.

Cic. CHWI

Cic. CHWI ellwch gael, ac am hynny yſtyriwn oll yn ddwys yn ein calonnau, pa le y buom ni heddyw, a pha fodd y darfu ini adnewyddu'n cyfammod a Dûw, a bod ei addunedau ef arnom, a'i lygaid i ddal ſulw, pa fodd y rhodiwn ac y byddwn byw, wedi ini gael, neu obeithio cael heddwch a llawenydd oddiwrtho ef: Ac ni a ddylaem wilio y naill ar y llall, fel lle bo'r un o honom yn llithro, ir llall argyhoeddi mewn cariad a'i adgyweirio mewn yſpryd addfwynder.

Gob. BYDD hyn i gyd yn angenrheidiol.

Sic. YR Arglwydd a'n nertho ni trwy ei ras i wneuthur yr hyn y mae efe yn ei orchymmyn, fel y gallom ddiſgwyl yr hyn y mae efe yn ei addaw yn ei air, ac a ſeliodd ini yn y *SACRAMENT.*

TERFYN.

Hymnau Sacramentaidd Scrythyrol.

" *Matth.* 26. 30. Wedi iddynt ganu Hymn hwy
" a aethant allan ----------

[HYMN I.]

1. FY Nûw ſy nhâd dy rôdd ſydd râdd,
Sydd fawr ſydd werthfawr ddryd;
Anfonaiſt ûn yn Dduw a Dyn,
I'n prynu ni mewn pryd.

2. DY Anwyl ûn ar dy wir lûn,
Dy unig-Fâb-Anedig;
Gwared a wnaeth ei bôbl gaeth
O blith y rhai damnedig.

3. EI waed a roes oddiar y groes
O'i Enaid Aberth gwnaeth
Llifodd y gwaed o'i ben iw draed
Croeſawodd farwol ſaeth.

4. FE dorrodd rym yr Angeu llym,
Rhoes rwym ar Satan gall;
Mae'i waed yn rhad gar bron y Tad,
Yn eiriol yn ddiball.

5. EI gnawd yn wîr, a'i waed ſydd ſir
I borthi'r enaid gwann;
Gwell ydyw'r ſaig na'r mêl o'r graig
Na'r gwîn na'r gwenith cann.

6. GWIN

6. Gwin ydyw Chriſt i'm henaid triſt,
Gwaredwr o'm holl drallod,
Oes arnat friw ty enaid? Clyw;
Mae Chriſt yn feddyg parod.

7. O tyrd ar frys mae arna'i flys
Cyfleidio fy Anwylyd:
Arwain fi Dduw tra byddwyf byw,
Trwy ras i dir y bywyd.

[Hymn II.]

1. Duw p'le, pa fodd, y ceir dy rodd?
Ond yn dy ordinhadau:
Rho' Griſt yn rhodd o'th lawn wir-fodd;
Ninneu a ganwn Hymnau.

2. Gan Jeſu hael mae bwyd iw gael,
Y Manna mwyndra maeth,
Ni ddyri dim fodlonrwydd im'
Ond Chriſt; heb hwn 'rwy'n gaeth.

3. F'anwylyd hardd tyred ith Ardd,
Cymmer dy ddewis ffrwyth;
Chwythed fel gynt dy ddeheu-wynt,
Bydd arnaf inneu lwyth.

4. Bwyttaed y byd ddanteith-fwyd dryd,
Yfed ei beraidd win;
Gwell ydyw gwledd yr hwn a tedd
Griſt i guſanu'i fin.

5. Gwridog a gwynn oes néb a'i mynn?
Ei gariad ſydd yn rhad;
F'anwylyd i ſydd fwy ei fri
Na deng-mil yn ddiwad.

6. Ni

6. Ni byddaf drift gwelais fy nghrift,
Cynhefrwydd rhoes im calon:
F'enaid bydd lon doi ger ei fron
I wifco'r ddifclair goron.

[Hymn III.]

1. Deuwch deuwch yn nês, gwelwch pa lês
A wnaeth fy nuw im henaid;
Haeddafwn fyth wneuthur fy nyth,
Yn uffern dywyll danbaid.

2. I rwyftro hyn fy Jefu gwyn
Yn bryffur jawn a ddaeth
O fonwes Duw mewn cnawd i fyw,
I wared f'enaid caeth.

3. Efe mewn rhyw yn berffaith Dduw
Gogyfuwch a'r Tad nefol,
A ddaeth fel gwas, yn fawr ei gas
Gan ddyn a'r llu uffernol.

4. Goddefodd fwy herwydd fy nghlwy',
Fy mhechod brwnt gwenwy'nol,
Nag ydyw cûr poenedig wyr,
Sydd yn y tân tragwyddol.

5. Er hyn i gyd ei awydd-fryd
Ai gariad nerthyl rhad
Nid oerodd chwaith cwblhaodd y gwaith,
A gawfei gan y Tad.

6. Efe yw'n *hedd*, efe yw'n *gwledd*
Efe yw'n *brawd* trugarog;
Efe yw'n *nerth*; (rhoes drofom werth)
Efe yw'n *Pâfc* dihalog.

7. Ein

7. Ein *Tryſor* yw; a'n modd i fyw;
Efe yw'n *gwiſc* a'n *coron*;
Efe yw'n *gwr*; efe yw'n *Tŵr*;
Efe yw'n *haul* a'n *ffynnon*.

8. Am hyn rhown dreth a'n dwylaw'n bleth,
O fawl a diolchgarwch:
Gan fyw trwy ffydd y cawn ryw ddydd
Fwynhau Chriſt mewn hyfrydwch.

[Hymn IV.]

1. Clyw lais dy Griſt clyw ochain driſt,
Clyw waedd dy frawd yn marw:
Clyw'r hoel a'r ordd yn tyllu'r ffordd
Trwy'i gnawd ir croesbren garw;

2. Clyw'r wayw-ffon drwy ei ddwyfron,
Yn gwneuthur ffos iw galon;
Clyw'r gwaed ar ffrwſt yn gwneuthur trwſt
Fel dwfr a rêd mewn afon.

3. Clyw farw-gan ei galon lan:
" *Gorphenŵyd* Jechydwriaeth
" Fel Blaenwr llu rwy'n marw'n hy
" Terfynais fy milwriaeth.

4. " Nid ofnaf loes lemm Angeu'r groes,
" Fy enaid nid arbedaf;
" Af hyd y bêdd mewn dynol wêdd
" Fel Duw mi adgyfodaf.

5. " I'r nefol lys yr af ar frys,
" A'm anrheg yn fy Mreichiau;
" Dâdleuaf, *Dâd o maddeu'n rhad*
" Er mwyn fy nghur a'm briwiau.

6. " Er

6. " Er maint yw llu eu pechod du,
" Sef pechod prynedigion,
" Gwêl ymma waed wrth dy ſtôl-draed
" Yn jawn dros ddewiſolion.

7. Bydd bellach hy, credadyn cry
Wrth ſwrdd y Sacrament:
Chriſt yw dy rann Credadyn gwann,
Gwêl ymma Deſtament.

8. Y bara'r gwîn a ſûm iw trin,
Arwyddion hynod jawn
Yn Sail a ſêl i bawb a ddêl
At Dduw am Griſt ei ddawn.

9. Rhof fi fy mhwys ar Griſt yn ddwys
Am gyſſur grym a gras;
Trwy Griſt rwy'n hy nid ofnaf lu
Fy holl uffernol gas.

[Hymn V.]

1. FY enaid dod ith Griſt fawr glod,
A mawl ith anwyl Jeſu;
Bendithia Dduw tra fyddech fyw,
Am roi ei Fab ith brynu.

2. A chwithau'r Sainct o uchel fraint,
Moliennwch y gorucha';
Datcaned llêf Angylion nêf
Hoſanna Hallelujah.

3. Cymeraf daith ir nefoedd faith,
Mae'r ddaiar gron yn rhybrin,
I'm gwreſog jaith i ddatcan gwaith,
Fy anwyl Griſt a'm Brenin.

4. Ni chelaf hwy hyn yw fy nghlwy',
Claf ydwyf Grift o'th gariad,
Aed pawb ymmhell, mae'r Jefu'n well,
Na'r nêt ; Oh ûn golygiad.

5. Oh ! F'enaid gwêl y diliau mêl
Y Thus a'r Myrrh rhagorol,
Y llaeth a'r mêr a'r llyfiau pêr,
Gwell yw fy nghrift dewifol.

6. Fy Jefu gwyn fy enaid tyn
Ar d' ol ; myfi a redaf :
Tro clyw fy nghwyn Chrift er dy fwyn,
Fy mywyd nid arbedaf.

7. Trwy ddwfr a than fy Jefu glan,
It' byddaf yn ddilynwr ;
Fy nghalon tyrr os dof yn fyrr
O'm Chrift, fy anwyl Brynwr.

8. Bydd nacca'n waeth nag ergid faeth
Neu ollwng gwaed fy nghalon ;
Gwell gennif gael dy gariad hael,
Na thêg freuhinol goron.

9. Dod im' yn rhwydd dy law dy lwydd
Dy lariaid breferoldeb ;
Golch fi'n bur lan, gwnaf itti gan
O fawl, drwy Dragwyddoldeb.

[Hymn

[Hymn VI.]

1. TRO clyw ar gais gariadus lais
Doethíneb ſy'n dy wahodd,
Cenſydd drwy ddrych ei phlaſty gwych,
Saith golofn hi a'u nhaddodd.

2. Lladdodd freiſion baſcedigion
Cymyſcod wîn puredig:
Arlwy eich Tad dantethion rhad
O dewch ir wledd Arbennig.

3. Os ydych blant mae arnoch chwant
A blys y bwyd yſprydol;
Angylaidd Saig! Y dwfr o'r graig
A'r Manna bara neſol.

4. Lluniaeth dilys i dorri blys
Yr enaid byw yſprydol,
Tyred ir wyl a'th ras mewn hwyl
Ti fyddi fyw'n dragwyddol.

5. Perchen y wledd ſy' Frenin hedd,
Brenhinol yw ei roddion,
Cenwch ei fawl, rhow'ch iddo'i hawl
Calonnau yn anrhegion.

6. Marchnatta'n ddoeth am yr aur coeth
A'r ddiſclair wiſc cyfiawnder,
A'r eli jach ith enaid bach
Rhag myned ir gorddyfnder.

7. Ymwasc a Chriſt a bydd yn giſt
I gadw'r Pêrl tragwerthfawr,

Dy

Dy ſerch gwna'n glo, rhoed ffydd y tro
I guddio dlws mor dramawr.

8. Bodlondeb llawn i'n calon cawn
I Griſt os gwnawn le parod,
Rhydd ynte rann inni mewn mann
I fod fyth yn ei gyſcod.

9. Chwennychwn fyth tra meddwn *chwyth*
Na *Bôd*, roi clôd im ceidwad;
Oh'r addfwyn Oen! Ti gefaiſt boen;
Gei ddiboen ddibaid fawrhad.

BRITISH MUSEUM 3 NOV 83